

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Gruffudd ap Maredudd

I · Canu i deulu Penmynydd

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT, FBA

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodyr Ymchwil

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA, MPHIL

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Barry James Lewis, MA, MPHIL

Golygydd Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

GWAITH
GRUFFUDD AP MAREDUDD
I · CANU I DEULU PENMYNYDD

golygwyd gan

BARRY J. LEWIS



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2003

Prifysgol Cymru ©, 2003.
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 27 0

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Golygwyd gwaith Gruffudd ap Maredudd am y tro cyntaf gan Glenda Jones yn 'Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1990). Er fy mod yn cyflwyno golygiad newydd o gerddi Gruffudd ap Maredudd yma, hoffwn gydnabod gwaith arloesol Dr Jones.

Testun Llyfr Coch Hergest (J 111) yw prif ffynhonnell yr holl gerddi ac y mae'r holl gopïau diweddarach ohonynt yn tarddu o'r llawysgrif hon, ac felly ni ddangosir darlleniadau amrywiol ohonynt. Os diwygir darlleniad yn y Llyfr Coch, dangosir y darlleniad gwreiddiol ar waelod y testun.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlvi); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *uddun* (sef 'iddynt'), *gwedy*, *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Dyma'r gyntaf o dair cyfrol yn cyflwyno gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd. Cyhoeddir geirfa gyflawn i'w waith a mynegai llawn i'r holl enwau priod yn y drydedd gyfrol.

Diolchiadau

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: Golygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; a Bwrdd Golygyddol a Golygydd Ymgynghorol y gyfres hon. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Dr Ann Parry Owen, i aelodau eraill y prosiect hwn ac i Dr Rhian Andrews, yr Athro A.D. Carr a Mr Daniel Huws.

Cynnwys

DULL Y GOLYGU	v
DIOLCHIADAU	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol	ix
Termau a Geiriau	xvii
RHAGYMDRODD.....	1
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
1. Marwnad Hywel ap Goronwy, archddiacon Môn	21
2. Moliant Tudur Fychan ap Goronwy o Dre Castell a Phenmynydd.....	26
3. Marwnad Tudur Fychan ap Goronwy o Dre Castell a Phenmynydd.....	30
4. Moliant Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd.....	44
5. Englynion i Oronwy Fychan ap Tudur pan oedd yn glaf	55
6. Marwnad Goronwy Fychan ap Tudur	67
7. Englynion Marwnad Goronwy Fychan ap Tudur.....	72
8. Moliant i noddwr anhysbys	79
NODIADAU	83
LLAWYSGRIFAU	167
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF	169
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU	171

Byrfoddau

Llyfryddol

- AAST *Anglesey Antiquarian Society and Field Club Transactions*, 1913–
- AH *Astudiaethau ar yr Hengerdd*, gol. Rachel Bromwich a R. Brinley Jones (Caerdydd, 1978)
- AP *Yr Areithiau Pros*, gol. D. Gwenallt Jones (Caerdydd, 1934)
- AWH *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd & J.G. Williams (Cardiff, 1969)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–93
- P.C. Bartrum: WG1 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- P.C. Bartrum: WG2 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- BaTh *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban*, gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
- BD *Brut Dingestow*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- Bl BGCC *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, gol. Marged Haycock (Llandybïe, 1994)
- Bl B XIV *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Dafydd Johnston (Llandybïe, 1989)
- BRh *Breudwyt Ronabwy*, gol. Melville Richards (Caerdydd, 1948)

- BrM *Breuddwyd Maxen*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1908)
- BT (RB) *Brut y Tywysogyon ... Red Book of Hergest Version*, ed. Thomas Jones (Cardiff, 1955)
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- CA *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum*
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- CLC² *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
- CLIH *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–1993; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CO³ *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans gyda chymorth D.H. Evans (Caerdydd, 1997)
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- D *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632)
- DGG² *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)

- GBDd *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian M. Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GC *Gwaith Casnodyn*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1999)
- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GCBM ii *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)
- GDC *Gwaith Dafydd y Coed a beirdd eraill o Lyfr Coch Hergest*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2002)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GEO *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hir-addug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997)
- GGDT *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Aberystwyth, 1995)
- GGH *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GGMD ii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd*, ii, *Canu Crefyddol*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, i ymddangos)

- GGMD iii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, iii, Canu Amrywiol*, gol. Ann Parry Owen (Aberystwyth, i ymddangos)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans, Ann Parry Owen, W. Dyfed Rowlands ac Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GHS *Gwaith Hywel Swrdwal a'i deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. Kathleen Anne Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin M. Jones (Caerdydd, 1989)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- Gruffudd ap Maredudd: Gw Glenda Jones, 'Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1990).
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- G.W. Goetinck: Peredur *Historia Peredur vab Efracw*, gol. Glenys Witchard Goetinck (Caerdydd, 1976)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)

- GPB *Gwaith Prydydd Breuan, Rhys ap Dafydd ab Einion, Hywel Ystorm, a cherddi dychan dienw o Lyfr Coch Hergest*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2000)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- GPhE *Gwaith Syr Phylib Emlyn, Syr Lewys Meudwy a Mastr Harri ap Hywel*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2001)
- R.A. Griffiths: PW i R.A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- GSCyf *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd ‘Sypyn Cyfeiliog’ a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisieryd, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GWL ii² *A Guide to Welsh Literature 1282–c. 1550 Volume II*, ed. A.O.H. Jarman and Gwilym Rees Hughes, revised by Dafydd Johnston (Cardiff, 1997)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- IG *Gweithiau Iolo Goch*, gol. Charles Ashton (Croesoswallt, 1896)
- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- L&P H. Lewis and H. Pedersen, *A Concise Comparative Celtic Grammar* (Göttingen, 1937)
- LBS S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)

- LIA *The Elucidarium ... from Llyvyr Agkyr Llandewi-vrevi*, ed. J. Morris Jones and John Rhŷs (Oxford, 1894)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- J.E. Lloyd: HW³ J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LITA Marged Haycock, ‘Llyfr Taliesin: astudiaethau ar rai agweddau’ (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1983)
- MA² *The Myvyrian Archaiology of Wales* (second ed., Denbigh, 1870)
- MAng A.D. Carr, *Medieval Anglesey* (Llangefni, 1982)
- MCF Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (rhoddir y dyddiad y codwyd yr wybodaeth mewn cromfachau)
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- MWM Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff and Aberystwyth, 2000)
- OBWV *The Oxford Book of Welsh Verse*, ed. Thomas Parry (Oxford, 1976)
- ODCC³ *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., London, 1997)
- OIG *Orgraff yr Iaith Gymraeg*, i (Caerdydd, 1928)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- P Tal *The Poems of Taliesin*, ed. Ifor Williams, English version by J.E. Caerwyn Williams (Dublin, 1968)
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- RB *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. John Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890)
- RC *Revue celtique*, 1870–1934
- RCAHM (Anglesey) *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire: Anglesey* (London, 1937)
- RCAHM (Caernarvonshire) *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire: Caernarvonshire* (3 vols., London, 1956, 1960, 1964)
- Rec C *Registrum vulgariter nuncupatum ‘The Record of Caernarvon’*, ed. H. Ellis (London, 1838)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E.
- T *The Book of Taliesin*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1910)
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- TCHSG *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 1939–
- R. L. Thomson: Gereint *Ystorya Gereint uab Erbin*, ed. Robert L. Thomson (Dublin, 1997)
- R. L. Thomson: Owein *Owein or Chwedyl Iarllus y Ffynnawn*, ed. R. L. Thomson (Dublin, 1986)
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)

- TW Geiriadur Syr Thomas Wiliems, *Thesaurus Linguae Latinae et Cambrobritannicae* yn Pen 228
- TYP² *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- I. Williams: BWP Ifor Williams, *The Beginnings of Welsh Poetry*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1980)
- I. Williams: ELI Ifor Williams, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, 1945)
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–)
- YCM² *Ystoria de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968)
- ZCP *Zeitschrift für celtische Philologie*, 1896–

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	f.	ffolio
adf.	adferf	<i>fl.</i>	<i>floruit</i>
amhff.	amherffaith	ff.	ffolios
amhrs.	amhersonol	g.	(c.) canrif
anh.	anhysbys	g.	gwrywaidd
ardd.	arddodiad, -iaid	gn.	geiryn
arg.	argraffiad	gol.	golygwyd gan
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	grch.	gorchmynnol
b.	benywaidd	grff.	gorffennol
ba.	berf anghyflawn	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
be.	berfenw	gw.	gweler
bf. (f.)	berf, -au	gwrth.	gwrthrych, -ol
bg.	berf gyflawn	Gwydd.	Gwyddeleg
bg.a.	berf gyflawn ac anghyflawn	H.	Hen
c.	<i>circa</i>	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
c. (g.)	canrif	<i>id.</i>	<i>idem</i>
c.	cyffredin	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
C.	Canol	ll.	lluosog; llinell
cf.	cymharer	Llad.	Lladin
cfrt.	gradd gyfartal	llau.	llinellau
Clt.	Celteg, Celtaidd	llsgr.	llawysgrif
cmhr.	cymharol	llsgrau.	llawysgrifau
col.	colofn, -au	m.	mewnol
cpl.	cyplad	myn.	mynegol
Cym.	Cymraeg	n.	nodyn
cys.	cysylltair, cysylltiad	neg.	negydd, -ol
d.g.	dan y gair	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
dib.	dibynnol	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
Diw.	Diweddar	pres.	presennol
dyf.	dyfodol	prff.	perffaith
e.	enw	prs.	person, -ol
eb.	enw benywaidd	pth.	perthynol
ebd.	ebychiad	r	<i>recto</i>
ed.	<i>edited by, edition</i>	rh.	rhagenw, -ol
e.e.	er enghraifft	S.	Saesneg
eg.	enw gwrywaidd	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
eith.	eithaf	td.	tudalen
e.p.	enw priod	tt.	tudalennau
<i>et al.</i>	<i>et alii</i>	un.	unigol
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	v	<i>verso</i>
		vols.	volumes

Rhagymadrodd

Perthyn Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd i do olaf y Gogynfeirdd diweddar a flodeuai yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac ef yn ddiau yw'r enwocaf ohonynt.¹ Cadwyd inni oddeutu 2400 llinell o'i waith, corff digon swmpus o'i gymharu â'r hyn a erys o waith y rhan fwyaf o'i gyfoeswyr. Yn y gyfrol hon, y gyntaf o dair cyfrol arfaethedig, golygir saith cerdd a gyfansoddiwyd dan nawdd yr un teulu, sef Tuduriaid Môn, ynghyd ag awdl foliant i noddwr anhysbys a berthynai, yn ôl pob tebyg, i'r un teulu. Cyfanswm y llinellau a olygir yma yw 868. Bydd yr ail gyfrol yn cynnwys holl gerddi crefyddol Gruffudd (1015 llinell). Casgliad amryliw a fydd yn y drydedd gyfrol, sef marwnad i Syr Hywel ap Gruffudd o Eifionydd (Syr Hywel y Fwyall), awdl i Owain ap Tomas ap Rhodri (Owain Lawgoch), y farwnad enwog i ferch o'r enw Gwenhwyfar, peth canu serch a pheth canu dychan: cyfanswm o 518 llinell. Bydd rhagymadrodd ar wahân ym mhob cyfrol a geirfa gyflawn yn y gyfrol olaf, ynghyd â mynegai cyflawn i'r holl enwau priod ac enwau lleoedd sy'n digwydd yn y cerddi i gyd.

Y bardd a'i gefndir²

(i) Tystiolaeth Llyfr Coch Hergest

Er bod Gruffudd yn cyfeirio droeon ato'i hun yn ei gerddi, ni ddigwydd ei enw yn yr un ohonynt ac ni cheir ynddynt ychwaith unrhyw fanylion ynghylch ei dras. Dibynnir, felly, ar y penawdau a geir wrth ei waith yn y brif lawysgrif, sef Llyfr Coch Hergest. Y mae'r rhain yn cadarnhau enwau ei dad a'i daid: fe'i gelwir bedair gwaith yn *Gruffudd fab Maredudd fab Dafydd*, ac wyth gwaith yn *Gruffudd fab Maredudd* heb enwi'r taid.³ Mewn un achos ceir *gruffd. vab maredud vab maredd*, ond o graffu ar y llawysgrif gwelir bod enw'r taid rhithiol hwn wedi ei ddileu â llinell goch.⁴

¹ Bu gwaith Gruffudd ap Maredudd yn destun canmoliaeth gan nifer o ysgolheigion. Gelwir y bardd yn 'un o'r mawrion' gan Saunders Lewis, *Brashun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1536* (Caerdydd, 1932), 23 ac 'y bardd gwyech hwnnw' gan Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1944), 38. Ceir y gwerthfawrogiad llawnaf o'i waith hyd yma gan D. Myrddin Lloyd yn GWL ii², 35–40. Gw. hefyd Gruffudd ap Maredudd: Gw.

² Ceir ymdriniaeth fer â bywyd a gwaith Gruffudd ap Maredudd yn ByCy 292–3 ac yn CLC² 290–1; gw. hefyd Gruffudd ap Maredudd: Gw 4–6.

³ Rhoddir yma'r cyfeiriadau perthnasol (anwybyddir y gwahaniaethau yn yr orgraff a'r talfyriadau a ddefnyddir): (i) *Gruffudd fab Maredudd fab Dafydd* R 1194.1, 1318.26, 1332.25–7 ac 1335.1; (ii) *Gruffudd fab Maredudd ib.* 1203.1, 1213.2, 1315.1, 1326.15, 1327.16, 1328.25, 1330.19, 1332.7. Ceir *Gruffudd* yn unig yn *ib.* 1335.16, 29 ac uwchben *ib.* 1336.

⁴ J 111, 1230.18–19: ni nodir y cywiriad gan Gwenogvryn Evans yn R.

Gellir bod yn weddol bendant hefyd ynglŷn â chynefin Gruffudd. Y mae tystiolaeth ei ganu yn awgrymu'n gryf mai gŵr o Fôn ydoedd. Canodd yn bennaf i noddwyr amlycaf yr ynys honno, sef teulu Penmynydd, ac er ei fod yn cyfeirio at diroedd y gwŷr hyn y tu hwnt i Fôn, gyda'r ynys y mae'n eu cysylltu yn anad unlle.⁵ At hynny, un o Bentraeth ym Môn oedd Gwenhwyfar y canodd Gruffudd farwnad adnabyddus iddi, a chladdwyd hi yng Nghaerdybi.⁶ Lleolir y ddwy awdl i ferched yn bendant ym Môn a hefyd ddwy o'r cerddi dychanol.⁷ Y mae amrediad daearyddol yr awdl i Owain ap Tomas ap Rhodri (Owain Lawgoch) yn rhy eang i fod o fawr gymorth, ond nodder bod ynddi ddau gyfeiriad tebygol at leoedd ym Môn.⁸ Yr unig gerddi y gellir lleoli eu gwrthrychau'n bendant y tu allan i Fôn yw'r awdl i'r Grog yng Nghaer⁹ a'r farwnad i Syr Hywel y Fwyall, ond eto y mae'n werth cofio bod Hywel yn berthynas i deulu Penmynydd.¹⁰ Yn olaf, ceir llinell ddadlenol ym marwnad Gruffudd ap Maredudd i Dudur Fychan ap Goronwy:

Neud atborion Môn, mau gyfannedd.¹¹

Er bod union ystyr y llinell hon yn dibynnu ar y modd y'i hatalnodir,¹² y mae'n awgrymu'n ddiamwys fod Gruffudd yn ystyried Môn fel ei fro ei hun.

Dyddiwyd nifer o gerddi Gruffudd ap Maredudd i ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg gan Henry Lewis, a dengys hyn fod y dyddiadau a gynigiwyd gan John Morris-Jones ac eraill yn rhy gynnar.¹³ Gellir amseru'r cerddi a ganlyn â chryn sicrwydd:¹⁴

'Marwnad Hywel ap Goronwy' (cerdd 1)	1366
'Moliant Tudur Fychan ap Goronwy' (cerdd 2)	1367 fan bellaf
'Marwnad Tudur Fychan ap Goronwy' (cerdd 3)	1367
'Moliant Goronwy Fychan ap Tudur' (cerdd 4)	1367x1382 ¹⁵

⁵ E.e., yn 1.28, 54, 3.9, 90, 200, 207, 4.36, 96.

⁶ GGMD iii, cerdd 3.

⁷ GGMD iii, 4.40 *tref Lywarch*, sef trefgordd ym mhlwyf Llanfwrog, Talybolion; *ib.* 5.57 *winglawr Môn*; *ib.* 6.2 *leidr Tŵr Celyn*; *ib.* 8.1 *Llwybr crwybr cynion Môn*. Dichon mai enw'r cwmwd Llifton a geir yn *ib.* 9.17.

⁸ Sef *Ffraw* (GGMD iii, 2.2n) a *Cemais* (*ib.* 2.47n), er bod cantref o'r enw *Cemais* yn sir Benfro hefyd.

⁹ GGMD ii, cerdd 1.

¹⁰ Am gysylltiad Hywel â llinach Ednyfed Fychan, hynafiad teulu Penmynydd, gw. GGMD iii, cerdd 1 (y nodyn cefndir).

¹¹ Isod 3.90.

¹² Ymdrinnir â'r posibiladau isod yn y nodyn ar y ll.

¹³ Henry Lewis, 'Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd a Rhisieryd', B i (1921–3), 123–33. Gynt, credid bod Gruffudd yn ei flodau yn hanner cyntaf y ganrif, cf., e.e., WG xx lle y cynigir c. 1320–50.

¹⁴ Gw. y drafodaeth isod am ddyddiadau gwrthrychau'r cerddi a olygir yn y gyfrol hon.

¹⁵ Cymerir bod y gerdd hon a'r nesaf yn perthyn i gyfnod pan oedd Goronwy wedi etifeddu statws ei dad ac felly ar ôl i Dudur Fychan farw yn 1367.

'Awdl i Oronwy Fychan ap Tudur pan oedd yn glaf' (cerdd 5)	1367x1382
'Awdl i Owain Lawgoch' (GGMD iii, cerdd 2)	c. 1370
'Marwnad Hywel ap Gruffudd' (GGMD iii, cerdd 1)	c. 1381
Marwnadau Goronwy Fychan ap Tudur (cerddi 6 a 7)	1382

Ychydig yn fwy petrus yw'r dyddiad a roddir fel arfer i 'Englynion Gwynedd', sef c. 1349x50.¹⁶ Dibynna hyn ar dderbyn mai ymweliad mawr cyntaf y Pla Du â Gwynedd a ysgogodd eu cyfansoddi, ond gan fod y Pla wedi taro eto yn ail hanner y ganrif ni ellir bod yn sicr.¹⁷

Gŵr o Fôn oedd Gruffudd a flodeuodd rhwng 1366 a 1382 ac a dreuliodd amser helaeth ar aelwydydd y Tuduriaid. Y rhain yw'r unig ffeithiau sicr amdano. Rhydd ffynonellau allanol le i ddyfalu ymhellach ynglŷn â'i dras, ei gynefin a'i ddyddiadau, ond y mae'n bwysig cofio mai dyfalu a wnawn ac nad oes dim a all brofi cysylltiad y tu hwnt i bob amheuaeth rhwng ein bardd a gŵyr o'r un enw a grybwyllir mewn ffynonellau eraill.

(ii) *Tystiolaeth cofnodion swyddogol*

Y mae cryn dystiolaeth ddogfennol am weithgareddau gŵr neu wŷr o'r enw Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd yng nghwmwd Talybolion yng ngogledd-orllewin Môn tua'r un adeg ag y bu fyw'r bardd. Rhestrir y cofnodion perthnasol isod:

- 1346 Yr oedd rhyw Ruffudd ap Maredudd ap Dafydd yn aelod o reithgor cwmwd Talybolion yn llys trwn y siryf yn Llanddeusant.¹⁸
- 1351 Ceir yr enw mewn rhestr o ddirwyon.¹⁹
- 1352 Cofnodir yn stent (sef arolwg) siroedd Caernarfon a Môn fod rhyw Ruffudd ap Maredudd ap Dafydd yn dal tir yn yr un cwmwd.²⁰
- 1355x6 Dirwywyd rhywun o'r enw gerbron siambrlen Gwynedd.²¹
- 1361 Bu rhywun o'r enw yn dyst i weithred tir prid yn trosglwyddo eiddo Gwenllïan ferch Gwerfyl ferch Dafydd ap Heilyn yng

¹⁶ Dyddiad a awgrymwyd gan Tomos Roberts, 'Englynion Gwynedd gan Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd', AAST, 1982, 123-7.

¹⁷ Bu dau ymweliad difrifol arall, sef yn 1361-2 a 1369, gw. W. Rees, 'The Black Death in Wales' yn R.W. Southern, *Essays in Medieval History Selected from the Transactions of the Royal Historical Society on the Occasion of its Centenary* (London, 1968), 187; traddodwyd y papur gwreiddiol yn 1920.

¹⁸ Gw. A.D. Carr, 'Rhai Beirdd ym Môn', B xxviii (1978-80), 599; G. Peredur Jones, 'Anglesey Court Rolls, 1346', AAST, 1930, 36.

¹⁹ Dafydd Wyn Wiliam, 'Nodion am Fagad o Feirdd Cynnar Môn', AAST, 1985, 105; Pen 405, 431.

²⁰ A.D. Carr, *l.c.*; ymdrinnir yn fanylach â'r cofnod hwn isod.

²¹ *L.c.*; yr oedd arno ôl-ddyled o 20 swllt o dâl o 40 swllt, yn ôl A.D. Carr (gwybodaeth bersonol).

Nghornwy-lan, Talybolion, a rhan ym mhysgodfa ynysoedd y Moelrhoniaid (sy'n gorwedd i'r gogledd o'r un cwmwd) i Ieuan Chwerw.²²

1372–3 Ffermiai rhywun o'r enw swydd rhaglaw Talybolion.²³

1373–4 Ffermiai swydd rhaglaw'r cwmwd eto a bu'n un o feichiau'r rhingyll, Gruffudd Fychan.²⁴

1406 Yr oedd rhywun o'r enw ymhlith trigolion Môn a gymododd â'r brenin yn y flwyddyn hon. Talodd ddirwy o 20 swllt.²⁵

1410x11 Enwir Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd ap Maredudd yn rhydd-ddeiliad yn Nronwy, Talybolion.²⁶

Ni ellir bod yn sicr fod pob un o'r cofnodion hyn yn cyfeirio at yr un gŵr, ond y mae lle cryf i uniaethu o leiaf rai ohonynt â Gruffudd ap Maredudd y bardd, fel y gwna A.D. Carr a Dafydd Wyn Wiliam.²⁷ Er ei bod yn beryglus tynnu casgliadau pendant ar sail hynny o waith y bardd a adawyd inni, ymddengys na fu raid iddo glera ryw lawer am ei fywoliaeth a'i fod, yn hytrach, yn rhyw fath o fardd 'swyddogol' i'r Tuduriaid. Gwelwn ategiad i'w statws arbennig, efallai, yn y gofod helaeth a roddir i'w waith yn Llyfr Coch Hergest. Os felly, dichon mai gŵr o sylwedd ydoedd ac y disgwyliid gweld ei enw mewn cofnodion swyddogol.

Perthyn diddordeb arbennig i'r cofnod o'r flwyddyn 1352 gan ei fod yn cysylltu'r enw Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd â thiroedd etifeddol penodol. Dengys y stent fod rhyw Ruffudd ap Maredudd ap Dafydd yn un o etifeddion Gwely Dafydd ap Gwas Sanffraid yn nhrefgorddau Carneddor, Dronwy ac Aberalaw.²⁸ Y mae Carneddor ym mhlwyf Llanfaethlu, Talybolion, a'r ddwy drefgordd arall ym mhlwyf Llanfachraith yn yr un cwmwd. Gallai etifeddion Gwely Dafydd ap Gwas Sanffraid yn y tri lle hyn hawlio rhan ym melin Cornwy, sy'n awgrymu'n gryf fod rhyw gysylltiad traddodiadol rhwng y gwely a Chornwy.²⁹ Ategir hyn, fel y gwelir uchod, yn 1361.³⁰

²² *L.c.*; A.D. Carr (gwybodaeth bersonol). Ni lwyddwyd i leoli Gwenllian yn yr achau. Am Ieuan Chwerw, gw. MAng 77 a 112.

²³ *Ib.* 80n98.

²⁴ A.D. Carr, *l.c.*

²⁵ Glyn Roberts, 'The Anglesey Submissions of 1406', B xv (1952–4), 49; A.D. Carr, *l.c.*

²⁶ Dafydd Wyn Wiliam, 'Ach Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd', AAST, 1985, 110; LIGC Llanfair a Brynodol M3.

²⁷ A.D. Carr, *l.c.*; Dafydd Wyn Wiliam, *art.cit.* 109–11. Gw. hefyd ByCy 292.

²⁸ Atgynhyrchwyd testun Llad. y stent yn Rec C 44–89. Cyhoeddwyd cyfieithiad S. o'r adran ar sir Fôn gan A.D. Carr, 'The Extent of Anglesey, 1352', AAST, 1971–2, 150–272, a gw. *ib.* 198, 200, 201 am y tiroedd dan sylw.

²⁹ *L.c.*

³⁰ Yr oedd Cornwy yn agos i'r tair trefgordd lle y ceid tiroedd y gwely. Ymrannai yn ddwy drefgordd, sef Cornwy-lys a fuasai ym meddiant abaty Aberconwy er 1284, a Chornwy-lan a ddelid gan esgob Bangor (MAng 111, 271). Nid ymddengys y naill na'r llall yn y stent, oherwydd cofnodi tiroedd y Tywysog Du oedd amcan yr arolwg (A.D. Carr, *art.cit.* 154–5) ac felly ni chynhwyswyd tiroedd eglwysig. Am y rheswm hwn ni ellir dweud mwy na bod gan

Deiliad rhydd ac felly gŵr o dras oedd y Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd yn y stent. Y mae rhaid ei fod yn ddisgynnydd i Ddafydd ap Gwas Sanffraid, y gŵr a roesai ei enw i'r gwely yng Nhalybolion. Yng Ngharneddor, rhannai Gruffudd diroedd y gwely gyda Dafydd ap Maredudd ap Dafydd—ei frawd, yn ôl pob tebyg—ac eraill; yn Nronwy, rhannai Gruffudd y tiroedd gyda nifer o gyd-etifeddion (yr unig un a enwir yw Maltt ferch Dafydd ap Llywelyn, na wyddys ei chysylltiad ag ef); ac yn olaf, rhannai diroedd y gwely yn Aberalaw gyda Dafydd ap Dafydd ap Maredudd ap Dafydd a Maredudd ap Dafydd ap Maredudd ap Dafydd a oedd, gellir dyfalu, yn neiaint iddo, yn feibion i'w frawd Dafydd ap Maredudd ap Dafydd y cofnodir ei bresenoldeb yng Ngharneddor.³¹ Y mae hwn yn ymgeisydd teilwng ar gyfer ein bardd, ond cyn dod i gasgliad pendant, y mae'n rhaid ystyried yr achau.

(iii) *Tystiolaeth yr achau*

Y mae Dafydd Wyn Wiliam wedi cyflwyno dadl gref dros gyfrif y Gruffudd ap Maredudd sy'n ymddangos yn y stent yn ddisgynnydd i'r bardd Dafydd Benfras (*fl. c. 1220–57x8*), a chan fod y cwestiwn yn un tra chymhleth, rhoddir amlinelliad trylwyr o'r dystiolaeth yma.³²

Y man cychwyn yw'r Dafydd ap Gwas Sanffraid a roes ei enw i'r gwely. Fe'i henwir yn yr ach ganlynol, a geir yn Pen 178, i, 55 yn llaw Gruffudd Hiraethog:

lln vychan ap lln voelrron ap dd benfras / ap dd gwyssanffraid o dref
gaer nwyf / ap ery yn hal eb olion ar lln / vchod oedd brydydd o lin
gerdd / yr hwnn a wnaeth Trvgaroc ddewin / wyt tri chyfewin.³³

Cedwir sawl darn o dystiolaeth werthfawr yn yr ach hon. Nodir bod Dafydd Benfras yn hanu o ryw Ddafydd (ap) Gwas Sanffraid. Gwelir hefyd fod modd ei leoli yn Nhalybolion ac yn fwy penodol yn [*nh*]ref gaer nwyf, sef Cornwy.³⁴ Awgryma'r geiriau *brydydd o lin gerdd* mai llinach o feirdd a gofnodir yma. Cadarnheir hyn i raddau yn MCF (2003) lle y ceir enw Llywelyn Fychan ap Llywelyn Foelrhon wrth dair cerdd.³⁵ Dyfynna Dafydd Wyn Wiliam nifer o gofnodion swyddogol sy'n dangos bod Llywelyn

etifeddion y gwely ryw ddiddordeb yng Nghornwy.

³¹ Gw. A.D. Carr, *art.cit.* 198, 200–1; Dafydd Wyn Wiliam, *art.cit.* 110.

³² Dafydd Wyn Wiliam, 'Dafydd Benfras a'i Ddisgynyddion', AAST, 1980, 33–5; *id.*, 'Ach Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd'. Pwysir yn drwm ar yr erthyglau hyn yn yr hyn a ddilyn.

³³ Fe'i dyfynnir yn Dafydd Wyn Wiliam, 'Dafydd Benfras a'i Ddisgynyddion', 34. Gw. RWM, i, 991 lle y dyddir y llsgr. hon i *c. 1545* gydag ychwanegiadau diweddarach; rhoddir 1544–61 yn GGH xcii–xciii lle y ceir ymdriniaeth fer â'r llsgr. yng nghyd-destun gwaith achyddol Gruffudd Hiraethog.

³⁴ Cf. EWGT 86 am Nwy ferch Egri lle y dywedir *oi henw y gelwir karn nwy*. Diau mai feriswn carbwl ar hyn yw *nwyf ap ery* yn yr ach (Dafydd Wyn Wiliam, *art.cit.* 34n5).

³⁵ Sef 6790, 14423, 14424 (ymddengys mai at yr un gerdd y cyfeiria'r tri chofnod hyn, sef honno a grybwyllir yn yr ach); 14422; a 10420 (ond leuan Gethin biau'r olaf yn ddiamau).

Foelrhon, tad y bardd hwn, yn fyw yn 1295, 1296, 1305, 1306 a 1322x3.³⁶ Dengys y stent a wnaed o diroedd esgobaeth Bangor yn 1306 fod Llywelyn Foelrhon yn ddeiliad i'r esgob yn nhrefgordd Cornwy-lan.³⁷ Cynhwyswyd englyn o waith Llywelyn Foelrhon yn fersiwn Pen 20 o 'Ramadeg y Penceirddiaid'. Dyddir y llawysgrif hon bellach i c. 1330, ac yn yr englyn sonia'r bardd yn benodol am Fôn.³⁸

Ceir fersiwn arall o'r ach yn CM 3, 183 mewn rhestr o feirdd Cymraeg yn llaw Wiliam Salesbury.³⁹ Ysywaeth, nid yw'r ach hon yn llwyr gyson â'r un a ddyfynnwyd uchod:

lln vychan ap lln voelrhon ap dd voel ap dd Benvras prydydd o dad y dad o Von.

Gwelir bod cenhedlaeth ychwanegol rhwng Dafydd Benfras a Llywelyn Foelrhon. O gofio i Ddafydd farw yn 1257 neu 1258, y mae hynny'n berffaith bosibl. Dylid nodi bod enw rhyw Ddafydd Foel yn ymddangos yn syth ar ôl enw Llywelyn Foelrhon yn stent 1306.⁴⁰ Os tad Llywelyn oedd hwn, yna yr oedd yntau'n gysylltiedig â Chornwy-lan.⁴¹ Ni roddir enw tad Dafydd Benfras yn yr ail ach, ond ceir awgrym arall mai llinach o feirdd ydoedd hon.

Cyfyd anhawster arall ym marwnad Bleddyn Fardd i Ddafydd Benfras. Yno, nodir ei fod yn unig fab i ryw Lywarch:

Llas un mab Llywarch, lle6 afael—yn reid.⁴²

Y mae'n anodd gwybod sut i gysoni'r wybodaeth a rydd y ffynonellau hyn. Gellir, fel y gwna N.G. Costigan, ddeall *mab Llywarch* yn yr ystyr 'disgybl i Lywarch' neu hyd yn oed 'mab maeth i Lywarch'.⁴³ Eto, mwy naturiol fyddai cymryd *Llywarch* yn y llinell hon yn gyfeiriad at dad biolegol Dafydd.⁴⁴ Os felly, y mae rhaid bod yr ach a roddir gan Ruffudd Hiraethog yn wallus, ond ni olyga hynny o reidrwydd nad oes a wnelo Dafydd (ap) Gwas Sanffraid ddim â Dafydd Benfras. Gwelsom fod mab neu wŷr Dafydd, Llywelyn Foelrhon, yn dal tir mewn lle a gysylltir â Gwely Dafydd ap Gwas

³⁶ Dafydd Wyn Wiliam, *art.cit.* 34 ac *ib.* n7.

³⁷ Rec C 106. Cadarnheir yn MAng 270 mai 1306 yw dyddiad cywir y stent a bod y dyddiad 1348 a roddir mewn rhai ffynonellau printiedig yn wallus.

³⁸ GEO Atodiad Dd cerdd 8; GP 47; cywirer y dyddiadau a gynigir *ib.* xxix ar gyfer y stent (*recte* 1306) a'r achos cyfreithiol yn ymwneud â rhai o daeogion Llywelyn (*recte* 1305, gw. MAng 143). Gw. MWM 59 am ddyddiad Pen 20.

³⁹ Dyfynnir yr ach yn Dafydd Wyn Wiliam, 'Ach Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd', 110. Dyddir y llsg. i'r flwyddyn 1564 yn RWM ii, 873 (a gw. 877 am y rhestr o feirdd), ond c. 1574 yw'r dyddiad a dderbynnir yn GSRh 4 a 47.

⁴⁰ Rec C 106.

⁴¹ Diddorol yw nodi'r e. lle *Myrthin Daid Voel* a gofnodir yn 1576 yn Llanfair-yng-Nghornwy, gw. B.L. Jones, 'Murddyn mewn Enwau Lleoedd', B xl (1993), 120.

⁴² GBF 44.17n.

⁴³ GDB 366; felly hefyd Dafydd Wyn Wiliam, *art.cit.* 111n12.

⁴⁴ Cf. sylwadau Rhian M. Andrews yn GBF 527n5.

Sanffraid, yn ogystal, o bosibl, â Dafydd Foel ap Dafydd Benfras. Hefyd, y mae cysylltiadau daearyddol Dafydd Benfras ei hun o blaid ei roi rywle yn llinach Dafydd ap Gwas Sanffraid.

Monwysyn oedd Dafydd Benfras yn ôl pob darn o dystiolaeth a geir. Cymharer yr hyn a ddywed Iorwerth Beli yn y bedwaredd ganrif ar ddeg:

A Dafydd Benfras ym mawrblas Môn.⁴⁵

Ategir hyn gan eiriau'r bardd ei hun ar achlysur claddu Gruffudd ap Llywelyn yn 1248:

Diafrddwl feddwl fyddwn ym Mon
Pei yn fyw y delai i Dalybolion.⁴⁶

Yr esboniad mwyaf naturiol ar y geiriau hyn yw fod Dafydd yn sôn am ei fro ei hun. Darganfu Dafydd Wyn Wiliam ragor o dystiolaeth ynglŷn â'i fro mewn dau englyn a gopiwyd gan Thomas Wiliems (?1550–?1622). Ynddynt, fe'i gelwir yn *gwalch glan Alaw* a *gwawr Gornwy*.⁴⁷ Er mor ddiweddar yw'r copi o'r englynion, ac er bod dyddiad eu cyfansoddi yn anhysbys, nid oes rheswm dros amau dilysrwydd y traddodiad a ymgorfforant. Dyma ategiad, felly, i gysylltiad y bardd â Chornwy, ac y mae Afon Alaw, sy'n ffurfio ffin ddeheuol cwmwd Talybolion, hithau, yn eithaf agos i Gornwy. Er gwaethaf anghysonderau'r ffynonellau, felly, credir bod digon o dystiolaeth i ddal bod Dafydd Benfras yn disgyn rywsut o Ddafydd ap Gwas Sanffraid, bod Llywelyn Foelrhon a'i fab o fardd yn disgyn ohono yntau, a bod y teulu yn frodorion o Dalybolion, gyda chysylltiad cryf â Chornwy a'r tair trefgordd Carneddor, Dronwy ac Aberalaw lle y ceid tiroedd Gwely Dafydd ap Gwas Sanffraid.⁴⁸

Y mae ach arall yn crybwyll Dafydd Foel ap Dafydd Benfras. Fe'i diogelwyd yn LIGC Sotheby C.3, 77, sy'n gasgliad o achau teuluoedd Môn:

... mrd ap gr ap mdd ap dd ap mrdd ap dd voyl ap dd benfras⁴⁹

sef:

Maredudd ap Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd ap Maredudd ap
Dafydd Foel ap Dafydd Benfras.

Dyma gadarnhad fod gan Ddafydd Benfras fab o'r enw Dafydd Foel, fel yr

⁴⁵ GGDT 15.18n.

⁴⁶ GDB 31.30–1n.

⁴⁷ Pen 94, iii; atgynhyrchir yr englynion yn Dafydd Wyn Wiliam, 'Dafydd Benfras a'i Ddisgynyddion', 35 ac yn GDB 370.

⁴⁸ Y mae rhaid gwrthod yr honiad yn GDB 365 mai rhan o faenor Cemais oedd y tiroedd hyn 'ac felly'n fan tebygol i bencerdd y tywysog [Dafydd Benfras] ddal tir'. Ystyr y geiriau yn stent 1352 yw fod deiliaid y tiroedd hyn yn gyfrifol am ran o waith cynnal y faenor, nid bod eu tiroedd hwy yn rhan o'r faenor ei hun (A.D. Carr, *art.cit.* 200).

⁴⁹ Dyfynnir yr ach yn Dafydd Wyn Wiliam, *art.cit.* 33n2. Perthyn yr achau yn y casgliad hwn i 1593x1596 yn ôl 'Schedule of the Sotheby Collection' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1931), 1–1a.

awgrymir gan Salisbury. O gyfuno'r ach hon a'r un flaenorol, gwelir bod o leiaf ddau fab gan Ddafydd Foel, sef Llywelyn Foelrhon, a fu fyw hyd 1322x3 o leiaf, a gŵr o'r enw Maredudd. Gwelir hefyd fod gan Faredudd fab o'r enw Dafydd a bod ganddo yntau fab o'r enw Maredudd. Yn ôl pob tebyg, dyna ddau o'r gwŷr a enwir yn stent 1352, sef Dafydd ap Maredudd ap Dafydd yn Aberalaw a Maredudd ap Dafydd ap Maredudd ap Dafydd yng Ngharneddor. Dengys y stent, fel y gwelwyd eisoes, fod gŵr o'r enw Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd yn gyd-etifedd i'r gwŷr hyn. Yr oedd ef yn ôl pob tebyg yn frawd i'r cyntaf ac yn or-ewythr i'r ail. Ar y llaw arall, dengys y drydedd ach a ddyfynnwyd uchod fod gan Faredudd ap Dafydd ap Maredudd ap Dafydd hefyd fab o'r enw Gruffudd.

Y mae gennym, felly, ddau ymgeisydd ar gyfer ein bardd, sef Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd Foel a oedd yn fyw adeg y stent yn 1352, a Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd ap Maredudd y cofnodir ei enw yn 1410x11. O safbwynt cronoleg, y mae'n debygol mai'r Gruffudd a enwir yn stent 1352 oedd ein bardd, fel y cred A.D. Carr a Dafydd Wyn Wiliam.⁵⁰ Gwyddys i'r bardd ganu rhwng 1366 a 1382, i Hywel a Thudur Fychan ap Goronwy o linach Penmynydd, ac yna i Oronwy, mab Tudur Fychan. Rhoddir achau Dafydd Benfras a'r Tuduriaid gan P.C. Bartrum.⁵¹ Priodolir Dafydd Benfras i'r chweched genhedlaeth, sef y rhai a aned oddeutu 1200.⁵² Ymddengys hyn yn rhesymol o gofio iddo ddechrau canu oddeutu 1220 yn ôl N.G. Costigan a marw yn 1257x8.⁵³ Golyga hefyd fod Gruffudd a Dafydd ap Maredudd ap Dafydd yn perthyn i'r nawfed genhedlaeth, ac felly eu bod wedi eu geni oddeutu 1300, mewn da bryd i ymddangos yn stent 1352. Fel y gwelwyd, crybwyllir meibion Dafydd yn y stent hefyd. Yn ôl Bartrum, y mae rhaid eu bod hwy yn perthyn i'r ddegfed genhedlaeth: ganwyd hwy felly tua 1330, eto mewn da bryd i fod yn dirfeddianwyr erbyn 1352. Y mae Bartrum yn gosod Llywelyn Foelrhon yn fab i Ddafydd Benfras, ond gwelsom eisoes ei bod yn debygol mai mab Dafydd Foel ap Dafydd Benfras ydoedd. Os felly, perthynai i'r wythfed genhedlaeth (a anwyd tua 1270). Y mae hyn hefyd yn gyson â dyddiadau'r cofnodion sy'n ei grybwyll. Perthynai Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd ap Maredudd i genhedlaeth 11 (a anwyd tua 1370), sef yn ôl pob tebyg yn rhy hwyr ar gyfer y bardd.

Cryfheir yr awgrym mai Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd Foel oedd y bardd gan ddyddiadau ei noddwyr. Perthynai Owain ap Tomas ap Rhodri, Syr Hywel ap Gruffudd a Hywel a Thudur Fychan ap Goronwy i'r un genhedlaeth â'r Gruffudd hwn, sef y nawfed, a'i noddwr arall, Goronwy ap

⁵⁰ A.D. Carr, 'Rhai Beirdd ym Môn', 599; Dafydd Wyn Wiliam, 'Ach Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd'.

⁵¹ P.C. Bartrum: WG2 'Dafydd Benfras'; P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 13.


⁵² Gw. P.C. Bartrum: WG1 6 am restr o'r cenedlaethau a'r bras ddyddiadau geni a roddir iddynt, ynghyd â'r rhesymau paham y mabwysiedir y dyddiadau hyn.

⁵³ Priodola N.G. Costigan y gerdd gynharaf o'i eiddo sydd ar glawr i c. 1220, gw. GDB 368.

Tudur, i'r genhedlaeth nesaf.⁵⁴ I genhedlaeth *plant* Goronwy ap Tudur y perthynai Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd ap Maredudd. Hyd yn oed a derbyn mai dyddiadau bras iawn yw'r rhain, erys yn fwy tebygol fod bardd a fu yn ei flodau rhwng 1366 a 1382 yn wŷr i Ddafydd Foel (*fl.* 1306 o bosibl), ac nid yn or-orwyr iddo, a hefyd ei fod un genhedlaeth yn iau na Llywelyn Foelrhon (*fl.* hyd 1322x3) yn hytrach na thair. Dylid nodi bod P.C. Bartrum yntau'n uniaethu Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd Foel â'r bardd.⁵⁵

Os yw hyn oll yn gywir, yna yr oedd Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd yn orwyr i Ddafydd Benfras ac yn gefnder i fardd arall, sef Llywelyn Fychan ap Llywelyn Foelrhon. Dyma'r ach, yn seiliedig ar y ffurf a roddir gan Dafydd Wyn Wiliam,⁵⁶ ond gan ychwanegu Llywarch, tad Dafydd Benfras, yn betrus fel disgynnydd i Ddafydd ap Gwas Sanffraid:

Disgynyddiaeth Gruffudd ap Maredudd



Ni wyddys pryd y bu farw'r bardd. Y mae'n amlwg i gopiŵyr Llyfr Coch Hergest feddu ar destun neu destunau o waith Gruffudd a ymestynnai hyd at

⁵⁴ P.C. Bartrum: WG1 'Gruffudd ap Cynan' 5; 'Gollwyn' 4; 'Marchudd' 13.

⁵⁵ Yn P.C. Bartrum: WG2 'Dafydd Benfras' dywedir mai Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd ap Maredudd oedd y bardd; fodd bynnag, yn *ib.* 'Additions and Corrections: First List', 27 derbynir barn Dafydd Wyn Wiliam a rhoi'r anrhydedd i wŷr Dafydd Foel.

⁵⁶ Dafydd Wyn Wiliam, *art.cit.* 110.

y dyddiad 1382, ond ni wyddys a barhaodd i ganu ar ôl y dyddiad hwnnw. Y ffynonellau a oedd ar gael i Hywel Fychan a'i gynorthwywyr a adlewyrchir yn y Llyfr Coch, nid o reidrwydd cyfangorff canu'r bardd. Fel y nodwyd uchod, cyfeirir at ryw *Gr ap Mredith ap dd* mewn rhestr o gefnogwyr Owain Glyndŵr a gymododd â'r awdurdodau yn Nhalybolion yn 1406.⁵⁷ Awgryma dyddiadau Bartrum yn gryf nad Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd Foel oedd hwn.⁵⁸ Mwy tebygol yw cynnig Dafydd Wyn Wiliam mai gor-nai Gruffudd ydyw, sef Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd ap Maredudd, yn enwedig o ystyried y cyfeiriad pendant at hwnnw fel deiliad rhydd yn Nronwy yn 1410x1411.⁵⁹

I gynhoi, felly: nid oes sicrwydd fod Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd y bardd yn perthyn i linach Dafydd ap Gwas Sanffraid; ond os ydoedd, y mae'n debygol mai ŵyr i Ddafydd Foel ydoedd ac mai ef yw'r Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd a oedd yn berchen tiroedd yn Nhalybolion yn 1352. Dichon hefyd mai ei enw ef a geir yn y cofnodion swyddogol a restrwyd uchod, ar wahân i'r ddau olaf (sef 1406 a 1410x1411) sydd yn ôl pob tebyg yn rhy ddiweddar. Ymddengys fod barddoni yn grefft etifeddol yn ei deulu.

Ei noddwyr a'r bywyd diwylliannol o'u cwmpas

Tuduriaid Môn

A barnu wrth y cerddi a gadwyd, aelodau o'r tylwyth hwn oedd prif noddwyr Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd. Dyma deulu grymusaf yr ynys yn y bedwaredd ganrif ar ddeg ac yr oedd Gruffudd yn un o nifer o feirdd a gâi groeso yn eu llysoedd ym Môn a thu hwnt. Canodd Gruffudd i o leiaf dri o aelodau'r teulu, a hynny dros ddwy genhedlaeth.

Gellir olrhain statws a dylanwad y Tuduriaid⁶⁰ yn ôl i Ednyfed Fychan (*ob.* 1246) a fu'n ddistain i Lywelyn ab Iorwerth ac wedyn i'w fab Dafydd. Derbyniodd Ednyfed (neu o bosibl ei dad, Cynwrig ab Iorwerth ap Gwrgan) diroedd helaeth yn gyfnewid am ei wasanaeth, ac ymddengys ei fod wedi eu dal ar delerau tra ffafriol. Trosglwyddwyd yr hawliau hynny i'w ddisgynyddion, ac yn wir i holl ddisgynyddion ei daid, Iorwerth ap Gwrgan,⁶¹ a'r enw a roddid ar y telerau arbennig hyn oedd *de natura Wyrion Eden*, sef 'o natur disgynyddion Ednyfed'. Ni ddisgwylid unrhyw daliadau na gwasanaethau ganddynt, ar wahân i fynychu llys barn y tywysog a mynd

⁵⁷ Glyn Roberts, 'The Anglesey Submissions of 1406', B xv (1952-4), 49.

⁵⁸ Mynega A.D. Carr hefyd beth petruster yn 'Rhai Beirdd ym Môn', 599.


⁵⁹ Dafydd Wyn Wiliam, *art.cit.* 110; cf. hefyd P.C. Bartrum: WG2 'Additions and Corrections: Second List', 37 lle y priodolir cofnodion 1406 a 1410x11 i Ruffudd ap Maredudd ap Dafydd ap Maredudd.

⁶⁰ Fel y noda Glyn Roberts, AWH 179, cyfleus yw cyfeirio atynt fel y 'Tuduriaid', er nad arferid y cyfenw yn y cyfnod dan sylw.

⁶¹ AWH 181-2. Awgryma hyn nad Ednyfed oedd y cyntaf o'i linach i wasanaethu'r tywysogion.

gydag ef i ryfel.

Disgynnai'r Tuduriaid o Oronwy ab Ednyfed Fychan (*ob.* 1268) a fu yntau'n ddistain i dywysog Gwynedd. Ymddengys yr enw Tudur am y tro cyntaf yn y genhedlaeth nesaf gyda Thudur Hen ap Goronwy (*ob.* 1311). Yr oedd ei fab yntau, Goronwy, yn ŵr amlwg yn y Dywysogaeth yn ystod teyrnasiad cythryblus Edward II ac yn aelod o'r blaid a oedd yn deyrngar i'r Goron ac a ymgasglodd o gwmpas Syr Gruffudd Llwyd o Dregarnedd. Bu farw yn 1331, gan adael tri mab, sef Hywel, Tudur a Gruffudd. Bu farw Gruffudd yng Ngheredigion rywbryd rhwng 1331 a 1344, ac y mae'n annhebygol, felly, fod Gruffudd ap Maredudd wedi canu iddo. Y ddau frawd arall, ynghyd â Goronwy Fychan, un o feibion Tudur, oedd prif noddwyr y bardd. Dyma ach y teulu:⁶²



Y canu i'r teulu

Byddai Gruffudd wedi cyfarfod â nifer o feirdd eraill yn ystod ei ymweliadau ag aelwydydd y Tuduriaid. Yr oedd hen draddodiad o noddi barddoniaeth yn y teulu: marwnadwyd Ednyfed Fychan gan Elidir Sais a'i fab Goronwy gan y Prydydd Bychan a Bleddyn Fardd.⁶³ Bydd rhoi rhestr gyflawn o'r cerddi a ganwyd i'r teulu yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg yn fuddiol i ddeall cefndir canu Gruffudd ap Maredudd iddynt.⁶⁴

Bleddyn Ddu Dangosodd Dr Iestyn Daniel mai Goronwy ap Tudur Hen (*ob.* 1331) yw gwrthrych un o awdlau Bleddyn Ddu.⁶⁵

⁶² Am fersiwn llawnach gw. *ib.* 274.

⁶³ GMB cerdd 18; GBF cerddi 21 a 45.

⁶⁴ Am gerdd Hywel ab Einion Lygliw i wraig Goronwy, Myfanwy, a ganwyd yn ôl pob tebyg ym Mhows cyn iddi briodi, gw. GGLI, cerdd 1.

⁶⁵ GBDd cerdd 6. Tybid cyn hynny mai Goronwy ap Tudur Fychan ydoedd, ond fel y nodi Dr Iestyn Daniel, ni ellir cysoni hyn â'r cyfeiriad at Dreacastell yn ll. 15. I feddiant Ednyfed ap

Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed Canodd awdl foliant i Hywel ap Goronwy.⁶⁶

Iolo Goch Marwnadodd Dudur Fychan ap Goronwy.⁶⁷ Canodd gerdd i bedwar o feibion Tudur yn datgan ei fwriad i ymweld â hwy yn eu gwahanol gartrefi, yn eu plith Goronwy Fychan ap Tudur.⁶⁸ Marwnadodd Oronwy ac Ednyfed mewn un gerdd.⁶⁹ Cywyddau yw'r rhain i gyd, sy'n dangos nad ceidwadwyr di-ildio oedd y gwŷr hyn o bell ffordd, er na chadwyd cywyddau iddynt gan Ruffudd ap Maredudd.

Sefnyn Ceir ganddo awdl foliant i Oronwy Fychan a'i wraig Myfanwy.⁷⁰

Rhisierdyn Canodd awdl foliant i Oronwy Fychan ac un arall i'w wraig Myfanwy. Dryll yn unig a gadwyd o'i farwnad i Oronwy.⁷¹

Gruffudd ap Gweflyn Canodd gywydd marwnad i Oronwy Fychan.⁷²

Manylir isod am yr aelodau o'r teulu y canodd Gruffudd ap Maredudd iddynt.

Hywel ap Goronwy

Yn ôl stent Môn, yr oedd Hywel yn gyd-berchen gyda'i frawd Tudur Fychan ar diroedd helaeth ym Môn yn 1352. Dalient hanner tref Penmynydd, y cyfan o Drecastell a rhan o dref Erddreiniog, i gyd yn Nindaethwy.⁷³ Yr oedd gan y brodyr diroedd yn Arllechwedd yn sir Gaernarfon hefyd, sef Gafael Gronwy ab Eden a hanner Gafael Cennyn yn nhref Cororion,⁷⁴ ac yn ogystal yng Ngheredigion, lle y dalient draean o westfa mewn tair tref, sef Cellan (cwmwd Mebwynion), Rhydonnen (cwmwd Perfedd) a Llechweddwlwyfain (cwmwd y Creuddyn).⁷⁵ Yn ôl yr *inquisitio post mortem*, sef yr archwiliad o diroedd ei dad yn sir Aberteifi a gynhaliwyd yn 1332, yr oedd Hywel a'i frodyr yn ddigon hen i'w hetifeddu.⁷⁶ Y mae dogfennau swyddogol o'r 1340au yn dangos mai clerigwr oedd Hywel ac yr oedd yn archddiacon Môn yn 1357, swydd a ddaliodd hyd at ei farwolaeth.⁷⁷

Tudur Fychan y daeth Trecastell, nid i'w frawd, gw. isod.

⁶⁶ GGDT cerdd 10. Efallai iddi gael ei chanu yn weddol gynnar yng ngyrfa Hywel: sonnir ynddi am farwolaeth ei dad yn 1331 (ll. 8) ond awgrymir bod ei fam yn fyw o hyd (ll. 11).

⁶⁷ GIG 16–18 (cerdd IV).

⁶⁸ *Ib.* 22–4 (cerdd V).

⁶⁹ *Ib.* 28–30 (cerdd VI).

⁷⁰ GSRh cerdd 3.

⁷¹ *Ib.* cerddi 4 a 5; gw. *ib.* td. 49 am y dryll.

⁷² Golygwyd y cywydd hwn gan A. Cynfael Lake, 'Marwnad Goronwy ap Tudur o Fôn', B xxxix (1992), 80–8.

⁷³ AWH 182–3, 189–90; A.D. Carr, 'The Extent of Anglesey', 235, 245; Rec C 73, 77.

⁷⁴ AWH *l.c.*; Rec C 12–13.

⁷⁵ Gw. R.A. Griffiths: PW i, 9–10.

⁷⁶ AWH 190.

⁷⁷ *Ib.* 192.

Cadarnhawyd penodiad ei olynydd i'r swydd gan y Pab yn 1368, a nodir bod Hywel wedi marw ddwy flynedd ynghynt. Dyna, felly, sefydlu dyddiad marwolaeth Hywel ap Goronwy yn 1366.

Y mae Glyn Roberts wedi dadlau'n argyhoeddiadol fod Hywel yn hŷn na Thudur ac mai Hywel oedd 'the moving spirit in the partnership'.⁷⁸ Y mae'n amlwg ei fod yn wŷr blaenllaw yn ei ddydd, fel y dengys yr helynt yn 1345 ynglŷn â llofruddiaeth Henry de Shaldeford, un o swyddogion y Goron.⁷⁹ Credai'r awdurdodau mai Tudur ap Goronwy a arweiniodd y fintai o wŷr arfog a ymosododd ar Shaldeford ar ei ffordd rhwng Dinbych a Chaernarfon, ond mai Hywel a oedd y tu ôl i'r cynllwyn. Aethpwyd mor bell â charcharu Hywel yn Launceston, Cernyw, er mwyn ei gadw rhag cyfathrebu ag eraill yng Ngwynedd. Eto, nid ymddengys iddo ddiodeff unrhyw gosb hirdymor; yr oedd yn meddiannu ei diroedd ym Môn yn 1348.

Canmolodd y bardd Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed wychder llys Hywel a'r croeso cynnes a estynnid i'r beirdd yno.⁸⁰ Diddorol yw nodi bod yr un pwyslais ar ysblander y llys yn awdl Gruffudd ap Maredudd ag sydd yng ngherdd Gruffudd Fychan. Os yw Gruffudd Fychan yn cyfeirio at lys penodol, nid yw'n ei enwi, ond sonia Gruffudd ap Maredudd am [*T*]refnant winllys (1.3n). Ni wyddys am unrhyw lys o'r enw Trefnant ym meddiant y Tuduriaid ac felly'r tebyg yw ei fod wedi dod i ran Hywel yn rhinwedd ei swydd fel archddiacon Môn. Yr oedd trefgordd o'r enw hwn ym mhlwyf Llanddaniel-fab yng nghwmwd Menai, ac ategir y dyb mai dyna leoliad y llys a grybwyllir yng ngherdd Gruffudd ap Maredudd gan y ffaith fod y dref honno ym meddiant esgob Bangor.⁸¹ Dichon i'r archddiacon dderbyn yr hawl i gynnal llys yno, ac y mae'n werth cofio bod Goronwy Fychan ap Tudur, nai Hywel, yn gwasanaethu fel stiward tiroedd yr esgobaeth ym Môn pan fu farw yn 1382. Awgryma un o'r dogfennau a gysylltir â helynt Shaldeford fod gan Hywel gartref yn sir Gaernarfon hefyd, o bosibl yn y lle o'r enw Brynbyrddau a grybwyllir gan Ruffudd yn ei farwnad i Dudur ap Goronwy.⁸²

Claddwyd Hywel yn eglwys tŷ'r Brodyr Duon ym Mangor, yn ôl cofnod o'r unfed ganrif ar bymtheg yn llaw Gruffudd Hiraethog.⁸³ Cadarnheir hyn yn y farwnad:

⁷⁸ *Ib.* 193.

⁷⁹ Crynhoir yr ychydig ffeithiau a wyddys am hyn yn *ib.* 193–7. Ceir casgliad o ddogfennau yn ymwneud â'r achos yn *A Calendar of Ancient Correspondence Concerning Wales*, ed. J.G. Edwards (Cardiff, 1935), 227–35.

⁸⁰ GSRh cerdd 10 *passim*.

⁸¹ WATU 209; T. Jones Pierce, *Medieval Welsh Society: Selected Essays*, ed. J. Beverley Smith (Cardiff, 1972), 41.

⁸² Gw. AWH 194; J.G. Edwards, *op.cit.* 232.

⁸³ Gw. AWH 214.

O gymell Hirerw gem alloriau.⁸⁴

Hirerw yw hen enw Hirael, y rhan o'r dref y safai tŷ'r brodyr ynddi. Yn ôl Glyn Roberts, yr oedd cysylltiad traddodiadol rhwng y Tuduriaid â'r tŷ hwn a dichon i Dudur Hen, taid Hywel, gyfrannu'n helaeth at y gwaith aildeiladu arno a oedd ar y gweill oddeutu 1293.⁸⁵

Tudur Fychan ap Goronwy

Rhestrwyd uchod y tiroedd a ddaliai Tudur Fychan ar y cyd â'i frawd Hywel. Fel y dywedwyd eisoes, yr oedd ef, fel Hywel, mewn llawn oed pan fu farw eu tad yn 1331. Daliodd swydd rhaglaw Dindaethwy o 1336 ymlaen ac efallai tan ei farwolaeth.⁸⁶ Fel ei frawd, bu'n gysylltiedig â'r anhrefn yn y Dywysogaeth yn y pedwardegau a chredai'r awdurdodau, fel y nodwyd uchod, mai efe a arweiniodd yr ymosodiad marwol ar Henry de Shaldeford. Yn sgil hynny, treuliodd ysbaid fel carcharor yng Nghaer ac awgryma ei absenoldeb yn ystod yr archwiliad *Quo Warranto* yn 1348, pan atebodd Hywel drostynt ill dau, ei fod yn y carchar bryd hynny.⁸⁷ Eto, y mae'n rhaid ei fod wedi ei ryddhau erbyn amser cynnal stent Môn a Chaernarfon yn 1352 gan fod enwau'r ddau frawd yn ymddangos ynddi.

Ni wyddys fawr mwy am Dudur ac eithrio iddo farw yn 1367. Awgryma Gruffudd ap Maredudd ei fod yn trigo yn Nhre Castell (3.18) ac ym Mhenmynydd (3.110), ond crybwylla hefyd Rydonnen a Brynbyrddau (3.174, 186). Y mae Iolo Goch hefyd yn sôn am Frynbyrddau,⁸⁸ ond dywed yn benodol fod Tudur wedi byw ym Mhenmynydd.⁸⁹ Y mae'n bosibl fod Tudur wedi ymladd dramor, efallai yn Ffrainc, gw. cerdd 2 isod.

Claddwyd Tudur fel ei frawd yn eglwys tŷ'r Brodyr Duon ym Mangor.⁹⁰ Dyma ddisgrifiad Gruffudd ap Maredudd o'r lle:

Neud côr mynor maen, glas gwas gwisg ddurgaen,
Is grudd glo gro graen ger taen toniar.⁹¹

Ym mur yr eglwys y rhoddwyd ei gorff yn ôl Gruffudd Hiraethog a chadarnheir hyn gan Ruffudd ap Maredudd.⁹²

⁸⁴ 1.52n.

⁸⁵ AWH 188, 214, 227–8.

⁸⁶ MAng 202

⁸⁷ AWH 195.

⁸⁸ GIG 16 (IV.29). Llwyddodd Glyn Roberts i gysylltu Brynbyrddau â thiroedd y brodyr yng Nghororion, Arllechwedd, gw. 'Brynbyrddau', B xv (1952–4), 120–1. Y mae'r safle bellach dan chwarel y Penrhyn ym Methesda (cyfeiriad map SH 622659); diolchir i'r Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd am yr wybodaeth hon.

⁸⁹ GIG 23 (V.47–50), 28 (VI.1–6).

⁹⁰ AWH 214. Cf. 3.221 *Aml uwch gran o'i hynt Fangor*.

⁹¹ Isod 3.43–4.

⁹² Isod 3.184n.

Goronwy Fychan ap Tudur

Ni adawodd Hywel ap Goronwy unrhyw etifedd ac aeth holl diroedd y brodyr yn y Gogledd i feibion Tudur Fychan, sef Goronwy, Ednyfed, Rhys, Gwilym a Maredudd. Yn ôl Glyn Roberts, collwyd y tiroedd yng Ngheredigion rywsut, er y dylid nodi bod Iolo Goch yn parhau i alw Goronwy'n *Cellan iôr*.⁹³ Yn ei gywydd i'r brodyr ynghyd, dywed Iolo wrthym b'le yr oeddynt wedi ymgartrefu. Trigai Goronwy, y brawd hynaf yn ôl pob tebyg, ym Mhenmynydd; Ednyfed yn Nhre Castell; Rhys yn Erddreiniog; a Gwilym yng Nghlorach yng nghwmwd Twrcelyn. Ni wyddys b'le yr oedd tiroedd Maredudd a'r tebyg yw ei fod yn rhy ifanc ar adeg cyfansoddi'r cywydd hwn i gael ei grybwyll fel tîrfeddiannwr yn yr un modd â'i frodyr. Dichon i'r tiroedd yn sir Gaernarfon fynd i ddwylo Goronwy hefyd, oherwydd geilw Gruffudd ap Maredudd ef yn *llyw Brynbyrddau* a *Colofn osgorddfawr llawr Arllechwedd*.⁹⁴ Aethant yn ddiamau i Wilym ap Gruffudd (*ob.* 1431), disgynnydd i un arall o feibion Ednyfed Fychan, pan briododd hwnnw â merch Goronwy, a ffurfiasant gnewyllyn ystad enwog y Penrhyn. Dengys Glyn Roberts yn ddigon argyhoeddiadol fod Gafael Gronwy ab Eden yn cyfateb i Barc y Penrhyn.⁹⁵ Yr oedd tir yn Ninsylwy Rys hefyd yn nwylo Goronwy pan fu farw, ond ni chyfeiria Gruffudd ap Maredudd at y lle hwnnw.⁹⁶

Yr oedd Goronwy Fychan ap Tudur yn wîr o bwys mawr ym mywyd cyhoeddus y Dywysogaeth a bu'n uchel yn ffafr y brenin. Daliai swydd Fforestydd Eryri ac yr oedd yn stiward tiroedd esgob Bangor ym Môn. Fe'i penodwyd ychydig ddyddiau cyn iddo farw yn gwnstabl Castell Biwmares, anrhydedd eithriadol i Gymro yn yr oes honno.⁹⁷ Ymfrostia Gruffudd ap Maredudd a'r beirdd eraill yn ei gampau mewn rhyfeloedd yn Ffrainc.⁹⁸ Y mae nifer y cerddi moliant a marwnad iddo sydd ar glawr yn dangos yn amlwg fod ei lys yn ganolfan nawdd heb ei hail i feirdd y cyfnod.

Bu farw Goronwy ap Tudur drwy foddï yn swydd Gaint ar 22 Mawrth 1382. Ni wyddys rhagor na'r ffaith foel ei hun, ond gan fod Iolo Goch yn marwnadu ei frawd Ednyfed ar y cyd ag ef, y mae'n bosibl fod y ddau wedi marw ar yr un achlysur. Awgryma Gruffudd ap Maredudd ac Iolo Goch fod Goronwy wedi boddi mewn pwll yn hytrach nag afon, ac yn sicr, nid ar lan y môr y digwyddodd, oherwydd mynega Iolo Goch syndod *nad* yn y Sianel y bu farw.⁹⁹ Ar sail y diffyg cyfeiriadau yn y cerddi at ran unrhyw un arall

⁹³ GIG 29 (VI.67).

⁹⁴ Isod 4.52, 6.46. Cf. hefyd GSRh 3.53–4 *Rhed eurged ergyd tros Wynedd, / 'Rhyd gwynfyd gwanfardd, Arllechwedd* (Sefnyn i Oronwy).

⁹⁵ AWH 207–9.

⁹⁶ *Ib.* 200. Cadarnheir hyn gan Sefnyn a Rhisieryn, gw. GSRh 3.30 a 4.124. Awgryma Sefnyn ei fod yn dal tir yng Ngafrogwy hefyd, gw. *ib.* 3.32n.

⁹⁷ AWH 200.

⁹⁸ *Ib.* 199–200; isod 7.74; GSRh 4.56 (Rhisieryn); GLIG 5.77.

⁹⁹ GIG 30 (VI.79–82).

yn y digwyddiad, gallwn gymryd mai damwain ydoedd. Y mae Llywelyn Goch fel petai'n beio'r tywydd, os llythrennol yw ergyd y gair *dihinedd*:

Achwyn gwn fal brwyn brenhinedd—foloch,
Och Loegr wineugoch, wenwyn agwedd,
I'th ddifrod arnam â'th ddyfredd—a'th wg
A'th ddyhuno drwg a'th ddihinedd.¹⁰⁰

Yn wahanol i'r genhedlaeth flaenorol, ni chladdwyd Goronwy ym Mangor. Aethpwyd ag ef yn hytrach i Lan-faes lle yr oedd gan y Brodyr Llwydion dŷ. Awgryma Glyn Roberts i'r cysylltiad rhwng y Brodyr Duon a llinach Penmynydd gael ei dorri yn sgil trosglwyddo'r tiroedd yn Arllechwedd a ffiniai ag ystadau Brodyr Duon Bangor i Wylm ap Gruffudd.¹⁰¹ Sonia Gruffudd ap Maredudd am gladdu Goronwy yn eglwys brodyr Llan-faes:

Rhoed yn ael (rhodiwn alar)
Menai mywn rhwym bedd mynor ...
Câr glyw, llyw llys Benmynydd,
Côr brodyr troednoeth a'i cudd.¹⁰²

Disgrifia Iolo Goch yr orymdaith drist a aeth yr holl ffordd o dde Lloegr i ogledd-orllewin Cymru:

A'i arwain ar elorwydd
O Loegr i Fôn, chwyl garw fydd,
O Gaer Ludd, hen dreffrud draw,
I gwr Môn, goror Manaw.
Ni ddoeth at Frawd llednoeth Llwyd
I'w briddo—wb o'r breuddwyd!—
I lawr Llanfaes elorllwyth
Cyfenw gorff, bu cyfa'r gŵyth.¹⁰³

Gellir gweld y beddrod marmor ysblennydd a ddisgrifir gan y beirdd o hyd, er nad erys yn ei safle gwreiddiol. Ar ôl diddymiad y tai crefydd, fe'i symudwyd i eglwys plwyf Penmynydd.¹⁰⁴ Y mae arno ddelw o Oronwy wedi ei wisgo fel marchog ac wrth ei ochr gorwedd delw o'i wraig Myfanwy.

Noddwyr eraill

Nid oes rhaid ond crybwyll noddwyr eraill Gruffudd yma: cânt y sylw priodol yn y drydedd gyfrol. Yr oedd Hywel ap Gruffudd o Eifionydd, fel y

¹⁰⁰ GLIG 5.57–60.

¹⁰¹ AWH 214.

¹⁰² 7.67–8, 75–6.

¹⁰³ GIG 30 (VI.87–94).

¹⁰⁴ Ceir disgrifiad ohono yn RCAHM (Anglesey) 129–30 yn ogystal â llun (rhif 85).

dywedwyd uchod, yn perthyn o bell i'r Tuduriaid ac yn ŵr amlwg yn y rhyfeloedd yn Ffrainc. Y mae'n bosibl ei fod wedi ymladd ochr yn ochr â Goronwy ap Tudur a gwelir cysylltiad arall rhyngddynt yn y ffaith eu bod ill dau wedi rhoi nawdd i Iolo Goch a Rhisiertyn. Ni ellir ond dyfalu ar gais pwy y cyfansoddwyd yr awdl i Owain ap Tomas ap Rhodri, ond y mae'n dra thebygol fod a wnelo'r Tuduriaid rywsut â hi.¹⁰⁵ Ni wyddys pwy oedd Gwenhwyfar, y ferch a farwnadodd Gruffudd, ond deuai o blwyf sy'n ffinio â Phenmynydd. Aelodau o deuluoedd uchelwrol Môn oedd gwrthrychau'r cerddi eraill i ferched. Canodd Gruffudd doreth o ganu crefyddol hefyd. Y mae'r nawdd a gynhaliai'r fath ganu yn yr Oesoedd Canol diweddar yn bwnc o ddi-ddordeb mawr, ond pur anodd yw rhoi unrhyw ateb boddhaol. O gofio bod Hywel ap Goronwy yn glerigwr o bwys ac yn ŵr o ddysg eang (os yw'n ddiogel rhoi coel ar yr hyn a ddywedir yn y canu iddo), yna gall fod ganddo ef ran mewn comisiynu rhai o gerddi crefyddol Gruffudd, ond dyfaliad pur yw hwn. Nid oes rhaid fod pob cerdd grefyddol wedi ei noddi gan unigolyn: gallant fod wedi eu hamcanu at ddefnydd amryw o noddwyr Gruffudd yn ôl y galw, ac y mae rhaid yn ogystal feddwl am ddefosiynau preifat y bardd. Yn ddiamau, y bwlch mwyaf yn ein gwybodaeth am gylch nawdd Gruffudd ap Maredudd yw'r awdl i'r Grog o Gaer. Anodd yw credu y byddai cerdd rwysgfawr o'r fath wedi ei chyfansoddi heb fod arian sylweddol yn cyfnewid dwylo.

Yr awdl i noddwr anhysbys (cerdd 8)

Nid oes pennawd uwchben y gerdd hon yn Llyfr Coch Hergest ac ni cheir ychwaith unrhyw enw priod ynddi a allai ddangos pwy a gyferchir. Gelwir y gwrthrych, yn annelwig ddigon, yn *Llachau Gwynedd a llyw dwy orsedd*. Awgryma'r cyfeiriad at ei glod yn ymestyn mor bell ag Afon Clwyd mai yng Gwynedd Uwch Conwy y dylid chwilio amdano, neu ni fyddai ergyd i'r ddelwedd. Gan fod y rhan fwyaf o ganu mawl Gruffudd ap Maredudd wedi ei gyfansoddi dan nawdd y Tuduriaid, credir mai cynnwys y gerdd yn y gyfrol hon sydd orau, ond ni ellir gwybod i sicrwydd ai un o'r teulu hwnnw a folir ynddi ynteu rhywun arall.¹⁰⁶

Golygiadau blaenorol o waith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd

Prin iawn oedd y golygiadau o waith y Gogynfeirdd diweddar cyn dyfodiad Cyfres Beirdd yr Uchelwyr, ond cafodd Gruffudd ap Maredudd fwy o sylw na'r lleill. Ceir ei waith yn MA² 293–317 a chynhwyswyd ambell ddarn mewn blodeugerddi.¹⁰⁷ Golygwyd ei holl gerddi gan Glenda Jones mewn

¹⁰⁵ Gw. A.D. Carr, *Owen of Wales: The End of the House of Gwynedd* (Cardiff, 1991), 81–4.

¹⁰⁶ Fe'i canwyd i Oronwy ap Tudur, yn ôl Glenda Jones, gw. Gruffudd ap Maredudd: Gw 117, ond ni rydd hi ei rhesymau dros gredu hyn.

¹⁰⁷ OBWV 50–3 (cerddi 38 a 39); BI B XIV 139–46 (cerddi 65–7).

traethawd doethuriaeth,¹⁰⁸ ond at bwrpasau'r gyfres hon penderfynwyd ailolygu'r cyfan.

Y Llawysgrifau

J 111 'Llyfr Coch Hergest'

Yn Llyfr Coch Hergest y cedwir bron y cyfan o waith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd sydd wedi goroesi. Copiwyd y llawysgrif fawr hon oddeutu 1400, neu o leiaf ar ôl 1382,¹⁰⁹ ar gais yr uchelwr diwylliedig Hoppyn ap Tomas o Ynysforgan, ger Abertawe, sir Forgannwg.¹¹⁰ Ysgrifennwyd trwch y llawysgrif gan dri chopiydd ac yn ffodus diogelwyd inni mewn llawysgrif arall enw'r brif law, sef Hywel Fychan ap Hywel Goch o Fuellt.¹¹¹ O'r llawiau eraill, ni chyfrannodd llaw 1 at gopiö gwaith Gruffudd ap Maredudd, ond y mae canran o ganu'r bardd yn y drydedd law. Gwelir y llaw olaf hon yn ogystal yn Pen 32 (y Llyfr Teg), ac fe'i gelwir felly yn 'llaw Pen 32'.¹¹²

Y bwriad y tu ôl i'r Llyfr Coch, fel y dywed Daniel Huws, oedd casglu ynghyd flodeugerdd o lenyddiaeth Gymraeg o bob cyfnod hyd at oes Hoppyn ei hun ac o bob *genre* llenyddol, ar wahân i destunau rhyddiaith gyfreithiol a chrefyddol a cherddi ar fesur cywydd.¹¹³ Neilltuwyd rhan olaf y llyfr fel y cedwir ef inni heddiw, sef colofnau 1143–1442, ar gyfer canu'r Gogynfeirdd. Y mae colofnau 1143–93 yn cynnwys casgliad o gerddi crefyddol Beirdd y Tywysogion a beirdd dienw o'r un cyfnod neu gyfnod cynharach, i gyd yn llaw Hywel Fychan. Yna, yng ngholofn 1194, dechreuodd Hywel godi gwaith Gruffudd ap Maredudd. Y mae'r bwlch mawr yng ngholofn 1193 yn awgrymu ei fod wedi ceisio cadw gwaith Gruffudd ychydig ar wahân i'r cerddi o'r blaen, ond heb newid cywair: canu crefyddol Gruffudd sy'n dod gyntaf ac yn llenwi colofnau 1194–1202. Y mae bwlch bach ar waelod colofn 1202, yna daw cerddi secwlar Gruffudd (col. 1203–12), i gyd i'r Tuduriaid, ac mewn trefn gronolegol yn ôl pob tebyg. Cynnwys colofnau 1213–20 ragor o'i ganu crefyddol, ond yn y canol y mae awdl fawl i noddwr anhysbys sydd efallai'n anghyflawn (cerdd 8). Y mae, felly, floc digon swmpus o gerddi Gruffudd ap Maredudd yn cyflwyno

¹⁰⁸ Gruffudd ap Maredudd: Gw.

¹⁰⁹ Gw. MWM 82.

¹¹⁰ Am Hoppyn, gw. Christine James, '“Llwyr Wybodau, Llên a Llyfrau”': Hoppyn ap Tomas a'r Traddodiad Llenyddol Cymraeg' yn *Cwm Tawe*, gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul, 1993), 4–44.

¹¹¹ Dadansoddwyd llawiau'r Llyfr Coch gan G. Charles-Edwards, gw. 'The Scribes of the Red Book of Hergest', *Cylchg LIGC* xxi (1980), 246–56.

¹¹² Y mae G. Charles-Edwards yn gwahaniaethu rhwng llaw Pen 32 a llaw arall debyg yn y Llyfr Coch, gw. *art.cit.* 256, ond yma dilynir barn D. Huws mai'r un llaw yw'r rhain, gw. 'Llyfr Coch Hergest', *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol*, gol. Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston, Jenny Rowland (i ymddangos).

¹¹³ MWM 82.

gwaith Gogynfeirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn y Llyfr Coch. Dychwelodd Hywel Fychan at waith Gruffudd yng ngholofnau 1315–29. Copïodd ‘Awdl Foliant Goronwy Fychan ap Tudur’ (cerdd 4), ‘Marwnad Gwenhwyfar’ (GGMD iii, cerdd 3), ‘Englynion Marwnad Goronwy Fychan ap Tudur’ (cerdd 7), y fersiwn hir o ‘Englynion i Oronwy Fychan ap Tudur pan oedd yn glaf’ (cerdd 5) a dynaid o gerddi eraill. Gadawodd fwllch ac yna cynullodd ganu dychan Gruffudd ap Maredudd ynghyd yng ngholofnau 1335–6. Gyda’r cerddi hyn y daeth ei gyfraniad ef at godi gwaith Gruffudd i ben. Ar ôl i Hywel orffen, ychwanegwyd rhai o gerddi Gruffudd gan law Pen 32. Saif un (cerdd 6 isod) ar wahân yn 1230–1 ar ôl gwaith Gwilym Ddu o Arfon. Gadawyd gweddill colofnau 1231–2 yn wag. Llaw Pen 32 hefyd a gopiodd yr awdl i Owain ap Tomas ap Rhodri yng ngholofnau 1313–14 (GGMD iii, cerdd 2), sef o flaen yr ail bloc o gerddi Gruffudd ap Maredudd. Ceir rhagor o gerddi Gruffudd yn y llaw hon yng ngholofnau 1329–34, sef yn y bwlch a adawsai Hywel Fychan yng nghanol gwaith ein bardd. Cerddi crefyddol yw’r rhain i gyd, ar wahân i gopi arall o gerdd 6. Y mae’n eglur fod llaw Pen 32 yn gweithio ar ôl Hywel Fychan oherwydd bu raid iddo droi at ysgrifen fân er mwyn gallu cynnwys y gerdd hon yn y gofod a oedd ar gael.¹¹⁴ O ran cerddi’r gyfrol bresennol felly, copiwyd pob cerdd ond cerdd 6 (y ddau gopi ohoni) gan Hywel Fychan.

Yn ddiamau, y cwestiynau mwyaf dyrys ynglŷn â’r deunydd yn y llawysgrif yw paham y ceir dau gopi o ‘Farwnad Goronwy Fychan ap Tudur’ (cerdd 6) ac yn enwedig, paham y ceir dau fersiwn gwahanol iawn o’r englynion a ganodd Gruffudd i Oronwy ap Tudur pan oedd yn glaf (cerdd 5). Nid anwybodaeth y copiŵyr am waith ei gilydd sy’n cyfrif am hyn gan mai llaw Pen 32 a gododd y ddau gopi o’r farwnad a Hywel Fychan a gododd y ddau fersiwn o’r englynion. Awgryma’r ffaith fod dau bloc o ganu Gruffudd yn y llawysgrif fod mwy nag un ffynhonnell wedi eu defnyddio ar gyfer ei waith a bod y copiŵyr wedi dewis cynnwys dau fersiwn o’r cerddi hyn. Fodd bynnag, nid yw’r gwahaniaethau rhwng darlleniadau’r testunau yn fawr iawn yn achos y farwnad, ac awgryma hyn fod perthynas agos rhwng y ffynonellau, os oedd mwy nag un ohonynt. Deil hyn yn wir am ddarlleniadau’r ddau destun o’r englynion. Ar y llaw arall, y mae trefn a hyd y gyfres o englynion yn dra gwahanol yn y ddau gopi. Nid cyd-ddigwyddiad ydyw fod y caniadau wedi’u trefnu mor gyson yn ôl eu hyd yn yr ail gopi, ond erys yn aneglur ai’r bardd ei hun ynteu rhyw gopiwydd a oedd yn gyfrifol am hyn.¹¹⁵

Llawysgrifau diweddarach

Llyfr Coch Hergest yw ffynhonnell uniongyrchol neu anuniongyrchol yr

¹¹⁴ Gw. D. Huws yn ‘Llyfr Coch Hergest’, *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol* (i ymddangos).

¹¹⁵ Gw. y nodiadau cefndir i gerddi 5 a 6 isod am ragor o fanylion.

holl gopiau diweddarach o'r cerddi a olygir yn y gyfrol hon. Gan hynny, nid oes rhaid ystyried y darlleniadau amrywiol ynddynt ar gyfer y golygiad hwn. Dylid nodi, fodd bynnag, fod Siôn Dafydd Rhys yn Pen 118 yn cywiro ei destun ar adegau a bod y Dr John Davies, Mallwyd, wedi mabwysiadu'r cywiriadau hyn yn ei fersiwn yntau, sef LIGC 4973B.¹¹⁶ Yn ddiweddarach corfforwyd nifer o'r cywiriadau hyn yn MA² a dyma ffynhonnell llawer o'r diwygiadau a awgrymir gan J. Lloyd-Jones yn G ac a dderbynnir yn y golygiad presennol.

Dilysrwydd y Cerddi

Ni chyfyd llawer o broblemau ynglŷn â dilysrwydd cerddi Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd. Y mae bron pob un ohonynt naill ai wedi ei phriodoli iddo yn y brif lawysgrif neu ynteu'n digwydd mewn cyd-destun sy'n awgrymu'n gryf mai ef yw'r awdur: hynny yw, y maent yn rhan o gyfres o gerddi sy'n dilyn cerdd a briodolir iddo. O'r cerddi yn y gyfrol hon, priodolir 2, 4 a 6 (ddwywaith yn achos yr olaf) i Ruffudd yn y Llyfr Coch a digwydd y cerddi eraill i gyd mewn cyd-destun sy'n cadarnhau ei awduriaeth ef. Gall defnydd copiŵyr y Llyfr Coch o benawdau fod braidd yn anghyson. Ambell waith, ceir pennawd gyda phob caniad mewn cerdd hir;¹¹⁷ dro arall, gwelir rhes o gerddi annibynnol a phennawd uwchben y gyntaf yn unig.¹¹⁸ Bernir yn gyffredin fod dalgyrch pob pennawd yn ymestyn hyd at y pennawd nesaf, oni bai fod rheswm arbennig sy'n awgrymu'n wahanol.

¹¹⁶ Gw. GGrG 40–1 lle yr awgrymir bod copi Dr John Davies o gerdd grefyddol gan Iorwerth ab y Cyriog yn LIGC 4973B yn tarddu o Pen 118 yn hytrach nag yn uniongyrchol o'r Llyfr Coch. Gellir cadarnhau hyn yn achos y cerddi yn y gyfrol bresennol hefyd.

¹¹⁷ E.e. gyda Chanu Tysilio Cynddelw Brydydd Mawr yng ngholofnau 1165–9.

¹¹⁸ Dyna'r sefyllfa yng ngwaith Casnodyn yng ngholofnau 1233–47.

1

Marwnad Hywel ap Goronwy, archddiacon Môn

- Gwelais lewddoeth hael, gwiwlwys wleddau,
 A'i loywfeirdd yn cael ei alafau
 Yn Nhrefnant winllys, yn nhrefnau—clodfawr,
 4 Tra ydoedd 'y ngawr, cyn trai oedau;
 A chynadlu beirdd â chain odlau,
 A chenedloedd ysb o'i chynadlau,
 (A chwyn udlef wyf, och, yn nadlau—lid)
 8 A chael a fynnid, a choelfeiniau,
 A gwŷr ieuaing beilch a gwaryau,
 A gwir awdur beirdd, a gwirodau,
 A gwâr gwypaf clod mywn gwir gampau—Nudd,
 12 Arail eurfudd, Eirioel arfau,
 A rhoddi yn ymwng rhuddion emau,
 A rhydd orchwylion Rhydderch heiliau,
 A rheadr o win ynghylch rhiau—hydr,
 16 Mywn aur a gwydr muner gwawdau,
 A chyrrd adeiniog a cherdd dannau
 Uwch ei neuadd deg, a chyneuau,
 A chain addwyn walch â chyneddfau—heirdd,
 20 A chyfeddach beirdd, och o'i faddau!
 Echwyn yw a dyf â chwyn a dau,
 Ochain edyrn bron ucheneidau;
 Achos galar iôr ni chwsg golau—gnif,
 24 Llefain annigrif llif 'y nagrau.
 Uchel roddaf (wyf achul ruddiau)
 Och ar ddaear, Naf, uwch eurdyau;
 Echwyn girad fu, och, un gorau—Iôn,
 28 Echwng hoywrym Môn a'i chynghorau:
 Echyngodd ddeigr bardd uwch ei enau,
 Och anodd yn ddig gyd â chwynau;
 Echyngodd ym boen a cheingiau—hiraeth:
 32 Och yngod a wnaeth anwych angau!
 Iawn alarus wyf, ynial oriau,
 Un oleurwydd trist yn noluriau
 Am oleufryd Cadw, aml ei lyfrau—da,
 36 Am eiriau Beda, mawr wybodau.

- Am giried a mawl, am gân nid mau,
 Am gariad Gwynedd a'i ragorau;
 40 Am guddio Hywel y'm goddau—tramgwydd,
 Am gwyddo f'arglwydd, rhoi gwaedd fawrglau.
 Trafaelodd fy mryd trwy ofalau,
 Treio buarth clod, Un Tri biau;
 44 Trwm a ddolur fydd trameddyliau—câr
 Am lyw ac eurddar amlwg urddau.
 Trimwy yw'r goglais (tramawr giglau
 Tri phenyd galar rhag traphoenau)
 48 No chwerw alaeth bron gan chwarelau—dur,
 Trymfryd ar lafur tromfrwydr lifiau.
 Trech y llidiodd hon, tracholledau,
 Trwy hanner y fron er traheinau
 52 No dryganian fflam i drwy gynnau—dderw
 O gymell Hirerw gem alloriau.
 Trist y gorug Duw trawsteg eiriau
 Tros lawr daear Môn trais lwyr diau,
 56 Trefn hyglood y doeth, trafyn hyglau—nid byw,
 Trwm erysyd yw, trimwy'r eisau.
 Can aeth amlwg iôr (cain ei themlau)
 Lwys gyfoeth Mab Mair, liaws gofau,
 60 Gwae ddaear Wynedd gweddiau—gydfod
 (Gwiw fynnai pob clod), a gwae finnau!
 Er gwyarGrog lain a'r gwayw irgrau
 A raid brynodd ynn rad â breinau,
 64 A'th ddiwarthaf daith, a'th hoyw wyrthau,—Grair,
 O ragor pwyll Mair, Iôr yr eigiau,
 Dwg heb lysiant, Dduw deg ei blasau,
 Wyr i Dewdwr Mawr, aur ei dudiau,
 68 Yn iawn rhydid nef, anian rhadau—llwyr,
 O glod a synnwyr gwlad y seiniau!

Ffynonellau

A—BL Add 14868, 4^v B—BL Add 15001, 155^r C—BL Add 15023, 61^v
 D—Card 4.140, 537 E—J 111, 1204 F—LIGC 1984B [= Pant 15], 18^v
 G—LIGC 4973B, 223^v H—Llst 147, 77 I—Pen 118, 77

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif E, yr hynaf. Codwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o E. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 167–8.

Darlleniadau'r llawysgrif

2 loywueryd. 5 cheinadlu (*i efallai wedi ei dileu*). 11 gwmpas. 12 ar eil. 15 ynghych. 23 gynif. 24 anidrif. 29 echwygha6d (*w a h wedi eu dileu â marciau coch, a phwyntiau dileu o danynt*). 31 achenigyeu. 36 eirie. 54 treislwyr. 57 kainytheimla6. 61 leyn. 63 athiwarthaf. 66 ydedwr.

Teitl

y syr howel uab grony (*gyda nod talfyrru*).

Marwnad Hywel ap Goronwy, archddiacon Môn

- Gwelais ŵr bonheddig dewr a doeth, teilwng a hardd [ei]
 wleddoedd,
 A'i feirdd disglair yn derbyn ei gyfoeth
 Yn llys gwin Trefnant, mewn siambrau clodfawr,
 4 Tra oedd fy arglwydd [yn fyw], cyn diwedd [y] cyfarfodydd;
 Ac ymgynnull beirdd gyda chaneuon hardd,
 A gwesteion [y] cenhedloedd [yn mynd] i'w chyfarfodydd [sef
 Trefnant],
 (A dolurus fy llef [mewn] cwyn ydwyf, och, yn angerdd
 cydgyfarfod)
- 8 A chael beth bynnag a fynnid, a rhoddion,
 A gwŷr ifainc balch a chwaraeon,
 A gwir noddwr beirdd, a diodydd,
 A gwŷr mwyn gwyhaf [ei] glod yng ngwir gampau Nudd,
 12 Gofalu am fudd gwych, arfau Geirioel,
 A rhoi gemau coch yn rhwydd,
 A gwasanaethau parod [megis] gwleddoedd Rhydderch,
 A rhaeadr o win o amgylch arglwydd grymus
 16 Yn llestri aur a gwydr pendefig caneuon moliant,
 A cherddi chwim a cherdd [y] tannau
 Uwchlaw ei neuadd deg, a thanllwythau,
 A phennaeth tirion teg ac iddo gyneddffau hardd,
 20 A chyfeddach beirdd, gwae oherwydd ei goll!
 Galar ydyw [hwn] sy'n tyfu gyda chŵyn a dau [gŵyn],
 Ochneidio aruthr [ag] ochneidiau['r] fron;
 Oherwydd galar am arglwydd nid yw [un] amlwg [ei] boen yn
 cysgu,
- 24 Wylofain anhyfryd yw llif fy nagrau.
 Yn uchel y rhoddaf (yr wyf yn nychlyd [fy] ngruddiau)
 Ochenaïd ar ddaear, [O] Arglwydd, uwchben [y] cartrefi
 ysblennydd;
 Galar tost fu, och, [O] Arglwydd gorau un,
 28 Caethiwo grym bywiog Môn a [ffynhonnell] ei chynghorion:
 Rhwymodd ddagrau bardd uwchben ei enau,
 Ochenaïd annymunol yn chwerw gyda chwynion;
 Rhwymodd [hefyd] boen a gwewyr hiraeth ar fy nghyfer:
 32 Ochenaïd yno a wnaeth [yr] angau anhardd!
 Galarus iawn ydwyf, diffaith yw['r] oriau,
 [Â chyda'r] un amlygrwydd [yr wyf yn] drist mewn gofidion
 Oherwydd [colli] un disglair ei feddwl [megis] Cato, niferus ei
 lyfrau da,

- 36 Oherwydd [colli un a chanddo] eiriau [megis] Beda, mawr [ei]
ddysg.
Oherwydd [colli] haelioni a chlod, oherwydd [colli] cyfaill nad yw
[ef] gennyf [bellach],
Oherwydd [colli] anwylyd Gwynedd a'i rinweddau;
Oherwydd cuddio Hywel fe ddaw tramgwydd imi,
- 40 Oherwydd i'm harglwydd syrthio, rhoi gwaedd uchel iawn [a wnafl].
Dioddefodd fy meddwl oherwydd gofidion,
[Oherwydd] darfod [un a fu'n] gyrchfan [i] foliant, [Duw sy'n] Un
ac [yn] Dri biau [ef bellach];
Poen drom fydd meddyliau hirfaith [ei] gyfaill
- 44 Oherwydd arweinydd ac arglwydd rhagorol disglair [ei] freintiau.
Teirgwaith mwy yw'r clwyf (teimplais yn fawr iawn
Benyd triphlyg galar oherwydd poenau aruthrol)
Na phoenedigaeth greulon [y] fron gan folltau dur,
- 48 Meddwl trist yng nghystudd arfau miniog brwydr ddwys.
Yn drech yr ymwylltiodd hon, colledion enfawr,
Drwy ochr y fron oherwydd pangfeydd eithafol
Na fflam wyllt ei natur drwy danllwyth [o] dderw
- 52 Oherwydd gorfodi[r un a fu megis] gem [i] allorau [i fynd] i
Hirerw [i'w gladdu].
Yn drist y gwnaeth Duw nerthol a theg [Ei] eiriau
Dros glawr daear Môn drais llwyr yn ddiamau,
Trigfan glodforus y gŵr doeth, [yr] arglwydd enwog nad yw'n fyw
[bellach],
- 56 Braw trwm ydyw, teirgwaith mwy yw'r eisiau [ar ei ôl].
Gan fod [yr] arglwydd disglair wedi mynd (hardd yw ei themlau)
I deyrnas hardd Mab Mair, lluosog [yr] atgofion [amdano],
Gwae dir Gwynedd [am gollu un a fu'n] breswylfa [i] weddïau
- 60 (Yn deilwng yr hawliai bob moliant), a gwae finnau!
Er mwyn llafn [y] Groes waedlyd a'r waywffon [ac arni] waed ffres
A brynodd inni ras â breintiau o anghenraid,
A'th daith dra di-fai, a'th wyrthiau gwych, [O] Un annwyl,
- 64 Drwy ragoriaeth doethineb Mair, [O] Arglwydd y lluoedd,
Dwg heb ymwad, [O] Dduw teg ei drigfannau,
Ddisgynnydd Tewdwr Mawr, rhagorol ei diroedd,
I ryddid cyfiawn [y] nef, natur bendithion cyflawn,
- 68 Trwy foliant a doethineb gwlad y seintiau!

Moliant Tudur Fychan ap Goronwy o Dre Castell a Phenmyydd

- Llew glew gleiflym grym, gryd fflemychu,
 Llorf corf cad, ceimiad camon dasgu,
 Llariaidd walch geirfalch, gorfu—abrwysgldyrf,
 4 Llyry byrffyrf briwgyrf, bragad fylchu.
 Llid prid prif yng ngnif, yng ngnaws cyrchu,
 Llyw glyw glwyd ysgwyd, esgar bylu,
 Llyr ofn aer frwysgddofn â'r freisgddu—fronddor,
 8 Llawchfeirdd iôr angor, Eingl dachweddu.
 Llwyd ddarogan Brân i'm brawd, y cu:
 Fab Dyfnwal arial, gâl ddigelu,
 Llwyddiant rhuthr llin Uthr aeth lle bu—Ffrolo,
 12 Llafn gelyngno clo, clod enynnu.
 Llun Rhun gun Gwynedd, fedd fenestru,
 Llyr gedwisg eryr, gad wasgaru,
 Lluiaf wawd tafawd er tyfu—'y myd,
 16 Llunieth dihewyd bryd o brydu.
 Lluwch fflamddur Dudur, dadl ddiblygu,
 Llachar ddâr bâr berth, fawrnerth farnu,
 Llachau glodolau yn glew dalu—gwaith,
 20 Pan fai wyarllaith, pum saith sathru.
 Lleifiad digiliad, galon grynu,
 Llawrodded nodded, Nudd gystadlu,
 Lliwrudd wayw diludd, wiw deulu—Ffyrnfael,
 24 Llawrudd hael diwael, Duw o'i adu!
 Lladwin wrol grair, borthair barthu,
 Llydwawd wawr byrthfawr, beirdd gartrefu,
 Llawn gyflawn hoywddawn llwrw haeddu—o'm brawd,
 28 Ni wnaeth Trindawd ffawd ffordd o'i gablu.
 Tarian llwyth Tewdwr, gŵr o'i garu,
 Tremyniad saethgad, seithgamp Alltu,
 Tŵr gŵr gwRDDblaid graid, grym Carcu—yng nghadoedd,
 32 Tarw ar arw aeroedd, dorfoedd darfu.
 Trystan hir am dir yn ymdaeru,
 Traws maws mawrddrud, clud clod enynnu,
 Terfysg llew dewrddysg, llid arddu—gatgun,
 36 Tarf cun, rhwyf Alun yn rhyfelu.

- Trachwerw ferw fawrdorf, lorf corf coethlu,
 Trychiad bryd gryd grwydr, frwydr fredychu,
 Troches goelfain brain uwch bru—gwyarllif,
 40 Trech yng ngnif no rhif y rhiallu.
 Tryfer cad neirthiad, nerthog allu,
 Trefn hail, rhwysg Huail, rhisg heÿrnblu,
 Treiglawdd clud ddatawdd clod hyd ddeutu—Hafn,
 44 Trafn llwgr â'i liflafn Loegr elyflu.
 Treigl o'm bron annerch serch ddisyrchu,
 Traglew llew lleifiad, gad gymynu,
 Taelraif gwyargnaif, gwayw irgnu—waedlin,
 48 Twrf tarf tân chwefrin, drin dremynu.
 Trwy frys o'i lys lwys (ddwys ddeisyfu!),
 Trwy frawd ei geudawd, trwy ffawd ffynnu,
 Trwy lithio branes, trwy lethu—Northmain,
 52 Trwy lathr arwyrain gain genhiadu,
 Trwy rad mawr Gwawr gwaisg yn braisg brynu,
 Trwy rodd, trwy fodd foes, trwy oes Iesu,
 Trwy aur borthair Mair, Maethlu,—Mihangel,
 56 Pawl, Pedr, Gradifel, y dêl o'i du!

Ffynonellau

A—BL Add 14868, 3^r B—BL Add 15001, 154^r C—BL Add 15023, 60^v
 D—Card 4.140, 536 E—J 111, 1203 F—LIGC 1984B [= Pant 15], 17^r
 G—LIGC 4973B, 222^v H—Llst 147, 75 I—Pen 118, 75

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif E, yr hynaf. Codwyd yr holl gopiâu eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o E. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 167–8.

Darlleniadau'r llawysgrif

4 brigyryf. 5 yngknif. 8 enghyl. 22 lla6 rodet. 26 byrthwa6r. 40 riwallu. 42 heilrwysc. 47 g6aetlin (*a'r g wedi ei dileu o bosibl*). 52 geinhyadv.

Teitl

Gr: uab maredud aecant. y dudyr uab grony (*gyda nod talfyrru*).

Moliant Tudur Fychan ap Goronwy o Dreicastell a Phenmynydd

- Gwron dewr grymus llym ei gleddyf, yn fflamychu [mewn]
 ymladdfa,
 Amddiffynnwr [a] chynheiliad llu, pen-campwr [sy]'n gwreichioni
 [mewn] brwydr,
 Pennaeth mwyn balch ei leferydd, trechodd luoedd enfawr,
 4 [Ar] lwybrau byr a nerthol [o] goesau toredig, yn bylchu byddin.
 [Un a chando] lid costfawr pennaeth mewn brwydr, yn [ei] dull
 [o] ymosod,
 [Un a chando] darian amddiffyn[nol] arweinydd brwydr, yn peri
 i[r] gelyn bylu,
 [Un sy'n peri] ofn [fel] Llŷr [mewn] lladdfa chwyrn ddwys â'r
 llurig braff du,
 8 Arglwydd-gynhaliwr sy'n llochesu beirdd, yn lladd Saeson.
 Rhagarwyddiad cyflawn [fu] Brân i'm brawd, yr un annwyl:
 [Un a chando] ffyrnigrwydd mab Dyfnwal, yn datgelu gelyniaeth,
 [Un a'i] lwyddiant [megis] rhyfelgyrch [yr un o] dras Uthr [a] aeth
 lle y bu Ffrolo,
 12 [Un â] llafn amddiffynnwr sy'n brathu'r gelyn, yn ennyn clod.
 [Un sy'n] llun [o] Run arglwydd Gwynedd, yn darparu medd,
 Pennaeth [a'i] arfwisg [megis] Llŷr, yn gwasgaru byddin,
 Lluniau foliant tafod er mwyn i'm cyfaill annwyl ffynnu,
 16 Darpariaeth ymroddiad dwys [y] meddwl yn sgil barddoni.
 Trowynt yw Tudur fflamiog ei gleddyf, yn datrys ymrafael,
 Arglwydd disglair gwyh [ei] ddieter, yn ceryddu'n nerthol iawn,
 [Un fel] Llachau disglair ei glod yn cynnig brwydr yn ddewr,
 20 Pan fyddai cyflafan waedlyd, yn sathru pymtheg ar hugain [o wŷr].
 Lladdwr digilio, yn peri i elynion grynu,
 Nawdd parod, yn cystadlu â Nudd,
 Gwaywffon gochliw ddi-rwystr, gosgordd wych [fel un] Ffyrnfael,
 24 Lladdwr hael gwyh, [boed] Duw i'w adael [felly]!
 Anwylyd gwrol sy'n heilio gwin, yn cynnig geir[iau] cefnogol,
 Un eang ei byrth [sy'n] Arglwydd [yn derbyn] clod lliaws, yn rhoi
 cartref i feirdd,
 [A chando] rinwedd wych lwyr gyflawn oherwydd ei fod yn
 deilwng yn ôl fy marn,
 28 Ni wnaeth [y] Drindod fendith[iol unrhyw] fodd i'w edliw.
 Amddiffynnwr disgynyddion Tewdwr, gŵr i'w garu,
 Ymosodwr [mewn] brwydr saethau, [un â] saith camp Alltu,
 [Un megis] tŵr [o] ŵr cryf ei fintai [mewn] ymladdfa, [a chando]
 rym Carcu mewn brwydrau,
 32 Tarw yn ben ar fyddinoedd ffyrnig, yn gwasgaru lluoedd.

- [Un fel] Trystan tal yn ymrafael am dir,
 Gormeswr dymunol tra beiddgar, yn ennyn llwyth [o] glod,
 Cynnwrf gwron dewr ei fedr, arweinydd brwydr aruthrol [ei] lid,
 36 Gwasgarwr haid, [un â chanddo] ryfyg Alun yn rhyfela.
 Un mawr ei dorf [mewn] helynt creulon iawn, amddiffynnwr [a]
 chynheiliad llu gwych,
 Lladdwr [a'i] feddwl [ar] helbul ymladdfa, yn twyllo [mewn]
 brwydr,
 Trwythodd [ef] rodd [i] frain [sy'n heidio] ar fron[nau] sy'n arllwys
 gwaed,
 40 Trech na llu mewn brwydr yw'r milwr dethol.
 [Un megis] tryfer [ac] atgyfnerthwr [mewn] brwydr, nerthol [ei]
 rym,
 Trigfan [i] wledd, [un â chanddo] rwysg Huail, [ac] arfwisg [o] blu
 haearn,
 Treiddiodd dadmeriad llwyth [ei] glod hyd ddwy ochr [Afon] Afan,
 44 Arglwydd [sy'n achosi] difrod â'i lafn rhwydd [i] lu enfawr Lloegr.
 Fe lifa o'm bron gyfarchiad [i'r un sy'n] dibrisio tiriondeb,
 Un dewr iawn [a] gwron [a] lladdwr yn trychu [mewn] brwydr,
 Cleddyf taer sy'n eillio'n waedlyd, gwaywffon [sy'n tynnu]
 gwaedlif [o] gnu ffres,
 48 [Un ac iddo] gynnwrf gwasgariad tân gwyllt, yn ymosod [mewn]
 brwydr.
 Ar frys [yn ôl] i'w lys hardd (deisyfu dwys!),
 Trwy fam [ddoeth] ei feddwl, trwy i[w] ffawd ffynnu,
 Trwy borthi haid o frain, trwy orchfygu Normaniaid,
 52 Trwy awdurdodi'n wych foliant disglair,
 Trwy ras mawr [yr] Arglwydd gwych yn prynu'n gadarn,
 Trwy fendith, trwy [Ei] arfer [o ddangos] ewyllys da, trwy fywyd
 Iesu,
 Trwy air cefnogol euraid Mair, Maethlu, Mihangel,
 56 Paul, Pedr, Gradifel, boed iddo ddod i'w [briod] le!

Marwnad Tudur Fychan ap Goronwy o Dreicastell a Phenmynydd

- Troses ym grym Grist, o'i daith faith faengist,
 Trwm eiddilgorff trist, tra meddylgar.
 Treiglawdd cawdd cyffro trwy'r fron hon heno
 4 O fod clod Clydno dan do daear.
 Trist wyf, murnglwyf mawr, trin erwin aerwawr,
 Rhoi glew llew dan llawr, gawr gorddwyar.
 Tost gost gystuddiaw, o boen hoen hebddaw
 8 Y'm daw ffrwd wylaw a phrid alar.
 Treisiwyd Fôn yn faith tros ruthr uthr anrhaith,
 Treisiai bum trisaith mywn gwaith gwyar.
 Trwm wnaeth maeth meithwiw yng ngyrd rhyd a rhiw
 12 Trom aergrwydr frwydr friw â lliw llachar.
 To gro maendo mur a gudd Nudd natur,
 Tudur wayw aergur, wiw a eurgar.
 Terrwyn gwyn brwyn bron, nis cêl naws calon,
 16 Treigl i ofwy hon traglew afar.
 Traws udd Nudd nawell, traul mil hil Hiriell,
 Trafn Tre'rcastell, feddgell fuddgar,
 Trystan glewdan gledd, o'i gaith daith dydwedd
 20 Trist iawn yw Gwynedd, treistwyn gwanar.
 Terfyn dioer oer oedd torf llorf, corf cadoedd,
 Torfoedd aer filioedd awr ufeliar.
 Twrf lledfryd bryd brwyn teiriaith gwaith gwenwyn,
 24 Terfysg mysg mawrgwyn dioerddwyn dewrddar.
 Llew llyw lluorllin, llafn eurdrafn aerdrin,
 A llywiwr byddin cyn llawr byddar.
 Llauer blyngder bloedd o'i ddwyn, cwyn cyhoedd,
 28 Llew oedd Llŷr gedoedd, llurig Odar.
 Llwrw alaeth gaeth gudd llawgrair neddair Nudd,
 Digrawn hywlych grudd, deigr anhalar.
 Llorf oedd Llŷr feiddiad cyn maen caen caead,
 32 Llu blanc, transc tromgad, lluchiad llachar.
 Lluniwyd breuddwyd bryd am ddoeth coeth cerddglyd,
 Llaw drais dasgwr gryd, llwyr drist ysgar.
 Llen gêl, dawel do, a gudd grudd, a gro,
 36 Llwybr cyffro Ffrolo mywn tro trydar.
 Llaur llydwedd, fedd faich, llain llithfrain llwythfraich,
 A llithrwr Brynaich uwch llethr branar,
 Llawir waisg fraisg fraint, llw doeth coeth cywraint,
 40 Llid Gwair, gair Geraint, oedd faint ei fâr.

Neud tost gost gymwyll am goeth doeth didwyll,
 Difrad gad gannwyll, eurbwyll aerbar.
 Neud côr mynor maen, glas gwas gwisg ddurgaen,
 44 Is grudd glo gro graen ger taen toniar.
 Neud mawr awr ochain am lorf cynnorf cain,
 Neud af i lefain, nid wyf lafar;
 Neud dileddf greddf gran dwyn gwawr dan llawr llan,
 48 Nid adafel gwan, neud edifar;
 Neud chwerw herw hynt o'i fardd hardd helynt,
 Neud lletgynt llechynt Llachau ddarpar.
 Ni'm daw dydd llawen na gair gorawen
 52 Na gwên na gwyngen am iôr gwingar.
 Nêr ffêr glewder glyw, nerthog lydwog lyw,
 Ni welaf i'm byw y gyfryw gân.
 Naf nef, nawdd nawcant, a'i rhydd ffydd ffyniant
 56 Gyd ag Edern Sant, trigiant trugar!

Awdur hael eglur haul Ogledd—a lloer,
 Oer yw cwympo dioer campau dewredd:
 Eyr cyrchad cad, cydwedd—Paredur,
 60 Arf Eingl Dudur, dadl ddiomedd.
 Arwydd yw tramgwydd trymgof gyfedd—bron,
 Oer fydd calon don dan ledfrydedd.
 Aruthr gynnygn ddygn ddognedd—o hiraeth,
 64 Aros marfolaeth eurfab maeth medd.
 Iôr ciwdawd hoywffawd orhoffedd—dangnef
 Oedd ef, wendref nef Naf brenhinedd,
 A'i frawd ffydd a fydd fyth yn agwedd—drist;
 68 I drwy giried Crist, Ei drugaredd!
 Annebyg mywn dig dygnedd—uchenaid,
 Nid heb ladd enaid fu'r blwyddynedd.
 Un da iawn, hirddawn, harddedd—llewenydd,
 72 Ddiarw a llonydd oedd erllynedd.
 Aelaw pan fu draw edrywedd—eurdorf
 Y gwnaeth llorf catgorf coetgwn dachwedd.
 Eleni, gwae fi gwiw feuedd—blygu,
 76 Drwg fu dwyn draig llu, Llŷr gymrodedd.
 Nid adwen rhoddi i dan dydwedd—llawr
 Llew glew mor glodfawr, gawr gyfrysedd.
 Neud edyrn tēyrn hyd lan Tuedd—draw
 80 Mal hwn gwynaw, braw breuoledd.
 Neud ydiw heddiw hawdd gymyrredd—cad
 Dan ddôr côr caead, rhad anrhydedd.

- 84 Neud adfoes einioes anwedd—a masarn,
 Neud adfarn cadarn cedol ferthedd;
 Neud udwaedd ei fardd, neud adwedd—cerddawr,
 A hoyw eryrwawr yn hir orwedd;
 88 Neud adfail buail buangledd—yng ngryd,
 Neud adfyd Gwyndyd gwindai sylwedd;
 Neud odfa trofa trafñ canwledd—beirddion,
 Neud atborion Môn, mau gyfannedd,
 92 Neud adwyth balchlwyth bylchlafñ drosedd—Llŷr
 A Thudyr ben gwŷr is gwerydfedd.
 Nêr ffêr ffyrf eurgyrf, aergyrcñ rysedd—glyw,
 Tra fu fyw fy llyw, llaw gyflyedd,
 96 Nid oedd raid o'i blaid, blodau Gwynedd—dud,
 Nac amau golud nac amgeledd.
 Neur aeth trwm hiraeth trwy gymherfedd—bron,
 Y boen i'r galon hon anhunedd;
 Neud myfy, Dduw fry, o ddifroedd—mawr,
 100 A gŵyn dwyn dôr gawr, gwawr gwirionedd.
 Ni'm dorai syrthio (amserthedd—galar),
 Nef ar y ddaear, nifer ddyedd,
 Neu ddyfod trafod (trefñ alltudedd—hir),
 104 Y môr dros y tir, enwir anwedd,
 Neu, Frenin Dewin, diwedd—gorthrymaf
 Tros fradog aeaf, traws Frawd gyhedd,
 Neu ddifa traha, terfyn chwerwedd—garw,
 108 Am eurgarw, ei farw yn ei fawredd.
 Trwm o'i ddwyn yw cwyn; cyn hywedd—farwddydd
 Yn llys Benmynydd oedd rhydd rheufedd,
 Trylew gwarant cant uwch cyntedd—beirddlu,
 112 Gwledig eurswllt fu gwlad a gorsedd,
 Traws iawn ail Meriawn, mawredd—un ofeg,
 Trafn mawrdeg difreg, Dyfr gymyrredd,
 Trefnau aml frodiau, am Lawfrodedd—heirdd,
 116 Diryfyg yw beirdd, a diryfedd!
 Tirion hil beilchion, hwyl balchedd—Cadwr,
 Tarian llwyth Tewdwr, gŵr gorfoledd,
 Torf plymlwyd ysgwyd, osgedd—ardderchog,
 120 Tarf eurog lydwog, fynog fonedd.
 Trwy wyrthiau gorau digaredd—Dudno
 A Beuno, y tyfo ei etifedd;
 Tref Nêr deng nifer, dangnefedd—gadair
 124 A'i pair pefrlwys Grair, Fab Mair a'i medd.

- Arglwydd ddidrist Grist, gwirldist gwarder,
 Eurglawr nef a llawr a lloer loywder,
 Oeraf maith farwdaith fu ar fyrder:
 128 Arwydd yw na'n llwydd llwyr eddyllter.
 Aerdranc llew cadau, parablau pêr,
 Eurdrafn erfai lafn, arf Olifer,
 Aruthr ar unrhuthr anrhaith drymder,
 132 Aros adfail ail Alecsander.
 Och! a barus wyf drwy glwyf glewder
 Fod hyn o ddechryn ail Gwyn Gwarther;
 Uwch eloraidd fryd gryd grymuster,
 136 Echel arw yn farw, fawrair doethder,
 Ucheneidiau mau, Mab Mair uwch sêr,
 A chynudaw glaw gloywdeigr lleufer,
 A chan llewyg trist a chwyn llawer
 140 Achaws traws dreisglud heildud haelder,
 Echwng iôr gwenllys ffyrf emys ffêr,
 A charu gwindai, och o'r gwander!
 Gwnaeth Tudur aerfur arfod lymder
 144 Cyn rhuddglawr llawr llan (ei ran rater!),
 Gwyarllaith trisaith, traws ehofnder,
 Gwayw irlwydd adwydd, Edern gryfder:
 A chad fragad fraisg am waig wychder,
 148 A chamawn yn llawn llid a blyngder,
 A chau hëyrn chwyrn, chwerw naws dicter,
 A chorf torf tîrfawr mywn gawr gyrdd-der,
 A chryd gryd ar grwydr a brwydr bryder,
 152 A chrau Deifr gan frain, crain creulonder,
 A chrair Gwynedd wen yn ben balchder,
 A chrio iddo eiddun ddewrder,
 A chynefin drin am dri amser,
 156 A chynafon glew a chain nifer,
 A chlod a gorfod i'm gwirfalch nêr,
 A chlybod ei waith uwchlaw Aber.
 Dâr o fonedd aml, dewr a funer,
 160 Daered fraisg waig walch, eurfalch arfer,
 Diwraidd ei faendy, dôr addfwynder,
 Dirwy rybudd tost dur orober.
 Deryw Ector nerth diorwacter,
 164 Darfu am ddraig llu llwyr orthrymder;
 Dogn gur poen ddolur pan feddylier,
 Dogn gawdd a'm hudawdd am fy hyder;

- 168 Dihagr oedd glybod ei glod gan glêr,
Dehau ceimiaid brwydr, Duw a'i cymer.
- Aed fy nghwyn echwyn, och, ar gyhoedd,—Fair,
 Farw blodau cenhedloedd;
172 Deryw clod y ciwdodoedd,
 Dôr o hil iôr, dewr hael oedd.
- Aml wylaw glaslaw (glwyslen—a'i mawrgudd)
 Am eurgorf Rhydonnen,
 Emrais barch, am ras berchen
176 Aml deigr a llef, Iôr nef Nen.
- Gwiwdwf iôr, gwae fi dy fod,
 Gwawr gweilch Gwynedd, ym medd mud,
 Durdwrf Cai ar daerdorf cad,
180 Dewrder grym dordor â gryd.
- Galar calon a golwg
 A'm gwna yn drist, Grist ymgrog,
 O'th roi ddoe, mad wythryw ddig,
184 Dan gaen maen mur, Dudur deg.
- Gweinyddoed fy mron gwayw anoddau—trist,
 Treistwyn iôr Brynbyrddau;
 Gwae ei genedl o'r chwedlau,
188 Gwaith tragalar maith yw'r mau.
- Trafn traul ongyr gwÿr, trefn gwawr—doethwlad,
 Trin gyrchiad, Gwriad gawr;
 Treigl i'r fron hon hoed tramawr,
192 Traglew rym llew dan rwym llawr.
- Rhoed dan faen glasgaen glwysgorf heirdd—gedoedd,
 Hardd o giwdod digeirdd,
 Yng nghôr llên, gwên a'm gweheirdd,
196 Ynghudd llysty budd a beirdd.
- Gwan fry yw Cymry cymaŵredd—Dyfr,
 Gwenwyn Deifr ei fflamgledd;
 Gwan llys a llan, gwan Gwynedd,
200 Gwan Môn am iôr gwin a medd.

Rhwydwr didarf brwydr, rhoed ar Dudyr—hael,
 Hwyl Owain neu Fedwyr,
 Gorau eurddraig ac eryr,
 204 Gweryd ni'n gweryd nen gwŷr.

Ponid tost dogngost dynggudd
 Pefrdrafn pâr eurllafn aerlladd?
 Pan Môn am ddraig Penmynydd,
 208 Pencenedl, penaig Gwynedd.

Doeth i blaid eirchiaid erchyll,
 Hir annerch a hwyr ennill,
 Brwydr gwirlafn, trafrn Tre'rcastell,
 212 Brwyn a ddogngwyn o'i ddynggoll.

Rhagorol pob rhyw giried
 Oedd fy arglwydd, udd fawrglod,
 Traws ofyn tir, tra-seifiad,
 216 Tra sefis, cyn trais ofid.

Gwae fi lorf eurgorf, gwawr aegur—cyfarf,
 Gwayw didarf, gwiw Dudur:
 Gwasgu llew, gwas glew gleifddur,
 220 Gwisg haearn gaen ym maen mur.

Aml uwch gran o'i hynt Fangor
 Y'm didyr deigr am Dudur.
 Aelaw ynof ei alar,
 224 Elyn gryd, Alun gryfder.

Ffynonellau

A—BL Add 14868, 6^r B—BL Add 14970, 328^r C—BL Add 15001, 155^v
 D—BL Add 15023, 62^v E—Card 4.140, 540 F—J 111, 1206 G—LIGC
 1984B [= Pant 15], 20^v H—LIGC 4973B, 225^r I—Llst 147, 78 J—Pen
 118, 79

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif F, yr hynaf. Codwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o F. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 167–8.

Darlleniadau'r llawysgrif

11 maeth maeth (*marc dileu drwy'r ail*). meithw (*gyda nod sy'n ymddanos fel i uwchben hw*). 31 beidyat. 37 llem. 43 muner. 97 hiruath. 101 amsered. 106 aea. 109 varw. 110 bennrynyd (*neu efallai bennryuyd*). 111 tryllew. 112 vn. 118 lwyth. 122 beuno ytvo y etiued. 131 ameith. 136 eclel.arwyn var6. 137 man. 140 treisglud. 142 gwarder. 147 amg6isc. 152 acharu. 157 ymg6ir valch. 158 y weith y weith. 169 aer. 185 g6inydoet. 194 digeffird. 198 fflanged. 201 rwydyr. 203 agerir. 210 ahwyr (*gydag c wedi ei hychwanegu uwchben a*). 214 varglwyd. 215 treis viat. 216 trasevis. 220 g6ist (*ond gw. y nodiadau geiriol*). 224 elyngryt.

Teitl

Rhoddir teitl o flaen pob caniad ond yr olaf: y dudyr vab gron6y; y dud (gyda nod i ddangos bod yr enw wedi ei gwtogi); ydudur.; ydud (gyda nod talfyrru eto).

Marwnad Tudur Fychan ap Goronwy o Dre Castell a Phenmynydd

- Rhoddodd Crist grymus imi, oherwydd ei [sc. Tudur] daith i[r]
 arch faen faith [ei pharhad],
 Gorff gwan prudd trist, digalon iawn.
 Treiddiodd gofid [llawn] cynnwrf drwy'r fron hon heno
- 4 O achos fod [un ac iddo] glod Clydno dan orchudd [o] ddaear.
 Yr wyf yn drist, clwyf niweidiol mawr, arglwydd brwydr [a fu'n]
 greulon [mewn] ymladdfa,
 [Oherwydd] gosod dyn dewr [a] gwron dan [y] ddaear, bloedd [o]
 orthrwm.
 Cystuddio poenus [ei] draul, oherwydd poen angerdd [o fod]
 hebddo
- 8 Fe ddaw imi ffrwd [o] wylo a galar costfawr.
 Gorthrechwyd Môn yn faith oherwydd cyrch ysbail aruthrol,
 Fe fyddai [ef] yn gorthrechu cant a phump [o wŷr] mewn brwydr
 waedlyd.
 Yn enbyd yr achosodd [yr un y bu iddo] fagwraeth faith a theilwng
 mewn brwydr [wrth] ryd ac [ar] fryn
- 12 Glwyf brwydr drom [mewn] ymladdgyrch â gwedd ddisglair.
 Y mae gorchudd [o] ro [a] gorchudd carreg mur yn cuddio[r un ac
 iddo] natur Nudd,
 Tudur [a'i] waywffon yn peri poen mewn brwydr, cyfaill dethol
 gwych.
 Cwyn taer trist [y] fron, nid yw natur [y] galon yn ei guddio,
 Treiddia galar am un dewr iawn i ymweld â hon [sef y galon].
- 16 Arglwydd nerthol naw gwaith gwell na Nudd, cynhaliaeth [i] fil [o]
 linach Hiriell,
 Arglwydd Tre Castell, feddgell fendithiol,
 [Un fel] Trystan [a'i] gleddyf [megis] tân ffyrnig, oherwydd ei daith
 gaethiwus i[r] bedd
- 20 Trist iawn yw Gwynedd, [yn sgil] cipio arglwydd drwy drais.
 Diwedd diamau [a] thrist oedd [i] fintai[r] amddiffynnwr,
 cynheiliad byddinoedd,
 Gwreichion brwydr [i] luoedd [o] filoedd [mewn] ymladdfa.
 [Achos] cynnwrf trist meddwl alaethus [i] dair cenedl yw[r]
 weithred chwerw,
- 24 Cynnwrf yn gymysg â galar mawr am gipio'n ddiamau arglwydd
 dewr.
 Gwron [ac] arweinydd campus ei lu, arglwydd rhagorol [a chanddo]
 lafn [mewn] rhyfelgyrch,
 Ac arweinydd byddin cyn [mynd i'r] ddaear fyddar.
 Llauer llid [a] gwaedd oherwydd ei gipio, cwyn cyhoeddus,

- 28 Gwron oedd [yr un a chando] roddion [megis] Llŷr, [a'i] lurig [fel]
 Odar.
 Oherwydd cuddfan gaethiwus [a] thruenus [yr] un annwyl ei law
 [megis] llaw Nudd,
 Llfeiriol [a] llaith iawn yw[’r] rudd, dagrau chwerw.
 Amddiffynnwr oedd [yr] heriwr [megis] Llŷr cyn maen [y]
 gorchudd caeedig,
- 32 Cynheiliad llu, tranc [i] fyddin ormesol, mellteniad llachar.
 Lluniwyd breuddwyd [yn y] meddwl am un doeth gwych [ac]
 enwog mewn cân,
 Gwasgarwr [mewn] brwydr [yn peri] trais [â'i] law, gwahaniad
 hollol drist.
- 36 Llen gêl, gorchudd tawel, sy'n cuddio[’r] rudd, a gro,
 [Un ac iddo] gyrch [llawn] cyffro Ffrollo ar adeg gwrthdaro.
 Arwr byddin, baich [i] fedd yw [bellach], [un ac iddo] lafn a
 ddarparai fwyd i frain drwy nerth ei fraich,
 Ac un sy'n peri i Saeson gwympto uwchben llethr braenar,
 [Un a chando] fraint wych rymus hael, doeth [a] hardd [a]
 pherffaith [ei] lw,
- 40 [Un â'i] addewid [megis] Geraint, llid Gwair oedd maint ei ddieter.
 Y mae sôn enbyd [ei] draul oherwydd un hardd doeth [a] didwyll,
 [Ffynhonnell] disgleirdeb ffyddlon [i] fyddin, achoswr brwydr
 rhagorol ei ddoethineb.
 Y mae [ef] yn [y] gangell farmor faen, gwelw [bellach] yw[’r] llanc
 [ac iddo] arfwig o orchudd dur,
- 44 [Y mae] o dan [ei] rudd glo gro erchyll ger gwasgariad y tonnau.
 Y mae bloedd fawr [o] ochneidio oherwydd amddiffynnwr gwych
 blaen y gad,
 Fe af i wylofain, nid wyf yn huawdl;
 Gofidus yw natur [fy] ngrudd [oherwydd] dwyn arglwydd dan lawr
 eglwys,
- 48 Nid peth y gellir ei adennill yw[’r] un gwan, y mae'n druenus;
 Y mae hynt chwerw [mewn] alltudiaeth i'w fardd [a fu'n] hardd ei
 daith [gynt],
 Trallod yw taith gêl [yr un a'i] fwriad [megis] Llachau.
 Ni ddaw imi ddydd llawen na gair llon
- 52 Na gwên na sirioldeb oherwydd [marw] arglwydd hoff o win.
 Arglwydd cadarn [ac iddo] ddewrder [mewn] brwydr, arweinydd
 nerthol ac iddo fintai,
 Ni welaf yn fy myw y cyfryw gyfaill.
 Bydd Arglwydd [y] nef, nawdd [i] naw cant, yn rhoi iddo lwyddiant
 ffydd
- 56 Gydag Edern Sant, breswylid trugarog!

- Creawdwr urddasol disglair haul [y] Gogledd a[’r] lleuad,
 Trist yw syrthio diamau[’r un a chanddo] gampau dewrder:
 Pennaeth ymosodiad [mewn] brwydr, cymar [i] Beredur,
 60 Tudur [a fu’n] arf [yn erbyn] Saeson, na fyddai’n gwrthod brwydr.
 Arwydd [ddrwg] yw cwymp cyfaill mynwes[ol] trist y cof amdano,
 Trist fydd calon doredig o dan alar.
 Cyflawn fesur o hiraeth am un didostur arswydus [ei] elynion,
 64 Dioddef marwolaeth mab rhagorol magedig [ar] fedd.
 Arglwydd [a’i] dangnefedd [yn destun] ymffrost [i’w] bobl
 ffortunus
 Ydoedd ef, [O] Arglwydd brenhinoedd [a] thrigfan fendigaid [y]
 nef,
 A bydd ei frawd ffydd mewn cyflwr trist am byth;
 68 Trwy haelioni Crist, [boed i Dudur/imi dderbyn] Ei drugaredd!
 Anhygoel yw[’r] ochenaid o dristwch mewn dicter,
 Ni fu’r blynyddoedd heb ladd cyfaill.
 Un da iawn, cyrhaeddbell ei ffafr, [ac iddo] harddwch llawenydd,
 72 Tirion a chwrtais oedd [ef] y llynedd.
 Yn rhwydd pan fu draw gyrch llu rhagorol
 Y gwnaeth [yr] amddiffynnwr [a’r] cynheiliad mewn brwydr laddfa
 [ar gyfer] bleiddiaid.
 Eleni, gwae fi [oherwydd] darostwng [un ac iddo] olud gwych,
 76 Cam fu cipio pennaeth llu, cymar [i] Lŷr.
 Nid wyf yn gyfarwydd â rhoi dan bridd [y] ddaear
 Gwron dewr mor glodfawr, [un a barodd] derfysg [mewn] brwydr.
 Aruthr yw cwyno am arglwydd hyd at lan [Afon] Tweed draw
 80 Fel hwn, dychryn [yn sgil] breuder einioes.
 Heddiw y mae[’r un] rhwydd [ei] rwysg [mewn] brwydr
 Dan ddrws [y] gangell gaeedig, anrhydedd graslon.
 Truenus [bellach] yw bywyd un aruthrol ac [un a fu megis] masarnen,
 84 Di-rym yw[’r] gŵr cadarn hael [ei] gyfoeth,
 Galarus ei waedd yw ei fardd, gwan yw prydydd,
 A phennaeth o arglwydd llawen yn gorwedd am hir;
 Darfodedig yw cyrn yfed [yr] un cyflym ei gleddyf mewn brwydr,
 88 Adfyd pobl Gwynedd yw[’r un y bu ganddo] gyfoeth tai gwin;
 Mewn cuddfan y mae cwrs arglwydd can gwledd [ar gyfer] beirdd,
 Gwehilion yw Môn, fy nhrigfan,
 Mewn aflwydd y mae pobl wych [yr un o] ragoriaeth Llŷr tolcioeg ei lafn
 92 A Thudur bennaeth gwŷr o dan fedd o bridd.
 Arglwydd cadarn cynheiliaid gwych [a] nerthol, gogoniant byddin
 [mewn] ymladdgyrch,
 Tra fu byw fy arglwydd, [a’i] law [yn] warant,
 Nid oedd angen ar ei fintai, y goreuon [o blith] pobl Gwynedd,

- 96 Na phoeni am gyfoeth nac am ymgeledd.
Y mae hiraeth trwm wedi mynd trwy ganol [fy] mron,
Y boen i'r galon hon yw diffyg cwsg;
Myfi, Dduw fry, oherwydd alltudiaeth faith,
- 100 Sy'n galaru am gipio amddiffynnwr [mewn] brwydr, arglwydd
cyfiawnder.
Ni fyddai o bwys gennyf pe syrthiai ([oherwydd] gofid galar)
[Y] nef ar y ddaear, cyni [i] lu,
Neu pe deuai cynnwrf (modd alltudiaeth faith)
- 104 Y môr dros y tir, yn aruthrol o greulon,
Neu, [O] Frenin [a] Dewin, [pe deuai'r] diwedd mwyaf blin
Oherwydd gaeaf twyllodrus, llys [y] Farn nerthol,
Neu ddinistrio balchder, diwedd chwerwder llym,
- 108 Oherwydd arglwydd rhagorol, [yn sgil] ei farwolaeth yn ei
ysblander.
Trwm yw[r] cwyn oherwydd ei gipio; cyn dydd angau [yr] un gwâr
Yn llys Penmynydd yr oedd cyfoeth yn ddiarbed,
Dewr iawn oedd gwarantwr can [gŵr] uwchlaw cyntedd [y] llu o
feirdd,
- 112 Bu'n arglwydd aur ei drysor [dros] wlad a llys,
Un nerthol iawn tebyg i Feirion, [yn] unfryd [ag ef yn ei] ysblander,
Arglwydd di-nam mawr a theg, [ac iddo] rwysg Dyfr,
Cyfresi [o] ddyfarniadau niferus, dynion hardd o gwmpas [un
megis] Llawfrodedd,
- 116 Heb falchder y mae beirdd [bellach], ac nid rhyfedd [yw hynny]!
Un tirion o linach gwŷr gwych, [a'i] hynt [yn llawn] gwychder
Cadwr,
Tarian disgynyddion Tewdwr, gŵr [llawn] gorfoledd,
Tarian llu [mewn] brwydr, [yn] ardderchog [ei] wedd,
- 120 Un a chanddo fintai [ac a fu'n] wasgarwr rhagorol, [o] fonedd
pendefigaidd.
Trwy wyrthiau gorau Tudno di-fai
A Beuno, boed i'w etifedd[ion] ffynnu;
Trigfan Arglwydd [y] deg llu, gorsedd tangnefedd
- 124 A rydd iddo[r] Un annwyl disglair a hardd, Mab Mair a'i
meddianna.

Arglwydd Grist gwynfydedig, cynheiliad ffyddlon trugaredd,
Arglwydd gwiw nef a daear a gloywder y lleuad,
Yn ddisymwth bu[r] daith hir [a] thristaf i farwolaeth:
- 128 Arwydd ydyw na ddaw moethusrwydd llwyr â llwyddiant inni.
Lladdfa gwron byddinoedd, melys [ei] eiriau,
Arglwydd rhagorol gwych [ei] lafn, [megis] arf Olifer,

- 132 Arswydus yw trymder [yr] ysbail [a ddygwyd] mewn un cyrch,
 Dioddef tranc un tebyg i Alecsander.
 Och! a thrist wyf oherwydd clwyf [i un a chanddo] ddewrder
 Fod cymaint o ddychryn [am golli] un tebyg i Wyn Gwarther;
 Uwchlaw[’r un y bu ei] fryd ar lwytho elorau [mewn] brwydr
 [llawn] grymuster,
- 136 [Un megis] Achilles creulon yn farw, lleferydd gwych [yn llawn]
 doethineb,
 Fy rhan yw ochneidiau, Mab Mair uwchben [y] sêr,
 A chynnull glaw dagrau disglair [llawn] goleuni,
 A chan llewyg trist a llawer cwyn
- 140 Oherwydd dygiad ymaith drwy drais yn nerthol [un a’i] haelioni yn
 darparu gwledd ar gyfer gwlad,
 [Ac o achos] caethiwo arglwydd llys rhagorol [a chanddo] feirch
 nerthol cadarn,
 Ac [arglwydd y] cariad [tuag at] dai gwin, och am y gwendid!
 Gwnaeth Tudur [yr] amddiffynnwr mewn brwydr erwinder ergyd
- 144 Cyn caead coch llawr eglwys (bendithied ei ran!),
 Marwolaeth waedlyd un ar hugain [o wŷr], ehofndra nerthol,
 [Megis] gwaywffon fywiog lewyrchus filain, [un a chanddo]
 gryfder Edern:
- 148 A blaen byddin cryf o amgylch [un a chanddo] wroldeb grymus,
 A brwydr yn llawn llid a ffyrnigrwydd,
 Ac atal arfau haearn chwyrn, [un ac iddo] natur chwerw [llawn]
 dicter,
 A chynheiliad llu helaeth ei diroedd mewn brwydr [llawn]
 ffyrnigrwydd,
- 152 A brow ymladdfa ar hynt a gofid am frwydr,
 A gwaed Saeson gan frain, ymdrybaeddiad [mewn] creulonder,
 Ac anwylyd Gwynedd wen yn bennaeth gwychder,
 A datgan iddo [fod â] dewrder dymunol,
 A brwydr arferol [yn parhau] am dri chyfnod,
- 156 A milwyr dewr a llu cain,
 A bri a goruchafiaeth i’ m harglwydd gwirioneddol wych,
 A chlywed [sŵn] ei ymladd uwchlaw Aber.
 Arglwydd o dras helaeth, pendefig dewr,
- 160 Pennaeth gwych helaeth [ei] deyrnged, gwych a rhagorol [ei] arfer,
 Wedi ei ddymchwel [y mae] ei dŷ o gerrig, amddiffynnwr daioni,
 Rhybudd llym [drwy] gosb yw[’r un a wnaeth] orchestwaith [â’i]
 gleddyf.
- 164 Wedi marw y mae [un megis] Hector cadarn [ei] nerth,
 Digwyddodd trallod llwyr oherwydd [marwolaeth] pennaeth llu;
 Cur helaeth [a] gofid o boen [sydd] pan feddylier [amdano],

Gofid helaeth a'm hudodd oherwydd [marw] fy ngobaith;
 Prydferth oedd clywed ei foliant gan feirdd,
 168 Llaw dde pen-campwyr brwydr, bydd Duw yn ei groesawu [i'r nef].

Aed fy nghwyn [o] alar, och, ar led, [O] Fair,
 Am farw un pennaf [y] cenedloedd;
 Y mae [testun] moliant y bobloedd wedi darfod,
 172 Amddiffynnwr o linach arglwydd, gŵr dewr bonheddig ydoedd [ef].

Mynych yw wylo glaw ffres (elorlen hardd sy'n ei guddio'n llwyr)
 Am gynheiliad gwych Rhydonnen,
 [Un a chando] urddas Emrys, am [un a oedd yn] berchen gras
 176 Niferus yw dagrau a llef, Arglwydd Bennaeth [y] nef.

Arglwydd gwych dy ffurf, gwae fi dy fod,
 Arglwydd rhyfelwyr Gwynedd, mewn bedd mud,
 [Un â] chynnwrf cleddyf Cai yn erbyn torf daer [mewn] brwydr,
 180 [Un â] dewrder grymus wyneb yn wyneb ag ymladdfa.

Galar [y] galon a[r] llygaid
 Sy'n fy ngwneud yn drist, [O] Grist [y] crogedig,
 Oherwydd dy roi ddoe, [un a chennyt] ddieter buddiol o natur
 ffyrnig,
 184 Dan orchudd maen mur, Tudur teg.

Tristwch a gyfrennir i'm bron yw pangfa annisgwyl drist,
 [Oherwydd] cipio arglwydd Brynbyrddau drwy drais;
 Gwae ei genedl oherwydd y newyddion,
 188 Llafur galar enbyd maith yw fy rhan.

Arweinydd [sy'n achosi] dinistr gwaywffyn gwŷr, [a chando]
 ddull arglwydd gwlad ddoeth,
 Ymosodwr [mewn] brwydr, [un fel] Gwriad [mewn] ymladdfa;
 Treiddia gofid mawr iawn i'r fron hon,
 192 [Oherwydd bod un a chando] rym dewr iawn [fel] gwron dan
 rwywiad [y] ddaear.

Rhoddwyd dan faen glas ei orchudd gynheiliad gwych hardd [ei]
 roddion,
 Un hardd o lwyth rhai di-fai,
 Mewn cangell offeiriad, y mae [ef] yn gwahardd imi wên,
 196 Ynghudd y mae[r] un a fu'n] llys budd a beirdd.

- 200 Gwan fry yw Cymry [oherwydd un a chanddo] rym Dyfr,
 Dinistr [i] Saeson fu ei gleddyf fflamiog;
 Gwan yw llys ac eglwys, gwan yw Gwynedd,
 Gwan yw Môn oherwydd [marwolaeth] arglwydd gwin a medd.
- 204 Rhwydwr diysgog [mewn] brwydr, rhoddwyd ar Dudur bonheddig,
 [Un ac iddo] natur Owain neu Fedwyr,
 [Y] pennaeth rhagorol gorau ac arglwydd,
 Bridd nad yw'n rhyddhau arglwydd gwŷr inni.
- 208 Onid llym yw[’r] boen gyflawn [oherwydd] cuddiad gofidus
 Arglwydd disglair [a chanddo] waywffon ragorol ei llafn yn lladd
 mewn brwydr?
 Wedi ei churo y mae Môn oherwydd arglwydd Penmynydd,
 Pennaeth cenedl, arweinydd Gwynedd.
- 212 Daeth clwyfau i ran eirchiaid,
 Erfyn maith ac o’r braidd ennill [dim],
 [Trwy] frwydr [yn erbyn un a fu fel] llafn sicr, arglwydd Trecastell,
 Galar cyflawn trist [sydd] oherwydd ei golled ddirfawr.
- 216 Yn rhagorol [ym] mhob math o haelioni
 Oedd fy arglwydd, [un a chanddo] fri mawr pennaeth,
 [Un a fyddai’n] hawlio tir yn nerthol, un a safai’n ddiysgog,
 Tra safodd [ef], cyn [y] gofid [oherwydd] trais.
- 220 Gwae fi am amddiffynnwr [a] chynheiliad gwych, arglwydd dygn a
 barai gur mewn brwydr,
 [Un a’i] waywffon [yn] ddiysgog, Tudur gwych,
 [Gwae fi am] rwymo gwron, llanc dewr dur ei waywffon,
 [Dan] orchudd tuded haearnaidd ym maen [y] mur.
- 224 Yn aml ar foch oherwydd ei hynt i Fangor
 Y llifa dagrau allan ohonof am Dudur:
 Helaeth yw galar amdano ynof,
 Gelyn [mewn] brwydr, [un â] chryfder Alun.

Moliant Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd

- Cyfarchaf i'm Naf, nefol rinwedd,
 Cyfarch parch parawd, ffawd ffyddlonwedd,
 Canmol fy rhiau, modd wleddau medd,
 4 Ceinmyg rhoddfudd rhudd, Rhun gymrodedd.
 Cyfun Oronwy, rwy rwysg mawredd,
 Cofiaedr ffrwythlawn ddawn, ddinam falchedd,
 Cyfarf arf eurgrair, gair gorfoledd,
 8 Cyfiawnfrawd dafawd, Deifr gyfrysedd.
 Cadarn farn feirniad gwenwlad gwinwledd,
 Cedernyd Gwrlais, aerglais eurgledd,
 Cedyrn wysg gyrddfrywysg gwrddfrywydr dachwedd,
 12 Cadarnfab Tudur, mur marannedd.
 Cystal Nudd am fudd, fodd gorhoffedd,
 Cystegwr byddin, drin drachywedd,
 Castellgawr clodfawr, cludfalch fonedd,
 16 Cystwy brwydr aergrwydr, eurgrair gorsedd.
 Cannwyll pwyll ddidwyll am ddafl gwyledd,
 Canllaw lluosydd mywn dydd dygnedd,
 Canrwysg ton erfid, llid Llawfrodedd,
 20 Cynrain brain breiddfawr gawr goruthredd.
 Cedol yw, fy llyw llaw ddiomedd,
 Cadr wryd Gwyndyd, gwendorf gyfedd,
 Cyd fryd frwydrglwyf rwyf, Ruon ddewredd,
 24 Ciwdawd ffawd ffyniant farant fawredd.
 Ciried ced cadrblas, gwanas gwenedd,
 Côt ddôr, iôr eurwyrdd cyrdd cynadledd,
 Câr dêr dewrfryd gryd, Greidiol ddewredd,
 28 Corf torf, llof lliaws o draws drosedd.
 Cynadlfa anant, borthiant berthedd,
 Cenedlfawr eryr gwŷr gwirionedd,
 Colofn llwyth Cynwrig, rhyfyg rheufedd,
 32 Coelfain byd esbyd, ysb gynadledd.
 Cydles plaid cynnaid, rhaid anrhydedd,
 Coethlwybr cad fragad friwgur gochwedd,
 Cynnydd Euroswydd, cain ei rysedd,
 36 Cannwyll cerddorion, clod Fôn a fedd.

- Parch meddfawr aerwawr, eurwalch—cenedloedd,
 Cain adlam caer wengalch;
 Parod lorf torf tariandalch,
 40 Pair gwaed-ddafn pâr bylchlafn balch.
- Rhwyddwalch arf cyfarf, cofau—beirdd Prydain,
 Rhydd arwyrain cain, Cai ddefodau,
 44 Rhodd eofn ddiofn ddehau—ciwdodoedd,
 Rhegoedd cenedloedd a’u cynadlau,
 Rhydderch ganmawl hawl, hwyliau—ymgyhwrdd,
 Rhun agwrdd ymwrdd aml laddfaau,
 Rhyfyg urddedig ar ddadlau—milcant,
 48 Rholant unffyniant, barant beiriau,
 Rhyfawr giried ced, cadau—estyngiad,
 Rhyfyg gariad mad, modur gwleddau,
 Rhyfalch aerwawr gawr, gorau—y’th fernir:
 52 Rhi cywir llawir, llyw Brynbyrddau.
 Rhuon hynt lluchynt, rhwysg Llachau—filwr,
 Rhyswr rhwysg Tewdwr, tydi biau
 Rhysfa clod orfod, arfau—danllachar,
 56 Rhysedd Ulcasar, pâr peryglau.
 Rhagoraist, Ronwy, rhagorau—amlder,
 Rhag balchder nifer, fy naf hyglau,
 Rhagor rhugl aerfor, eirf ddoniau—llathrfrwysg,
 60 Rhag llif llafurdwysg uwch rhwysg rhydiau.
 Rhwyddwawr cynyddfawr cyneddfau—diwag,
 Rhywf cyrdd, fyrdd feirddfag, ddinag ddoniau,
 Rhyhael aerllew glew, gleifiau—canweli,
 64 Rhuthr ynni Beli, beleidr gwaetffrau.
 Rhyhydr ffyrfder nêr, nerth Gwyddnau—yng ngawr,
 Rhwol gosgordd fawr, gwawr gwirodau,
 Rhwyll giwdod parod, parau—Llychlynddur,
 68 Rhywf natur aerfur, erfid brwydrau,
 Rhyfelgad nerthiad nerthau—Cadwaladr,
 Rhuddbaladr oesgadr, ysgwyd drylliau.
 Rhygul ffosawd rawd riau—ardderchog,
 72 Rhywiog ddigwypog [] gampau,
 Rhuthr ddechryn gelyn, golau—gyhydreg,
 Rhysgyr môr-waneg, deg iôr, dau.
- 76 Tau [] fonedd o faint—cenedloedd,
 Tŵr cadoedd, cadr y’th wnaint;

Cymryd, gŵr, cymrawd Geraint,
Cymro braisg, Cymru a'i braint.

- 80 Breiniol Oronwy, bryd cyd, cad ardwy,
Brys lys les ofwy, rwy rwysg Eudaf,
Brawd eurwawd aerwawr, bryd gryd gwryd gawr,
Brad cad ced waywawr dramawr dromaf,
84 Brwydrlof, corf catffyrdd, braisg gwaiss gwisgoggwyrdd,
Brwysg rwysg rwyf myrdd, cyrdd cerdd waesaf,
Beirdd heirdd hardd ddatgan, budd rudd ruthr osbran,
Bodd rodd rod fflamdan, darian daerf.
88 Dadiain gain gyngor, didarf arf Ector,
Difreg reg ragor, dôr derwynnaf,
Didawl fawl foliant, dadl frwysg rhwysg Rholant,
Dedwydd cynnydd cant, gwarant gwraf,
Dawn llawn, llawch meddgryn, doeth bost cost cedyrn,
92 Deddf chweg deg dëyrn, gwiwchwyrn gwyachaf,
Dewr ŵr, tŵr torfoedd, dêr câr cenedloedd,
Dôr côr ciwdodoedd, achoedd uchaf.
Aerlud ddrud ddragon, erfid llid Lleon,
96 Eryr mwynwyr Môn, rhoddion rhwyddaf,
Aernerth gerth gedawl, eurddraig, Maig meidrawl,
Erddrym grym greddfawl hawl hael Addaf,
Eurair pair penrhaith, aerwyp tymp pob taith,
100 Aergorf llorf Lloegrlaith gwaith gwythlonaf,
Eurgledd ryfedd rad, arglwydd, rwydd roddiad,
Aerglais trais tromgad, mad modrydaf.
Crair gair gorwyrain, creuddafn llafn llithfrain,
104 Cedlorf, corf cynrain, cain cyfiawnaf.
Cyfarch parch parthryw, cyfarf gloywarf glyw,
Colofn eofn yw, llyw llawenaf.
Cedawl hawl heiliaw, costwin, drin dreiddiaw,
108 Cant anant anaw, aelaw alaf,
Ciried oesged wysg, corf torf, llorf llifdwysg,
Câr pâr parodrwysg, rhwysg rhywiocaf.
Nod clod cleddyfal, naws maws moes Dyfnwal,
112 Nêr ffêr ffyrf arial, mawrdal Mordaf,
Nawd ffawd ffyddlonrwydd, Nudd budd (boed canmlwydd!),
Nerth berth, certh cedrwydd, hylwydd haelaf.
Neud mael hael hynod a Nudd prudd prifnod
116 A nen pen pob clod, orfod arfaf.
Nis arwedd gwedd gwawd angerdd cerdd ceudawd,
Nis traeth (maeth meithfrawd) tafawd hyd Daf:

120 Gŵr tŵr tormennog unrhwysg brwysg breiniog
 Â'm llyw rhyw rhywiog, niferog naf.

Naf a wirfolaf, orfoledd—ceudawd,
 Ni châr cadw na gomedd,
 Nêr nerth clotffraeth moddfaeth medd,
 124 Nen urddas, gwanas Gwynedd.

Gwynedd amgeledd, fedd fenestri,
 Gwanas ciwdodoedd, rwydd wisgoedd ri,
 128 Gŵr addfwyn terrwyn yn torri—aergad,
 Gawr fleiniad feiddiad, wastad westi.
 Gorau yw fy llyw llafn rhuddweli,
 Gwarant hawl anant o haelioni,
 132 Goruthr fryd ennyd ynni—llawrodded,
 Gwawr clodred llawged Lloegr folochi.
 Gwâr wrth wâr hygar, hoywgerdd hoffi,
 Gwrdd wrth wrdd ymwrdd, aml ddaioni,
 136 Gŵr wrth ŵr, milwr mal Eilifri—lew,
 Gorf helmdew glew, gleifiau gochi.
 Gwir fydd iddo glod hynod henwi,
 Gwrdd digrawn, o'i ddawn a'i ddaioni;
 140 Gorwyn ffawd tafawd ger Teifi—gylchwy,
 Goronwy ardwy, aerdorf sengi.
 Gwryd bryd gryd, greddf ddileddf ddoli,
 Gwrawl hawl hwyl Nudd, fudd rudd rodde,
 144 Gwrdd ffyniant Rholant yn rheoli—cad,
 Gwyrdd fflisgiad, rhoddiad rhudd a phali.
 Gwaywddur bâr aesbar, esbyd lochi,
 Gwiwddoeth farn cadarn, cedyrn ddofi,
 148 Gwaed raeadr baladr, gwiwder Beli—Hir,
 Gwalch cywir llawir, llawer borthi.
 Grymus ddiwael hael, hwyl ddirosi,
 Grair torf, corf ciwdod, gwasgod gwisgi,
 152 Gŵr greddfal gwrol yn egori—gryd,
 Fal rhyfelfryd gwÿd gwynt ar dderi.
 Gwaith fy naf balchaf, rhywiocaf rhi,
 Gwneuthur brwydr dostur, bradwyr dosti;
 156 Gwychr ddysg fal terfysg taerfor gweilgi—gan,
 Gwenyg fan am lan yn ymlenwi.
 Gwasgarodd alaf, braint uchaf bri,
 Gwasgod cyrdd i fyrdd o farddoni,

- Gwasgod braisg cydwaisg cydwedd Benlli—Gawr,
 160 Gŵr clodfawr yng ngawr, yng ngwrhydri.
 Gosgordd falch eurwalch, aerwyr gosbi,
 Gosgorddion Cynon yng ngreddf cyni,
 Gwaisg Arglwydd, Culwydd celi,—cyn addef,
 164 Gwaesaf eurdangnef nef o'i nodd!

- Nawdd Crist, Arglwydd rhwydd, rhwysg gwŷr—hael addfwyn,
 Ar hylwyddfab Tudyr,
 Neirthiad ffawd, llwyr gymrawd Llŷr,
 168 Nerthol arwrol eryr.

Ffynonellau

A—BL Add 14868, 13^v B—BL Add 15001, 166^r C—BL Add 15023, 68^r
 D—Card 4.140, 557 E—J 111, 1315 F—LIGC 1984B [= Pant 15], 30^r
 G—LIGC 4973B, 241^r H—Llst 147, 208 (*o'r cefn*) I—Pen 118, 103

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif E, yr hynaf. Codwyd yr holl gopiâu eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o E. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 167–8.

Darlleniadau'r llawysgrif

8 tavaót. 13 anivud. 35 eur rosswyd. 41 kynaryf. 45 rwylyeu. 49 ry vaör giryet kadeu. 50 karyat. 64 beidyr. 71 riederchaót. 74 yorteu. 83 gwaeisc. 84 brwysc wysc rwyf. 88 dirvrec. 95 erbit. 97 Eilnerth. 99 twymp. 109 Kiriet oesget wyst. koryf toryf lloryf llifdwyst (*ond gw. ll. 109n*). 110 paraótrwyst (*ond gw. ll. 110n*). 124 gwy gýned. 130 haöd. 135 leögoryf (*ac atalnod ar ei ôl fel petai'n air cyfansawdd ac yn perthyn oll i'r ll. hon*). 150 greir (*ac atalnod ar ei ôl fel petai'n perthyn i'r ll. flaenorol*). 154 brwydy. 157 vwri (*wedi ei ddileu â marc coch a vri neu bri wedi ei ychwanegu ar ymyl y tudalen*).

Teitl

gruffud uab maredud ae cant.

Moliant Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd

- Gofynnaf i'm Harglwydd, nefol [Ei] natur,
 Am anerchiad [o] urddas di-rwystr, bendith ffyddlon ei dull,
 [Er mwyn] canmol fy arglwydd, [darparwr] gwleddoedd medd
 digonol,
- 4 Un urddasol sy'n rhoi budd [ar ddull] dillad coch, cymar [i] Run.
 Goronwy unfryd, [a chanddo] rwysg helaeth ysblander,
 Gŵr doeth bendithiol [ei] ddawn, di-fai [ei] wychder,
 Anwylyd gwych dygn [ei] arf, [a chanddo] fri [llawn] gorfoledd,
- 8 [A'i] dafod [yn] gyfiawn ei farn, [yn cynnig] brwydr [i] Saeson.
 Barnwr diysgog [ei] farn [dros] wlad fendigaidd [ac iddi] wledd win,
 [A chanddo] gadernid Gwrlais, cleddyf rhagorol yn clwyfo mewn
 brwydr,
 Trywydd eofn a thaer gwŷr cadarn [i] laddfa [mewn] brwydr ddygn,
- 12 Mab cryf Tudur, amddiffynnwr cyfoeth.
 Un cystal â Nudd am rodd, modd [i ennill] moliant,
 Un sy'n peri gofid i fyddin, cyflafan fawr [mewn] brwydr,
 Cawr clodfawr megis castell, [o] dras wych ei chyfoeth,
- 16 Cosbwr [mewn] ymladdgyrch brwydr, anwylyd gwych [y] llys.
 Un didwyll [ac iddo] ddisgleirdeb [llawn] doethineb ar gyfer
 cynulliad [llawn] cwrteisi,
 Cynheiliad lluoedd ar ddiwrnod [o] gyni,
 [Un a chanddo] ruthr ewynnog toriad ton ar draeth, [a'i] lid [megis]
 Llawfrodedd,
- 20 Un mawr ei ysbail [ar gyfer] gwledd rhyfelwyr [mewn] brwydr
 [lawn] arswyd.
 Hael ydyw, fy arglwydd diwarafun [ei] law,
 Gwrhydri gwych pobl Gwynedd, [darparwr] cyfeddach [i] lu
 dedwydd,
 Arglwydd cadarn [ei] feddwl sy'n clwyfo mewn brwydr, [a
 chanddo] ddewrder Rhuon,
- 24 [Un a chanddo] ysblander trysor [ac sy'n peri] llwyddiant [i] ffawd
 [ei] bobl.
 [Un â] haelioni rhodd [i] lys gwych, cynheiliad [mewn] ymladd,
 Amddiffynnwr llys, arglwydd euraid a gwyrd ei wisg [ar] luoedd
 [mewn] cynulliad,
 Cyfaill [ac] arglwydd dewr ei feddwl [mewn] brwydr, [a chanddo]
 ddewrder Greidiol,
- 28 Cynheiliad llu, amddiffynnwr byddin drwy ragoriaeth nerthol.
 Man cyfarfod [i] feirdd, [yn rhoi] cynhaliaeth [o'i] gyfoeth,
 Pennaeth gwych ei dras [ar] wŷr [llawn] cyfiawnder,
 Cynheiliad disgynyddion Cynwrig, [ac iddo] falchder [oherwydd ei]

- gyfoeth,
 32 [Ffynhonnell] rhodd [i] ymwelwyr [y] byd, man cyfarfod
 gwesteion.
 Budd cyffredin [i] fintai gyflym, [ac iddo] anrhydedd [mewn]
 brwydr,
 [Achoswr] lladdfa [llawn] archoll[ion ar] drywydd gwych blaen
 byddin,
 [Un a'i] ffyniant [megis] Euroswydd, cain ei ogoniant,
 36 Disgleirdeb beirdd, y mae'n meddu ar Fôn glodfawr.
- [Un a chando] urddas arglwydd brwydr mawr ei awdurdod,
 pennaeth rhagorol [y] cenedloedd,
 [A] thrigfan gain [y] gaer wyngalchog;
 Amddiffynnwr parod chwilfriw ei darian [i] lu,
 40 Arglwydd sy'n diferu gwaed [a chando] waywffon wych dolciog
 ei llafn.
- Pennaeth hael [a chando] arf ddygn, [gwrthrych] meddyliau beirdd
 Prydain,
 [Gwrthrych] moliant gwych diarbed, [un a chando] foesau Cai,
 Llaw dde ddi-ofn [y] bobloedd dewr [ei] rodd,
 44 [Ffynhonnell] rhoddion [i'r] cenedloedd a [darparwr] eu
 cyfarfodydd,
 [Un a chando] hawl [i] foliant [megis eiddo] Rhydderch, [nod]
 siwrneiau [pobl i] ddod ynghyd,
 [Un a chando] ymdaro grymus Rhun [mewn] lladdfeydd niferus,
 [Un â] beiddgarwch urddasol mewn brwydr [yn erbyn] can mil,
 48 Un tebyg ei ffyniant i Rolant, [a'i] beiriau[n] llawn] trysor,
 [Un ac iddo] haelioni enfawr [llawn] budd, gorchfygwr byddinoedd,
 Cyfaill annwyl dedwydd [llawn] beiddgarwch, arglwydd
 gwleddoedd,
 Arglwydd brwydr gwych iawn [mewn] ymladdfa, y gorau y'th ystyrir:
 52 Arglwydd ffyddlon hael, arweinydd Brynbyrddau.
 [Un a chando] hynt Rhuon [megis] cwrs mellten, [o'r un] rhwysg
 [â] Llachau[r] rhyfelwr,
 Rhyfelwr [a chando] rwysg Tewdwr, tydi sy'n berchen
 Ar ruthr [sy'n] ennill clod, [un] tanllyd [dy] arfau,
 56 [Un â] gogoniant Iwl Cesar, gwaywffon [sy'n llawn] peryglon.
 Goronwy, buost yn drech, [drwy] luosogrwydd [dy] rinweddau,
 Na llu [llawn] rhyfyg, fy arglwydd enwog,
 [Â] rhagoriaeth llanw brwydr [yn llifo'n] rhwydd, galluoedd
 disglair a phybyr [gydag] arfau,
 60 Yn erbyn llif rhuthr brwydr uwchben cwrs rhydau.

- Arglwydd hael mawr ei lwyddiant [ac iddo] rinweddau cyflawn,
 Arglwydd lluoedd, un yn cynnal beirdd [mewn] llu, dinacâd [ei]
 fendithion,
 Gwron brwydr dewr tra bonheddig, [a chando] waywffyn [yn
 achosi] cant o glwyfau,
 64 [Un a'i] ryfelgyrch [yn llawn] egni Beli, [a chando] waywffyn
 [sy'n peri] tywalltiad gwaed.
 Arglwydd [llawn] cryfder tra dewr, [ac iddo] nerth Gwyddno mewn
 brwydr,
 [Un a chando] arglwyddiaeth [dros] osgordd fawr, arglwydd [sy'n
 darparu] diodydd,
 [Un a chando] lu disglair parod, [ac iddo] waywffyn o ddur
 Llychlynnaidd,
 68 Arglwydd [ac iddo] natur amddiffynnwr mewn brwydr, [yn rhoi]
 ergyd [mewn] brwydrau,
 Atgyfnerthwr byddin ryfel [a chando] nerthoedd Cadwaladr,
 Gwaywffon waedlyd fythol-wych, [ei] darian [yn] ddrylliau.
 Arglwydd ardderchog [a'i] hynt [mewn] brwydr [yn] dra
 chyfyng[ol],
 72 Gwych [a] didramgwydd [] campau,
 Dychryn [i'r] gelyn [mewn] rhyfelgyrch, ymladd disglair,
 Rhuthr [megis] ton môr, arglwydd teg, sydd eiddot.
- Eiddot ti [] tras o nifer [y] cenhedloedd,
 76 Cynheiliad byddinoedd, yn wych y'th ystyrient;
 Cymryd, [o] arwr, gymar Geraint,
 Gymro cadarn, Gymru a'i braint.
- Goronwy breiniol, cadarn [ei] feddwl, amddiffynnwr byddin,
 80 [Un y mae] ymweliad [â'i] lys prysur [yn dwyn] lles, [a chando]
 rwysg helaeth Eudaf,
 Arglwydd brwydr [a'i] farn [yn destun] moliant disglair, [un a'i]
 feddwl [mewn] brwydr [ar] wrhydri [mewn] ymladdfa,
 [Un a chando] ddichell [mewn] brwydr enfawr a thra dwys [gyda]
 gwaywffyn [yn] rhodd,
 Amddiffynnwr mewn brwydr, cynheiliad [ar] lwybrau byddin, un
 cryf gwych wedi ei wisgo mewn dillad gwyrdd,
 84 Arglwydd llu cadarn [ei] rwysg, gwarant[wr] lluoedd cerdd,
 [Testun] moliant hardd [gan] feirdd hardd, rhannwr [cyfoeth] i
 westeion [sy'n] waedlyd [ei] ryfelgyrch [wrth ddwyn] budd,
 [Un megis] tarian gron fflamiog [yn cynnig] rhodd [drwy] ewyllys
 da, [y] darian daeraf.
 [Un] disglair [a] gwych [ei] gyngor, [un megis] Hector diysgog [ei]

- arf,
 88 Rhodd ddi-nam ragorol, [yr] amddiffynnwr mwyaf ffyrnig,
 [Testun] moliant [o] fawl di-baid, un ffyrnig [mewn] brwydr [â
 chanddo] rwysg Rolant,
 Un ffortunus [sy'n peri] ffyniant [i] gant [o wŷr], [y] gwarant[wr]
 mwyaf gwrol,
 Dawn gyflawn, lloches [i] gyrn medd, cynheiliad doeth [yn rhoi]
 darpariaeth [i] wŷr cadarn,
 92 Arglwydd teg melys [ei] foes[au], teilwng a ffyrnig [a] thra gwydh,
 Gŵr dewr, cynheiliad lluoedd, arglwydd [a] chyfaill [y] bobloedd,
 Amddiffynnwr llys [y] bobloedd, [a'i] achau[n] dra uchel.
 Pennaeth dewr dygn mewn brwydr, [a'i] ergyd [megis] llid Lleon,
 96 Pennaeth gwŷr mwyn Môn, [a chanddo'r] rhoddion haelaf,
 Un hael cywir nerthol mewn brwydr, pennaeth rhagorol, [megis]
 Maig grymus,
 Un aruchel grymus cadarn [a chanddo] hawl Adda bonheddig,
 Gwydh ei glod yw[r] arglwydd [a'r] pennaeth, ysblennydd ar gyfer
 ymladd [ar] amser pob taith,
 100 Cynheiliad mewn brwydr [ac] amddiffynnwr [sy'n] farwolaeth i
 Saeson [yn y] frwydr fwyaf ffyrnig,
 [Un] rhyfeddol [ei] ffafir [a chanddo] gleddyf rhagorol, arglwydd,
 rhoddwr parod,
 Clwyfwr mewn brwydr [sy'n peri] trais [i] fyddin ormesol,
 ffortunus yw[r] pennaeth.
 Anwylyd [sy'n destun] clod cerdd foliant, un yn diferu gwaed [a
 chanddo] lafn sy'n bwydo brain,
 104 Amddiffynnwr hael, cynheiliad rhyfelwyr, un cain tra chyfiawn.
 Anerchiad [o] barch [i] un teilwng ei wlad, un dygn [a chanddo] arf
 ddisglair [mewn] brwydr,
 Cynheiliad dewr ydyw, yr arglwydd mwyaf llawen.
 Yn gweini [diod yn ôl] iawnder haelionus, yn darparu gwin, yn
 treiddio [trwy] frwydr,
 108 Budd [i] gant o feirdd, cyfoeth helaeth,
 Llwybr [i] haelioni bythol ei rodd, cynheiliad llu, amddiffynnwr
 [mewn] rhuthr mawr,
 Cyfaill [a chanddo] wayffon rwydd ei chyrch, [a chanddo'r]
 rhwysg mwyaf urddasol.
 Bri clodfawr [yn sgil] ergyd [ei] gleddyf, [yn] dirion [ei] natur [yn
 ôl] arfer Dyfnwal,
 112 Arglwydd cadarn [llawn] ffyrnigrwydd grymus, [a chanddo] rodd
 fawr Mordaf,
 [Un ac iddo] gynneddf ffyniant [a] ffyddlondeb, [a chanddo] rodd
 [megis] Nudd (boed iddo fod yn gan mlwydd oed!),

- [A chanddo] nerth gwych, un ffyddlon parod ei rodd, un tra
ffyniannus a bonheddig iawn.
Tywysog bonheddig enwog ydyw ac [megis] Nudd doeth [a
chanddo] enwogrwydd mawr
- 116 Ac arglwydd [a] phennaeth pob clod, [yr] un gwychaf [ei]
ragoriaeth.
Nid yw dull moliant [o] angerdd cerdd [o'r] galon yn cyfleu hyn,
Nid oes [unrhyw] dafod (porthiant barn a goleddwyd yn hir) [o
yma] hyd at [Afon] Taf yn sôn am hyn:
[Sef bod] arwr [ac] amddiffynnwr byddinog [o'r] un ysblander
cadarn breiniol
- 120 Â'm harglwydd urddasol [ei] natur, pennaeth mawr ei lu.

Arglwydd a folaf yn ddiamau, [testun] gorfoledd [fy] galon,
Nid yw'n caru cadw yn ôl na gwrthod [cyfoeth],
Arglwydd [a chanddo] nerth a glodforir yn huawdl [ac sy'n cynnig]
porthiant digonol [â] medd,
- 124 Arglwydd [llawn] urddas, cynheiliad Gwynedd.

Ymgeledd gwŷr Gwynedd, [un sy'n cynnig] darpariaeth [o] fedd,
Cynheiliad pobloedd, arglwydd parod [ei roddion o] wisgoedd,
Arwr mwyn [a] ffyrnig yn torri byddin brwydr,
- 128 Heriwr [sy'n] arweinydd [mewn] brwydr, di-baid [ei] letygarwch.
Yr un gorau yw fy arglwydd [a'i] lafn [yn achosi] clwyf gwaedlyd,
Gwarant[wr] cais beirdd drwy [ei] haelioni,
[A chanddo] egni parod [ar gyfer] ysbaid [pryd y mae'r] meddwl
[yn] arswydus,
- 132 Arglwydd hael clodfawr ei hynt yn peri dychryn i wŷr Lloegr.
[Yn] fwyn tuag at un mwyn hawddgar, yn ymhyfrydu mewn cerdd
wych,
[Yn] ddewr yn erbyn un dewr [mewn] ymdaro, [yn] helaeth [ei]
ddaioni,
Arwr yn wyneb arwr, rhyfelwr fel Elifri dewr,
- 136 Cynheiliad dewr trwchus ei helm, yn cochi gwaywffyn [gan waed].
Iawn fydd mynegi iddo foliant rhagorol,
Un dewr hael, oherwydd ei fendith a'i ddaioni;
Disglair yw bendith [y] tafod ger ardal [Afon] Teifi,
- 140 Goronwy[r] amddiffyn[nwr], yn sathru llu rhyfel.
[Un a chanddo] wrhydri meddwl [mewn] brwydr, anrhegu diysgog
[ei] natur,
[Un] gwrol [ei] hawl o natur Nudd, yn rhoi budd o ddillad coch,
[Un a chanddo] lwyddiant eofn Rolant yn arwain byddin,
- 144 Gwyrdd [ei] wisg, rhoddwr dillad coch a sidan.

- Un parod ei darian [a chando] waywffon galed a phoenus, yn rhoi
llety i westeion,
[A chando] farn wych o ddoeth [fel] gŵr cadarn, yn dofi gwŷr
cadarn,
[Ei] waywffon [yn tywallt] rhaeadr [o] waed, gwycheder Beli Hir,
148 Pennaeth ffyddlon hael, yn cynnal llawer.
Gŵr bonheddig gwyched [a] grymus, diwyro [ei] hynt,
Un annwyl [gan ei] lu, cynheiliad [i'w] bobl, amddiffynnwr sionc,
Gŵr cadarn gwrol yn dechrau brwydr,
152 Fel natur ryfelgar [lawn] afiaith [y] gwynt yn erbyn coed derw.
Gorchwyl fy arglwydd tra gwyched, [y] pennaeth mwyaf urddasol,
Yw gwneud gofid [mewn] brwydr, poenydio bradwyr;
[Un a chando] fedr chwyrn fel cynnwrf môr taer [yr] eigion
ddisglair,
156 Crib tonnau yn ymchwyddo o gwmpas glan.
Gwasgarodd gyfoeth, braint y bri uchaf,
Noddwr cerddi i lu drwy farddoni,
Amddiffynnwr cadarn cydnerth tebyg i Fenlli Gawr,
160 Gŵr clodfawr mewn brwydr, mewn gwrhydri.
Pennaeth rhagorol gwyched ei osgordd, yn cystwyo rhyfelwyr,
[Megis] gosgorddion Cynon yng nghadernid brwydr,
Arglwydd gwyched, Pennaeth [y] nef, cyn trigfan [y bedd],
164 [Boed i] sicrwydd tangnefedd gwyched [y] nef ei warchod!
- [Boed] nawdd Crist, Arglwydd hael, [ar un sy'n ffynhonnell]
rhwysg gwŷr bonheddig mwyn,
Ar fab tra ffyniannus Tudur,
Atgyfnerthwr [llawn] ffyniant, cymar cyflawn Llŷr,
168 Pennaeth nerthol arwrol.

Englynion i Oronwy Fychan ap Tudur pan oedd yn glaf

- O'th hiraint, eurfaint aerfrad—arynaig,
 Oronwy, frwydr gyrchiad,
 Nid oes na berth nerth neirthiad
 4 Na hydrfudd na rhudd yn rhad
- Na nen na pherchen na pharchiad—ar fardd
 (Rhoist i feirdd dy ddillad)
 Na chyingaws, bwyll echyngiad,
 8 Na chyngor, mydr rhagor mad.
- Tra fych, naf, yn glaf, gloywguniad—hoywlorf,
 Hywlych grudd a llygad:
 Traws yng ngawr, gwynllawr gwinllad,
 12 Trosedd gwledig orsedd gwlad.
- Och fi, eryr gwŷr, Gwriad—penadur,
 Fod poen edyrn arnad;
 Iechyd a hyd hoedl, gariad,
 16 A'th ro nefolgoeth doeth Dad!
- Och, wael drymglwyf rwyf, roddiad—budd fawredd,
 Byddaf farw amdanad;
 O'th wisgoedd gwymp a'th wisgiad
 20 A'th wasgawd, ni fu wawd wad.
- Dy fod, ddewr arfod, aerfawr ffysgiad—trin,
 Mywn trist ofal gwastad,
 Mur dur dewr ddarpar, câr cad,
 24 Mair a wŷr mawr a irad!
- O'th hiraint, hoywfaint, nid hyfryd—yr un,
 Oronwy lafn creulyd;
 O'th air a'th arf gedernyd
 28 A'th glod faith, ni'th ddaw gwaith gwŷd,

- O'th wengred giried, gwryd—annirgel
 Yn eurgad ddihewyd,
 A'th ddawn a'th ddinam leindyd
 32 A'th ofeg a'th brifdeg bryd.
- Och, Nêr, fod gwander Echel Gwyndyd—traws,
 Ni'm gwnêl trais ddiolfryd;
 Erglyw, Grist, fy mawr dristyd,
 36 Arglwydd grym, am eurgledd gryd.
- Rhên rhwy folaf, Naf nefol wryd—gwir,
 Gwared boen a chlefyd
 Rhad ysbys budd rhaid esbyd,
 40 Rhudd baladr ger rhaeadr rhyd.
- Rhyfedd yw fy myw, fy myd—a'm arglwydd,
 A mawrglwyf i'th blegyd,
 Rhaith rhuthrfrwydr, aergrwydr ergryd,
 44 Rhywiog difradog dy fryd.
- Rhyhael Eurgrair Mair, mawredd leindyd—hydr,
 A'th ro hoedl ac iechyd,
 Rhi rheufedd, rhuddgledd rhoddglyd,
 48 Rhi rhwysg heirdd, rheufedd beirdd byd.
- Os claf modur, mur mawredd—Garannog,
 Goronwy, grair gorsedd,
 Gwiw enaid beirdd, gwae Wynedd;
 52 Gwawr gwindai, ni haeddai hedd!
- Na wna ddig tremyg trwm ledfrydedd,—Fair,
 Er dy fawr drugaredd,
 Am gân, am giried rheufedd,
 56 Am gain edmyg wledig wledd.
- Ucheneidiau mau, och na medd—fy mryd
 (Haint fy mrawd cyfannedd,
 Uchel ddâr Echel ddewredd)
 60 Iechyd o'i weddeiddbryd wedd!
- Anhyfryd i'r byd bod anhunedd—clwyf
 Ar fy rhwyf (nid rhyfedd!)
 Arf golofn, eryf ymgeledd,
 64 Eryr tēyrn meddwgym medd.

- 68 Oer yw hirfod clod, clo rhyseidd—gwendorf,
 Mywn gwander yn gorwedd;
 Eurllyw o'i haelion fonedd,
 Aerllew balch glew, bwlch ei gledd.
- 72 Gwae fi fod arfod arfaeth goddi—pâr
 Mywn haint perygl borthi:
 Gwae fyrdd, gwae gyrdd gerdd lochi,
 Gwae aneirdd, gwae feirdd, gwae fi!
- 76 Dod wared, Lyw Cred, Crair pum weli—nef,
 I naf clod haelioni,
 Aur golau orau Geli,
 Ardderchog drugarog Dri!
- 80 Armes un rhodres Rhodri—ar Wynedd,
 Oronwy gad gosbi:
 Arwyp ei fudd, rudd rodde,
 Eryr gwaig aruthr fraisg fri.
- 84 Aros trynglwyf rhwyf rhyfyg Benlli—Gawr,
 Eurwawr mawr, mur cyni,
 Aer baladr arfau Beli,
 Arf gwinwledd Gwynedd, gwae ni!
- 88 Os gwan glew anian gloyw ynni—Rhydderch,
 Rhoddiad gwyrdd a phali,
 Mur dur, dêr dewrfrwysg rhwysg rhi,
 Mirain Nudd, Mair o'i noddi!
- 92 Claf yw, Nêr nifer nefawl—aur anaw,
 Oronwy rwysg Greidiawl,
 Caer ar aer, câr arwrawl,
 Cedyrn ostwng deilwng dawl.
- 96 Cadw hyfryd iechyd Echel greddfawl—cad,
 UchelDad mad meidrawl;
 Er Dy don fron frenhinawl
 A'th boen, Gulwydd hylwydd hawl,

- A'th greuloes a'th Groes a'th Grog freiniawl—rad,
 Ystyr raid a'th ganmawl;
 Canhorthwy, Fair, fy eiriawl,
 100 Cannwyll hardd, a'th fardd a'th fawl.
- Cadarn uchaf Naf, cadr nefawl—Arglwydd,
 Erglyw lef negesawl
 Am lorf corf ciwdawd gwawd gwawl,
 104 Am lew gawr, am lyw gwrawl.
- Boed hiroedl fraisg gwaig, gwasgawd—cenedloedd,
 Cain adlam noeth a thlawd,
 Arf ddeufin, araf ddefawd,
 108 Ail Rholant uthr ffyniant ffawd.
- Os claf nêr dewrder awdurdawd—Mordaf,
 Mawrdeg bwyll gymhendawd,
 Och rhag gofal, mâl molawd,
 112 Am eryr mawrfudd Nudd nawd.
- Uchaf Geli Tri wyd, Trindawd—Arglwydd,
 Erglyw feirdd bydysyawd
 Am achub clwyf nwyf nychdawd,
 116 Am iechyd i'm bryd a'm brawd.
- Eurwawr cywir gwir, gwarawd—Oronwy,
 Aur enaid ei giwdawd,
 Argae gawr ergyd, gwawr gwawd,
 120 Aergad bair, eurged barawd.
- Hoyw gyfarch eurbarch aerbar,—Goronwy,
 Garannog Glewddigar,
 Hylithr ei wyrdd, cyrdd cerddgar,
 124 Hawl fynog ddwyreog ddâr.
- Hoedl hawster i'm nêr, yn aer esgar—drom
 Un dremyn Ulcasar;
 Hydr neidiad, gwengad gwingar,
 128 Hoywdeg wawr, hygost fawr fâr.
- Hir y'n cyfyd bryd, brwydrgar—echwynnwr,
 Uchenaid anghlaear
 Herwydd gofal anhalar
 132 Hiraint hwyl Geraint, hael gâr.

Och fi, arglwydd rhwydd rhwysg natur—Owain,
 Awydd dewrder Arthur,
 Nad ystyr Mair dy dostur
 136 A'th glefyd, frwydr fawrfryd fur.

Iechyd wrth fy mryd, fy mrawd eglur—ddawn,
 I gan Dduw Peniadur
 A'th ddêl o'th haint a'th ddolur
 140 A'th ddileddf anawdd gawdd gur.

Arwyrain madiain, modur—aur anaw,
 Oronwy fab Tudur;
 Arfog air, pair Paredur,
 144 Arf yn yng, aerddurfyng ddur.

Hoyw Oronwy, rhwy rhywiog farddair—beilch,
 Bwlch greulyd wyar bair,
 O'i gedol fudd a'i gadair
 148 A'i ged o'i giried a gair.

Haint a'th glwyf, fy rhwyf, ail rhwysg Gwair—fab Gwestl,
 Gwastad drin ddigynghair;
 Gwared gwir lawgred loywgrair,
 152 Gwryr eurwawr, gwirion fawr Fair!

Dod i'm brwydrwawr gawr, gwraf—Oronwy,
 Aer adwy aur adaf,
 Gwir iechyd, Grist goruchaf,
 156 Gwâr ysbrydol nefol Naf.

Mael hael hail fuail, o'i fwyaf—dostur
 A'i ddolur ydd wylaf:
 Meddgym mawrdëym Mordaf,
 160 Maith yw fod mur glod mor glaf.

Ffynonellau

A—BL Add 14868, 11^v B¹—BL Add 15001, 158^v B²—BL Add 15001,
 171^v C—BL Add 15023, 66^v D¹—Card 4.140, 547 D²—Card 4.140, 571
 E¹—J 111, 1211 E²—J 111, 1323 F—LIGC 1984B [= Pant 15], 27^r G¹—
 LIGC 4973B, 229^r G²—LIGC 4973B, 248^v H¹—Llst 147, 83 H²—Llst
 147, 218 (*o'r cefn*) I¹—Pen 118, 86 I²—Pen 118, 115

Seiliwyd y golygiad ar destunau E^1 a E^2 , y rhai hynaf. Gan fod testun E^2 yn llawnach, glynwyd wrtho lle yr oedd modd. Codwyd yr holl gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o E^1 neu E^2 . Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 167–8.

Amrywiadau

2 E^1 gychyat; E^2 gyrchyat (*gyda'r r wedi ei hychwanegu*). 28 E^1 nythaw. 33 E^2 ochel. 36 E^1 [gryd]. 39 E^2 irat ysbys. 43 E^2 oergrwydr. E^1 ergyt. 48 E^1 ry reued (*dilewyd ry*). 57 E^1E^2 ochwna. 67 E^1 o. 68 E^1 bolch y gled. 69–88 [E^1]. 89 E^2 niuer niuer. 100 E^1 ked[] nefa6l (*y mae gweddill y gair yn annarllenadwy oherwydd staen*). 103 E^1 g6ywa6l. 104 E^1 am lew ga6r am le gwra6l. 105–32 [E^1]. 124 E^2 d6yreda6c. 139 E^2 ath el otheint atholur (*gyda d, h a d wedi eu hychwanegu uwchben*). 143 E^1 aruot. 144 E^1 aer dirvyng. 145–60 [E^1]. 152 E^2 va6r ua6r (*dilewyd va6r â marc coch*).

Trefn y llinellau

Dilynir trefn E^2 .

E^1 89–104, 1–68, [69–88], [105–32], 133–44, [145–60].

Englynion i Oronwy Fychan ap Tudur pan oedd yn glaf

- Oherwydd d'afiechyd hirfaith, un rhagorol dy fraint [yn peri]
 dychryn [yn sgil dy] ddehurwydd mewn ymladd,
 [O] Oronwy, ymosodwr [mewn] brwydr,
 Nid oes nac atgyfnerthwr gwych [ei] nerth
 4 Na budd cadarn na dillad coch yn rhodd
- Na phennaeth nac arglwydd na pharch ar fardd
 (Rhoddaist dy ddillad i feirdd)
 Nac amddiffynnwr, cyfyngwr [llawn] doethineb,
 8 Na chynghorwr, [testun] barddoniaeth [o] ragoriaeth hyfryd.
- Tra byddi, arglwydd, yn sâl, arweinydd disglair [ac] amddiffynnwr
 gwych,
 Llaith iawn yw grudd a llygad:
 Nerthol mewn brwydr, arwr dedwydd yn gwallofi gwin,
 12 [Un sy'n] rhagoriaeth [i] lys pennaeth gwlad.
- Gwae fi, bennaeth gwŷr, [un megis] Gwriad [y] pendefig,
 Fod poen aruthr arnat;
 Iechyd a meithder oes, [O] gyfaill annwyl,
 16 A roddo[r] Tad doeth nefol a hardd iti!
- Och, [O] arglwydd sâl [sy'n dioddef o] afiechyd trwm, rhoddwr
 ysblander budd,
 Byddaf farw o'th herwydd;
 Oherwydd dy [roddion o] wisgoedd gwych a'th [roddion o] ddillad
 20 A'th loches, ni fu gwrthodiad [o ran rhoi] moliant [iti].
- [Am] dy fod, [un a chennyt] ergyd ddewr, ymosodwr [mewn]
 brwydr sy'n peri lladdfa enbyd,
 Mewn gofid trist di-baid,
 Amddiffynnwr duriol dewr [ei] fwriad, cyfaill byddin,
 24 Y mae Mair yn teimlo gofid mawr!
- Oherwydd d'afiechyd hirfaith, un gwych dy fraint, nid oes neb yn
 llawen,
 Oronwy gwaedlyd [dy] lafn;
 Oherwydd dy glod a'th gadernid [ag] arf
 28 A'th glod faith, ni ddaw iti weithred ysgeler,

Oherwydd dy haelioni cain ei ffyddlondeb, [un] amlwg [dy]
wrhydri

Yn nhaerineb brwydr wych,
A'th ras a'th harddwch di-fai

32 A'th leferydd a'th olwg deg iawn.

Och, Arglwydd [Dduw], fod gwendid [ar] Achilles nerthol Gwynedd,
Na foed i drais beri imi ymwadu [ag ef];

Gwrandawa, Grist, ar fy nhriswch mawr,

36 Arglwydd grymus, am un rhagorol ei gleddyf [mewn] brwydr.

Arglwydd a folaf yn helaeth, Pennaeth [ac iti] nerth nefol perffaith,
Iachâ boen ac afiechyd

[Un] amlwg [ei] ras [yn cynnig] budd [ar gyfer] angen gwesteion,

40 [Un ac iddo] waywffon goch ger llifeiriant rhyd.

Rhyfeddod yw fy mod yn fyw, fy nghyfaill annwyl a'm harglwydd,
Ac afiechyd mawr i'th ran,

[Un sy'n rhoi] gorchymyn [mewn] brwydr sydyn, [yn peri] arswyd
[mewn] ymladdgyrch,

44 Gwych [a] didwyll yw dy feddwl.

Boed i Anwylyd gwych tra hael Mair, [ac iddo] sancteiddrwydd
gwych [llawn] ysblander,

Roi iti fywyd ac iechyd,

Arglwydd [a chennyt] gyfoeth, gwaedlyd dy gleddyf [ac yn] enwog
am dy roddion,

48 Arglwydd [a chennyt] awdurdod [dros] wŷr gwych, [ffynhonnell]
cyfoeth [i] feirdd [y] byd.

Os sâl yw arglwydd, amddiffynnwr [a chanddo] ysblander
Garannog,

Goronwy, anwylyd [y] llys,

Cyfaill teilwng beirdd, gwaë Wynedd;

52 Arglwydd tai gwin, ni cheisiai heddwch!

Paid â pheri chwerwedd dirmygus [fel canlyniad i] dristwch dwys,
[O] Fair,

Er mwyn dy drugaredd mawr,

Ynghylch cyfaill, ynghylch [un a chanddo] haelioni cyfoeth,

56 Ynghylch gwledd arhydeddus wych arglwydd.

Ochneidiau yw fy rhan, och na fedda f'anwylyd

(Afiechyd fy mrawd hynaws,
 Arglwydd tal [a chanddo] ddewrder Achilles)
 60 Ar iechyd i'w wyneb prydferth [eto]!

Gofidus yw i'r byd fod diffyg cwsg [yn sgil] afiechyd
 Ar fy arglwydd (nid rhyfeddod yw [hynny]!)
 Cynheiliad [a chanddo] arf, [yn cynnig] ymgeledd cyfeddach,
 64 Pennaeth [ac] arglwydd [a chanddo] gymr yfed meddwol [llawn]
 medd.

Trist yw hir aros [y gwrthrych] moliant, amddiffynnwr [llawn]
 gogoniant llu dedwydd,
 Mewn gwendid yn gorwedd;
 Arweinydd rhagorol yn sgil ei dras o wŷr bonheddig,
 68 Gwron brwydr balch [a] dewr, tolciog ei gleddyf.

Gwae fi fod [un sy'n rhoi] ergyd [â] gwaywffon [sy']n cosbi bwriad
 [y gelyn]
 Mewn afiechyd [sy]'n dwyn perygl [iddo]:
 Gwae i lu, gwae oherwydd [un sy]'n noddi cerdd [gan] luoedd,
 72 Gwae rai hagr [oherwydd galar], gwae feirdd, gwae fi!

Rho iachâd, Arweinydd gwledydd Cred, Anwylyd nef [ac arnat]
 bum clwyf,
 I arglwydd [a chanddo] fri [oherwydd ei] haelioni,
 Arglwydd gorau [Dy] drysor disglair,
 76 Trindod ardderchog drugarog!

[Un sy'n dwyn] clod ar Wynedd [â'r] un ysblander â Rhodri,
 Goronwy [sy]'n cystwyo [mewn] brwydr:
 Gwych ei rodd, yn rhoi dillad coch,
 80 Pennaeth cadarn [a chanddo] fri gwych rhyfeddol.

[Oherwydd] dioddef afiechyd trwm arglwydd [a chanddo]
 feiddgarwch Benlli Gawr,
 Arglwydd rhagorol mawr, amddiffynnwr [mewn] cyfyngder,
 [A chanddo] waywffon [yn peri] lladdfa [ac] arfau megis Beli,
 84 [A'i] arf [yn amddiffyn] gwledd gwin Gwynedd, gwae ni!

Os gwan yw[r un] dewr [ei] natur [a chanddo] egni disglair
 Rhydderch,
 Rhoddwr dillad gwyrdd a sidan,
 Amddiffynnwr duriol, arglwydd dewr a phybyr [ac iddo] rwysg
 pennaeth,

88 [Un megis] Nudd gwych, [boed i] Fair ei amddiffyn!
 Sâl yw, Arglwydd [y] llu nefol [a'i] gyfoeth aur,
 Goronwy [sydd â] rhwysg Greidiol,
 [Un megis] caer yn ystod brwydr, cyfaill arwrol,
 92 [Un sy'n] rhwystr teilwng yn darostwng gwŷr cadarn.

Gwarchoda iechyd da [yr un megis] Achilles nerthol [mewn]
 brwydr,

[O] Dad uchel dedwydd grymus;
 Er mwyn Dy fron frenhinol doredig
 96 A'th boen, [O] Arglwydd ffyniannus [Dy] iawnder,

A'th artaith waedlyd a'th Groes a'th Grog freiniol [ei] gras,
 Ystyria angen yr un sy'n dy ganmol;
 Cynorthwya, [O] Fair, fy ymbil,
 100 [Ffynhonnell] disgleirdeb hardd, ac fe fydd dy fardd yn dy foli.

[O] Bennaeth goruchaf cadarn, Arglwydd nefol gwych,
 Gwrandawa ar lef eirchiad
 [Sy'n ymbil] ar ran amddiffynnwr [a] chynheiliad llu [a'i] foliant
 [yn llawn] disgleirdeb,

104 Ar ran gwron brwydr, ar ran arweinydd gwrol.

Boed i[r] un cadarn, lloches [y] cenhedloedd, fod yn gadarn [ac] yn
 hirhoedlog,

Lloches wych [i] rai noeth a thlawd,
 [Un] daufiniog [ei] arf, [un a chanddo] arfer pwylllog,
 108 Un tebyg i Rolant [a chanddo] lwyddiant aruthrol ffawd.

Os sâl yw arglwydd [llawn] dewrder [a chanddo] awdurdod Mordaf,
 [Ac iddo] ddoethineb pwyll mawr a theg,
 [Y mae] ochenaid oherwydd gofid, maluriedig yw moliant,
 112 Am bennaeth mawr ei les [o] natur Nudd.

[Yr] Arglwydd goruchaf [sy'n] Dri Pherson, Arglwydd y Drindod
 wyt [Ti],

Gwrandawa ar feirdd [y] byd
 Er mwyn lleddfu clefyd [sy'n peri] llesgedd [i] lawenydd,
 116 Er mwyn [rhoi] iechyd i'm hanwylyd a'm brawd.

Arglwydd rhagorol cyfiawn ffyddlon, ?iachâ Oronwy,
 Cyfaill rhagorol ei bobl,
 Amddiffynnwr [rhag] ergyd brwydr, arglwydd [yn haeddu] moliant,

- 120 Arglwydd [mewn] ymladdfa, parod [ei] rodd ragorol.
 [Un a chanddo] waywffon brwydr [yn] rhagorol ei barch [ac yn]
 llawen [ei] gyfarchiad, Goronwy,
 [Megis] Garannog Glewddigar,
 Rhwydd iawn yw ei [roddion o] ddillad gwyrdd, [a chanddo] luoedd
 sy'n hoffi cân,
- 124 Arglwydd buddugol pendefigaidd [ei] hawl.
 [Boed] i'm harglwydd [gael] rhwyddineb [yn ei] fywyd, mewn
 lladdfa ddwys [y] gelyn
 Tebyg ei gyrch i Iŵl Cesar [ydyw];
 Un grymus [ei] ymosodiad, [un a chanddo] fyddin wych [ac] sy'n
 hoff o win,
- 128 Arglwydd llon a theg, un mawr [ei] ddieter sy'n dosrannu llawer.
 Yn hir yr ysgoga [ein] meddwl ynom, roddwr rhyfelgar,
 Ochenaid druenus
 Oherwydd gofid chwerw
- 132 Am afiechyd hirfaith [un a chanddo] natur Geraint, cyfaill
 bonheddig.
 Och fi, arglwydd hael [a chennyt] rwysg natur Owain,
 Angerdd dewrder Arthur,
 Nad yw Mair yn ystyried dy ofid
- 136 A'th afiechyd, [O] amddiffynnwr mawr dy fwriad [mewn] brwydr.
 Boed i iechyd yn ôl f'ewyllys, fy mrawd disglair [dy] ddawn,
 Gan Dduw[’r] Arglwydd
 Ddod iti rhag d'afiechyd a'th ddolur
- 140 A'th boen [lawn] gofid caled diysgog.
 [Testun] moliant dedwydd, arglwydd [a chennyt] gyfoeth o aur,
 Goronwy fab Tudur;
 [Un a chennyt] fri gŵr arfog, arglwydd [megis] Peredur,
- 144 Arf yng ngwasgfa brwydr, cleddyf caled mewn lladdfa.
 Goronwy llawen, arglwydd [sy'n destun] cân urddasol [gan] wŷr
 gwych,
 Arglwydd [yn peri] cyflafan [yn] waedlyd [mewn] bwlch,
 Oherwydd ei fudd hael a'i orsedd
- 148 A'i rodd a dderbynnir drwy ei haelioni.

Y mae afiechyd yn dy ddolurio, f'arglwydd, tebyg [dy] rwysg i
Wair fab Gwestl,

Un anheddychol yn brwydro'n ddi-baid;
Iachâ[r] anwylyd disglair ffyddlon [ei] gred,
152 [O] arglwyddes ragorol sy'n wry, Mair fawr bur!

Rho i'm harglwydd brwydr [a] rhyfel, Goronwy tra dewr,
[Un] rhagorol [ei] law [mewn] bwlech brwydr,
Iechyd perffaith, [O] Grist goruchaf,
156 Arglwydd nefol ysbrydol mwyn.

Tywysog bonheddig [a chando] gyrn yfed [ar gyfer] gwledd,
oherwydd ei ofid mawr iawn
A'i boen yr wyf yn wyllo:
[Un a chando] gyrn medd pennaeth mawr [megis] Mordaf,
160 Blinderus yw fod [un a chando] glod amddiffynnwr mor sâl.

Marwnad Goronwy Fychan ap Tudur

- Neud trist y'm gwnaeth Crist Croes dangnefedd,
 Neud tros ofid llid a lledfrydedd,
 4 Neud rhyfawr golled (nid rhyfedd!)—a'm clwyf,
 Neu'm try yn hynwyf tra-anhunedd.
 Neud trymfryd penyd poen difäedd
 O gyfranc tranc trafñ llafrñ Llawfrodedd;
 Neud tromfrawd tafawd am etifedd—llew,
 8 Erfai cychwyrñ glew arfau cochwedd.
 Neud truan y'm gwân gwayw irlonedd,
 Neud trahir maddau glew Lachau gledd,
 Neud amlwg y'm dwg dygnedd—galarfrwyn
 12 A feirw orwyllt gwyn o'i farw orwedd.
 Neud trwm hepgor iôr, dôr y dewredd,
 Neud trom anrhaith faith gwaith gwythlonedd,
 Neud trais trawslorf corf torf ail tiredd—Maig
 16 Myned eurfalch ddraig mewn daearfedd.
 Neud braidd yw ym fyw o'i farw dydwedd,
 Neud braw ein treisiaw am ein trosedd,
 Neud bron don yw hon o'i hannedd—a dry
 20 Am golofñ Cymry a'i hymgeledd.
 Neud breuol chwedl tost farw cost canwledd,
 Neud brwyn cwyn canmyrdd am gyrdd gyfedd;
 Neud breuddwyd arswyd, orsedd—gynheiliad,
 24 Am lawir ynad loyw wirionedd.
 Ni'm doeth na gwyngen na gwên na gwedd
 O'i ddyfrys angau dan lifddyfredd;
 Ni'm daw eithr wylaw, uthr ddialedd—chwedl,
 28 Dros firain genedl am draws fawredd.
 Neud hiraeth a'm gwnaeth gaeth gynrhygedd,
 Neud herwydd tramgwydd tromgad gydwedd,
 Neud tra edyrñ chwyrñ chwerwedd—gwenwynig,
 32 Afreolus ddig o'i farwoledd.
 Ni bu, am nad byw llyw llaweredd,
 Golled un dostur, mur marannedd,
 Er pan las gwanas, Gwynedd—berfeddnod,
 36 Hydr dëyrñ a'i glod hyd ar Duedd.

- Cynhebyg fyddai, ni haeddai hedd,
 Twrf toredwynt graen am gaen Gogledd;
 Cymrwd mawrair glod, cymrawd Mwredd—daer
 40 Yng nghymynad aer, yng nghyminedd.
 Cwyn golau yw'r mau, mi a'i harwedd,
 Treio Goronwy, trafn mordwy medd;
 Cof garw o'i lwyrfarw ei alarfedd—oedd,
 44 A bair filioedd heb orfoledd.
 Cynnydd ewybr oedd cyn no'i ddyedd,
 Colofn osgorddfawr llawr Arllechwedd,
 Cadflaidd teyrnaidd, teyrnedd—ener,
 48 Eurlliw ei faner o ieirll fonedd.
 Compod clod cludfeirdd o heirdd harddedd,
 Cwypai grau angau Eingl galanedd,
 Cain dduriol ei bâr uwch cynddaredd—gryd,
 52 Yng ngŵyth gerwin fryd, yng ngwaith garwedd.
 Côr iôr, dôr durgrwydr, frwydr ddifrodedd,
 Corf torf, llorf lleiddiad o'r wlad i'r wledd,
 Cun Rheged unllid mewn cynrhygedd—blin,
 56 Cariad rhyfel trin, ciried rheufedd.
 Cywraint oedd ei fraint, fraisg anmynedd,
 Cywair oedd ei air, aur gymyrredd,
 Cywir oedd ei wir o wiw rysedd—beilch,
 60 O genhedlog welch o'i gynhadledd.
 Cefais alaeth hir enwir anwedd
 A galar dêr doeth coeth cyfannedd
 Ac udwaedd dan fron ac adwedd—tristyd
 64 A bylchu fy mryd o farw balchedd.
 Cafas gras urddas eurddawn fuchedd,
 Cennyw Ddewin nef cyn no'i ddiwedd;
 Caffo gariad rhad, anrhydedd—allu,
 68 Un rhagorol fu, yn nhrugaredd!

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 164^r B—Card 4.140, 552 C¹—J 111, 1230 C²—J 111,
 1334 D—LIGC 4973B, 237^v E¹—Llst 147, 83 E²—Llst 147, 236 (*o'r*
cefn) F¹—Pen 118, 98 F²—Pen 118, 125

Seiliwyd y golygiad ar destunau C¹ a C², y rhai hynaf. Codwyd yr holl
 gopïau eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r
 ddau destun hyn. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 167–8.

Amrywiadau

2 C^1 net. 6 C^2 a gyfrangk. 10 C^2 net. 15 C^1 [corf torf]. o ael. 20 C^1 ymgeled. 31 C^2 edru. C^1 [chwyrn]. 38 C^1 tŵr. 40 C^2 yghynat. 43 C^1 lŵruar. C^2 alarned. 53 C^1C^2 koryf. 54 C^2 orwlat or wled. 57 C^2 anmyn[]d. 62 C^2 y galar (*yn ôl R, ond o edrych ar y llsgr. y mae'r llythyren o flaen galar yn aneglur*). 65 C^1 ras. 67 C^2 keffo (*yn ôl R, neu efallai koffo*).

Teitl

C^1 llyma aŵdyl a gant gruffd. vab maredud vab maredd y ronó vychan vab tudur (*dilewyd vab maredd*). C^2 llyma aŵdyl agant gruffud y ronó vychan vab tud' vab gronó.

Olnod

C^1C^2 AMEN.

Marwnad Goronwy Fychan ap Tudur

- Yn drist y'm gwnaeth Crist [sy'n cynnig] tangnefedd [drwy'r]
Groes,
Y mae llid a thristwch [arnaf] yn sgil gofid,
Colled enfawr sy'n fy nolurio (nid rhyfeddod [mo hyn]!),
4 Y mae anhunedd dirfawr yn peri imi fod yn aflonydd.
Meddwl trist yw[r] penyd [yn sgil] poen [ei] ddarfodiad
Yn sgil helynt tranc arglwydd [a chanddo] lafn [fel] Llawfrodedd;
Prudd ei farn yw[r] tafod oherwydd [colli] etifedd gwron,
8 Un gwych cyflym dewr [a chanddo] arfau gwaedlyd.
Yn druenus y mae pangfa [o] ddieter yn fy nhrywanu,
Hirfaith iawn yw colli [un a chanddo] gleddyf [megis] Llachau
dewr,
Yn amlwg y gafaela ynof ing tristwch galar
12 Sy'n corddi cwyn gwyllt iawn [ynof] oherwydd ei orweddiad
marwol.
Trist yw bod heb arglwydd, amddiffynnwr y gwŷr dewr,
Trist yw[r] ysbail helaeth [a ddygwyd mewn] gweithred [o]
ddicllonedd,
Trais [yn erbyn] amddiffynnwr nerthol [a] chynheiliad llw tebyg [o
ran maint] ei diroedd i Faig
16 Yw myned [y] pennaeth balch rhagorol i fedd yn y ddaear.
Anodd yw imi fyw oherwydd ei fedd marwol,
Arswydus yw ein hysbeilio o'n rhagoriaeth,
Calon doredig yw hon sy'n crwydro o'i thrigfan
20 Oherwydd [tranc] cynheiliad Cymru a [ffynhonnell] ei hymgeledd.
Egwan yw[r] newyddion [am] farwolaeth enbyd darparwr can
gwledd,
Trist yw cwyn can lliaws am gyfaill cerddi;
Y mae breuddwyd [lawn] arsyd, cynheiliad llys,
24 Am [golli] cyfiawnder disglair barnwr hael.
Ni ddaeth imi na sirioldeb na gwên na golwg hardd
Yn sgil ei angau sydyn dan ddyfroedd llifeiriol;
Ni ddaw imi [ddim byd] ond wylo, newyddion [am] ddinistr
aruthrol,
28 Ar ran llinach wych am [un] nerthol [ei] ysblander.
Gwnaeth hiraeth lid dygn imi,
Y mae [hyn] oherwydd cwmp cydymaith byddin ormesol,
Y mae chwerwder llidiog dygn aruthr iawn,
32 Dieter aflywodraethus oherwydd ei farwolaeth.
Ni fu, gan nad yw arweinydd lluoedd yn fyw,
Gollod debyg ei thristwch, amddiffynnwr cyfoeth,

- Er pan laddwyd cynheiliad, canolbwynt Gwynedd,
 36 Arglwydd gwych a'i glod [yn ymestyn] hyd at [Afon] Tweed.
 Tebyg fyddai, ni cheisiai heddwch,
 I gynnwrf corwynt erchyll dros wyneb [y] Gogledd;
 Un llidiog [a'i] glod [yn destun] ymffrost, cymar [i] Fwredd taer
 40 Yn nhrychiad brwydr, mewn ymladdfa â chleddyfau.
 Cwyn amlwg yw fy rhan, myfi sy'n ei ddwyn,
 [Am] i Oronwy ddarfod, arglwydd [a barai] lifeiriant medd;
 Cofeb greulon o'i farwolaeth lwyr oedd ei fedd galarus,
 44 Sy'n peri i filoedd fod heb lawenydd.
 Cyflym [ei] ffyniant oedd cyn ei gyni,
 Cynheiliad mawr ei lu daear Arllechwedd,
 [Un megis] blaidd pendefigaidd mewn brwydr, pennaeth arglwyddi,
 48 [Un] eurlliw ei faner o dras ieirll.
 [Un a fu'n] safon moliant beirdd mawl o ran harddwch gwŷr hardd,
 Gollyngai waed angau cyrff Saeson,
 Gwych [a] chaled fel dur oedd ei waywffon uwchlaw ffyrnigrwydd
 brwydr,
 52 Yn ffyrnigrwydd meddwl creulon, mewn brwydr [lawn] gerwindeb.
 Arglwydd llys, amddiffynnwr [a chando] darian ddur-rwylllog,
 dinistr [mewn] brwydr,
 Cynheiliad llu, amddiffynnwr [a] lladdwr o'r wlad i'r wledd,
 Tebyg ei lid i arglwydd Rheged mewn ffyrnigrwydd dygn,
 56 Carwr rhyfel [llawn] gwrthdaro, [ac iddo] haelioni cyfoeth.
 Cywrain oedd ei fraint, [un a chando] bwyll gwych,
 Perffaith oedd ei fri, [un a chando] rwysg rhagorol,
 Cywir oedd ei gyfiawnder oherwydd gogoniant teilwng [y] gwŷr
 gwych,
 60 Oherwydd [y] gwroniaid bonheddig [a heidiai] i'w gynulliad.
 Cefais dristwch hirfaith aruthrol o greulon
 A galar am arglwydd doeth gwych hynaws
 A gwaedd alarus dan [fy] mron a phall [yn sgil] tristwch
 64 A dryllio fy meddwl yn sgil marwolaeth [un a chando] wychder.
 Cafodd [ef] ras [oherwydd] urddas [ei] fywyd gwych ei ddawn,
 Canfu Ddewin [y] nef cyn ei ddiwedd;
 Boed iddo dderbyn cariad graslon, grym anrhydedd,
 68 Un rhagorol fu [ef], mewn trugaredd!

Englynion marwnad Goronwy Fychan ap Tudur

- 4 Ni chlyw na chalon na chlust,
Ni thraeth tafawd tromfrawd trist
Murn dig (a Mab Mair yn dyst),
Mawr fâr no marw dâr mor dost.
- 8 Llawer o nifer (anafu—Gwynedd
O’i ddirfedd a ddarfu;
A’i arfau ym mrwydr a orfu)
A wÿr ddrwg llwyr am ddraig llu.
- 12 Bu dygn (bid ogyrch dolur
Am fleiniad gwengad gwingar)
Boddi draig, beiddiad ragor,
Baedd yn aer, byddin eryr.
- 16 Llawer och, iôr llawir oedd,
Llwrw galar am flaengar flaidd,
A gwae a thrymgwyn a gwaedd
A hidl ddeigr o’i hoedl ddygwydd.
- 20 Rhyfedd ym fyw, llyw llawged,
Gan gyfar o gŵyn gofid
Yn aros chwedl iawn irad
Yn ôl iôr Yniwl wryd.
- 24 Echos bod, clod clo marmor
Echel brwydrwaith, ail Beredur,
Echwng dan ais, trais trahir,
Ochrog helm, och rhag galar!
- 28 Chwedl maith gaith gyfranc, tranc trai,
Chwerw trist (ym maengist y mae
Iôr torf, corf coeth) a ddoeth ddoe
Ar Wynedd am Oronwy.
- Tristawyd beirdd tros daear
O farw ffrwythlonaf eryr,

32 Tromgad fugail, ail Ector,
Tramgwydd brwydr, trymgawdd bryder.

Trefnodd ynof cof, cofl dra girad—ddig,
A bair ddeigr ar lygad:
36 Trafn aerdorf trefn ei eurdad,
Trahiraeth farw cydfaeth cad.

Cawdd a'm gorthrymawdd; no thramwy—galar
Am golofn Dindaethwy
40 (Mau gofion am Oronwy)
Mab Mair ni wnaeth hiraeth hwy.

Penyd oer, poenau a dig,
Plaid genedl Gymry, fur plyg,
44 Pell Grist farn drist a furn drwg,
Pallu o'r pwll du pwyll deg.

Pan ddoeth, poenddethol ofid,
Tramgwydd am arglwydd mawrglod,
48 Ys aml o'r bobl a somed
Yn Lloegr am eu hun llygad.

Doeth am ddraig mil hil Hiriell
Dygn dramgwydd, deugwyn drymgoll;
52 Dwbl y gorug y dubwll
Am orchudd llew ym erchyll.

Ni'm try hoen rhag poen peunydd—mor irad
Marw eryr Penmynydd;
56 Ni'm treigl gwên o lewenydd,
Neu'm trig naws dig nos a dydd.

Caiff ef yn nef Naf osgordd
Llewenydd eglur, mur myrdd;
60 A hiraeth gŵr meddfaeth gwrdd
A fydd o'i farwddydd o'i fardd.

Gwelais yng ngwyngor gwiwlethr
Erfai helm, arfau hoywlathr
64 Gronwy ddidarf arf aruthr,
Gryd gyrchiad, oesgad ysgwthr,
Aerllafn daufiniog eurllythr:
Irlawn fy neigr o'i oerllithr.

68 Rhoed yn ael (rhodiwn alar)
Menai mywn rhwym bedd mynor
Gwas glwysddewr mywn gwisg lasddur,
Gwaisg uwch gorwydd braisg breichir,
Gwiw ei lafn, gwayw Olifer,
72 Gwawd hydr o lin gwaed Tewdwr.

76 Dygn oedd roi post, cost canrhodd,
Diriai Ffrainc, mywn derw a phridd;
Câr glyw, llyw llys Benmynydd,
Côr brodyr troednoeth a'r i cudd;
Corf ced, eurllorf cad aerlladd,
Cwyn trais wenwyn tros Wynedd.

80 Dod, Fab Mair, lle ni wneir nâg
(O blas ni ddêl arno blyg!)
(Hwyl o'th wlad), hoywlwyth Wledig,
Heliwr gryd, hael Iôr y Grog:
Hwyl ddoeth a rôl hail a ddug,
84 Helmddur hil, i Dudur deg.

88 Drud fu dawl ruthr mawl Maelgwn,
Neddair Dyfr, i'r anoddun;
Aruthr gedemyd Aron,
Arial milwrgorff Urien,
Arllwybr rhyfelfrwydr orllin,
Aerllew dewr eurlliw darian.

92 Dioer bu oer iawn a llawn llid
Diwraidd draig mywn dewredd drud;
Diaidd graig, da oedd ei gred,
Dewr a grym yn dirio gryd,
Duriol gledd, dirwôl glod,
96 Dâr ymlaengar ymlyngad.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 170^v B—Card 4.140, 586 C—J 111, 1322 D—LIGC 4973B, 247^r E—L1st 147, 216 (*o'r cefn*) F—Pen 118, 112

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd yr holl gopiâu eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o C. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 167–8.

Darlleniadau'r llawysgrif

22 ochyl. 33 drac irat. 88 milŵr gorff. 90 arllew. 92 mywn dewn dewred.

Olnod

ac velly yt'uyna englynyon marwnat gronwy vychan.

Englynion Marwnad Goronwy Fychan ap Tudur

- Nid yw na chalon na chlust yn clywed,
 Nid yw tafod trist prudd ei farn yn disgrifio
 Brad chwerw (a [boed] Mab Mair yn dyst [i hyn]),
 4 Dicter mawr mor boenus â marwolaeth [yr] arglwydd [hwn].
- Nifer fawr (dolurio Gwynedd
 A ddigwyddodd oherwydd ei fedd anorfod;
 A'i arfau [ef] a fu drechaf mewn brwydr)
 8 Sy'n gyfarwydd â cham llwyr oherwydd [colli] pennaeth llu.
- Erchyll fu (boed cylch o ofid
 Oherwydd arweinydd hoff o win [a chanddo] fyddin wych)
 Boddi pennaeth, [un a chanddo] ragoriaeth heriwr,
 12 [Un megis] baedd mewn brwydr, pennaeth byddin.
- Llauer ochenaid, arglwydd hael ydoedd,
 Yn sgil galar am ymladdwr eofn,
 A gwae a chwyn trist a gwaedd
 16 A dagrau llifeiriol oherwydd cwmp ei fywyd.
- Rhyfeddol ydyw imi fod yn fyw, arglwydd hael,
 Gyda chyfran o gwyn [llawn] gofid
 Yn dioddef newyddion creulon iawn
 20 Yn sgil [tranc] arglwydd [o] nerth Yniwl.
- Oherwydd fod, clod caethle marmor
 [Un megis] Achilles [ar] achlysur brwydr, un tebyg i Beredur,
 Deimlad caethiwus dan [fy] mron, trais hirfaith iawn,
 24 [Un a chanddo] helm awchlym, och oherwydd galar!
- Newyddion am helynt caethiwus blinderus, tranc [a] difodiant,
 [Yn] chwerw [ac yn] drist (mewn arch faen y mae
 Arglwydd llu, cynheiliad gwyech) a ddaeth ddoe
 28 I Wynedd ynglŷn â Goronwy.
- Tristawyd beirdd ledled [y] ddaear
 Yn sgil marwolaeth [y] pennaeth mwyaf llwyddiannus,
 Gwarchodwr byddin ormesol, un tebyg i Hector,
 32 [Un a barai] dramgwydd [mewn] brwydr, gofid [oherwydd]
 digofaint dwys [bellach].

Darparodd [ef] atgof ynof, mynwes chwerw dra thrist,
 Sy'n peri dagrau ar [fy] llygad:
 Arglwydd llu rhyfel [yn] null ei dad gwych,
 36 Marwolaeth cydymaith byddin [sy'n peri] hiraeth mawr.

Fe'm gorthrymodd gofid; nag ymosodiad galar
 Am gynheiliad Dindaethwy
 (Fy rhan i yw atgofion am Oronwy)
 40 Ni wnaeth Mab Mair hiraeth hwy.

Penyd trist, poenau a dicter,
 Amddiffyn[nwr] cenedl y Cymry, gwarchodwr [mewn]
 darostyngiad,
 Barn drist [a] chyrhaeddbell Crist sy'n lladd drygioni,
 44 Marw[r] un teg [ei] synnwyr oherwydd y pwll du.

Pan ddaeth, gofid arbennig ei boen,
 Tramgwydd am arglwydd mawr ei fri,
 Llawer o'r bobl a dwyllwyd
 48 Yn Lloegr o'u hunig anwylyd.

Daeth oherwydd pennaeth mil [o] linach Hiriell
 Dramgwydd erchyll, colled drist helaeth y cwyn amdani;
 Yn ddyblyg y gwnaeth y pwll du
 52 Glwyfau imi yn sgil gorchuddio gwron.

Nid yw sirioldeb yn dychwelyd imi oherwydd poen feunyddiol mor
 greulon
 Marwolaeth pennaeth Penmynydd;
 Ni ddaw imi wên o lawenydd,
 56 Y mae tymer dicllon yn aros arnaf nos a dydd.

Caiff ef yng ngosgordd Arglwydd [y] nef
 Lawenydd disglair, amddiffynnwr llu;
 A hiraeth am wr grymus a fagwyd ar fedd
 60 A fydd i'w fardd oherwydd ei ddydd angau.

Gwelais yng nghanell fendigaid [y] llethr gwych
 Helm wych, arfau hardd a disglair
 Goronwy diysgog creulon [ei] arf,
 64 Ymosodwr [mewn] brwydr, [achoswr] dinistr [mewn] ymladdfa
 barhaus,
 [Un a chando] arf brwydr ddaufiniog wych:
 Dicllon yw fy nagrau yn sgil ei gwymp trist.

68 Dodwyd yn ymyl (yr ydym yn rhodio [mewn] galar)
 Menai yn rhwymiad bedd marmor
 Lanc hardd a dewr mewn arfwisg o ddr glas,
 Un disglair ar farch cadarn hirgoes,
 72 Gwych ei lafn, [a chanddo] waywffon [megis] Olifer,
 [Un] grymus [ei] foliant o dras gwaed Tewdwr.

Erchyll oedd rhoi cynheiliad, darparwr can rhodd,
 Gwasgai ar wŷr Ffrainc, mewn arch dderw a phridd;
 Cyfaill gwŷr dewr, arweinydd llys Penmynydd,
 76 Cangell [y] brodyr troednoeth sy'n ei guddio;
 Cynheiliad rhodd, amddiffynnwr rhagorol yn lladd byddin mewn
 brwydr,
 Cwyn am chwerwedd gormesol ar hyd Gwynedd.

80 Dyro, Fab Mair, [mewn] lle na wneir gomeddiad
 (O lys na all darostyngiad ddod arno!)
 ([Boed] gorfoledd oherwydd dy wlad) Arglwydd llu llawen,
 [Un a fu megis] heliwr [mewn] brwydr, [O] Arglwydd hael y Grog:
 [Un] doeth [ei] hynt a roddai letygarwch a gymerodd [Ef],
 84 [Un o] linach ddr ei helm, [i'r nef] at Dudur teg.

Enbyd fu rhuthr terfyn[ol un a chanddo] glod Maelgwn,
 [Un a'i] law [megis] Dyfr, i'r anoddun;
 [Un a chanddo] gadernid aruthrol Arawn,
 88 Ffyrnigrwydd corff rhyfelgar Urien,
 [Un a greai] lwybr [llawn] gorthrwm [mewn] brwydr rhyfel,
 Gwron brwydr dewr eurlliw [ei] darian.

92 Yn ddiamau y bu'n drist iawn ac yn llawn llid
 Gwypm pennaeth ym mlodau oedran gwron;
 [Un megis] craig gyndyn, da oedd ei addewid,
 Un dewr a grymus yn cymell brwydr,
 [Un] duriol [ei] gleddyf, [yn] ddi-ffirwyn [ei] glod,
 96 Arglwydd blaengar byddin erlyngar.

Moliant i noddwr anhysbys

- | | | |
|-----------------------------|--------------------|--------------------------|
| Llachau Gwynedd, | llyw dwy orsedd, | llew diarswyd, |
| Llucheden bâr | wrth aer esgar, | Arthur ysgwyd, |
| Llafn trafyn treigl-gad, | teg gynheiliad | deucan haelwyd, |
| 4 Llwybr gryd, bryd brwysg, | lliaws gedrwysg, | lleas gadrwyd, |
| Llŷr osgorddion, | wythlaith galon, | ni'th lyth giliwyd, |
| Llurug frwydrchwant, | o'th ddewrfeddiant | ni'th arfeiddiwyd. |
| Lluosog drafn | eurgrib lymlafn | aergrau blymnwyd, |
| 8 Lluniaist orfod | o lewdwr clod | hyd loywdir Clwyd, |
| Lloegr Ddeifr goddi, | Arawn ynni, | Urien annwyd, |
| Llorf corf canwledd, | eislath ddurgledd, | aeslwyth ddorglwyd, |
| Llyw llym grym gryd, | o'th ddewr blegyd | ni'th hir blygwyd. |
| 12 Llew lluurllin, | milwr dorch trin | mal aer Dwrch Trwyd, |
| Llithiaist â'th rôn | aerferyfon | ar forefwyd; |
| Gwnaethost yn aer, | catgun eurfaer, | coetgwn irfwyd. |
| Gwnawn glod yntau | o'th draws gampau | (ni'th drais gwymmpwyd), |
| 16 Gwas yng ngarthan | â thrwm ogan | ni'th ddremygyd, |
| Gwayw gweithliwed, | hyloyw giried, | hael lyw, gorwyd. |
| Gweilging ongyr, | yt, teg eryr, | eto geiriwyd, |
| Gwaywar trymffysg, | mawl o'th eurddysg | mal y'th urddwyd. |
| 20 Gwersyll porthfrain, | o'th arwyrain | y'th oreurwyd, |
| Gorsafwr trin, | dewrdwrf Cunin, | durdarf Cynwyd. |
| Fy ngwalch balch berth, | da o'th fawrnerth | doe y'th farnwyd, |
| Fy ngwelygordd | coed dur osgordd, | cad daerysgwyd, |
| 24 Fy mhôr llawged | tirion drefred, | tarian dryfrwyd, |
| Fy nghydymdaith | aesor eurfraith, | oeswr aerfrwyd, |
| Fy nghariad gwrdd | cymen agwrdd, | camon egwyd, |
| Fy nghyfwrain, | fy nghâr durllain, | fy ngharw dewrllwyd, |
| 28 Fy nghorf torf taer, | fy nraig yn aer, | fy nragon wyd. |

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 164^r B—Card 4.140, 550 C—J 111, 1219 D—LIGC 1984B [= Pant 15], 101^r E—LIGC 4973B, 237^r F—Llst 147, 94 G—Pen 118, 97

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd yr holl gopiâu eraill o'r gerdd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o C. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 167–8.

Darlleniadau'r llawysgrif

3 tec kynnheiliat. 5 lyt. 7 eurgryt. 12 torch. 16 nythremyg6yt. 17 hael y6. 18 yttec. 23 taerysg6yt. 26 kam a6neg6yt.

Trefn y llinellau

1–12, 14, 13, 15–28.

Moliant i noddwr anhysbys

- Llachau Gwynedd, arweinydd dau lys, gwron eofn,
 Gwaywffon [megis] mellten yn erbyn gelyn [mewn] brwydr, [a
 chennyt] darian [megis] Arthur,
- 4 Llafn arglwydd llu treiddgar, cynheiliad teg dau gan aelwyd,
 [A'th] hynt [yn cyrchu] brwydr, meddwl ffyrnig, cwrs rhoddion [i]
 lu, rhwydwr byddin [mewn] cyflafan,
 [A chennyt] osgorddion [megis] Llŷr, [yn peri] marwolaeth ffyrnig
 [i] elynion, ni'th yrrwyd yn eiddil ar ffo,
 Noddfa awchus am frwydr, oherwydd dy awdurdod dewr ni'th
 heriwyd.
- 8 Arglwydd byddinog [a chennyt] lafn llym euraid ei grib [mewn]
 brwydr [lawn] gwaed o laddfa,
 Lluniaist fuddugoliaeth drwy ddewrder clodfawr hyd at dir disglair
 Clwyd,
 [Gan] gystuddio Saeson Lloegr, [un a chennyt] egni Arawn, natur
 Urien,
 Amddiffynnwr [a] chynheiliad can gwledd, un dur dy gleddyf [a
 chennyt] bicell yn taro asennau, noddwr [yn dwyn] baich
 tarian,
- Arweinydd llym grymus [mewn] brwydr, yn ôl dy ewyllys ddewr
 ni'th ddarostyngwyd am hir.
- 12 Gwron campus dy lu, [a chennyt] dorch brwydr rhyfelwr fel Twrch
 Trwyth [y] frwydr,
 Porthaist adar rheibus brwydr ar fwyd boreol gyda'th waywffon;
 Gwnaethost mewn ymladd, bennaeth gwych [ar] lu brwydr, fwyd
 ffres [i] fleiddiaid.
- Gwnawn [ninnau] felly foliant am dy gampau nerthol (ni'th
 fwriwyd i'r llawr drwy drais),
- 16 Llanc mewn brwydr, ni'th ddirmygwyd drwy ddychan lem,
 [Un megis] gwaywffon i lu brwydr, disglair iawn [dy] haelioni,
 arglwydd bonheddig, yr wyt wedi rhagori.
- [Un megis] gwaywffon [mewn] ymosodiad, iti, bennaeth teg, [y]
 llefarwyd drachefn,
 [Un a chennyt] waywffyn gormesol a chwyrn, fawl oherwydd dy
 fedr gwych fel y'th urddwyd.
- 20 [Un a'th] wersyll yn bwydo brain, drwy foliant iti y'th
 anrhydeddwyd,
 Gwrthsafwr [mewn] brwydr, [un a chennyt] fintai ddewr [megis]
 Cunin, [yn peri] cynnwrf [a'th] gleddyf [megis] Cynwyd.
 Fy mhennaeth balch hardd, fe'th ddyfarnwyd yn dda ddoe
 oherwydd dy gadernid mawr,

- Fy amddiffynfa, [a chennyt] osgordd [a'u] ?gwaywffyn [yn]
 dduriol, tarian daer [mewn] brwydr,
- 24 F'arglwydd hael tirion [dy] gartref [a chennyt] darian wych,
 Fy nghydymaith gwych a gwaedlyd [dy] darian, gwron di-ball
 rhagorol mewn brwydr,
- Fy nghyfaill annwyl grymus medrus [a] chadarn, [un sy'n]
 llyffethair [i'r gelyn mewn] brwydr,
 [Testun] fy ngorfoledd, fy nghyfaill dur dy lafn, f'arglwydd dewr a
 bendigaid,
- 28 Fy nghynheiliad llu taer, f'arweinydd mewn brwydr, fy mhennaeth
 ydwyt.

Nodiadau

1

Dyma awdl farwnad i un o wŷr mwyaf blaenllaw y Dywysogaeth yn ei ddydd. Yn wahanol i wrthrychau'r tair marwnad arall yn y gyfrol hon, gŵr mewn urddau eglwysig oedd Hywel ap Goronwy. Bu farw yn 1366 yn archddiacon Môn, a chyfeirir ato mewn dogfennau cyfoes fel *magister*.¹ Y mae'n ddiddorol gweld sut yr adlewyrchir y gwahaniaeth statws hwn yn y gerdd bresennol. Braidd yn wahanol yw sylwedd y moliant ynddi i'r hyn a geir yn y cerddi i'w frawd Tudur Fychan ac i Oronwy Fychan ap Tudur. Yn sicr, disgrifir Hywel â'r geiriau arwrol arferol: *gwawr* (ll. 4), *gwalch* (ll. 19), *iôr* (llau. 23, 57), *arglwydd* (ll. 40), *llyw, dâr* (ll. 44) a *trafn* (ll. 55); eto, ni roddir unrhyw sylw i faterion milwrol fel y cyfryw ac ni channolir Hywel am ei wrhydri ar faes y gad—yn dra gwahanol i'r cerddi eraill yn y gyfrol hon. Yn hytrach, canolbwyntir ar letygarwch a nawdd Hywel i feirdd a gosodir y pwys mwyaf ar ei ddoethineb (llau. 1, 38, 55). I danlinellu'r pwynt, fe'i cymherir o ran ei ddysg â 'Cato' a Beda, dau o'r awduron Lladin uchaf eu bri yn yr Oesoedd Canol (llau. 35–6). Dyma foliant sy'n gweddu i ŵr a gafodd addysg.

Ymranna'r gerdd yn dair rhan. Yn y rhan gyntaf (llau. 1–20), cyflwynir darlun o lys Hywel tra oedd ef yn fyw: y myrdd o westeion, y beirdd yn derbyn rhoddion hael, y diodydd yn llifo a'r gerddoriaeth yn atseinio drwy'r neuadd lawen. Fel y nododd D. Myrddin Lloyd, y mae darluniadau estynedig fel hyn yn brin yng ngwaith Gruffudd ap Maredudd,² ac y mae symlder y gystrawen hefyd yn anarferol. Eto, yng nghanol y disgrifiad hapus ceir awgrymiadau o'r tristwch presennol, megis y defnydd o'r amser gorffennol yn y llinell agoriadol a'r nodyn rhybuddiol a drewir yn llinell 4 ac yn enwedig yn llinell 7, sy'n torri'n ddidrugaredd ar draws y miri a'r rhialtwch.

Yn ail ran y gerdd (llau. 21–60), try'r bardd i ddisgrifio ei alar ei hun yn sgil colli Hywel. Y mae'n dioddef holl symptomau tristwch diwaelod: ochneidio, diffyg cwsg (ll. 23), dagrau, golwg hagr (ll. 25) a gweiddi (ll. 40). Y mae'n chwarae ar ystyron y ferf *echwng* gan awgrymu ei fod yntau wedi ei gaethiwo gan ei deimladau yr un mor dynn â'i noddwr sy'n gaeth yn y pridd (llau. 27–32). Pwysleisia hefyd mai cyfaill yn ogystal â noddwr a gollwyd (llau. 37, 43). Yna, disgrifia ei alar drwy gyfrwng dwy gymhariaeth: y

¹ Ymhellach ar yrfa Hywel ap Goronwy, gw. tt. 12–14.

² GWL² ii, 36–7.

mae'n ddwysach poen nag a deimlai pe trewid bolltau dur i'w fron (llau. 45–8) ac y mae'n fwy difaol na than yn llosgi'n wyllt drwy bentwr o goed sych (llau. 49–52). Gorffen gan feio Duw am ddwyn Hywel i'w wlad Ei hun (llau. 53–60).

Arwain hyn at y drydedd adran (llau. 61–8). Ni feir Duw bellach: yn hytrach, gofynnir iddo dderbyn Hywel yn y nef. Rhan bwysig iawn o ganu marwnad oedd gweddio dros enaid y noddwr gan y credid bod gweddiau'r byw yn gallu bod o les i ryddhau'r enaid o'r Purdan.

Mesur: gwawdodyn ar y brifodl *-au*. Ceir defnydd helaeth o gymeriadau drwy'r gerdd, yn gymeriadau llythrennol, geiriol a chynganeddol, a chymeriad synhwyrol (e.e. llau. 57–8).

Golygwyd y gerdd eisoes yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 89–94.

- 1 **gwelais** Topos yn y canu mawl yw awgrymu bod y bardd wedi bod yn llygad-dyst i fawredd ei noddwr, cf. CA 302 a GCBM ii, 1.41–66. Perthyn pathos arbennig i'r ddelwedd hon mewn marwnad gan na welir y gwrthrych byth eto. Cf. hefyd 7.61.
 - 2 **gloywfeirdd** Llsgr. *loywueryd*. Awgrymir y diwygiad yn G 535 d.g. *gloew*, ac fe'i derbynir er mwyn hyd y ll., y gynghanedd a'r ystyr.
 - 3 **Trefnant** Un o lysoedd Hywel, fe ymddengys; am ei leoliad, gw. td. 13. Cf. GGrG 1.17n *Gwarant Gaer Trefnant, traul diddiffyg* (Gronw Gyriog i Fadog ab Iorwerth o Goedymynydd). Tybir mai'r un oedd noddwr Gronw Gyriog â Matthew de Englefield, y cofnodir ei fod yn esgob Bangor rhwng 1328 a 1357. Dichon, felly, mai'r un lle a enwir gan Ronw Gyriog a Gruffudd ap Maredudd, ond o gofio cysylltiadau daearyddol Madog ab Iorwerth, y mae Trefnant yn sir Ddinbych yn lleoliad posibl i'w lys ef. Noder bod Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed yntau'n rhoi disgrifiad hir a chanmoliaethus o'r croeso yn llys Hywel, GSRh 10.49–60.
 - 4 **'y ngwawr** Llsgr. *yingwa6r*. Cymerir mai'r rh.bl. 1 un. sydd yma ('y < fy), cf. ll. 1 *gwelais*; ond gthg. G 636 d.g. *gwawr* lle y deellir y rh. yn ll.
traï oedau Ystyrion posibl eraill yw 'traï [yn sgil] henaint', 'traï[r] amseroedd', neu 'traï [ei] fywyd'.
- 5–7 Ceir cymeriad cynganeddol tra chywrain yn y llau. hyn, cf. llau. 27–34n.
- 5 **cynadlu** Llsgr. *cheinadlu*, ond ymddengys fod yr *i* wedi ei dileu (nodir yn R fod y llythyren yn anodd ei darllen). Nodir yr enghraifft hon yn GPC 784 d.g. *cynhadlaf*. *Cynhadlu* a ddisgwyliid mewn orgraff fodern, ond gan na ddangosir yr *h* acennol yn y llsgr. ac nas atebir yn y gynghanedd, fe'i hepgorwyd yma. Ni ellir bod yn sicr ynghylch yr ynganiad cyfoes. Ceir yr un ansicrwydd gyda *cednedloedd* a *cynadlau* yn ll. 6. Ar *h* acennol, gw. WG 64 a OIG 59–68.
 - 6 **cednedloedd** Am y ffurf, gw. OIG 66–7.

o'i Yn yr ystyr 'i'w', gw. GMW 53n2. Cyfeiria'n ôl at *Trefnant winllys*.

- 7 **dadlau—lid** Amwys. Gallai *dadlau* fod yn un. neu'n ll., gw. G 285–6 d.g. *dad(y)l* a *dadleu*², a GPC 870–1 d.g. *dadl* a *dadlau*. Cyfeirir o bosibl at angerdd y galar wrth i bawb ymgynnull ar ôl i Hywel farw. Gellid hefyd 'llid [yn sgil] helyntion', eto'n disgrifio'r galar. Posibilrwydd arall fyddai dadleuon neu ymrafaelion yn y llys, neu frwydro, fel yr awgrymir yn betrus yn *G l.c.* a *GPC l.c.*
- 11 **gwympaf** Llsgr. *gwmpas*. Awgrymir y diwygiad yn G 615 d.g. *gwâr*, a'i dderbyn yma er mwyn yr ystyr. Os cedwir y darlleniad gwreiddiol, yna efallai y gellid ei ddeall yn gyfeiriad at y cylch o gwmpas Hywel, sef ei gartref, ei lys neu'r rhai sy'n mynychu'r llys. Gallai hefyd fod yn ddisgrifiad o Hywel ei hun. Rhydd D.M. Lloyd '*the admirable winning of fame in the true feats of Nudd*' (GWL² ii, 36). Nid yw'n anelu at fod yn llythrennol, ond ymddengys ei fod yn meddwl am ystyron y f. *cwmpasu*, 'cyflawni, gorffen, dwyn i ben', gw. GPC 642.
- Nudd** Un o hoff gymeriadau'r beirdd oedd Nudd ap Senyllt, un o'r Tri Hael (gw. TYP² 5–6, 476–7 a WCD 509); y ddau arall oedd Rhydderch Hael (cf. ll. 14n) a Mordaf Hael. Cyfeiriad at haelioni Hywel, felly, yw *campau Nudd*.
- 12 Y mae'r ll. sillaf yn fyr, ond fe'i derbynnir fel y saif ar sail y dystiolaeth helaeth fod llau. o hyd cyffelyb yn dderbyniol gan y beirdd, gw. Henry Lewis, 'Toddadaid a Chyhydedd Hir', B v (1929–31), 96–100; BaTh 266. Fodd bynnag, sylwer bod y gair cyrch yn odli â'r bedwaredd sillaf yn hytrach na'r bumed fel sy'n arferol, a bod y ll. hefyd yn torri ar draws cyfres o lau. sy'n dechrau gyda'r cys. *a*. Yng ngoleuni hyn, gall fod y ll. hon yn llwgr.
- arail** Llsgr. *ar eil*. Y mae'r ll. gyfan yn anodd ond ceir synnwyr digonol o ddeall *arail* yma, gw. G 37 d.g. *areil*. Ar wahân i'r aralleiriad a gynigir, gellid 'meithrin bendith wych' neu 'amddiffyn/llochesu tra buddiol'.
- Geirioel** Llsgr. *eiryael*. Derbynnir awgrym petrus G 525 i'w ddeall yn ffurf dreigledig *Geirioel*. Os felly, dichon mai Gregori Fawr, Pab 590–604, a olygir, megis yn BD 190 (*Giryael* yw'r ffurf yno). Ymddengys fod y beirdd yn defnyddio enw Gregori yn batrwm o huodledd a doethineb, cf. GGDT 4.63n; GSRh 7.37n; GLIBH 7.16n; GIG 81 (XVIII.13n). Er hynny, y mae'r cyfuniad *Eirioel arfau* yn rhyfedd oni ddeallir ef yn drosiadol: ai geiriau huawdl yw'r arfau y cyfeirir atynt? Yr awgrym arall yn *G l.c.* yw cymryd (*g*)*eirioel* yma ac yn IGE² 308 (ll. 5) yn a., ond ni chynigir ystyr ar ei gyfer.
- 13 **rhoddi yn** Cywasger er mwyn hyd y ll.
- 14 **Rhydderch** Sef Rhydderch Hael, mab Tudwal Tutglyd ac un o'r Tri Hael (cf. ll. 11n ar *Nudd*), gw. TYP² 5–6, 504–5; WCD 567–8.

- 15 **ynghylech** Llsg. *ynghych*. Diwygir gan ddilyn G 229 d.g. *cylch*.
- 16 Y mae'r ll. sillaf yn fyr, ond fe'i derbynnir fel y saif, cf. ll. 12n. Pwynt arall i'w gofio yw fod y beirdd yn fodlon cyfrif geiriau fel *gwydr* yn ddeusill pan fyddai'n gyfleus iddynt, cf. 3.49n, 60n, 189n; GC 9.2n, 9.19n, 11.55n; GLIBH 15.3n; GSRh 12.124n, 159n, 164n, 272n.
- mywn aur a gwydr** Gw. G 496 am ddefnyddio *aur* am gorn yfed (euraid); cyffelyb yw'r defnydd o *gwydr* yma, cf. G 729 a GPC 1751.
- muner gwawdau** Cynigir ystyron ychwanegol yn GPC 2502 d.g. *muner*, sef '?rhodd, anrheg; ?haelioni', a gellid cynnig 'haelioni [sy'n ennill] cerddi o foliant'.
- 17 **cyrdd** Ll. *cerdd* yn ôl G 133 lle y nodir y gall rhai enghreifftiau o *cyrdd* fod yn ffurfiau ll. *cordd*, 'mintai, torf, llwyth, teulu', gw. G 164, a GPC 557 d.g. *cordd*¹, ond derbynnir yr awgrym cyntaf ar sail y cyd-destun yn y ll. hon.
- adeiniog** Cyfeiria'n ffigurol at y cerddi'n hedfan drwy'r awyr, cf. GWL² ii, 37 '*soaring songs and harp music*'.
- 18 **ei** Llsg. y. Y mae'r fan. hefyd yn bosibl yma.
- 19 **addwyn** Nid atebir yr *f* yn *cyneddfau*, ond cedwir darlenniad y llsg. am fod anwybyddu *f* yn oddefiad posibl hyd yn oed o dan yr acen, gw. J. Morris-Jones: CD 199–200. Eto, yr oedd tuedd i gymysgu'r ddau air *addwyn* ac *addfwyn*, gw. G 11, a GPC 35 d.g. *addwyn*¹, a G 10 a GPC 32 d.g. *addfwyn*, ac efallai mai *addfwyn* a oedd yma'n wreiddiol.
- gwalch** Sef Hywel. Delwedd a arferir yn gyffredin am filwr neu arglwydd yw *gwalch*, gw. G 608–9 a GPC 1565–6. Eto, ni ellir gwrthod yn llwyr y posibilrwydd o ddeall *gwalch* yn llythrennol yma, cf. GSRh 10.57n *A gweilch yn gware amgylch gwyredd—pers* (Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed i Hywel ap Goronwy).
- 21 **â chwyn a dau** Llsg. *achwyn* / *adeu*. Cofnodir *cwyniad*, *cwynad* yn GPC 654, ond y mae'r gynghanedd yma yn gofyn am brifodl acennog. Arferol yn orgraff Llyfr Coch Hergest yw ysgrifennu gogwyddair diacen ynghlwm wrth air sy'n dilyn. Fodd bynnag, gellid darllen *achwyn* hefyd, fel yr awgrymir yn G 7 d.g. *achwyn*, ond ni roddai hynny gystal synnwyr. Tyf galar Gruffudd gyda phob ochenaid a rydd.
- dau** Neu 3 un.pres.myn. *tewi*; os felly, 'Galar ydyw sy'n tyfu â chwyn, sy'n tewi [wedyn]'; ond nid yw hyn mor debygol o ystyried y pwyslais cryf ar natur afreolus galar y bardd yn y gerdd.
- 23 **golau—gnif** Deallir mai Gruffudd ei hun yw'r '[un] amlwg [ei] boen' oherwydd marwolaeth Hywel. Llai tebygol, efallai, yw 'nid yw poen amlwg yn cysgu'.
- cnif** Llsg. *gynif*. Y mae'r mesur yn mynnu gair unsill yma. Rhestrir yr

enghraifft hon yn G 153 d.g. *cnif* lle y rhoddir yr ystyron ‘llafur, ymdrech, poen’. Llafariad ymwithiol yw’r *y*, o bosibl (gw. GMW 13; WG 17), neu fe ddichon fod yma gymysgu rhwng *cnif* a *cynnif*, gair tebyg ei ystyr.

- 24 **annigrif** Llsgr. *anidrif*. Awgrymir diwygio yn G 29 d.g. *anigrif*, *annigrif* ac y mae’r gynghanedd a’r synnwyr o blaid derbyn hyn.

Deellir y ll. yn frawddeg enwol, ond gellid ‘Wylofain anhyfryd llif fy nagrau’ mewn cyfosodiad â *cnif* yn y ll. flaenorol.

- 25 **achul** Gw. G 7 a GPC 10. Ni ellir gwrthod â *chul ruddiau* ychwaith.

- 26 **och** Gwrth. *rhoddaf* yn y ll. flaenorol.

eurdyau Yn G 497 d.g. *eur* awgrymir ll. *eurdy* ‘trysordy’, a dilynir hyn yn GPC 1258 d.g. *eurdy* ‘trysordy, tŷ i gadw aur; coethfa neu burfa aur’. Y broblem amlwg gyda hyn yw’r diffyg cynghanedd ag *ar ddaear*. A ellid *ar ddaear*? Gw. Treigladau 384–5, 387–8 am y treiglad meddal ar ôl *ar*, ond nid ymddengys fod rheswm digonol dros ei atal yma. Byddai *eurddyau* yn cyflawni’r gynghanedd, ond ni wyddys am ffurf felly. O ran ystyr, gellid cydio *uwch eurdyau* wrth *och*; y mae ochenaid Gruffudd yn codi uwchben adeiladau llys Hywel. Fel arall, a chan atalnodi’n wahanol, gellid ‘Arglwydd uwchben cartrefi ysblennydd [y nef]’. Y mae’n debygol, serch hynny, fod y ll. yn ddiffygiol, ac felly y mae pob dehongliad ohoni’n ansicr.

- 27–34 Y mae’r cymeriad cynganeddol yn dra chywrain yn y llau. hyn, cf. llau. 5–7n.

- 27 Neu ‘Cwyn tost fu[’r] ochenaid [am yr] arglwydd gorau un.’

- 28 **echwng** Fe’i deellir yn fe., ond gall fod yn e. ‘cyfyngiad, gwasgiad’ neu hyd yn oed a. ‘caeth, rhwym, cyfyngedig’: os yr olaf, ‘caeth yw grym bywiog Môn’. Gw. G 436 a GPC 1162.

- 29 **echyngodd** Llsgr. *echwyghawd*, gyda phwyntiau dileu a marciau coch yn dileu *w* a *h*. Derbynir *echyngodd* yn G 436 a GPC 1163, a rhydd hynny ystyr ddigonol. Cymerir bod *echyngodd* yn cyfeirio’n ôl at *echwyn girad* yn ll. 27. Y mae’r galar am farwolaeth Hywel wedi rhwymo dagrau ar wyneb y bardd. Posibilrwydd arall yw cymryd *deigr* yn oddrych: ‘Caethiwodd dagrau fardd uwch ei enau’; cf. Henry Lewis, ‘Credo Athanasius Sant’, B v (1929–31), 199n3 lle y derbynir yr ystyron ‘gwasgu’ neu ‘cystuddio’; gthg. J. Loth, ‘Notes étymologiques et lexicographiques’, RC xl (1923), 353–4, ‘*le barde laissa échapper des larmes au-dessus de sa bouche.*’

Fodd bynnag, nid yw *echyngodd* yn cynganeddu’n rheolaidd ag *uwch ei enau* oni chymerir bod *n* yn ateb *ng*. Nid yw’r enghreifftiau o hyn a roddir yn J. Morris-Jones: CD 225 yn hollol berthnasol, gan eu bod i gyd yn digwydd lle y mae *n* yn sefyll yn agos i *c* neu *g*. Ceir dwy

enghraifft yng ngwaith Beirdd y Tywysogion, sef GLIF 26.224 (Gwynfardd Brycheiniog) a GDB 29.125 (Dafydd Benfras), ond ansicr yw perthnasedd y rhain oherwydd eu bod yn perthyn i gyfnod cynharach yn natblygiad y gynghanedd. Ceir enghraifft hefyd yn y 15g. gan Ddafydd Epynt, GDEp 2.34n *Gwaed âi yng ngolwg dyn eilwaith*. Os mynnir diwygio, gellid awgrymu *Echwynodd deigr bardd* ‘Cwynodd dagrau bardd’ neu *Echwynodd ddeigr bardd* ‘Cwynodd bardd [â] dagrau’, cf. GGMD iii, 5.23–4 *Echwynodd bardd ar hardd lun / Uchenaid ...*

- 31 Fe’i deallir yn yr un modd â ll. 29, sef trwy gymryd mai cyfeirio’n ôl at *echwyn girad* a wna *echyngodd*. Llai tebygol yw: i. cymryd *poen a cheingiau* yn oddrych *echyngodd* ac *och* yn y ll. nesaf yn wrth. iddo; ii. cymryd *och* yn y ll. nesaf yn oddrych *echyngodd* a *poen a cheingiau* yn wrth. iddo.

a cheingiau Llsgr. *achenigyau*. Derbynnir y diwygiad a awgrymir yn G 97 d.g. *cangen, kangen, keing, keingk* er mwyn yr ystyr, y gynghanedd a hyd y ll.

- 33 **ynial—oriau** Y mae’n bosibl fod hyn yn cyfeirio’n benodol at wasanaethau eglwysig, sy’n ddiffaith bellach heb Hywel.

- 35 **Cadw** Sef Cato, gw. G 90 d.g. *Cado, Cadw*; TYP² 279 a 291. Ef oedd awdur tybiedig y *Disticha Catonis*, sef casgliad mydryddol o gynghorau moesol sy’n dyddio o’r 3g. neu’r 4g. O.C. Defnyddid y *Disticha* yn ddeunydd darllen elfennol yn ysgolion yr Oesoedd Canol, gw. E.R. Curtius, *European Literature and the Latin Middle Ages* (London, 1953), 48–51 ac yn arbennig 51n43; hefyd M. Lapidge, ‘The Study of Latin Texts in Late Anglo-Saxon England (1): The Evidence of Latin Glosses’ yn *Latin and the Vernacular Languages in Early Medieval Britain*, ed. N. Brooks (Leicester, 1982), 102–3. Ceir cyfieithiadau Cymraeg o’r *Disticha*, gw. Ifor Williams, ‘Cynghorau Catwn’, B ii (1923–5), 11–36.

- 36 **geiriau** Llsgr. *eirie*. Camsillafiad, efallai’n adlewyrchu ynganiad tafodieithol y copïydd.

Beda Gw. G 53, a GSRh 7.17n: ‘Beda, tad hanes Lloegr, a ystyrir gan feirdd Cymru yn wŷr o ddoethineb anghyffredin’. Cf. T 36.18–19 *Nyt Gy dyweit geu llyfreu beda* (‘Cadair Ceridfen’). Nodir yn TYP² 279 mai noddwyr eglwysig yn benodol a gymherid ag ef, a’i fod yn cael ei gyplysu â Chato yn y farddoniaeth, cf. GDC 13.55–6 (Meurig ab Iorwerth).

- 39 **goddau** Gw. G 543–4 d.g. *godeu*¹ a GPC 1427 d.g. *goddeuaf* ‘amcanu at, cyrchu at, cyrraedd’. 3 un.pres.myn. yw’r ffurf, a llai tebygol yw’r awgrym yn G y gellir brawddeg enwol yma.

- 40 **rhoi gwaedd fawrglau** Gall fod y’*m goddau* yn ddealedig o flaen y

geiriau hyn: daw i ran Gruffudd roi gwaedd o alar.

42 **treio** Cf. 6.42 *Treio Goronwy, trafñ mordwy medd*.

buarth clod Gw. G 82 am ystyron ffigurol *buarth* ‘mangre, cartref, cyrchfan, cylch’, hefyd GPC 343, a cf. T 7.12 *buarth beird*.

Un Tri Sef Duw, y Drindod. Am ymadroddion cyffelyb, cf. GBF 55.27; GBDd 3.4 a GC 7.97.

43 **trwm a ddolur** Ar y gystrawen hon, a. + ardd. *a + e.*, gw. GMW 37.

44 **urddau** Gall hyn gyfeirio yn benodol at urddau eglwysig Hywel.

46 **tri phenyd galar** Posibilrwydd arall fyddai ei dehongli’n frawddeg enwol, ‘[Cymaint â] thri phenyd yw[’r] galar.’ Os felly, atalnodder ll. 45 fel a ganlyn: *Trimwy yw’r goglais, tramawr giglau* ‘Teirgwaith mwy yw’r clwyf, [fe’i] teimplais yn ddwys iawn.’

rhag traphoenau Fe’i deallir yn gyfeiriad at farwolaeth Hywel. Am *rhag* yn yr ystyr ‘oherwydd, o achos’, gw. GPC 2998, 3(a). Llai tebygol yw y dylid ei gydio wrth *tri phenyd* ac aralleirio ‘tri phenyd ... rhag poenau aruthrol [uffern]’.

47 **no** Cydier wrth *trimwy* yn ll. 45.

alaeth Y mae *alaeth* fel arfer yn golygu ‘tristwch, galar, poen, trueni’, gw. G 19 a GPC 73, ond yma y mae’n rhaid mai am boen gorfforol y sonnir.

48 **tromfrwydr lifiau** Ymddengys y gall *llif* gyfeirio at ryw fath o arf a ddefnyddir mewn brwydr, cf., efallai, 2.44n. Cymerir mai disgrifiad o effaith y galar am Hywel ar feddwl y bardd yw *tromfrwydr lifiau*. Ceir *Llifiau* yn e.p. yn CA 10 (ll. 249), ond nid yw’n debygol mai dyna a geir yma.

49 **hon** Fe’i deallir yn gyfeiriad at *tromfrwydr* yn y ll. flaenorol. Disgrifir sut y mae’r galar yn ymledu drwy galon Gruffudd.

50 **er** Gellid hefyd ei ddeall yn yr ystyr ‘gan beri neu achosi’, gw. GPC 1227 1(c).

52 **cymell Hirerw** Gall y f. *cymell* olygu ‘gyrru’, gw. G 233 a GPC 763, a dehonglir *cymell Hirerw* yn enghraifft ar lun y gystrawen ‘cyrchu lle’, gw. Treigladau 227–8. Gellid hefyd ‘gorfodaeth Hirerw’. Claddwyd Hywel yn eglwys tŷ’r Brodyr Duon ym Mangor, a safai yn y rhan o’r dref a elwid yn Hirerw, gw. RCAHM (Caernarvonshire) ii, 12–13; C.A. Gresham, *Medieval Stone Carving in North Wales: Slabs and Effigies of the Thirteenth and Fourteenth Centuries* (Cardiff, 1968), 256–7. Erbyn hyn y mae’r e. wedi troi yn *Hirael*, gw. I. Williams: ELI 11–12. Diogelwyd yr wybodaeth am fedd Hywel mewn llsg. yn llaw Gruffudd Hiraethog, a dywedir yno i Hywel gael ei gladdu ger yr allor; gw. AWH 214. Claddwyd Tudur ap Goronwy, brawd Hywel, yn yr un eglwys.

- gem alloriau** Fe'i deellir yn drosiadol am Hywel ei hun, ond nid amhosibl yw cyfeiriad at yr eglwys benodol yn Hirael, fel yr awgrymir yn AWH 193.
- 53 **trawsteg eiriau** Epithet yn goleddfu *Duw*. Nid oedd rhaid i a. dreiglo ar ôl *Duw*, gw. Treigladau 119. Llai tebygol yw ei ddeall yn wrth. *gorug*, naill ai'n cyfeirio at eiriau a leferir gan Dduw, neu ynteu at y bardd ei hun: os yr olaf, yna aralleirier 'Gwnaeth Duw [yr un] cadarn a theg [ei] eiriau yn drist.'
- 54 **trais lwyr** Llsg. *treislwyr*. Yn betrus y rhennir hwn yn ddau air er mwyn cael gwrth. ar gyfer *gorug* yn ll. 53. Gall *trais* fod yn eb., gw. GPC 3552. Eto, os *trawsteg eiriau* yw'r gwrth. (gw. ll. 53n) yna gellid, efallai, gadw *treislwyr* a'i aralleirio '[yn] llwyr dreisiol'.
- diau** Fe'i cymerir yn adf. yn hytrach nag yn a. yn ddibynnol ar *trais* er mwyn cyfrif am y diffyg treiglad.
- 55 Ceir nifer o bosibiliadau ar gyfer diweddarau ac aralleirio'r ll. hon. Yn ogystal â'r hyn a gynigir, gellid *Trefn hyglod y doeth trafyn hyglau—nid byw* 'Mewn dull clodforus iawn y daeth [yr] arglwydd enwog nad yw'n fyw [bellach].' Eto, nid yw'n eglur at beth y byddai hyn yn cyfeirio. Fel arall, gellid rhannu'r ll. a chael 'Mewn dull tra chlodforus y daeth [y newyddion]: nid yw arglwydd enwog yn fyw [bellach]'. Yr anhawster yna fyddai cysoni'r a. *hyglod* â'r tristwch a fynegir yn ll. 56. Gellid hefyd ddiweddarau orgraff y ll. yn wahanol: *Trefn hyglod i ddoeth, trafyn hyglau—nid byw*, sef 'Nid yw [un a fu'n] glodwiw [ei] ddull tuag at un doeth, arglwydd enwog yn fyw bellach.'
- 56–7 **Can aeth ... / Lwys gyfoeth** Cystrawen 'cyrchu lle' eto, gw. ll. 52n.
- 57 **cain—ei themlau** Llsg. *kainytheimla6*. Nid yw hyn yn rhoi na synnwyr nac odl, felly fe'i diwygir yma. Y mae'n anodd gweld eb. yn y testun i gyfrif am y treiglad llaes. Ceir temtasiwn gref i'w gysylltu â *lwys gyfoeth Mab Mair* yn y ll. nesaf, ond eg. yw *cyfoeth* yn ddieithriad yn ôl G 213 a GPC 708. A yw'n bosibl fod Gruffudd yn meddwl am y gair *nef* wrth lunio ll. 57?
- 59 **gweddïau—gydfod** Yn ôl G 197 d.g. *cytuot*, gellir 'cyd-drigiant, preswyl, presenoldeb'. At y rhain gellir ychwanegu 'cyfamod, cytundeb; cytgord' yn ôl GPC 661. Fe'i deellir yma'n ddisgrifiad o Hywel fel man lle y trigai gweddïau mewn cytgord. Gthg. GWL² ii, 37 'Gwynedd whose people will pray for him': os felly, at Wynedd y cyfeiria *cydfod*.
- 60 **pob** Disgwyliid treiglad meddal i'r gwrth. ar ôl y terfyniad berfol *-ai* fel yn 3.10 *treisiai bum trisaith*, gw. Treigladau 214.
- 61 **llain** Llsg. *leyn*. Y mae'n annhebygol mai'r e. lle *Lleyn* ydyw, gan mai galw ar y Groes Sanctaidd ei hun a wna'r bardd yma, nid ar grair lleol, cf. ll. 62. Yn betrus, felly, fe'i dehonglir yn amrywiad orgraffyddol ar

lein, sef ffurf dreigledig *llain* ‘llafn’, cf. GPC 2090. Cyfeirir naill ai’n drosiadol at y Groes ei hun, neu at y waywffon a drywanodd Crist arni. Os yr ail, yna y mae rhaid cymryd bod *gwayw irgrau* yn ail hanner y ll. yn cyfeirio at yr un waywffon, oni ddewisir ei aralleirio yn ‘poen [drwy ollwng] gwaed ffres’. Posibilrwydd arall fyddai deall *lain* yn ffurf dreigledig *glain*, ‘gem’, gw. G 532 d.g. *glein*² a GPC 1391 d.g. *glain*¹. Iesu ei hun fyddai ‘Gem [y] Grog waedlyd’, ond noder hefyd fod GPC *l.c.* yn rhoi rhai enghreifftiau o *glain* yn a. ‘pur, sanctaidd’, er nad ardystir yr ystyr hon cyn yr 16g.

- 62 **rhaid brynnod** Cyfuniad ac iddo fwy nag un ystyr bosibl: ‘prynu drwy orfodaeth, prynu oherwydd rhaid/angen, prynu drwy gyfyngder [sef Dioddefaint Crist]’. Gw. GPC 3031–3 am wahanol ystyron *rhaid*.
- 63 **diwarthaf daith** Cysefin y gytsain sy’n arferol mewn e. ar ôl a. yn y radd eithaf, ond gw. Treigladau 52 am arfer y treiglad os ‘i radd uchel iawn’ yw’r ystyr.
- 64 **o ragor pyyll Mair** Ymddengys fod y bardd yn meddwl am swyddogaeth Mair yn eiriol ar ran eneidiau’r meirw. Yr oedd deisyfiadau arni’n arferol ar wely angau, gw. Eamon Duffy, *The Stripping of the Altars: Traditional Religion in England, c. 1400–c. 1580* (London, 1992), 318–19. Posibilrwydd arall yw ‘[yn tarddu] o ddoethineb ragorol Mair’, sef cyfeiriad at gydweithrediad parod Mair yn yr Ymgawdoliad.
- Iôr yr eigiau** Cyfieithiad o’r ymadrodd *Dominus Deus Sabaoth*, gw. ODCC³ 995 d.g. *Lord of Hosts*.
- 65 **ei** Llsg. *y*. Gall mai’r ardd. *i* sydd yma. Pwynt arall i’w gofio yw y gellir cymryd *dwg* yn 3 un.pres.myn. a *Duw* yn oddrych, gan hepgor yr atalnodau. Os felly, ‘Dwg heb ymwad Dduw deg ei blasau / Ddisgynnydd ...’ Anfantais y dehongliad hwn yw’r anghysondeb â’r cyfarchiad uniongyrchol at Dduw yn llau. 61–4.
- 66 **i Dewdwr** Llsg. *ydedwr*. Diwygir oherwydd cysylltiad teuluol Hywel â llinach Tewdwr Mawr ap Cadell, gw. J.E. Lloyd: HW³ ii, 393, 767. Priododd Ednyfed Fychan, cyndad Hywel a Thudur ap Goronwy, â Gwenllïan, gororwyres Tewdwr Mawr, ac felly disgynnai Hywel o linach frenhinol Deheubarth. Gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Tewdwr Mawr’ 1, ‘Rhys ap Tewdwr’ 1, 4, a cf. isod 2.29 a 3.118.
- 67 **iawn rhydid ... rhadau** Llsg. *iawn rydit ... radeu*. Am galedu *r > rh* ar ôl *n*, gw. Treigladau 27–8. Y mae dehongli *radeu* fel ‘rhadau’ yn dibynnu ar dderbyn y ffurf *rhydid*, gw. GPC 3130–1 d.g. *rhyddid*. Os *ryddid ... raddau* a geir yn y ll., yna aralleirier ‘... rhengoedd cyflawn natur’, o bosibl yn gyfeiriad at raddau’r nef (ond sylwer na cheir enghreifftiau o’r ffurf *rhyddid* yn GPC *l.c.* tan yr 16g.).

Awdl foliant i Dudur Fychan ap Goronwy (*ob.* 1367) yw hon.¹ Yn wahanol i'r portread o'i frawd Hywel yn y gerdd flaenorol, canmol Tudur am fod yn filwr dewr a llwyddiannus a wna'r bardd yma. Nodweddir y gerdd gan radd uchel o gysondeb thematig a chystrawennol. Ychydig yw nifer y berfau rhediadol; yn hytrach, cawn res o ddisgrifiadau canmoliaethus. Ceir y rhychwant arferol o ddelweddau yn cyfleu gwychder y noddwr: delweddau anifeiliaidd (e.e. *llew, gwalch, eryr, tarw*), delweddau yn pwysleisio ei gadernid fel amddiffynnwr neu gynheiliad (*llorf, corf, angor, ysgwyd, tarian, tŵr*) a delweddau yn disgrifio ei ymddangosiad ffyrnig mewn brwydr (*fflemychu, tasgu, lluwch fflamddur*). Cymherir Tudur â lliaws o gymeriadau hanesyddol a chwedlonol, rhai ohonynt yn anarferol iawn, megis Ffrollo, Ffyrnfael, Alltu, Carcu. Ceir yr argraff fod y bardd yn ymdrechu'n galed i fywiocáu ei gymariaethau drwy gyflwyno enwau newydd ac annisgwyl. Gorffen canran helaeth o'r llinellau ar y patrwm enw genidol + berfenw (e.e. *gryd fflemychu, camon dasgu, esgar bylu, &c.*) ac y mae'r modd yr ailadroddir y gystrawen hon yn elfen bwysig yn nhaerineb y gerdd wrth iddi ymfrostio yng ngwychder Tudur.

Nid esgeulusir yr ail thema sy'n nodweddu'r canu mawl, sef haelioni a lletygarwch y noddwr, yn enwedig tuag at feirdd. Cydblethir y ddwy thema'n gyson drwy'r awdl, weithiau gan eu cyfosod yn yr un llinell, fel yn llinellau 3, 8 ac yn enwedig llinell 24 *llawrudd hael* lle y mae'n anodd peidio â gweld mwysair yn cyplysu dwy swyddogaeth y llaw, sef dosrannu rhoddion a lladd y gelyn.

Ymddengys mai cerdd a ganwyd yn absenoldeb Tudur yw'r awdl hon, naill ai ar gyfer ei datgan i'w deulu a'i wŷr yn y llys, neu ynteu ar gyfer ei hanfon ato b'le bynnag yr oedd. Os cywir y dehongliad o linellau 49–56 a gynigir isod, y mae'r bardd yn ymbil ar i Dudur ddychwelyd adref yn ddiogel, ac o ystyried rhyfelgarwch arbennig y gerdd hon, gallwn gymryd mai ar wasanaeth milwrol oedd Tudur pan ganwyd hi, efallai yn Ffrainc (cf. ll. 11n).

Mesur: gwawdodyn ar y brifodl *-u*. Ceir cymeriad llythrennol pur gyson, ar *ll-* yn llinellau 1–28 ac ar *tr-* o hynny ymlaen tan y diwedd. Yr unig eithriad yw'r ail linell mewn toddaid: gadewir ambell un o'r rhain yn ddigymeriad.

Golygwyd y gerdd o'r blaen yn Bl B XIV 139–40 (cerdd 65) ac yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 84–8.

1 **llew glew** Cyfuniad cyffredin iawn, cf. ll. 46. Ystyrid y llew yn frenin yr anifeiliaid oll.

¹ Am Dudur Fychan, gw. y Rhagymadrodd td. 14.

gleiflym Cymerir mai ‘cleddyf’ yw ystyr *glaiif* yma, ond y mae ‘gwaywffon’ hefyd yn bosibl, gw. G 532 a GPC 1399.

grym Fe’i deallir yn a. yn goleddfu *llew*, gan ddilyn G 595 (2); gthg. Bl B XIV 139 (65.1) *Llew glew gleiflym, grym gryd fflemychu*.

- 2 **lorf corf** Trawiad ystrydebol ac un yr oedd Gruffudd ap Maredudd yn bur hoff ohono, cf., e.e., l. 37. Gw. ymhellach GSRh 50 am ddefnydd Rhisierdyn ohono ac o barau tebyg. Y mae cyffelybu’r noddwr i golofn sy’n cynnal ei wŷr yn ddelwedd bur gyffredin yn y canu mawl, cf. T.J. Morgan, ‘Trosiad y Golofn’, YB x (1977), 94–105.

- 3 **geirfalch** Ysgrifennwyd *geirwalch* yn y llsgr. i ddechrau, ond yna ei gywiro’n *geirvalch*. Yr oedd ystyron *balch* yn ehangach nag y maent heddiw, gan gynnwys ‘gwyh, cadarn, dewr’, cf. G 49–50 d.g. *balch*² a GPC 251 d.g. *balch*¹.

abrwysgldyrf Ll. *twrf* yw ail elfen y gair hwn yn ôl pob tebyg, gw. GPC 3661. Nid amhosibl yw ll. *torf*, er na nodir y ffurf yn *ib.* 3527. Rhydd G 6 yr aralleiriad ‘lloedd mawr, anferth’, gan ddyfynnu’r enghraifft hon yn unig; cf. GCBM ii, 1.63.

- 4 **llyry** Ll. *llwrw*, gw. GPC 2236–7, ond rhaid hefyd ystyried *llyry*, ffurf l. *llory* ‘pastwn, (?coes) picell’, *ib.* 2210.

byrffyrf G 87 ‘?yn gadarn am amser byr’, ond gallai hefyd fod yn gyfuniad cyfartal ‘byr [a] chryf’, a dyna sut y’i dehonglir yma. Nis rhestrir yn GPC 366.

briwgyrf Llsgr. *brigyryf*. Awgrymir y diwygiad yn G 76–7, gan gynnig yr ystyr ‘colofnau toredig, esgeiriau clwyfedig’. Ceir enghraifft arall yn GSRh 6.41–2 *Garwy ar adwy, gwrol rediad—ffyrf, / Taer briwgyrf, tarw bragad* (Rhisierdyn). Ni nodir yr ystyr ‘coes’ d.g. *corf* yn G 164 nac yn GPC 558, ond y mae’n gweddu i’r cyd-destun hwn.

Y mae mwy nag un modd o ddeall y ll. hon. Ar wahân i’r aralleiriad a gynigir, gellid hefyd ‘Ar drywydd rhai [sy’n] nerthol am ysbaid fer, clwyfedig eu coesau’. Anfantais y dehongliad hwn yw’r ffurf l. *llyry* yn lle’r ffurf un. a ddisgwylid yn swyddogaeth ardd. (cf. GPC 2236). Os cymerir *llyry* yn ll. *llory*, yna ‘pastynau byr nerthol sy’n torri coesau’.

- 5 **prif** E. yma, y mae’n debyg, gw. GPC 2886–7. Gallai hefyd fod yn a.; os felly, aralleirier ‘[Y] dicter costfawr blaenaf’.

yng ngnif, yng ngnaws Gthg. Bl B XIV 139 (65.5) *yngnif, yngnaws*.

gnif Ceir y ffurfiau *cnif* a *gnif*, gw. G 153 a 539, ac er mai *cnif* a awgrymir gan ffurf y llsgr. (*yngknif*), y mae’r gynghanedd yn ffafrio *gnif*. Nid yw’r gwahaniaeth o bwys o ran ystyr.

- 6 Unwaith eto y mae’r dehongliad yn dibynnu ar yr atalnodi. Pe rhoddid atalnod ar ôl *glwyd*, gellid ‘Arweinydd [sy’n] amddiffynfa [mewn] brwydr, [â] tharian [sy]’n peri i[r] gelyn bylu.’ Er hynny, gwell

cysylltu'r ddelwedd o 'amddiffyn' â'r darian ei hun. Digwydd y cyfuniad *clwyd ysgwyd* hefyd yn GDB 8.40 (Dafydd Benfras) a 'tarian amddiffyn' a gynigir yno.

glyw Hefyd 'dewrion, milwyr' neu hyd yn oed 'pennaeth', gw. G 537 d.g. *glyw*¹, *glyw*² a GPC 1415 d.g. *glyw*¹, *glyw*² a *glyw*³.

- 7 **Llŷr** Sef Llŷr Llediaith, cymeriad chwedlonol a thad Bendigeidfran, Branwen a Manawydan, gw. TYP² 427–9 a WCD 421–2. Y mae'n un o hoff ffyn mesur y Gogynfeirdd ar gyfer eu noddwyr. Cf. hefyd GSRh 3.59n a 4.125.

bronddor G 78 'math o orchudd amddiffynnol ar fynwes, amddiffyn'; ychwanegir yr ystyron 'llurig, dwyfronneg' a 'tarian' yn GPC 332. Posiblirwydd arall yw *ar freisgddu—fronddor* yn cyfeirio at farch. Arfer cyffredin yw defnyddio a. (yn enwedig lliw) yn enwol am farch, gw. *The Horse in Celtic Culture: Medieval Welsh Perspectives*, ed. Sioned Davies and Nerys Ann Jones (Cardiff, 1997), 87. Digwydd y gair *bronddor* yn GIG 60 (XIII.37) yng nghanol disgrifiad o farch a chynigir yr ystyr 'â bron lydan fel dôr' (*ib.* 251).

- 8 **llawchfeirdd** Cf. GSRh 4.123 (Rhisierdyn) lle y'i deellir yn e. 'nawdd i feirdd'. Ymddengys mai a. ydyw yma.

angor Llsg. *angor* a gywirwyd yn *anghor* er mwyn cynganeddu ag *enghyl* yn ddiau. Nid yw'n eglur a yngenid y gair hwn a'r un nesaf gydag *h* neu beidio. Trosiad arall am y noddwr fel cynheiliad neu fan sefydlog mewn amgylchiadau ansicr yw *angor*, cf. *llorf*, *corf* yn ll. 2.

Eingl Llsg. *enghyl*. Awgrymir y diwygiad yn G 456 d.g. *Eing(y)l*, ond noder bod rhai enghreifftiau ansicr o'r ffurf *Engl*, gyda'r un ystyr o bosibl, gw. *ib.* 450. Defnyddid y gair *Eingl* gan y beirdd fel un o gyf-ystyron 'Saeson'. Parheid i glodfori noddwyr am eu campau honedig yn erbyn y Saeson er gwaethaf realiti sefyllfa wleidyddol Cymru yn y cyfnod, gw. GWL² ii, 26. Eto, gw. tt. 13, 14 am ran Tudur yn llofruddiaeth Henry de Shaldeford.

- 9 Petrus yw'r dehongliad o'r ll. hon. Cymerir mai e.p. ydyw Brân ar sail y cyfeiriad at 'fab Dyfnwal' yn y ll. nesaf, a deellir *darogan* mewn ystyr drosiadol: Brân ei hun yw'r broffwydoliaeth oherwydd fod Tudur yn ymdebygu iddo.

Brân Sef Brân fab Dyfnwal, gw. TYP² 284; WCD 50–1; BD 33–9. Rhydd Sieffre o Fynwy ddarlun ohono fel ymladdwr ffyrnig a gipiodd ddinas Rufain gyda'i frawd Beli a'i ddyrchafu ei hun yn ymerawdwr. Crybwyllir y brodyr Beli a Brân fel delfrydau o'r ysbryd arwrol yn GHS 2.12 a 4.20. Cofier hefyd i Frân ymladd yn llwyddiannus yn Ffrainc (BD 37) fel Tudur ei hun o bosibl. Ar y llaw arall, os deellir *brân* yn e.c., yna rhaid meddwl am y symbolaeth a gysylltir â brain ar faes y gad,

gw. ll. 39n. Gellid dychmygu i'r frân broffwydo lladdfa waedlyd yn sgil *gâl ddigelu* Tudur, cf. GLIF 21.41–4 *Bran a gre yn y gyfarthfa, / Ni ddarogan ym ddim da / Bod mab brenhin gwyn Gwynedd / Yn gorwedd yn yr aerfa.*

i'm brawd Neu 'yn fy marn i', cf. ll. 27.

y cu Cf. *Vy mab i y cu* am Lad. *fili karissime* yn I. Williams, 'Cynghorau Catwn', B ii (1923–7), 17.

- 10 **Dyfnwal** Sef Dyfnwal Moel Mud, gw. WCD 214–5 a BD 32–3. Uniaethir *mab Dyfnwal* â *Brân* yn y ll. flaenorol.

digelu Bf. neu a. yn ôl G 346. Dewisir y cyntaf yma gan fod cymaint o lau. yn yr awdl hon yn diweddu â'r patrwm e. genidol + be. (e.e. llau. 1, 2, 4, 6 a 7), ond nid yw'n effeithio llawer ar yr ystyr.

- 11 **Uthr** Deallir *Uthr* yn e.p., sef Uthr Pendragon, tad Arthur (TYP² 520–3), er y gellid ei ddeall yn a. hefyd, cf. 3.9n. Y mae'n bosibl mai disgrifiad clodforus o Dudur yw *llin Uthr* er nad oedd yntau o dras Uthr Pendragon, ond y mae'n fwy tebygol mai Arthur ei hun a olygir.

aeth lle bu—Ffrollo Fe'i deallir yn gymal pth. a'r rh.pth. wedi ei hepgor neu wedi ei gywasgu (*a aeth* > *aeth*), cf. Treigladau 174–5 a WG 185. Sonnir am Arthur yn wynebu Ffrollo (gw. isod). Eto, os dewisir ei gymryd yn gymal annibynnol, yna Tudur yw'r goddrych dealedig a gellid aralleirio'r ll. gyfan, 'Llwyddiant ymgyrch [un o] linach Uthr (uthr?), aeth [Tudur] lle bu Ffrollo'. Os derbynir hyn, rhaid cymryd mai am ryw ryfelgyrch a ddug Tudur yn Ffrainc y sonnir yma. Eto, ni cheir tystiolaeth allanol fod Tudur erioed wedi ymladd yn Ffrainc (gw. AWH 197).

Ffrollo Am hanes gornest Arthur a Ffrollo, tywysog o Ffrainc, gw. BD 154–6. Ar gynnig Ffrollo ymladdodd y ddau mewn lle na fyddai modd i'w byddinoedd ymyrryd, sef ar ynys anghysbell yng nghanol afon ger Paris.

- 12 **clo** Trosiad cyffredin am arwr, yn seiliedig yn ddiau ar ystyried y noddwr yn fan cadarn sy'n rhwystro mynediad i elynion.

clod enyynu Cf. ll. 34.

- 13 **Rhun gun Gwynedd** Ceir nifer o gymeriadau â'r e. *Rhun*, ond mewn cyswllt â llinach frenhinol Gwynedd dichon mai Rhun ap Maelgwn a olygir, gw. TYP² 501–3 a WCD 563–4. Treiglr *cun* mewn cyfosodiad â'r e.p. Cymherir Tudur â ffigur enwog ac iddo fraint brenin, ac felly awgrymir yn gynnill mai Tudur biau arweinyddiaeth Gwynedd bellach. Llai tebygol fyddai 'Arglwydd Gwynedd [sy'n] ddrych [o] Run'.

medd fenestru Thema sylfaenol yn y canu mawl yw meddwl am y noddwr fel un sy'n darparu lluniaeth i'w wŷr, ac yn arbennig y ddiodych uchaf ei statws, sef medd. Gw. M. Haycock, 'Medd a Mêl Farddoni',

BaTh 39–59 am ymdriniaeth â'r topos.

- 14 **Llŷr** Gw. ll. 7n. Tuedda Gruffudd ap Maredudd ddefnyddio'r un cyffelybiaethau droeon, weithiau hyd yn oed o fewn yr un gerdd.

cedwisg Yn betrus cynigir mai gair cyfansawdd ydyw o *cad* + *gwisg* gyda'r ystyr 'arfwisg'. Anfantais y dehongliad hwn yw nad yw'n arferol i lafariad yn yr ail elfen mewn cyfansoddair beri affeithiad i lafariad yn yr elfen gyntaf, gw. WG 121–2. Gthg. G 120 sy'n rhoi 'gwisg rodd, efallai gyda grym ans., yn rhannu gwisgoedd', gan ei ddehongli'n gyfansoddair o *ced* + *gwisg*. Nid yw hyn yn amhosibl, ac yn sicr y mae dosrannu gwisgoedd yn rhan o ddelfryd yr arglwydd, ond o ystyried bod Llŷr yn enwog am ei ffyrnigrwydd, gw. GSRh 3.59n, gwell glynu wrth y dewis cyntaf.

eryr Fel y mae'r llew yn frenin ar yr anifeiliaid (gw. ll. 1n), yr eryr yw pennaeth yr adar.

- 15 **tyfu** Ymddengys fod yr ystyr yma yn agos i 'ffynnu', gw. hefyd 3.122. Noder y cysyniad fod moliant bardd yn gallu sicrhau ffyniant ei noddwr.

'y myd Gw. G 85–6 am enghreifftiau pellach o *fy myd* yn yr ystyr 'f'anwylyd' (er na chofnodir yr enghraifft hon). Daw pob enghraifft a ddyfynnir o waith Gruffudd ap Maredudd; gthg. Bl B XIV 139 (65.15) *ym myd*.

- 16 **llunieth** Ffurf amrywiol ar *lluniaeth* sy'n digwydd yn gynnar, gw. GPC 2224 d.g. *lluniaeth*. Chwaraeir ar ddwy ystyr y gair er mwyn awgrymu bod darpariaeth y bardd ar gyfer ei noddwr fel ymborth neu faeth, cf. y ll. flaenorol.

bryd Dilynir G 80 sy'n dosbarthu'r enghraifft hon o dan *bryt* 'meddwl'. Nid yw *pryd* yn amhosibl; o'i dderbyn gellid aralleirio 'Darpariaeth achlysur o farddoni [o] ymroddiad dwys'.

- 17 **dadl ddiblygu** Ceir *dadl* yn gyffredin yn yr ystyr 'brwydr', cf. G 285 (iii). Ystyr *diblygu* yw 'datrys, datod' yn ôl G 327 a GPC 955–6. Yn betrus deallir bod cleddyf Tudur yn 'datrys ymrafael', sef ei fod yn pennu canlyniad brwydr. Llai perthnasol i'r cyd-destun milwrol fyddai aralleiriad megis 'yn datrys dadl[euon]', er y gall fod y bardd yn canmol Tudur fel ffynhonnell heddwch a chyfiawnder. Y posibilrwydd arall fyddai deall *diblygu* yn yr ystyr 'heb blygu', 'nad yw'n ildio', er na nodir yr ystyr hon yn y geiriaduron. Manteisia Gruffudd ar y cyflythreniad cyfleus rhwng [*D*]udur a *dadl* mewn man arall, gw. isod 3.60.

- 18 **dâr** Gair a ddefnyddir yn aml gan y beirdd yn golygu 'arglwydd', gw. G 297 a GPC 890–1. Dywedir fel rheol mai defnydd ffigurol o *dâr* 'derwen' ydyw. Y dderwen oedd brenin y coed fel yr oedd y llew a'r eryr hwythau'n teyrnasu dros eu cyd-greaduriaid. Ond os felly, rhaid

bod grym y trosiad wedi pylu i raddau helaeth i ganiatáu disgrifiadau megis *llachar ddâr* yma a *llwybr dêr* (GSRh 6.12). Awgrymir yn *G l.c.* y gall fod a wnelo â'r e.p. *Dâr*, sef Darius, brenin Persia, a cf. GEO 1.36n a M. Haycock, ‘“Some Talk of Alexander and Some of Hercules”’: Three Early Medieval Poems from the Book of Taliesin’, CMCS xiii (Summer 1987), 12n27.

- 19 **Llachau glodolau** Gw. TYP² 416–18 a WCD 401–3. Mab i Arthur oedd Llachau a defnyddir ei enw yn aml mewn cymariaethau gan y Gogynfeirdd. Awgrymir yn TYP² 416 mai prinder enwau priod yn cyflythrennu ag *ll* sy'n cyfrif am ei boblogrwydd gyda'r beirdd, cf. GSRh 4.13n.

tal Diau fod dwy ystyr *tal*, sef ‘rhoi, dosrannu’ a ‘bod yn addas, teilyngu’ yn bosibl yma, gw. GPC 3425–6 (a) a (b). Y mae Tudur yn barod i gynnig ymladd ac yn dangos ei werth yn y frwydr.

- 21 **lleifiad** Amrywiad ar *lleiddiad* ‘lladdwr’, gw. GPC 2146.

- 22 **llawrodded** Llsg. *lla6 rodet*. Dilynir GPC 2119 sy'n ei ddehongli'n un gair ac iddo'r ystyron ‘?anrheg, llawrodd; hael’. Fe'i dehonglir yma yn a. ‘hael’, ond y mae'r ystyr enwol ‘anrheg’ hefyd yn ddichonadwy. Disgwylir rhyw fath o gyfeiriad at haelioni Tudur gan mai ei gymharu â Nudd a wna'r bardd yn ail hanner y ll. Gthg. Bl B XIV 139 (65.22) *Llaw rhodded noddod*. Cymhlethir y ddadl yn TYP² 418–19 lle yr awgrymir ei gysylltu â'r cymeriad chwedlonol Llawfrodedd Farfog. Eto y mae'r orgraff a'r cyflythreniad yn anghyson â hyn.

Nudd Gw. 1.11n.

cystadlu Y mae nifer o aralleiriadau posibl, gw. G 268 ‘efelychu, bod yn gyfartal â, cystadlu’ a GPC 816 ‘cydymgeisio; cynnig mewn cystadleuaeth; cymharu, bod yn gystal â ... cyffelybu; gwrthbwyso’.

- 23 Y mae'n debyg mai ergyd y ll. hon yw fod y ddau beth a grybwyllir, gwaywffon a gosgordd, ym meddiant Tudur, ond y mae'n bosibl mai delwedd am Dudur ei hun yw *Lliwrudd wayw diludd*. Ceir trosiadau sy'n cyffelybu'r noddwr i arf neu darian yn aml yn y farddoniaeth, cf. ll. 29 isod.

Ffyrnfael Ceir nifer o gymeriadau â'r e. hwn, gw. WCD 264 a G 516, ac amhosibl dewis rhyngddynt ar sail y cyfeiriad annelwig hwn. Crybwyllir arwr o'r e. yn ‘Englynion y Beddau’, gw. LIDC 18.10–12.

- 24 **Duw o'i adu** Cf. GGI² 294 (CXIII.28) *Mair i'w adu*; hefyd GCBM i, 21.146 *Duw y'm g6ared*. Ymddengys fod Gruffudd yn erfyn ar i Dduw adael Tudur yn fyw. Llai tebygol fyddai rhoi atalnod ar ôl y drydedd sillaf a chael *Llawrudd hael, diwael Duw o'i adu* ‘Lladdwr hael, gwych yw Duw am ei adael [felly].’

llawrudd hael Gellid ‘bonheddig’ neu ‘urddasol’ ar gyfer *hael*, ond

noder bod y beirdd yn hoff o gyfosod dwy brif gynneddf y noddwr delfrydol, sef ffyrnigrwydd a haelioni, mewn dull trawiadol fel hyn. Ai rhy fentrus fyddai gweld mwysair yma (*llawrudd* ~ *llawrydd*)?

o'i Llsg. *oe* = 'i'w' yn ôl y dehongliad o'r ll. a gynigir yn yr aralleiriad, ond gw. uchod am ddehongliad posibl arall.

- 25 **lladwin** Nodir 'anrheg; gras, budd' ymhlith ystyron *llad* yn GPC 2076–7.

crair Gair cyffredin yn y canu mawl yn pwysleisio parch a chariad y bardd tuag at ei noddwr, gw. G 172–3 a GPC 578–9. Fe'i hodlir yn bur gyson â *gair*.

porthair Y mae gair Tudur yn gynhaliath i'w wŷr ac i'w fardd yn benodol. Dyma ail hanner y berthynas a grybwyllwyd yn llau. 15–16.

- 26 **llydwawd** Ffurf unigryw (llsg. *llytwaðt*). Yn GPC 2253 awgrymir diwygio yn *llydwawg*, ond yma fe'i dehonglir yn air cyfansawdd o *llydw* 'mintai, llu' a *gwawd* 'moliant'. Cedwir darlleniad y llsg. hefyd yn Bl B XIV 139 (65.26).

pyrthfawr Llsg. *byrthwaðr*. Gan ei bod yn annhebygol fod dwy enghraifft o *gwawr* mor agos at ei gilydd yn yr un ll., fe'i diwygir yn *byrthfawr*, cf. y cywiriad llawysgrifol yn ll. 3. Awgrymir y diwygiad *byrddfawr* yn G d.g. *byrthwawr* yn y gwelliannau rhwng 576 a 577, ac am y gair hwn, cf. GSRh 7.54, hefyd yn odli â *beirdd*. Eto, gan fod *pyrthfawr* yn rhoi synnwyr, y mae'n well derbyn y diwygiad lleiaf posibl.

Dylid hefyd ystyried y posibilrwydd y gallai *gwawr* fod yn eb. fel yn ei ystyr lythrennol, cf. GGDT 1.17 am enghraifft bosibl arall o hyn. Os felly, gellid deall *pyrthfawr* yn goleddfu *Llydwawd wawr*. Hefyd, gw. GCBM ii, 5.93 *Llas Morgant mur gawr, llasar wawr—wanar* ac *ib*. n lle y dadleuir bod *gwawr* yn dwyn yr ystyr 'disgleirdeb, llewyrch'.

beirdd gartrefu Y mae G 114 fel petai'n ffafrio dehongli *cartrefu* yn fg. gan roi'r aralleiriad 'yr erys beirdd gydag ef'. Eto, y mae enghraifft ohoni'n fa. yn GPC 432 ac y mae tebygrwydd y gystrawen i'r hyn a geir mewn nifer o lau. eraill yn y gerdd hon (e.e. 4, 6, 8, 10) yn awgrymu'n gryf mai ba. ydyw yma hefyd.

- 27 **brawd** Gair amwys. Os 'brawd' yw'r ystyr, yna aralleirier 'Bendith wych lwyr gyflawn oherwydd i'm brawd [ei] haeddu'.

- 29 **Tewdwr** Tewdwr Mawr ap Cadell, gw. 1.66n.

- 30 **tremyniad** Yn GPC 3585 d.g. *tremyniad*^l rhoddir yr ystyron 'teithiwr, tramwywr; cyrchwr (milwrol), ymosodwr' yn ogystal â 'baedd'. Hawdd gweld y cysylltiad rhyngddynt o gofio natur ffyrnig y baedd gwyllt, ac y mae delweddaeth anifeilaidd yn hanfodol i ieithwedd y canu mawl.

saethgad seithgamp Nid yw'r llsg. yn dangos yn ddiamwys ai

cyfansoddeiriau clwm ynteu llac yw'r rhain, ond nid yw o bwys i'r gynghanedd nac i'r ystyr. Y mae'n annhebygol mai *saeth*² 'gofidus' sydd yma, gair y mae ei ddilysrwydd yn ansicr (GPC 3159).

Alltu 'Ni wyddys dim am yr hen arwyr *Alltu* a *Carcu*' yn ôl Bl B XIV 187, ond ceir ychydig o oleuni yn WCD 240 a G 20. Tad Elian Geimiad, nawddsant Llaneilian ym Môn a Llaneilian-yn-Rhos yn sir Ddinbych ydoedd Alltu Redegog, cf. EWGT 61 a LBS ii 435. Awgryma llysenwau'r tad a'i fab eu bod yn enwog am eu campau corfforol. Ceir cywydd i Elian wedi ei olygu gan Bedwyr L. Jones, 'Gwilym Gwyn', B xx (1962–4), 28–31. Dryslyd yw'r testun hwnnw ond crybwyllir ynddo ryw gamp o redeg a gyflawnwyd gan Alltu (*Gallu* yw'r ffurf ar yr e. yn y testun) i ddianc rhag gelynyion (gydag Elian?). Ni cheir ynddo esboniad ar y saith camp dan sylw. Am gyfeiriad arall at saith camp, gw. GGI² 71 (XXVI.13–14).

- 31 **Carcu** Fe'i deellir yn e.p. fel yn Bl BGCC 317 (31.6a). Nodir yn EWGT 61 mai *Carcludwys* oedd enw tad Alltu Redegog (gw. uchod ll. 30n) a bu cryn gymysgu mewn testunau diweddarach, gan gynnwys y ffurf *karku kludwas* yn Pen 27. Dichon, felly, fod a wnelom â thad yr arwr a grybwyllwyd eisoes, ond gellid *câr cu*.

yng nghadoedd Y mae'r ll. sillaf yn hir, felly efallai y dylid cywasgu hyn yn '*nghadoedd*. Ar y llaw arall, amrywiad eithaf cyffredin oedd rhoi 11 sillaf mewn ll. gyntaf toddaid, gw. Henry Lewis, 'Toddaid a Chyhydedd Hir', B v (1929–31), 96–7 a BaTh 266.

- 32 **tarw** Delwedd gyffredin arall am arglwydd cryf a ffyrnig.

ar arw aereoedd 'Byddinoedd' yw ystyr *aereoedd* yma, y mae'n debyg, gw. G 12–13. Deellir *ar* yn yr ystyr 'yn arwain, yn ben ar', cf. PKM 1 (ll. 1) a D. Simon Evans, 'Yr Arddodiad *ar* a'i Gystrawennau (II)', B xv (1952–4), 170.

- 33 **Trystan** Gw. TYP² 329–33 a WCD 619–21. I'r Gogynfeirdd, arwr delfrydol ydyw yn hytrach na charwr.

- 34 **traws maws** Cyfuniad cyffredin, gw. GC 7.214 a GEO 1.64, a gw. uchod ll. 24n am gyfosod cynneddfau milwrol a chwrtais. Gellir cymryd *traws* yn e. fel y gwneir yn yr aralleiriad, neu ddeall brawddeg enwol: 'Cadarn [a] dymunol yw[r] un tra beiddgar [a chanddo] ysbail ...'

clud G 149, 'cruglwyth, swmer (pwn), cyfoeth, anrhaith, teyrnged; ?clod, bri'; GPC 509 'y weithred o gario neu gludo, dygiad; llwyth, baich, pwn, bwndel ... cyfoeth, ysbail, anrhaith'. Digwydd sawl gwaith mewn cyfuniad â *clod* gyda'r ystyr 'llwyth o glod', cf. GLIBH 5.13; GEO Atodiad C 24.8 (ychydig yn wahanol yw'r ail enghraifft hon), a ll. 43 isod.

- 35 **catgun** Llsgr. *gat / gun*. Fe'i hysgrifennir fel cyfansoddair clwm yma,

gthg. Bl B XIV 140 (65.35).

- 36 **cun** G 186 d.g. *cun*² ‘haid o gŵn; milwyr, llu, mintai’. Ceir hefyd yr ystyr ‘aruchel, coeth, annwyl’ a gofnodir d.g. *cun*¹ (b), ond ansicr yw pob enghraifft ohoni.

rhwyf Gair amwys ei ystyr, gw. GPC 3114 d.g. *rhwyf*² ‘brenin, arglwydd’ a *rhwyf*³ ‘rhwysg, rhodres’. Yr olaf sydd fwyaf tebygol os deallir Alun yn e.p., gw. isod.

Alun Gthg. G 20 a Bl B XIV 187 sy’n ffafrio’r e. lle yn sir y Fflint (WATU 226). Nid oes unrhyw dystiolaeth sy’n cysylltu Tudur â’r lle hwnnw ac nid yw’n eglur ychwaith pwy fyddai ‘arglwydd Alun’ os nad efe. Cymerir yn hytrach mai cyfeiriad at Alun Dyfed ydyw, gw. G 20 a WCD 12 lle y dywedir ei fod ‘evidently a traditional hero of Dyfed’, a cf. GIG 22 (V.10). Cyfeiria Gruffudd ap Maredudd ato yn 3.224 a GGMD iii, 1.14.

- 37 Ll. arall y ceir mwy nag un ffordd o’i hatalnodi. Pe rhoddid atalnod ar ôl *lorf* ceid ‘Amddiffynnwr llu mawr [mewn] helynt tost iawn, cynheiliad llu gwyh’.

llorf corf Cyfuniad a welwyd eisoes yn ll. 2.

- 38 **crwydr, frwydr** Un arall o hoff gyfuniadau geiriol Gruffudd.

bredychu Ymddengys mai’r ystyr yw fod Tudur yn twyllo’r gelyn mewn brwydr. Yn GPC 314 d.g. *bredych* (b), rhoddir yr ystyron ‘ofn, braw, dychryn, arswyd, syndod’, gyda’r enghraifft gyntaf yn dod o’r 15g. Nid amhosibl felly fyddai’r aralleiriad ‘codi ofn [mewn] brwydr’, er na chofnodir yr ystyr hon ar gyfer y f.

- 39 **coelfain brain** Cyfuniad cyffredin, ac y mae’r ddelwedd ei hun o fwydo brain ac anifeiliaid ysglyfaethus eraill yn digwydd yn fynych iawn yn y canu mawl, gw. T.J. Morgan, ‘Dadansoddi’r Gogynfeirdd (2)’, B xiv (1950–2), 1–8.

- 40 **y** Rhaid mai’r fan. sydd yma (llsgr. *y*) oherwydd na fyddai cynghanedd lawn rhwng *rhif* ac *ei riallu*, cf. J. Morris-Jones: CD 204–6.

rhiallu Llsgr. *riwallu*. Awgrymir y diwygiad yn GPC 3082. Nodir yn J. Morris-Jones: CD 199–200 fod sain *f* ac *w* gytseiniol yn debyg iawn i’w gilydd yn y cyfnod hwn. Nid yw’n amhosibl, felly, fod y ffurf *riwallu* yma’n cynrychioli ymdrech gan ryw gopiïydd i greu ‘gwell’ cynghanedd â *rhif*, cf. 3.97n. Fodd bynnag, y mae cynganeddion sain pengoll yn britho cerddi Gruffudd ap Maredudd, a hefyd gerddi eraill o’r cyfnod, cf. *ib.* 187–8. Am yr ystyron ‘milwr dethol neu brofedig, aelod o osgordd brenin; ... gosgordd frenhinol, lleng’; neu ‘llu, nifer mawr’, gw. GPC 3065–6 d.g. *rhiallu*. Trafodir y gair hefyd yn CA 216. Fe’i deallir yn gyfeiriad at Dudur ei hun yma.

- 41 Gellid hefyd ‘Cynheiliad sy’n dryfer [mewn] brwydr’ ac o roi atalnod ar

ôl *cad* ceid ‘Tryfer brwydr, cynheiliad nerthol [ei] rym’.

- 42 **trefn ... heÿrnblu** Llsgr. *Trevyn heilrwyisc hueil / risc heÿrnblu*. Nid yw’n eglur felly ai fel un gair ynteu dau y dylid dehongli *hueil risc*. Dewiswyd rhannu *heilrwyisc* a chadw *hueil* a *risc* ar wahân er mwyn cael cynghanedd sain reolaidd ac ystyr ddigonol. Gthg. Bl B XIV 140 (65.42) *Trefn heilrwyisc, hueilrisc heÿrnblu* (cynghanedd sain broest).

trefn Gellid yn ogystal ‘dull, modd’.

Huail Huail fab Caw, brawd Gildas, a laddwyd gan Arthur, gw. TYP² 408–10 a WCD 368. Ceir cyfeiriadau eraill ato yn GC 1.22 a GDG³ 453 (14.40n).

- 43 **clud ddatawdd clod** Delwedd annisgwyl braidd. Ymddengys i ‘lwyth clod’ Tudur gael ei ddelweddu fel talp o iâ sy’n dadmer ac yn llifo dros y wlad i gyd.

Hafn Afon Afan ym Morgannwg, gw. WATU 5 a J. Lloyd-Jones, ‘Afn, Afan’ yn B xi (1941–4), 32–3 lle y dywedir am yr enghraifft hon ‘ni ellir unrhyw amheuaeth nad at yr afon y cyfeirir’. Ffurf ddiweddar yw’r e. deusill *Afan*. Ergyd y ll. felly yw fod clod Tudur yn ymestyn dros Gymru benbaladr.

- 44 Y mae cynghanedd y ll. yn ddigonol fel y saif ac felly nis newidiwyd, ond sylwer y ceid cyflythreniad cyflawnach pe ddiwygid *llwgr* yn *lwgr* fel yn Bl B XIV 140 (65.44), neu *Loegr* yn *Lloegr*.

trafn GPC 3547 ‘arweinydd, arglwydd, tywysog; ?ffynhonnell; cartref, trigfa; ?cwrs, ffordd’. Gruffudd ap Maredudd biau cyfran sylweddol o’r enghreifftiau a ddyfynnir. Gw. ymhellach GDG³ 546 am ymdriniaeth â’r gair anodd hwn. Yma y mae ‘arglwydd’, ‘ffynhonnell’ neu ‘cwrs’ i gyd yn gweddu.

lliflafn Efen gyntaf y cyfansoddair yw *llif²*, bôn y f. *llifo*, gw. GPC 2177. Y mae llafn Tudur yn llifo’n rhwydd fel dŵr, neu’n peri i waed lifo. Dichon fod *llif¹*, S. ‘saw’, yn ymhlyg yn y ddelwedd yn ogystal.

Lloegr elyflu Dehonglir hyn yn enidol yn dibynnu ar *llwgr*. Y trychiad sy’n gyfrifol am y treigladd, bid sicr, ond gw. uchod am y posibilrwydd o ddiwygio.

- 45 **serch ddisyrchu** Nid yw Tudur yn dangos tiriondeb tuag at ei elynion. Dichon hefyd fod awgrym ei fod yn dibrisio serch oherwydd ei anian ryfelgar.

- 46 **traglew llew lleifiad** Cf. ll. 1. Y mae’n rhaid mai cyfres o enwau sydd yma oherwydd y diffyg treigladau, neu o bosibl frawddeg enwol. Os yr olaf, ‘Dewr iawn yw[’r] llew [a’r] lladdwr ...’

cymynu Delwedd gyfarwydd yn y canu mawl: torrir y gelyn megis cnwd.

- 47 **taerlaif ... gwayw** Cyfeirir naill ai at arfau Tudur neu'n drosiadol ato ef ei hun.
- gwaedlin** Ymddengys i'r llythyren *g* gael ei dileu o ddechrau'r gair hwn (gthg. R sy'n argraffu *gbaetlin*, gan nodi fod yr *g* yn anodd i'w darllen). Os cedwir y gytsain gysefin, yna rhaid aralleirio 'gwaywffon cnu ffres [o] lif gwaed / [o] gyflafan', nad yw'n rhoi cystal synnwyr.
- 48 **tân chwefrin** Cf. GLIL1 16.24 *Anyan chwefrin dan Chwefra6r*.
- 49 **o'i lys** Ar *o'i 'i'w'*, gw. 1.6n.
- 51 **llithio branes** Cf. ll. 39n.
- Northmain** Gelynyon o ryw fath, efallai i'w cysylltu â *Nordd*, *North* (GPC 2596) sef gogledd Lloegr. Ceir hefyd *Norddman*, ll. *Norddmyn* (GPC *ib.*), sef 'Norman, Llychlynwr'. Eithr os bu Tudur yn ymladd yn Ffrainc erioed, gallai fod yn cyfeirio at y Normaniaid, gw. ll. 11n.
- 52 **cenhiadu** Llsg. *geinhyadv*. Gw. G 105. Hawdd fu i'r copïydd lithro yn syth ar ôl ysgrifennu *gein*. Ymddengys mai ystyr y ll. yw fod Tudur yn comisiynu moliant y bardd.
- 53 **yn braisg brynu** Gellid hefyd 'ein braisg brynu'. Cyfeirir at y gras a brynwyd ar gyfer y ddynolryw gan Grist ar y Groes.
- 54 **trwy rodd, trwy fodd foes** Ansicr. Ymddengys fod y ll. ar ei hyd yn ymwneud â Christ, ac felly deallir hyn yn gyfeiriad at Ei fendith (*rhodd*) a'i barodrwydd arferol (*moes*) i ddangos ei ewyllys da (*bodd*) tuag at ddynion. Onid hynny, efallai mai haelioni Tudur ei hun a olygir.
- 55–6 Am y diwedd glo hwn, cf. GDL1 29 (3.63–8).
- 55 **Maethlu** Nawddsant plwyf Llanfaethlu yn Nhalybolion, Môn, gw. LBS iii, 406–7. Am gysylltiad tebygol Gruffudd ap Maredudd â'r plwyf hwn, gw. uchod td. 4. Llai tebygol fyddai *maethlu Mihangel* 'llu cynhaliol Mihangel'.
- Mihangel** Yn ôl dealltwriaeth yr Oesoedd Canol, yr archangel Mihangel a'i angylion a fyddai'n tywys enaid dyn marw i'r nef, gan ei amddiffyn rhag ymosodiadau cythreuliaid. Gw. ODCC³ 1082–3.
- 56 **Pawl, Pedr** Y seintiau enwog. Fe'u cyplysir yn aml fel sefydlwyr eglwys Rhufain a dethlir eu merthyrdod ar y cyd ar 29 Mehefin, gw. ODCC³ 1234–8 a 1260–1.
- Gradifel** Nawddsant plwyf Penmynydd, a adwaenid weithiau fel Llanredifael (WATU 174), gw. y nodyn cefndir. Am y sant, gw. LBS iii, 148–9.
- o'i du** Gw. 1.16n am *o'i 'i'w'*. Sonnir am gartref Tudur, yn ôl pob tebyg.

3

Bu farw Tudur Fychan ap Goronwy yn 1367 a chanodd Gruffudd farwnad faith iddo. Ymranna'r gerdd yn bum caniad a ystyrir weithiau yn gerddi annibynnol. Y mae'n wir na chysylltir hwy â'i gilydd â chyrch-gymeriad, ond ceir yn GSRh cerdd 3 a GGDT cerdd 11 enghreifftiau eraill o gerddi amlganiad heb gyrch-gymeriad rhwng y caniadau. Daw pum caniad y farwnad i Dudur un ar ôl y llall yn Llyfr Coch Hergest. Y mae pennawd uwchben pob un ac eithrio'r olaf, ond ni olyga hyn fod rhaid eu hystyried yn gerddi annibynnol: yng ngholofnau 1165–69 o'r Llyfr Coch ceir pennawd o flaen pob caniad o 'Ganu Tysilio' Cynddelw Brydydd Mawr er gwaethaf y cyrch-gymeriad sy'n cysylltu pob un â'i gilydd. Ni allwn wybod, wrth gwrs, ar ba ffurf yn union y datganwyd y farwnad hon, ac nid yw'n amhosibl fod y pum caniad unigol wedi eu datgan ar achlysuron gwahanol. Gan y cynhelid seremonïau coffa er anrhydedd yr ymadawedig ar ddyddiadau penodedig ar ôl yr angladd, y mae'n bosibl fod y caniadau hyn wedi eu cyfansoddi ar gyfer y rhain.¹ Eto, gan mai marwnadu Tudur ap Goronwy a wnânt i gyd, penderfynwyd eu trin yn un gerdd ar gyfer y golygiad hwn yn hytrach nag yn gerddi annibynnol.

Y mae statws y pumed caniad (sef llau. 209–224) yn aneglur. Ni ellir gwahaniaethu rhyngddo a'r caniad o'i flaen ar sail mesur na phrifodl: cyfresi o englynion a geir yn y ddau ganiad ac amrywia'r brifodl o'r naill englyn i'r llall. Trinnir llinellau 209–24 fel caniad yma am y rheswm syml mai dyna a wnaed yn y llawysgrif trwy freinio'r gair *doeth* yn ll. 209 â phriflythyren liwiog.

Nid oes adeiledd llinellol yn y gerdd; yn hytrach, y mae'n cylchdroi o gwmpas nifer gyfyngedig o themâu a delweddu. Y mae adeiledd y tri chaniad ar fesurau awdl yn debyg i'w gilydd. Cyferchir Crist ar ddechrau'r ail a'r trydydd caniad gan gwyno wrtho am farwolaeth Tudur. Anuniongyrchol yw'r cyfarchiad ar ddechrau'r caniad cyntaf a'r cwyn yn daerach. Cloir pob awdl trwy fynegi'r gred hyderus y caiff Tudur ei dderbyn i'r nef. Yn y canol, rhwng y ddau gyfeiriad crefyddol hyn, gwëir ynghyd dopoi arferol y farwnad Gymraeg. Canmolir gwrhydri Tudur yn y gorffennol gan wrthgyferbynnu ei orchestion ar faes y gad â thrueni ei gyflwr presennol yn y bedd. Sonia'r bardd droeon am ei alar ei hun, am y dagrau, yr wylofain, y gweiddi, yr ochneidio, y diffyg cwsg a'r llewygu. Y mae llys Tudur bellach yn ddiffaith: ni cheir yno na llawenydd na noddwr hael yn rhoi anrhegion na beirdd yn canu fel a geid gynt. Treisiwyd Môn a Gwynedd, ac ni fyddai'r

¹ Llai tebygol yw awgrym Henry Lewis, 'Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd a Rhisieryn', B i (1921–3), 126, fod Gruffudd wedi cyfansoddi pedair marwnad i Dudur, sef un ar gyfer pob un o'i feibion (heb gyfrif Maredudd, fe ymddengys, a chan gyfrif y pedwerydd caniad a'r pumed yn un). Nid oes tystiolaeth am y fath arfer, a chan fod yr adrannau'n amrywio o ran maint, gellir tybio na fyddai rhai o'r meibion wedi bod yn fodlon iawn.

bardd yn poeni petai Dydd y Farn ei hun yn dod, mor ddwys yw ei alar am Dudur. Yr un yw themâu'r ddau ganiad o englynion ar ddiwedd y gerdd ond ni cheir ynddynt y fframwaith crefyddol o gyfarch Duw ar y dechrau a gweddïo iddo ar y diwedd.

Mesurau:

- Caniad 1 (llau. 1–56): cyhydedd hir (prifodl *-ar*)
- Caniad 2 (llau. 57–124): toddaid (prifodl *-edd*)
- Caniad 3 (llau. 125–68): cyhyded naw ban (prifodl *-er*)
- Caniad 4 (llau. 169–208): englynion unodl union a phroest
- Caniad 5 (llau. 209–24): englynion unodl union a phroest

Ceir odl wahanol ym mhob englyn. Y mae cymeriadau llythrennol, cynganeddol a geiriol helaeth yn yr adrannau awdl, gan gynnwys rhai o ffefrynnau Gruffudd megis *tr-*, *ll-* (a welwyd eisoes yng ngherdd 2) a *neud* (cf. cerdd 6). Fel yn achos y brifodl, trinnir yr englynion fel unedau o ran cymeriad.

Golygwyd y gerdd fel pum cerdd annibynnol yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 95–116.

1–2 Posibilrwydd arall yw ‘Gyrodd Crist grymus ... gorff gwan prudd trist [Tudur] ... i’w arch o garreg hir [ei] thaith.’

grym Dilynir G 595 a deall *grym* yn a. yn goleddfu *Crist*. Disgwyliid treiglo'r goddrych yma gan nad yw'n dilyn yn syth ar ôl y f., ond efallai mai anghenion y gynghanedd a ataliodd y treigladd. Posibilrwydd arall fyddai *Troses i'm grym Grist* ‘Rhoddodd Crist yn fy meddiant’.

o'i Er na chrybwyllwyd Tudur eto, y mae'n anodd cael synnwyr oni chymerir mai ato ef y cyfeiria'r rh. ac nid at Grist.

taith faith faengist Gwyddys y gall e. treigledig heb arddodiad ddynodi cyrchfan ar ôl bf. a hyd yn oed ar ôl be., gw. Treigladau 227–8. Nid yw'n afresymol credu y gallai'r gystrawen hon ddigwydd yn achlysurol ar ôl e. megis *hynt* neu *taith*, neu mewn cyd-destunau eraill o ran hynny, ac am enghreifftiau posibl gw. ll. 19n ac yn arbennig ll. 221n; cf. hefyd J. Lloyd-Jones, ‘Some Features of Middle Welsh Syntax’, ZCP xvii (1927–8), 101 a GSRh 3.18 *Llyw a'i glod Gernyw*. Fel sy'n ymhlyg yn yr hyn a ddywedir yn Treigladau 227, treigilir yr e. oherwydd ei ddefnyddio'n adferfol. Posibilrwydd arall yw fod *taith faith* yn goleddfu *maengist* ac yn cyfeirio at yr amser hir y bydd yr arch yn y ddaear.

4 **Clydno** Clydno Eidyn, arwr o'r Hen Ogledd a ymgyrchodd hefyd yn Arfon, gw. G 152; WCD 132; TYP² 309–10. Cyfeiria Gruffudd ap Maredudd ato hefyd yn GGMD iii, 1.3, eto mewn cyfuniad â *clod*.

5 Heblaw am yr aralleiriad a gynigir, gellid ystyried ‘Yr wyf yn drist, clwyf niweidiol mawr [i] arglwydd rhyfel.’ Hynny yw, gall mai Tudur a ddioddefodd [f]urnglwyf mawr drwy farw, neu ynteu'r bardd yn sgil

marw ei noddwr.

- 6 **glew llew** Cymerir *glew* yn e. yma oherwydd na threiglir *llew*. Am y cyfuniad, cf., e.e., 2.1, 46.

gawr gorddwyar Awgryma J. Lloyd-Jones, 'The Compounds of **Gar*', *Celtica*, iii (1956), 205, yr ystyr '*a wail that laments cruelty*', gan gysylltu'r ffurf â *gorddwy* 'gorfod, gorthrech, gorthrwm, gormes, trais' (gw. G 560–1, GPC 1472), a'r elfen **gar* 'sŵn', &c. Posibilrwydd arall a grybwylla ef yw ei ddiwygio yn *gorddyar* 'trystfawr, tyrfus, bloeddafwr', gw. G 561. Dichon y sonnir am y galar ar ôl Tudur, ond gall mai ffurf dreigledig *cawr* a geir yma.

- 7 **hoen** GPC 1884–5 'nwyd, angerdd, nwyfiant, afiaith; llewyrch, disgleirdeb, gloywder, graen, lliw; ?pryd a gwedd, golwg'. Yn ogystal â'r hyn a gynigir yn yr aralleiriad, y mae'n bosibl fod *poen hoen* yn nodi cystuddio'r wyneb gan dagrau, cf. y ll. nesaf. Am y topos hwn, gw., e.e., GSRh 2.15–18.

- 9 **treisiwyd Fôn** Ni ddisgwylid treiglo gwrth. bf.amhrs., gw. Treigladau 229–31, ond cf. GMB 28.3 *Parabyl gwir pan dreithir draetha6d* (Einion ap Gwalchmai) ac *ib.n* a hefyd L&P 139 am enghraifft arall.

tros ruthr uthr anrhaith Am y cyfuniad, cf. ll. 131. Posibilrwydd arall yw 'oherwydd dinistr [yr un ac iddo] ryfelgyrch [fel] Uthr'. Am *Uthr*, gw. 2.11n.

- 11 **trwm** Gallai *trwm* fod yn e., gw. GPC 3626 'brwydr; trallod, gofid'.

maeth Fe'i hysgrifennwyd ddwywaith yn y llsgr., ond dilewyd yr ail un. Ni nodir y cywiriad hwn yn R 1206.13.

meithwiw Llsgr. *meithw* gydag *i* wedi ei hysgrifennu uwchben *hw*. Gellid, efallai, gymharu'r ffurf *meithw* â *ceithw* 'caethiwed', 'yn gwarchae, yn cadw' neu 'rhwym, caeth' (G 126, GPC 455), ond ymddengys mai benthyciad o'r Llad. *captivus* yw *ceithw*. Gan na chafwyd ychwaith dystiolaeth arall fod y ffurf *meithw* yn bodoli, fe'i diwygir yma er mwyn cael synnwyr. Gellid hefyd aralleirio *maeth meithwiw* yn '[yr un a arferai roi] cynhaliaeth faith deilwng'.

- 12 **trom aergrwydr frwydr friw** Ymddengys fod rhaid cydio *trom* wrth *brwydr* gan mai eg. yw *crwydr* yn ôl G 181 a GPC 617, ond petai modd cymryd bod *trom* yn goleddfu *aergrwydr* ceid 'clwyf brwydr [mewn] ymladdgyrch trwm'. Rhydd GPC 336 d.g. *brwydr*¹ yr ystyron 'llu, byddin' mewn rhai achosion; os felly, 'clwyf [i] lu trwm rhyfelgyrch'; ond nid ymddengys fod yr enghreifftiau yn rhai cynnar ac nid oes ategiad yn G 79. Gallai *aergrwydr* hefyd fod yn a. 'yn cyrchu ymladdfa' (cynnig petrus yn unig yw ei ddehongli'n e. 'ymlladdgyrch' yn G 13).

- 13 **mur** Claddwyd Tudur ym mur eglwys tŷ'r Brodyr Duon ym Mangor, y *du deheu ir gafell*, yn ôl dogfen o'r 16g. a ddyfynnir gan Charles Ashton

yn IG 277. Gw. y Rhagymadrodd, td. 14 ac AWH 214.

Nudd Gw. 1.11n.

- 17 **Nudd nawell** Gw. ll. 13n a cf. GDB 29.77 (Dafydd Benfras) a GDC 2.45 *nawell Nudd* (Dafydd y Coed).

traul Gan mai canmol haelioni Tudur yw byrdwn hanner cyntaf y ll., dehonglir *traul* yn yr ystyr ‘darpariaeth, cynhaliaeth’, gw. GPC 3558 d.g. *traul*¹, 1(a); gthg. *ib.* 1(c) lle y rhoddir yr ystyr ‘dinistr, colled; nychdod, gwendid’ ar gyfer yr enghraifft hon. O ddilyn GPC, gellid aralleirio ‘nychdod [i] fil [o wŷr] yw[’r] un o dras Hiriell [bellach]’, yn cyfeirio at y galar yn sgil marwolaeth Tudur. Nid yw ‘dinistr [i] fil o hil Hiriell’ yn debygol—a ellid canmol Tudur am ladd gwŷr Gwynedd?

hil Hiriell Sef pobl Gwynedd. Llai tebygol yw brawddeg enwol gyda *hil* yn yr ystyr gyffredin ‘un o hil’, gw., e.e., GCBM ii, 4.86n. Rhoddai hynny ‘cynhaliaeth [i] fil [o wŷr fu’r un] o linach Hiriell’.

Hiriell Arwr traddodiadol Gwynedd, gw. WCD 365–6 ac I. Williams, ‘Hiriell’, B iii (1926–7), 50–2 lle y dywedir, ‘Gelwir Môn neu Arfon yn bau neu fro Hiriell. Yno y mae ei hil.’ Fel yn achos Arthur, ceir traddodiad ei fod yn cysgu yn rhywle yn aros nes dychwelyd ryw ddydd i amddiffyn ei wlad, cf. LIDC 31 (17.89–92).

- 18 **Tre’rcastell** Treicastell ym Môn, un o gartrefi Tudur, gw. y Rhagymadrodd, td. 14 a WATU 205. Y mae hanner cyntaf y ll. hon yn fyr o sillaf, cf. 1.12n.

meddgell fuddgar Trosiad naill ai am y tŷ, neu ynteu am Dudur ei hun fel un sy’n darparu medd, cf. GLIG 4.8.

- 19 **Trystan** Gw. 2.33n.

glewdan Awgrymir yn betrus ei ddiwygio yn *gleudan* yn G 147 d.g. *cleudan* gan gynnig yr ystyr ‘ffyrnig, angerddol’. Eto, ni threiglir a. yn gyson ar ôl e.p., gw. Treigladau 114–18. Yn wreiddiol, cedwid y gysefin oni bai fod yr epithet yn gweithredu’n wahaniaethol, cf. 5.93 *Echel greddfawl*. Felly, nid oes cyfiawnhad digonol dros ddiwygio yma.

caith daith dydwedd Cf. ll. 1n ac ll. 221n. Dehonglir *caith* yn un.; gthg. G 97 lle y rhestrir yr enghraifft hon yn betrus yn ll., ond dywedir yno ‘y mae peth anhawster ar ffordd deall *keith* yn enw neu ansoddair lluosog mewn ambell un o’r enghreifftiau’. Os ll. ydyw, yna gellid aralleirio, ‘taith [i’r] rhai caeth’, sef y meirw.

- 21 **oer** Yr oedd ystyron ehangach i’r gair hwn yng ngwaith y beirdd, gan gynnwys ‘trist, digalon ... annymunol, anhyfryd’, gw. GPC 2624.

torf Fe’i deallir yn enidol ar ôl *terfyn*. Bu marwolaeth Tudur yn derfyn ar ymgasglu’r dorf o’i gwmpas.

llorf, corf Cf. 2.2n.

- 22 Dehonglir y ll. hon yn un uned gystrawennol, ond gellid *Torfoedd aer filioedd, awr ufeliar* ‘lluoedd [o] filoedd [o wŷr] rhyfel, bloedd rhyfel gwreichionllyd’.
- 23 Dehonglir y ll. gyfan yn frawddeg enwol. Fel arall, gellid trin *gwaith gwenwyn* ‘llafur chwerw’ yn ymadrodd mewn cyfosodiad â gweddill y ll.
- teiriaith** Nid yw’n eglur at beth y cyfeirir. Os *iaith* yn yr ystyr ‘pobl, cenedl, tylwyth’, gw. GPC 1999, gellid meddwl naill ai am Gymru, Lloegr a’r Alban neu am dair talaith Cymru (Gwynedd, Powys a Deheubarth). Cf. GGDT 11.21n.
- 25 **lluorllin** Cf. 8.12. Gw. G 569 a GPC 1490 am wahanol ystyron *gorllin*.
- llafn eurdrafn aerdrin** Nid yw ystyr *trafn* bob amser yn eglur, gw. 2.44n. Yma gellid yn ogystal ‘llafn arglwydd rhagorol [mewn] rhyfel-gyrch’.
- 28 **Llŷr gedoedd** Am Llŷr Llediaith, gw. 2.7n.
- llurig Odar** Cyfeiriad tywyll, ac y mae’n aneglur ai ffurf dreigledig yw *Odar*. Yn GLILl 20.19n ceir *Y Gymry, gymrawd Gotyar*, a dyfynnir yr enghraifft bresennol yno fel cyfatebiaeth bosibl. Awgrymir yno hefyd gysylltiad ag Odiar Ffranc, gw. R.L. Thomson: Gereint 1 (ll. 13) a 21 (ll. 608), neu ag Odgar mab Aed yn CO³ 24 (llau. 635–6). Ymhellach, gw. GLILl 23.8 *Y voli vy ri rwysc Odyar* ac *ib.n* a P. Sims-Williams, ‘The Significance of the Irish Personal Names in Culhwch ac Olwen’, B xxix (1980–2), 604–6.
- 29 **llawgrair** Fe’i dehonglir yma’n a. a ddefnyddir yn enwol am Dudur. Os e. ydyw, efallai ‘trysor mewn llaw’; a ddywedir bod cyfoeth Tudur bellach ynghudd gydag ef?
- neddair Nudd** Am y cyfuniad, cf. GGDT 6.2n a GSRh 6.13n.
- 30 **digrawn ... deigr** Am enghreifftiau eraill o’r cyfuniad hwn, gw. G 348 d.g. *digrawn*.
- 31 **Llŷr feiddiad** Llsg. *llyr beidyat*. Diwygir er mwyn y gynghanedd. Yr ystyr yw ‘heriwr [megis] Llŷr’ neu ‘un a heriai Llŷr’. Os gwrthodir y diwygiad, yna y mae rhaid cymryd *beiddiad* yn epithet heb ei dreiglo ar ôl yr e.p. *Llŷr*.
- Llŷr** Gw. ll. 28n.
- 32 **planc** Gw. GPC 2816 d.g. *planc*¹ ‘astell, bwrdd, ystyllen’. Am ddefnydd ffigurol tebyg ohono, cf. GGMD iii, 2.82 a GIG 84 (XX.3). Gellir cymharu’r defnydd ffigurol o *llorf* a *corf* i ddisgrifio’r noddwr yn cynnal ei wŷr fel y mae colofn yn cynnal to, gw. 2.2n. Llai tebygol yw *planc*² ‘ceffyl’.
- tromgad** ‘Byddin ormesol’ neu ‘byddin niferus’, gw. GPC 3626 d.g. *trwm*¹ am yr ystyron posibl.

- llachar** Awgrymir yn GCBM i, 12.22n y gallai *llachar* fod yn e.p., ond yn wyneb y diffyg tystiolaeth gwell yw ei ddehongli'n a. yma.
- 33 **breuddwyd bryd** Ni wyddys at beth y cyfeirir. A welodd y bardd ei noddwr mewn breuddwyd neu hunllef? Neu a fyddai'r ystyron 'brud, darogan' yn bosibl yma (cf. GPC 322)?
- 34 **llaw drais ... llwyr drist** Gellid cyfansoddeiriau clwm yma, ond dilynir y llsgr. a'u hysgrifennu ar wahân.
- 35 **a gro** Gthg. G 16 d.g. *agro* 'trist, garw'; gwell cymryd bod yr acen ar y sillaf olaf ar gyfer y gynghanedd.
- 36 **Ffrolo** Gw. 2.11n am yr arwr hwn.
- 37 **bedd faich** Y mae hon yn ll. astrus a chynnig petrus yw'r aralleiriad a roddir. Dehonglir *fedd* yn ffurf dreigledig *bedd*, er bod *medd* hefyd yn bosibl. Y mae'r arwr bellach yn faich mewn bedd. Y mae'n anodd osgoi'r demtasiwn i weld yma'r chwarae cyffredin ar ddwy ystyr *fedd* (gw. M. Haycock yn BaTh 40, 50).
- llain** Llsgr. *Ilem*. Awgrymir y diwygiad (sy'n angenrheidiol ar gyfer y gynghanedd) yn T.J. Morgan, 'Dadansoddi'r Gogynfeirdd (2)', B xiv (1950–2), 4.
- llithfrain llwythfraich** Cf. GIG 18 (IV.78) *Yswain wayw lithfrain lwythfraich*, eto mewn marwnad i Dudur ap Goronwy. Posibilrwydd arall yw 'llafn [yr] un llwythog ei fraich sy'n bwydo brain'.
- 38 **Brynaich** Yn wreiddiol, gwŷr Bernicia yng ngogledd Lloegr, ond yng nghanu'r beirdd daeth yn gyfystyr â *Saeson*, gw. G 80.
- branar** Sef amrywiad ar *braenar*, gw. G 72, a hefyd GPC 305 d.g. *braenar* 'tir wedi ei aredig a'i lyfnu a'i adael yn segur heb ei hau dros gyfnod er mwyn difa'r chwyn, &c'. Efallai mai ergyd y ddelwedd hon yw fod y tir wedi ei sathru gan wŷr yn ymladd nes bod y tyfiant wedi ei ddifetha, gan adael y pridd yn noeth. Cf. GSRh 11.1n *Prelad cyfarf braenarfaes* (Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed), hefyd DGG² 148 (LXXX.34) *Frenin, gwnaeth Eingl yn fraenar* (Gruffudd Gryg).
- 39 Am dreiglo cyfres o ansoddeiriau o flaen e., gw. Treigladau 31.
- 40 **llid Gwair** Rhestrir tri gŵr o'r e. hwn yn G 649 a rhoddir yr enghraifft hon d.g. *Gweir*², sef Gwair fab Gwestl, a grybwyllir yn benodol gan Ruffudd ap Maredudd yn 5.149. Y mae'n debygol fod Gruffudd yn cyfeirio at yr un arwr yn y ddwy enghraifft hyn (ac yn GGMD iii, 1.30 *Gwair o angerdd*). Cf. hefyd TYP² 377–8 a WCD 301. Fe'i ceir fel un o'r tri marchog y mae Peredur yn cyfarfod â hwy yn y goedwig, gw. G.W. Goetinck: Peredur 8 (ll. 13). Cf. hefyd GLIBH 8.36n lle y nodir bod cyfeiriadau'r beirdd at Wair yn tueddu i grybwyll ei ddieter a'i lid, megis yn GCBM i, 20.19 *A dyrr ongyr, angert Weir*.

- gair Geraint** Gall fod yma gyfeiriad at ddieter Geraint yn erbyn ei wraig a'r addewid a wnaeth wrthi, gw. R.L. Thomson: Gereint 26 (llau. 726–30). Gw. GLIL1 7.9n a TYP² 360 am ragor o gyfeiriadau ato yn y farddoniaeth.
- 42 **cannwyll** Delwedd gyffredin am arwr neu ben-campwr, cf., e.e., G.W. Goetinck: Peredur 13 (llau. 15–16).
- aerbar** Ni chynigir aralleiriad yn G 12. Dilynir GPC 37 d.g. *aerbar*² a'i ddehongli'n a. cyfansawdd yn cynnwys *pâr*⁴, bôn y f. *peri* (gw. GPC 2684) a ddefnyddir yn enwol yma am Dudur. Gellid hefyd *aerbar*¹ 'gwaywffon ysgafn mewn brwydr', gw. *ib.* 37, a'i ddeall yn drosiadol am yr arwr.
- 43 **neud côr** Gw. J.E. Caerwyn Williams, 'MW Neu, Neut as Copula', *Celtica*, xi (1976), 284 am y defnydd o *neud* + *bedd* neu air cyffelyb mewn ystyr leol, 'yn y bedd'.
- mynor** Llsg. *muner*. Derbynnir y diwygiad a gynigir yn G 163 d.g. *côr*¹. Cf. GC 2.131n am gyffredinedd sôn am farmor wrth ddisgrifio beddau costfawr mewn eglwysi.
- gwas** Llai tebygol yw *gwas*² 'arhosfa, trigfan, annedd, gwlad; gorffwys, tawelwch', gan mai at y nef y cyfeiria'r enghreifftiau ohono fel arfer, gw. G 626–7 a GPC 1591.
- gwisg ddurgaen** Cyfeiriad, o bosibl, at arfwisg Tudur, cf. 7.69n, ond o gofio bod *dur* yn gallu golygu 'caled' mewn ystyr ffigurol, gellid ei gysylltu â gorchudd y bedd ei hun.
- 44 **clo** Gthg. G 534 lle y rhestrir yr enghraifft hon d.g. *glo* 'glo, glolosg coed, siarcol'. Os *glo* yw'r gair mewn gwirionedd, yna efallai ei fod yn cyfeirio at liw tywyll y pridd, ond ar y cyfan y mae'n fwy tebygol mai ffurf dreigledig *clo* sydd yma a'r treigladd wedi ei ysbarduno gan sangiad cysrawen: [*Neud*] ... *is grudd glo* ... Fe'i dehonglir yn ddisgrifiad trosiadol o'r *gro graen* sy'n carcharu Tudur, cf. GSRh 6.88 *Chud ei aros dig clo daerin*. Defnyddir y ddelwedd hon ym marwnad enwog Llywelyn Goch ap Meurig Hen i Leucu Lwyd, gw. GLIG 12.99, 103.
- ger taen toniar** Safai tŷ'r Brodyr Duon yn Hiracl ym Mangor, yn agos i lan y môr, gw. AWH 214. Hen dopos wrth ganmol lleoedd mewn barddoniaeth Gymraeg yw crybwyll tonnau'r môr yn ymdaro yn erbyn y tir gerllaw, cf. y gerdd adnabyddus 'Edmyg Dinbych' a olygir yn I. Williams: BWP 162–6 ac yn R. Geraint Gruffydd, 'Edmyg Dinbych': *Cerdd Lys Gynnar o Wynedd*, Darlith Goffa J.E. Caerwyn a Gwen Williams, 2001 (Aberystwyth, 2002), 18–20; GLIF 1.99, 170 (Llywelyn Fardd I); GGrG 2.5 (Gronw Gyriog).
- 45 **gawr** Felly G 523, ond ni fyddai *awr ochain*, 'amser o ochneidio' yn amhosibl.

llorf cynnorf cain Eb. yw *llorf* yn ôl GPC 2209, ond y mae angen cadw'r ffurf gysefin *cain* ar gyfer y gynghanedd. Dichon fod *llorf* yn gallu bod yn eg. yn ei ystyr drosiadol, cf. *dâr* 4.27n. Gw. hefyd GGMD iii, 1.6n. Gellid yn lle hynny 'amddiffynnwr llw blaen gwych', ond sylwer bod *cynnorf* yn eb. hefyd yn ôl GPC 796 a G 258.

- 48 **adafel** GPC 11 d.g. *adafael* 'eiddo a ddygir ymaith er mwyn gorfodi'r perchennog i wasanaeth neu i dalu dyled'. Gthg. G 7 '?gafaelgar, sefydlog'. Y mae'r ystyr gyfreithiol yn briodol yma: ni ellir dod â Thudur yn ôl drwy dalu unrhyw swm.

gwan Sef Tudur, sydd bellach yn ddiymadferth o dan y ddaear. Posibilrwydd arall yw diwygio *nyt* y llsgr. yn *neut* er mwyn gwell cymeriad â'r llau. eraill. Ceid felly'r ystyr 'Caeth yw dyn gwan' oherwydd marw Tudur, sef bod dynion gwan bellach wedi colli nawdd Tudur a'u cynhaliai gynt. Gwell er hynny gadw at ddarlleniad y llsgr. gan ei fod yn ddigon ystyrion fel y saif. Gellid hefyd 'nid adafael gwan [mohono]'.

- 49 Y mae hanner cyntaf y ll. yn fyr o sillaf oni chyfrifir *chwerw* neu *herw* yn ddeusill.

herw hynt Alltudir y bardd drwy farwolaeth ei noddwr. Posibilrwydd arall yw 'Y mae[r] cyrch ysbail yn enbyd', yn cyfeirio at ysbeilio Tudur gan angau. Gw. GPC 1859 am wahanol ystyron *herw*.

o'i Yn golygu 'i'w' yma, yn ôl pob tebyg, gw. 1.6n.

hardd helynt Disgrifiad o gyflwr y bardd cyn colli ei noddwr, yn gwrthgyferbynnu â'r *herw hynt* sy'n ei wynebu bellach. Fel arall, didoler y ddau air hyn oddi wrth weddill y ll. a dealler 'priodol yw gofid [o'r herwydd]'. Posibilrwydd arall fyddai 'helynt i'w fardd hardd'. Cyfuniad cyffredin yw *bardd hardd*, cf., e.e., isod 4.85; GLIF 1.151 (Llywelyn Fardd I); GCBM i, 25.7.

- 50 **llechynt** Fe'i deallir yn gyfansoddair o fôn y f. *llechu* + *hynt*, yn disgrifio taith Tudur i ymguddio yn y bedd. Gthg. GPC 2126 lle yr awgrymir darllen *lluchynt*, sef 'ymosodiad fel mellten, cyrch sydyn a chwym, rhuthr ffyrnig', cf. *ib.* 2218.

Llachau Gw. 2.19n am yr arwr hwn, mab i Arthur.

- 52 **na gwên na gwyngen** Cf. 6.25 am ymadrodd tebyg. Am ystyr *gwyngen*, gw. GDG³ 527.

- 54 **y gyfryw** Llsgr. y *gyfryw*. Ar sail hyn gellid hefyd *ei gyfryw*, ond dilynir Treigladau 87–8 lle y dywedir bod *cyfryw* yn aml yn treiglo ar ôl y fan. Nodir yno'r enghraifft hon.

- 56 **Edern Sant** Nawddsant Bodedern ym Môn ac Edern yn Llŷn. Yn ôl WCD 222, yr oedd yn fab i Feli ap Rhun ap Maelgwn, ond yn LBS ii, 405–7 fe'i cymysgir ag Edern ap Nudd, cymeriad arall a grybwyllir gan

Ruffudd, gw. isod ll. 146. Yr oedd Gruffudd yn amlwg yn hyddysg yn nhraddodiadau crefyddol Môn, fel y dengys 2.30n, 31n, 56n.

- 57 **haul Ogledd** Nid yw ergyd y cyfeiriad at y Gogledd yn eglur, ond cf., efallai, Bl BGCC 158 (18.5n) *Dydav yr heul o'r duyrein i'r goglet*, eto yng nghyd-destun cyfarch Duw.
- 58 **dewredd** Gw. GPC 943 am y ddwy ystyr 'dewrder' a 'blodau oedran'. Ni wyddys oedran Tudur pan fu farw.
- 59 **cyrchad** Dilynir G 264, ond gellid hefyd 'ymosodwr'.

Paredur Sef Peredur fab Efrog, arwr y rhamant sy'n dwyn ei enw, gw. G.W. Goetinck: Peredur *passim*, a TYP² 488–91 d.g. *Peredur*¹, lle y nodir bod y ffurf *Paredur* yn digwydd yn gyffredin yn 'Y Seint Greal' ac yng ngweithiau'r beirdd. Llai tebygol, o ystyried pwysigrwydd arwyr y rhamantau yng ngwaith Gruffudd ap Maredudd, yw fod yma gyfeiriad at Beredur mab Eliffer, un o Wŷr y Gogledd (TYP² 491–2 d.g. *Peredur*²).

- 60 Y mae'r ll. sillaf yn fyr yn ei hanner cyntaf, ond gellid cyfrif *arf* neu *Eingl* yn ddeusill. Pe mynnid diwygio, gellid cynnig yn betrus iawn newid *eingyl* y llsgr. yn *engyl* a'i deall yn drosiad am Dudur, cf. GIG 84 (XX.7) *Calon engylion Englant*, lle y mae rhaid deall *engylion* yn drosiadol yn golygu rhywbeth fel 'arwyr, milwyr'. Y mae'r gynghanedd hefyd o fath anarferol, sef braidd gyffwrdd, gw. J. Morris-Jones: CD 184–5. Arfer Gruffudd ap Maredudd yw cynnwys cynghanedd gyflawn yn ail linell toddaid. Nodir *ib.* 287 fod modd cyflawni cynghanedd sain yn ail linell toddaid *byr* trwy gyfrif y gair cyrch, ond ni sonnir am wneud hynny mewn toddaid. Fodd bynnag, os cyfrifir y gair cyrch yma, ceir cynghanedd sain bengoll.

dadl ddiomedd Chwaraeir ar ddwy ystyr *diomedd*: nid yw Tudur yn gwrthod brwydr ac ni ellir ei wrthsefyll mewn brwydr, gw. G 365 a GPC 1028.

- 61 **arwydd** Y mae marwolaeth Tudur yn argoeli'n ddrwg ar gyfer dyfodol ei bobl, ond cf. hefyd ll. 128n lle y canfyddir ynddi rybudd moesol.

trymgof gyfedd—bron Y mae *cyfedd* yn amwys, gw. G 205 am yr ystyron 'cyd-yfwr, cyd-gyfeddachwr, cydymaith, cyfaill' a 'gwledd, cyfeddach, ymborth'; hefyd GPC 688. Fe'i deellir yn gyfeiriad at Dudur yma, ond nid yw'n amhosibl mai'r bardd yw *trymgof gyfedd* Tudur (*trymgof* felly = 'trist ei fryd') a bod *tramgwydd* yn cyfeirio at ymdeimlad Gruffudd o golled ar ôl ei gyfaill, gw. GPC 3553–4 am yr ystyr 'ymdeimlad o sarhad neu niwed'.

- 63 **cynnygn** Ll. *cynnogn* 'dyledwr, un dan deyrnged, gwrthwynebwr, gelyn', gw. G 257 a GPC 796. Dylid nodi bod G *l.c.* yn awgrymu'n betrus ddehongli *cynnygn* mewn rhai achosion ansicr (megis yma) yn a.

cyfansawdd o *cyn-* + *dygn*, ac iddo'r ystyr enwol 'ymosodiad'. Ni dderbynnir hyn yn GPC 798 d.g. *cynnygn* ac fe'i gwrthodir yma am fod modd cael synnwyr o gymryd *cynnygn* yn yr ystyr arferol. Eto, os dilynir G, gellid 'Cyflawn fesur ofnadwy, dolurus [a] gofidus o hiraeth' neu hyd yn oed *Aruthr gynnygn dygn, dognedd o hiraeth* 'Ymosodiad ofnadwy [a] dolurus, cyflawn fesur o hiraeth.'

- 64 **marfolaeth** Rhestrir y ffurf fel amrywiad ar *marwolaeth* yn GPC 2369.
- 65 Canmolir Tudur am sicrhau heddwch i'w genedl y gellir ymffrostio ynddo. Nid yw'n amhosibl, serch hynny, mai disgrifiad o Dduw yw'r ll. hon, ond ni fyddai'n hawdd deall y ll. nesaf felly.
- 67 **brawd ffydd** Sef y bardd. Dyma gyfuniad a geir yn aml yn dynodi'r berthynas agos rhwng bardd a noddwr, cf. GSRh 2.30–1, 7.7; GGDT 8.6; GDG³ 48 (17.14). A ellid 'brawd trwy lw'? Gw. G 515 d.g. *ffydd* am yr ystyron 'ffydd, cred, proffes, llw'; gthg. GPC 311 d.g. *brawd*¹ lle y cynigir '*brother in the faith*'. Cyfodir gobaith am i Dudur ennill lle yn y nef ac anobaith ei fardd ffyddlon a adawyd ar y ddaear.
- 69 Gellid hefyd 'Anhygoel o ran digofaint yw[r] ochenaid o dristwch.'
annhebyg ... dig Am yr odl, gw. D.J. Bowen, 'Pynciau Cynganedd: Odli *I, U* ac *Y*', LICy xx (1997), 138–43.
- 70 **enaid** Gw. G 476–7 a GPC 1211–12. Chwaraeir yn ddiau ar y ddwy ystyr 'enaid, ysbryd, bywyd' ac 'anwylyd, cyfaiil'.
 Cynganedd groes wreiddgoll neu groes o gyswllt.
- 72 **diarw** Llsgr. *diarw*. Fe'i dehonglir yn ffurf dreigledig er mwyn y gynganedd, ond nid yw ysgogiad gramadegol y treiglad yn eglur (oni ddeallir bod y gn. traethiadol yn wedi ei hepgor o'i flaen). O sylwi ar y gynganedd wreiddgoll yn ll. 70, nid yw'n amhosibl mai'r ffurf gysefin sydd yma ac mai cynganedd draws wreiddgoll sydd yn y ll.
- 73 **aelaw** Cf. G 11 'dygn, taer; rhwym; parod, rhwydd' a hefyd GPC 36. Sylwer bod *Á'i law* yn bosibl hefyd, ac mai dyna ddehongliad rhai o'r copïwyr diweddarach. Y gystrawen yw *Aelaw ... / Y gwnaeth*.
pan fu draw edrywedd—eurdorf Llai tebygol fyddai cymryd *edrywedd* yn adferfol, ond os felly 'pan fu [ef] draw ar drywydd llurhagorol'.
- 74 **llorf catgorf** Cf. 2.2n.
coetgwn Ll. *coetgi*, gw. G 157 a GPC 534 lle yr awgrymir yr ystyron 'ci gwyllt, ?blaidd' yn ogystal â defnydd ffigurol. Fe'i ceir gan Risierdyn, GSRh 4.64 a 6.16n lle y'i deallir yn gyfeiriad at fleiddiaid yn bwydo ar gyrff y meirw; felly hefyd T.J. Morgan, *art.cit.* 5. Dilynir hyn yma, ond ni ellir gwrthod yn llwyr y posibilrwydd o gymryd *coetgwn* yn ffigurol am ryfelwyr.
- 76 **Llŷr** Llŷr Llediaith, fel yn ll. 28n, 31n.

77 **adwen** Deellir yn 1 un.pres.myn. *adnabod*, gw. G 8, lle y ceir yr ystyr ‘bod yn gyfarwydd neu’n gynefin â’: nid yw’r bardd yn cofio rhoi arglwydd cyffelyb yn y bedd. Gthg. G 46–7 d.g. *atwen*² ‘tirion, mwyn’ lle y rhestrir yr enghraifft hon. Ni chydabyddir y ffurf hon yn GPC 28, cf. GDB 34.17n. Trydydd posibilrwydd fyddai diwygio *nyt* y llsg. yn *neut* ar batrwm y cymeriad estynedig o l. 79 ymlaen; os felly, ‘Yr wyf yn cydnabod rhoi dan bridd y ddaear’.

79–80 **neud edyrn tēyrn ... / Mal hwn gwynaw** Cymerir *cwynaw* yn oddrych, *edyrn* yn ddibeniad i *neut*, a *tēyrn mal hwn* yn wrth. i’r be. *cwynaw*. Gallai *hyd lan Tuedd*—*draw* gyfeirio at rym Tudur yn ymestyn mor bell â hynny neu awgrymu bod cwyn y bardd mor ddwys fel ei fod yn glywadwy yn yr Hen Ogledd. Bu raid ad-drefnu elfennau’r llau. hyn yn yr aralleiriad. Byddai modd aralleirio ll. 79 ar ei phen ei hun yn ‘Aruthr yw[’r] brenin hyd lan [Afon] Tweed draw’; ond nid hawdd fyddai esbonio’r amser pres. nac ychwaith ystyr ll. 80.

Tuedd Afon Tweed ar y ffin rhwng yr Alban a Lloegr, gw. J. Lloyd-Jones, ‘Tuedd, Tweed’, B xiv (1950–2), 37–9. Ceir dwy enghraifft arall gan Ruffudd, y ddwy yn cyflythrennu â *tēyrn*, sef 6.36n a GGMD iii, 2.33.

80 Y mae’r ll. hon yn fyr o sillaf yn ei hanner cyntaf, ond fe’i derbynir heb ei diwygio. Y mae’n demtasiwn cymryd *braw breuoled* yn wrth. *cwynaw*, ond nid yw’n eglur sut y gellid deall gweddill y ll. wedyn.

82 **dôr** Fe’i deellir yn drosiadol am y gorchudd o bridd neu’r beddfaen sydd bellach dros Dudur, cf. GLIG 12.14, 101 am ddefnydd cyffelyb o’r gair, a cf. uchod ll. 44n am ddelwedd gysylltiedig, sef *clo*. Un o hoff gyfuniadau Gruffudd ap Maredudd yw *dôr* a *côr*, cf., e.e., GGMD ii, 1.25, 95, 159; GGMD iii, 2.51.

83 **adfoes** Awgrym G 46 d.g. *atuo*es yw ‘truan, blin, anhywaith; ?gwan, brau’, gan nodi’r enghraifft hon yn unig, a derbynir hynny yma. Annhebygol yw’r cynnig yn GPC 20 ‘anghwrtais, aflednais’; ond pe derbynnid hynny gellid cynnig ‘Aflednais yw bywyd aruthr a chaled’, gyda’r bardd efallai yn gwneud pwynt moesol cyffelyb i’r hyn a geir yn ll. 128, ond prin y byddai beirniadaeth mor hallt ar fywyd Tudur yn dderbyniol.

anwedd—a masarn Yn GCBM i, 24.115n gwelir *masarn* yn yr ystyr drosiadol ‘arglwydd’, a dilynir hynny yma, cf. GPC 2371. Ceir sylwadau perthnasol am ddefnyddio enwau coed am ryfelwyr yn LITA 133. Y mae’n demtasiwn diwygio yn *anwedd a fasarn*, ‘[un megis] masarnen aruthrol’. Posibilrwydd arall yw fod *masarn* yn cyfeirio at lestri a wnaed o bren masarn, cf. GDC 13.44 *A heilau masarn, wr helm ysig* (Meurig ab Iorwerth).

88 **neud adfyd** Gellir hefyd ystyr leol i *neud* + e. yma, cf. J.E. Caerwyn

Williams, *art.cit.* 284. Os felly, ‘Mewn adfyd y mae pobl Gwynedd, [yr un y bu ganddo] gyfoeth tai gwin.’

- 89 **odfa** Amrywiad ar *oedfa*, gw. GPC 2622. Y mae’n debygol fod ystyr leol i *neud* + e. yma, cf. ll. 88n, ond gellid ‘[I] guddfan y mae hynt arglwydd ...’.

trafn Cf. 2.44n.

- 90 Neu ‘Gwehilion Môn yw fy nhrigfan [bellach]’, yn awgrymu bod marwolaeth Tudur yn arwain at ddeol y bardd o’i lys i fyw yn y diffeithwch. O blaid hyn y mae’r gwrthgyferbyniad taclus rhwng hynt Tudur i’r bedd a hynt ei fardd i’r anialwch.

- 91 Neu ‘Aflwydd [bellach i’w] lu balch yw[’r un a chanddo] ragoriaeth Llŷr [a fu’n] fylchog ei lafn.’

Llŷr Gw. ll. 28n, 31n, 76n.

- 92 **Tudyr** Ffurf amrywiol a ddefnyddir er mwyn y gynghanedd, ond am odli *u* ac *y*, gw. D.J. Bowen, ‘Pynciau Cynghanedd: Odli *I, U ac Y*’, *LlCy* xx (1997), 138–43.

- 93 **eurgyrf** Dehonglir *briwgyrf* yn ‘coesau toredig’ yn 2.4n, ond dichon mai am wŷr Tudur y sonnir yma.

glyw Gair amwys, gw. G 537 a GPC 1415.

- 95 **o’i** Fe’i dehonglir yn gyfystyr ag ‘i’w’, gw. 1.6n. Posibilrwydd arall fyddai ‘Nid oedd raid o’i herwydd [i] oreuon pobl Gwynedd.’

- 97 **hiraeth** Llsg. *hiruaeth*. Diwygir er mwyn yr ystyr, fel yr awgrymir yn GPC 1872 d.g. *hirfaeth*. Goddefid peidio â chyfrif *f* yn y gynghanedd, gw. J. Morris-Jones: CD 199–200, a gellir cymryd yr *f* yma’n ddiwygiad gan rywun a fynnai ‘wella’ cynghanedd ei destun, cf. 2.40n. Y mae Gruffudd yn dychwelyd dro ar ôl tro at y ddelwedd o alar yn treiddio’r fron, cf. llau. 3, 15–16, 185, 191.

- 99 **difröedd** Cf., efallai, ll. 90n.

- 100 **a gŵyn dwyn** Cyfuniad cyffredin arall yw *cwyn* a *dwyn*, cf. llau. 24, 27, 109.

- 101 **amserthedd** Llsg. *amsered*. Awgrymir y diwygiad yn G 25 d.g. *amserthed*. Annhebygol mai ll. *amser* ydyw gan na restrir y ffurf *amseredd* yn G 25 na GPC 102 d.g. *amser*. Y mae arwyddocâd *amserthedd*—*galar* yn aneglur; rhaid mai sangiad yw gan mai *nef* yn y ll. nesaf yw goddrych *syrthiai*. Gellid brawddeg enwol ‘gofid yw galar’. Ceir cytseinedd rhwng *syrthio* ac *amserthedd*, ond ni cheir odl fewnol i greu cynghanedd sain.

- 102 **nifer ddyedd** Sef effaith cwmp y nefoedd ar drigolion y ddaear.

- 103 **trefn** Gair amwys ei ystyr, gw. GPC 3574 am bosibiliadau. Daw’r môr

dros y tir ‘yn null [peri] alltudiaeth hir’, o bosibl.

103–4 Am y ddelwedd hon mewn marwnad, cf. GC 2.43n–4 *Drwg na ddoeth mawr anlloeth môr, / Dreiglfrys drais dyrys, dros dir* (‘Marwnad Madog Fychan o Dir Iarll’). Y mae’n un o arwyddion Dydd y Farn, cf. GLIF 5.1–4.

105 **Brenin Dewin** Fe’i deellir yn gyfarchol, ond gellid ei ddeall mewn cysylltiad â *neu ddyfod* yn ll. 103. Am Ailddyfodiad Crist y sonnir, pryd y dychwel Ef i farnu’r ddynolryw. Yn awr bod Tudur wedi marw, ni fyddai o bwys gan Ruffudd petai Dydd y Farn yn dod yn syth.

diwedd—gorthrymaf Fe’i deellir yn gyfeiriad at y Farn.

106 **tros fradog aeaf** Fel *aea* yr ysgrifennir y gair olaf yn y llsg., ac fe’i diwygir er mwyn yr odl â’r gair cyrch. Nid yw’n hollol eglur beth yw’r gaeaf dan sylw na beth yw ystyr *tros* yma. Fodd bynnag, deellir *tros fradog aeaf* yn ddisgrifiad o farwolaeth Tudur a’i gydio wrth *ni’ m dorai* yn ll. 101: nid yw Gruffudd yn poeni ynghylch yr un o’r digwyddiadau apocalyptaidd a ddisgrifir oherwydd (*tros*) gaeaf twyllodrus marwolaeth Tudur. Posibilrwydd arall yw deall *bradog aeaf* yn ddelwedd am gyflwr pechadurus y byd, a *tros* yn yr ystyr ‘oherwydd’, neu gymryd *tros* gyda *brawd gyhedd*: bernir dros y byd pechadurus. Gallai hefyd fod yn ddisgrifiad o gyflwr truenus y pechaduriaid ar Ddydd y Farn.

cyhedd ‘Cyhoedd, cyffredin; ?ofnadwy, aruthr’ yn ôl G 227, ond yn GPC 742 awgrymir bod y gair yn tarddu o’r gwreiddyn **sed-* ‘eistedd’ a’i fod yn golygu ‘brawdlys’ neu ‘eisteddle barn’. Ceir y cyfuniad *brawd gyhedd* droeon mewn perthynas â’r Farn Olaf, cf. GMB 23.8 (Elidir Sais); GDB 30.72 (Dafydd Benfras); LIA 59 (ll. 14).

107 **Neu ddifa traha, terfyn chwerwedd—garw** Disgrifiad addas o’r Farn, ond gall mai at farwolaeth Gruffudd ei hun y cyfeiria’r tri gair olaf.

Bai crych a llyfn.

108 **eurgarw** Trosiad cyffredin am arglwydd yw *carw*, gw. G 115 a GPC 434.

109 Y mae ail hanner y ll. hon yn dechrau cyfres o atgofion melys am yr amser a fu sy’n ymestyn hyd at l. 115.

marwddydd Llsg. *varw*, sy’n peri i’r ll. fod sillaf yn fyr, ond ni fyddai hynny’n amhosibl. Eto nid yw’r gair cyrch yn odli â gorwant y ll. nesaf ac felly ymddengys fod sillaf ar goll ar ôl *varw*. Diwygier felly yn *marwddydd* (am y gair hwn, gw. GPC 2366).

110 **Penmynydd** Llsg. *bennrynyd*, neu efallai *bennryuyd* (y cyntaf yn ôl R). Diwygir am mai Penmynydd ym Môn oedd un o brif gartrefi Tudur, gw. AWH 189 a’r Rhagymadrodd, td. 14.

111 **trylew** Llsg. *tryllew*. Nid yw’r cyd-destun o blaid cymryd hyn yn

gyfansoddair o *try-* ‘tri’ + *llew*. Gellid, efallai, ei rannu’n ddau air (sef 3 un.pres.myn. *troi* + *llew*), ond deil y synnwyr yn aneglur. Fe’i diwygir felly yn *trylew*, sef cyfansoddair o *try-*² + *glew*, cf. G 618 d.g. *gwarant* lle y bwrir amheuaeth ar *tryllew*.

cant Y mae’r rhif *cant* yn gyffredin iawn yn yr ystyr ‘llawer’ a dyna a dderbynnir yma, ond sylwer ar *cant*³ ‘plaid, torf, mintai’ yn G 109 a GPC 418.

- 112 **fu** Llsgr. *vn*. Diwygir er mwyn yr odl â’r gair cyrch ac er mwyn cael synnwyr.

gwlad a gorsedd Fe’i deallir yn betrus yn enidol, yn dibynnu ar *gwledig*. Gall hefyd mai’r goddrych ydyw; os felly, ‘Gwych eu trysor o ran [eu] harglwydd fu gwlad a llys’. Pa ddehongliad bynnag a ddewisir, canmolir Tudur am fod yn arglwydd gwych dros bobl ei lys a thros ei diroedd ehangach. Am y cyfuniad, cf. GGMD iii, 1.112 *Cannwyll gwlad a gorsedd*.

- 113 **Meriawn** Gw. WCD 466 am Feirion ap Tybion ap Cunedda, yr enwyd cantref Meirionnydd ar ei ôl. Dywedir iddo ladd Beli ap Benlli Gawr, gw. *ib.* 37.

mawredd un ofeg Gw. G 545 a GPC 1429 am *gofeg*. Os ‘ymadrodd’ yw’r ystyr, yna gall mai’r ergyd yw fod modd disgrifio ysblander Tudur â’r un geiriau (*gofeg*) ag a ddefnyddid i ddisgrifio ysblander Meirion.

- 114 **Dyfr** Sef Dyfr mab Alun Dyfed, yn ôl pob tebyg, gw. G 414 d.g. *Dyu(y)r*¹ a *Dyf(y)r*², a cf. 2.36n am gyfeiriad at ei dad. Enwir Dyfr gan feirdd eraill, e.e. yn GSRh 4.46n (Rhisierdyn) a 10.47n (Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed).

- 115 **trefnau aml frodiau** Am *trefn*, gw. ll. 103; yma credir ei fod yn cyfeirio at swyddogaeth Tudur yn gweinyddu’r gyfraith yn ei diroedd. Dengys A.D. Carr i’r Tuduriaid hawlio rhyddfrentiau cyfreithiol helaeth yn eu hystadau, gw. MAng 72. Am y dull o ddal tiroedd a hawlid gan ‘Wyrion Eden’, sef disgynyddion Ednyfed Fychan, gw. AWH 182–4.

am Lawfrodedd Llsgr. *amla6 vroded*. Ceir nodyn am y cymeriad Llawfrodedd Farfog yn TYP² 418–19, lle y dywedir bod pob cyfeiriad ato yng ngwaith y beirdd yn ansicr. Fodd bynnag, nid oes fawr o amheuaeth nad e.p. ydyw yn 4.19n a 6.6n, ac felly fe’i dehonglir yn e.p. yma hefyd. Nid ymddengys fod a wnelo *llawrodde*d yn 2.22n â’r e. hwn.

- 116 **diryfyg yw beirdd** Mynegir syniad tebyg gan Ruffudd ap Gweflyn yn ei farwnad i Oronwy Fychan ap Tudur: *Darfu clod, diryfyg clêr*, A. Cynfael Lake, ‘Marwnad Goronwy ap Tudur o Fôn’, B xxxix (1992), 82 (ll. 96).

- 117 **Cadwr** Nodir yn TYP² 297 fod Cadwr iarll Cernyw yn gynghreiriad cyson i Arthur yn ôl ‘Brut y Brenhinedd’, a gw. hefyd BD 145 *et*

passim. Gthg. G 89 lle y rhestrir yr enghraifft hon dan yr e.c. *cadwr* (er cydnabod y gall fod yn e.p. yma). Fel y gwelwyd eisoes, yr oedd Gruffudd ap Maredudd yn hyddysg yn nhraddodiadau ‘Brut y Brenhinedd’.

118 **tarian llwyth Tewdwr** Llsgr. *taryan lwyth tewdwr*. O’r braidd fod *llwyth Tewdwr* wedi ei drin fel e.p. yma, gw. Treigladau 107–8 am dreiglo e.p. genidol ar ôl eb.un. Efallai y gellid *tarianlwyth* yn yr ystyr ‘llwyth amddiffynnol’ yn cyfeirio yn ôl at *hil beilchion* yn ll. 117; ni chaledai *-n l-* yn *-n ll-* yn ddieithriad, gw. Treigladau 27–9. Fodd bynnag, ar batrwm 2.29n y mae’n well diwygio *lwyth* yn *llwyth*. Disgynnai Tudur o linach Tewdwr Mawr, gw. *ib*.

121 **Tudno** Nawddsant Llandudno, gw. WCD 622 a LBS iv, 268–9.

122 **a Beuno, y tyfo** Llsgr. *beuno ytvo*. Diwygir yn *y tyfo* er mwyn y synnwyr a’r gynghanedd ag *etifedd*. Am y defnydd o’r gair *tyfu* (= ‘ffynnu’), cf. 2.15n a GGMD iii, 2.47 *Didro y tyfo etifedd—rhoddfab*. Mwy petrus yw’r ail ddiwygiad, sef ychwanegu’r cys. *a* ar ddechrau’r ll. Fel hyn, y mae rhaid cywasgu *tyfo* ac *ei* er mwyn hyd y ll., ac efallai y gellid hepgor *a* er gwaethaf afrwyddineb y gystrawen.

Beuno Sant pwysig yn y Gogledd oedd Beuno, nawddsant Clynnog Fawr yn Arfon. Cysegrwyd dwy eglwys iddo ym Môn, sef Aberffraw a Threfdraeth. Gw. WCD 42–4 a LBS i, 208–21.

123 **deng nifer** Sef naw gradd yr angylion a’r ddegfed radd, a lenwir gan y rhai achubedig.

tangnefedd—gadair Gellid hefyd ‘Pennaeth tangnefedd’, yn cyfeirio at Dduw, gw. G 90 a GPC 375 am ystyron *cadair*.

124 **a’i pair** 3 un.pres.myn. y f. *peri*, gw. GPC 2865–6 am yr ystyron ‘paratoi, trefnu, darparu’. *Tref* neu *cadair* yn y ll. flaenorol yw gwrth. uniongyrchol y f., a chyfeiria’r rh.m. at y gwrth. anuniongyrchol, Tudur. Crist neu Dduw yw’r *Crair*, a dehonglir gweddill y ll. ar wahân. Gthg. GPC 2670 d.g. *pair*².

a’i medd Hefyd ‘sy’n gallu ei wneud’.

125 **gwirdist** Ni chynigir ystyr ar gyfer *tist* yn GPC 3507. Diwygir *tist* (R 1227.25) yn *trist* yn GGDT 7.3 (Gwilym Ddu o Arfon), ac o waith Gruffudd ap Maredudd y daw pob enghraifft arall o’r gair a gofnodir, sef GGMD ii, 1.143n; R 1200.16–17 a 1215.18–19. Yn betrus fe’i cysylltir â *dist* ‘trawst, tulath’ (GPC 1049), benthyciad o’r S.C. *giste*, a chymryd bod cyfnewidiad sain rhwng *d* a *t* (cf. 8.16n); byddai ystyr drosiadol megis ‘cynheiliad’ yn gweddu yma, cf. y defnydd ffigurol o *corf* a *llorf*. Ardystir *dist* o’r 16g. ymlaen, ond nid yw’n anodd credu ei fod wedi ei fenthycy’n gynharach (noder bod yr enghraifft yn GGMD ii, 1.143n (= R 1197.16–17) a ddyfynnir yn GPC, *l.c.* yn perthyn i *tist*).

Y dewis arall yw deall *tist* yn amrywiad ar *tyst*, er cydnabod nad yw'n hawdd cyfrif am y newid sain. Gweddai'r ystyr 'tyst' yn yr enghraifft bresennol hefyd.

- 127 **ar fyrder** Ymddengys fod marwolaeth Tudur yn annisgwyl, ond ni wyddys unrhyw fanylion amdani. Cyferbynnir sydynrwydd y digwyddiad â'r amser maith y bydd Tudur yn y bedd.
- 128 Nodyn pregethwrol a drewir yma: defnyddir marwolaeth y dyn grymus a chyfoethog hwn fel rhybudd enghreifftiol yn erbyn rhoi gormod o obaith ym mhethau diflanedig y byd hwn. Nid awgrymir bod Tudur ei hun yn pechu'n waeth na neb arall.
- 129 **aerdranc** Gellid yr ystyr 'marwolaeth mewn brwydr', ond cf. ll. 127n.
parablau pêr Cyfuniad cyffredin, cf. GMB 28.3–4; GPhE 8.9.
- 130 **eurdrafn** 'Arglwydd' yw ystyr *trafn* gan amlaf, gw. GDG³ 546, ond weithiau 'dull' (ystyr nas cadarnheir yn GPC 3547); os yr olaf, gellid '[Un fel] llafn di-fai gwych ei ddull, [megis] arf Olifer'.
- Olifer** Cyfaill ffyddlon Rolant yn y chwedlau Ffrengig a gysylltir â Siarlymaen, gw. YCM² 15.9–10 lle y'i disgrifir fel *tywysawc lluoed*, y *marchawc gwychaf*. Am enghraifft gan fardd arall, gw. GSRh 4.115n (Rhisierdyn). Trafodir twf cyfeiriadaeth y beirdd at arwyr chwedlau Siarlymaen yn D.M. Lloyd, *Rhai Agweddau ar Ddysg y Gogynfeirdd* (Caerdydd, 1977), 14.
- 131 **anrhaith** Llsgr. *ameith*. Diwygir er mwyn y gynghanedd a'r ystyr. Darlunio Tudur fel ysbail a gymerwyd gan angau a wneir yn y ll. hon yn hytrach na disgrifio'i allu milwrol, cf. ll. 9n. Chwaraeir ar ystyron *trymder*: gall gyfeirio naill ai at faint yr ysbail a ddygwyd neu at y galar a achoswyd gan angau, gw. GPC 3641 am wahanol ystyron *trymder*.
- 132 **Alecsander** Gw. M. Haycock, "Some Talk of Alexander and Some of Hercules": Three Early Medieval Poems from the Book of Taliesin', CMCS xiii (Summer 1987), 7, 22–4 am arfer y beirdd o gyffelybu eu noddwyr i Aleksander Fawr.
- 133 **och! a barus wyf** Er bod *och a* yn digwydd fel cyfuniad, gw. GPC 2614 d.g. *och*, disgwyliid treigladd meddal ar ei ôl, gw. G 5 d.g. *a*⁷ a GPC 1 d.g. *a*⁷, ac felly deallir *a* yn gys. yma.
- 133 **clwyf glewder** Cyfeirir naill ai at Dudur neu at yr effaith ar ddewrder Gruffudd ei hun.
- 134 **Gwyn Gwarther** Ni wyddys dim am y cymeriad hwn, ond fe'i henwir fel safon gwrhdyri gan Gynddelw Brydydd Mawr, cf. GCBM i, 26.39n; GCBM ii, 4.287n, 8.35n. Am ragor o gyfeiriadau, gw. G 625 d.g. *gwarther*.
- 135–6 **eloraidd fryd** Fe'i cymerir yn ddisgrifiad o Dudur, y bu ei fryd ar

greu elorau ar gyfer ei elynion.

gryd grymuster Yn lle'r aralleiriad a gynigir, gellid 'bloedd [llawn] nerth', efallai'n disgrifio'r galar uwchben y corff, gw. G 595 a GPC 1539 am ystyron *gryd*.

136 **Echel arw** Llsgr. *ecel. arw*. Ymddengys i'r copïydd gyfeiliorni yma. Efallai iddo faglu dros yr e.p. ecsotig er ei fod yn digwydd droeon yng ngwaith Gruffudd ap Maredudd, e.e., 5.33n, 59n, 93n, 7.22n; gw. ymhellach G 435 d.g. *Echel*¹ a TYP² 335–6. Dehonglir *arw* y testun yn ffurf dreigledig *garw*, ond dylid nodi bod e. Achilles yn digwydd yn y ffurf *Achelarw*(y) mewn rhai testunau Cymraeg, gw. TYP² *ib.* n1, a dichon fod rhyw gymysgedd yma. Anghywir hefyd yw atalnodi'r llsgr. sydd fel petai'n rhoi *Echel* yn y ll. flaenorol.

mawrair doethder Fe'i cymerir yn ddisgrifiad o Dudur, ond gallai gyfeirio at gân y bardd i'w farwnadu. Os felly, cydier y geiriau hyn wrth *Uwch ... grymuster* (datgenir y gerdd uwchben y marw) a rhodder atalnod llawn ar ddiwedd y ll. bresennol.

137 **mau** Llsgr. *man*. Diwygir er mwyn y gynghanedd, a cf. 5.57 *ucheneidiau mau*. Dealler hyn ynghyd â ll. 135: rhan y bardd yw rhoi ochneidiau uwchben ei noddwr marw.

uwch sêr Fe'i deallir yn gyfeiriad at y nef, ond gall hefyd ddisgrifio ochneidiau'r bardd yn codi mor uchel â'r sêr.

138 **cynudaw** Gair ansicr ei ystyr, gw. GPC 801 a gthg. G 262.

139 **a chwÿn** Llsgr. *achwyn*. Ni ellir dweud yn bendant ai *a chwÿn* neu *achwyn* sydd yma oherwydd yr arfer orgraffyddol o glymu gogwyddair wrth y gair sy'n dilyn. Ysgrifennir *a chwÿn* yma am fod eisoes ddwy enghraifft o *a + e*. yn llau. 138–9, ond gthg. G 7 a GPC 10 d.g. *achwyn*.

140 **traws dreisglud** Llsgr. *trabs treisglut*. Yn gystrawennol y mae angen treiglo *treisglud* yma, ond dangos y gwir ynganiad a wna orgraff y llsgr. Yr un yw sain *st ac sd* yn y Gymraeg, gw. J. Morris-Jones: CD 208–9.

142 **caru** Gellir cymryd *caru* yn a. yma a ddefnyddir yn enwol, gw. GPC 434 ar gyfer yr ystyr 'annwyl, cu'. Ceir ambell enghraifft o'r a. hwn, e.e. YCM² 62.26 *A garu nei*, a GBF 39.3 *Nabd y Iessu caru, coron—tangneued* (Gruffudd ab yr Ynad Coch), ond nid mewn ystyr enwol. Ceir hefyd f. *acharu*, gw. G 6 a GPC 7, ond nid yw'r cyd-destun o'i phlaid yma.

gwander Llsgr. *gwarder*. Y mae'r diwygiad yn cryfhau'r gynghanedd.

144 **rhuddglawr** Ceir sawl enghraifft gan y beirdd o ddisgrifio'r bedd â'r a. *rhudd*, cf. GMB 3.31 *O olo Gruffut yn rut uedraðd* (Meilyr Brydydd), 26.23 *Gweryd rut a'e tut wedi tewi* (Einion ap Gwalchmai); hefyd GCBM ii, 4.86n lle y cynigir yr esboniad 'yn ffres, newydd ei dorri'. Ni ellir bod yn sicr beth yw ei arwyddocâd yma gan i Dudur gael ei gladdu

mewn mur o gerrig, gw. ll. 13n. Dichon ei fod yn ystrydeb cyfeirio at ffresni'r pridd, yn union fel y mae rhaid bod *llawr llan* yn ystrydebol yn y ll. hon gan nad yn y llawr y claddwyd Tudur.

rhatther Gw. GPC 2995 d.g. *rhadaf* (a).

145 Cf. 2.20. Deellir *gwyarsaith* yn wrth. *gwnaeth* yn ll. 143.

146 **Edern** Sef Edern ap Nudd, gw. WCD 223 a G 438 d.g. *Edern*¹. Ef yw'r marchog sy'n sarhau morwyn Gwenhwyfar a Geraint yn y chwedl 'Geraint fab Erbin', gw. R.L. Thomson: Gereint *passim*. Fe'i trafodir hefyd yn CO³ 72. Ceir un cyfeiriad arall ato yn y farddoniaeth, eto'n ganmoliaethus, sef GLIBH 8.24n (dienw).

147 **am waig** Llsg. *amg̃isc*. Awgrymir y diwygiad yn G 650 d.g. *gweisc*¹. Cyfuniad cyffredin iawn yw *gwaig* + *braisg*, cf. llau. 39, 160.

150 **tirfawr** Am y tiroedd a ddaliai Tudur, gw. y Rhagymadrodd, td. 12.

151 **cryd gryd** Gallai hyn fod yn drosiad am Dudur ei hun.

crwydr ... brwydr Cyfuniad y mae Gruffudd yn ei ddefnyddio'n aml iawn, cf. ll. 12, 2.38.

152 **a chrau** Llsg. *acharu*. Am arfer y llsg. o ysgrifennu gogwyddeiriau ynghlwm wrth y gair sy'n eu dilyn, cf. 1.21n. Awgrymir y diwygiad yma gan T.J. Morgan, 'Dadansoddi'r Gogynfeirdd (2)', B xiv (1950–2), 6 ac yn G 174 d.g. *creu*².

brain, crain creulonder Am y ddelwedd, gw. T.J. Morgan, *art.cit. passim*, uchod ll. 37 a 2.39. Gallai *crain* gyfeirio at gwmp y Saeson i'r llawr yn ogystal ag at y brain yn disgyn ar eu cyrff neu'n ymdrybaeddu yn eu gwaed, gw. G 172 d.g. *crein*¹ a GPC 578.

154 **crio** Cf. GGLI 11.82 *A chrio i Gymro'r gamp* 'A bloeddio [mai] Cymro oedd piau'r ornest'. Y mae ystyr *crio* yn agos i 'datgan ar goedd' yn y ddwy enghraifft hyn.

155 **tri amser** Nid yw ergyd hyn yn sicr, ond ymddengys fod Gruffudd yn canmol Tudur am fod yn barod i ymladd bob amser, neu efallai am barhau i ymladd am amser maith. Ai at rannau o'r dydd y cyfeirir? Posibilrwydd arall fyddai tymhorau'r flwyddyn, o gymryd nad ymleddid yn y gaeaf.

156 **cynafon** Trosiad cyffredin am filwyr ifainc a hefyd am feibion, gw. G 129–30 a GPC 461. Anodd yw dweud ai am feibion Tudur ynteu am ei wŷr y sonnir yma.

157 **i'm gwirfalch** Llsg. *ymg̃ir valch*. Ysgrifennir *gwirfalch* yn gyfansoddair clwm gan ddilyn yr awgrym yn G 683–4 d.g. *gwir*².

158 **ei waith** Llsg. *y weith y weith*.

Aber Deellir hwn yn betrus yn e. lle. Yr 'Aber' enwocaf yng Ngwynedd oedd Abergwyngregyn ar yr arfordir rhwng Bangor a

Llanfairfechan. Yno yr oedd un o hoff lysoedd tywysogion Gwynedd, gw. T. Jones Pierce, 'Aber Gwyn Gregin', TCHSG xxiii (1962), 37–43 a WATU 4. Y mae'n bosibl fod Tudur wedi ymladd yn yr ardal honno rywbyrd. Dehongliad arall fyddai fod y sôn am weithredoedd Tudur wedi ymledu mor bell ag Aber, sef i'r tir mawr.

- 161 **diwraidd ei faendy** Cf. GIG 16 (IV.30) *Dadwreiddiwyd ei dŷ drwyddaw*, eto mewn marwnad i Dudur ap Goronwy.
- 162 Yn ogystal â'r hyn a gynigir yn yr aralleiriad gellid 'Rhybudd llym [drwy] gosb [i un a wnaeth] orchestwaith [â'i] gleddyf.' Fel arall, o atalnodi'n wahanol: 'Rhybudd llym [drwy] gosb, gweithred ddygn'. Tudur a gosbwyd a'r bardd a rybuddiwyd drwy ei farwolaeth, cf. ll. 128n.
- 163 **Ector** Sef Hector, arweinydd lluoedd Caerdroea yn Iliad Homer. Ef oedd un o'r tri dyn a *gafas kedernit Adaf*, yn ôl y Triawd, gw. TYP² 122, 336–7, ac fe'i ceir hefyd yn *Ystorya Dared*, sef y fersiwn Cymraeg o hanes cwmp Caerdroea Dares Phrygius, gw. RB 13–17. Am gyfeiriadau eraill ato gan Ruffudd ap Maredudd, gw. 4.87n, 7.31n.
- 164 **darfu am** Gellid hefyd 'Bu farw pennaeth byddin, trallod llwyr', er na nodir yn GPC 892 enghraifft o'r priod-ddull *darfod am* + e. yn golygu 'to perish' cyn yr 16g.
- 165 **dogn gur** Ymddengys mai a. yw *dogn* yma ac yn ll. 166 ac mai hynny sy'n cyfrif am y treigladd, gw. G 385 a GPC 1073 am enghreifftiau eraill.
- 166 **fy hyder** Gellid hefyd 'Y mae gofid helaeth wedi fy amddifadu o'm dewrder.'
- 168 **dehau** Cf. YCM² 128 (llau. 12–13) *Rolant, yr hwnn yssyd deheu y Chyarlys*.
- 169 **aed** Llsgr. *aer*. Awgrymir y diwygiad yn G 192 d.g. *cwyn*². Os cedwir darlleniad y llsgr., gellir efallai '[Am] dranc [y mae] fy nghwyn'.
- 170 **blodau** Gw. G 59 a GPC 288. Er mai e.ll. ydyw, cyfeiria at unigolyn mewn rhai enghreifftiau, cf. GC 8.1n, 2.62.
- 173 **mawrgudd** Cf. GDB 29.80n (Dafydd Benfras); GGrG 6.44 (Mab y Clochyddyn). Heblaw am yr aralleiriad a gynigir, gellid 'yn ei guddio am amser maith'.
- 174 **Rhydonnen** Yr oedd Tudur yn dal tiroedd yn nhrefgordd Rhydonnen yng nghwmwd Perfedd yng Ngheredigion, gw. y Rhagymadrodd, td. 12, ac AWH 190.
- 175 **Emrais** Llsgr. *emreys*, a esbonnir yn G 474 d.g. *Emreis*¹ yn gymysgedd o'r ddwy ffurf gyfredol *Emreis* ac *Emrys*, ond am ysgrifennu y yn lle *i*, cf., efallai, uchod 1.61n. Yr oedd dau gymeriad o'r enw hwn, sef Emrys Wledig a arweiniodd y Brythoniaid yn erbyn y Saeson, a'r mab yn

chwedl Gwrtheyrn a'r dreigiau (sef Myrddin), gw. *l.c.* a hefyd 474–5 d.g. *Emreis*², ond, yn ôl pob tebyg, yr oedd cryn gymysgu rhyngddynt. Cf. hefyd TYP² 345–6 a WCD 248–9. Y mae'n werth nodi bod Emrys Wledig yn flaenllaw iawn ym 'Mrut y Brenhinedd', gw. BD *passim*.

176 **aml deigr** Neu *aml ddeigr* 'dagrau niferus'.

179 **durdwrf** Aralleiriad posibl arall fyddai 'cynnwrf creulon', gw. G 396–7 a GPC 1099 am ystyron *dur*.

Cai Arwr a gysylltir â llys Arthur, gw. G 122–3; WCD 91–4; TYP² 303–7. Nodir *ib.* 306 fod agwedd y beirdd Cymraeg tuag at Gai yn gyson gadarnhaol, yn wahanol i'r modd y datblygodd ei gymeriad yn y rhamantau a'r traddodiad Ffrangeg. Sylwer ymhellach ar gynig R. Bromwich yn TYP² 305 ar gyfer y ll. hon, '*the clash of Cei in the pressing crowd of battle*'.

182 **ymgrog** Ffurf ansicr a ddeellir yma'n a. 'crogedig', gw. G 178–9 d.g. *croc* lle y'i rhestrir yn betrus. Nis ceir yn GPC 3782. Noder bod rhaid i'r acen syrthio ar y sillaf olaf ar gyfer y gynghanedd. Y mae'n demtasiwn diwygio yn y *Grog*.

183 **ddoe** Topos yn y farwnad yw sôn am gladdu'r gwrthrych 'ddoe' neu dderbyn y newyddion am ei farwolaeth 'ddoe', fel yn 7.27. Gw. Huw Meirion Edwards, 'Dwyn Marwnadau Adref', LICy xxiii (2000), 25 lle y'i gelwir yn '[d]dyfais ddramatig ... i ddynodi'r gorffennol cymharol agos'.

gwythryw Dehonglir *wythryw* yn gyfansoddair o *gŵyth* + *rhyw* 'natur', gw. G 753 a GPC 1790 am ystyron *gŵyth*¹. Llai tebygol yw'r rhifolyn *wyth* ond ni ellir ei wrthod yn llwyr.

Gellir awgrymu o leiaf ddwy ffordd arall o ddehongli'r ll. hon. O'i diweddarau'n *O'th roi doe, mad wythryw dig* gellid 'Oherwydd dy roi ddoe, [un o] natur ffyrnig, dedwydd [a] dicllon'. Llai tebygol, efallai, yw *O'th roi (doe mad), wythryw dig*: 'Oherwydd dy roi (ddoe [yr oeddet yn] ddedwydd), wyth math o ddicter'.

184 **dan gaen maen mur** Cf. ll. 13n.

185 **gweinyddoed** Llsgr. *g6inydoet*. Derbynnir y diwygiad a gynigir yn G 649 d.g. *gweinyd*¹. Awgrymir yno gyfansoddair o *gweinydd* neu fôn y f. *gweini* + *hoet* ac iddo'r ystyr 'hiraeth neu drallod a ddygir (a berir, a achosir), hiraeth gwastadol' neu 'trallodus, gofidus'. Dylid nodi na chydabyddir y ffurf *gweinyddoed* yn GPC 1621 ac yn wir fe'i hanwybyddir yn G 603 d.g. *gwaew* lle y rhoddir *gw[e]inydoed* [*sic*] fel darlleniad y ll. hon. Er gwaethaf yr ansicrwydd, y mae'n anodd esbonio'r ffurf mewn modd arall.

anoddau Yn G 31 d.g. *anodeu*² awgrymir cysylltiad ag *anoddef* 'annioddefol'.

- 186 **Brynbyrddau** Cf. hefyd 4.52n a GIG 16 (IV.29) *Dwyn llew Brynbyrddau dan llaw* (marwnad i Dudur). Safai Brynbyrddau dan safle Chwarel y Penrhyn ym Methesda, gw. y Rhagymadrodd, td. 14n87.
- 189 Y mae ail hanner y ll. yn fyr o sillaf, ond cf. 1.16n am gyfrif geiriau megis *trefn* yn ddeusill pan fydd angen.
trefn gwawr—doethwlad Neu gellir ei deall yn frawddeg enwol: ‘trigfan [yr] arglwydd [bellach] yw[’r] wlad ddoeth [sef y nef].’
- 190 **Gwriad** Ceir nifer o arwyr yn dwyn yr e. hwn, gw. G 710 a WCD 335–6. O’r rhain, y mwyaf tebygol yw Gwriad ap Gwrian, brenin Ystrad Clud, neu Wriad ab Elidir, tad Merfyn Frych a sefydlodd ail linach Gwynedd. Cf. GDB 18.102n (Einion ap Gwgon), a hefyd TYP² 396.
- 194 **digeirdd** Llsg. *digeffird*. Awgrymir y diwygiad yn G 345 d.g. *digard* er mwyn y brifodl, hyd y ll. a’r ystyr.
- 197 **Cymry** Y mae’r Cymry sy’n sefyll uwchben bedd Tudur (*fry*) yn gwanychu, ond gall hefyd mai at y wlad y cyfeirir fel yr awgrymir yn G 238 d.g. *kymry*².
cymawredd Hon yw’r unig enghraifft o’r gair a ddyfynnir yn G 231 (d.g. *kyma*) a GPC 756 d.g. *cymawredd*.
Dyfr Cf. ll. 114n.
- 198 **fflamgledd** Llsg. *fflamged*. Awgrymir y diwygiad yn G 506 d.g. *fflam* er mwyn y brifodl.
- 201 **rhwydwr** Llsg. *rwydyr*. Y mae’r ll. sillaf yn fyr fel y saif. O dderbyn *rhwydwr* ceir cyghanedd draws reolaidd, nifer reolaidd o sillafau ac ystyr foddhaol. Y mae’n bosibl fod rhyw gopiyydd wedi cyfeiliorni drwy dybied bod yma gynghanedd sain â *brwydr*.
ar Dudyr Llsg. *ardudur*. Diwygiwyd er mwyn cynnal y brifodl, a cf. ll. 92n.
- 201–4 Cymerir *gweryd* yn ll. 204 yn wrth. y f.amhrs. *rhoed* yn ll. 201. Posibilrwydd arall yw deall llau. 201–2 ar wahân: ‘... cynysgaeddwyd Tudur bonheddig / Â natur Owain neu Fedwyr.’ Os felly, prif gymal a geir yn ll. 204 ac nid cymal perthynol; felly aralleirier ‘Nid yw[’r] pridd yn rhyddhau arglwydd gwŷr inni.’
- 202 **Owain** Sef Owain ab Urien, gŵr o’r Hen Ogledd a hefyd arwr y chwedl sy’n dwyn ei enw, gw. R.L. Thomson: Owein. Ceir rhagor o fanylion yn WCD 518–20 a TYP² 479–83.
Bedwyr Un o’r arwyr a gysylltir â llys Arthur, gw. G 53; TYP² 279–80; WCD 36–7, a cf. y cyfeiriad at Gai yn ll. 179n.
- 203 **ac eryr** Llsg. *agerir*. Awgrymir y diwygiad yn G 488 d.g. *eryr*² er mwyn y brifodl.
- 204 **gweryd ... gweryd** Mwyseirio celfydd.

207 **pan** Bôn y f. *pannu*, gw. GPC 2678 d.g. *pan*², er na chofnodir enghraifft ohono yno tan 1547. Defnyddir *pannu* am ‘curo’ neu ‘ffustio’, cf. GLIF 13.11 *A gwaetlen am benn a bannet* (Hywel ab Owain Gwynedd); GCBM ii, 6.113 *Raclym vu yn pannu pennein*; GDB 18.59 *A chan llu pannu penn ar digrein* (Einion ap Gwgon); ac am yr ystyr ‘diffygio’, gw. GLIL1 10.8 *Hep pannu, gan y pennaf*. Yma cyfeirir yn ffigurol at effaith y galar ar yr holl ar ôl colli Tudur.

Penmynydd Gw. ll. 110n.

209 Trinnir y pedwar englyn olaf fel caniad ar wahân yn y llsgr., gw. y nodyn cefndir am raniadau'r gerdd.

plaid Gall hefyd mai Tudur yw *plaid eirchiaid*, ‘[un a fu'n] gefnogaeth [i] eirchiaid’, gw. GPC 2815.

210 **a hwyr ennill** Ychwanegwyd *c* uwchben *a* yn y llsgr., ond anodd yw gweld ar ba sail. Nid yw *a chwyr* yn rhoi synnwyr yn y cyd-destun, ac nid yw'r ffurf *ac* yn arferol o flaen *h-*. Anwybyddir y cywiriad felly. Y mae naws eironig i'r ll. hon: ar ôl i'w cynheiliad farw, gall yr eirchiaid ymbil am byth heb gael dim.

211 **brwydr** Cf. IGE² 284 (ll. 22) *Brwydr Addaf o baradwys*. Deellir *brwydr* yma'n gyfeiriad at ymgyrch neu orthrwm angau ar Dudur.

gwirlafn Neu ‘un sicr ei lafn’.

Tre'rcastell Gw. ll. 18n.

214 **fy arglwydd** Llsgr. *varglwyd*. Diwygir er mwyn hyd y ll.

215 **tra-seifiad** Llsgr. *treis viat*. Yn betrus iawn yr adferir *tra-seifiad* yma. Fe'i nodir yn GPC 3558 fel gair geiriadurol sy'n digwydd am y tro cyntaf yn TW, felly yn 1604–7. Yr ystyr a rydd Williems yw ‘*permansurus, perstans*’, ac ar sail hyn cynnig GPC yw ‘parhaus, arhosol, parhaol, bythol’. Awgrymir ei gymryd yn gyfansoddair o *tra-* + bôn y f. *sefyll* + *-iad*². Ymddengys hyn yn rhesymol er gwaethaf yr ansicrwydd a fynegir yno, ond os felly, rhesymol hefyd yw ei gymryd yn e., ‘un sy'n sefyll yn ddiysgog’. Rhydd *tra-seifiad* y nifer anghenrheidiol o sillafau a chynghanedd draws reolaidd.

216 **tra sefis** Un gair yn y llsgr. Nid yw *trasefis* yn yr ystyr ‘safodd yn gadarn’ yn amhosibl, er nas nodir yn GPC 3558.

217 **cyfarf** Yn ôl G 202, yr ystyron posibl yw ‘ymladdgar, dygn, cadarn, angerddol, egniol’, ac fel eg. ‘angerdd, dygnedd, ymdrech’; gthg. GPC 682 ‘wedi ei gwbl arfogi, wedi ei arfogi'n dda; rhyfelwr’. Ceir rhagor o bosibiliadau yn GDG³ 438.

220 **gwisg** Llsgr. *gôist*, yn ôl R, ond gall *sc* ac *st* edrych yn debyg iawn i'w gilydd, ac nid amhosibl mai *gwisc* sydd yma mewn gwirionedd. Yn ôl R, ceir *-st* am *-sc* yn y llsgr. yn 4.109–10 isod (tair enghraifft) ac yn

GGDT 11.46. a GLIBH 19.145. Y mae, efallai, yn annhebygol y byddai'r copiŵyr yn baglu yn y modd hwn cynifer o weithiau, a gall mai *-sc* yw darlleniad cywir y llsgr. yn rhai o'r enghreifftiau hyn. Bid a fo am hynny, y mae angen *gwisc* yma er mwyn yr ystyr a'r cymeriad, fel yr awgrymir yn G 685 d.g. *gwisc*¹.

mur Cf. llau. 13n, 184n.

221 **Bangor** Am y gystrawen, cf. ll. 1n. Claddwyd Tudur yn eglwys tŷ'r Brodyr Duon ym Mangor, gw. y Rhagymadrodd, td. 14.

222 **didyr** 3 un.pres.myn. y f. *didor*², *didorri*, gw. G 330 lle y nodir y gallai hefyd fod yn ll. yr a. *didor*, gw. *l.c.* d.g. *didor*¹, ond nid yw'n eglur sut y gweddai hynny i gystrawen y ll. hon. Nid *ydddiddyr*, sef 3 un.pres.myn. y f. *ydddiddor*, ydyw ychwaith, gan na fyddai hynny'n cynganeddu.

224 **elyn gryd** Llsgr. *elyngryt*. Rhaid mai dau air ydyw er mwyn y gynghanedd.

Alun Gw. 2.36n.

4

Dyma awdl foliant hir i Oronwy Fychan (*ob.* 1382), mab Tudur Fychan, gwrthrych y ddwy gerdd flaenorol. Trigai Goronwy ym Mhenmynydd yn Nindaethwy a daliodd nifer o swyddi dan y goron. Bu farw'n annisgwyl, ac felly efallai'n eithaf ifanc, yn 1382. Am ragor o fanylion amdano, gw. y Rhagymadrodd, tt. 14–16. Egyr Gruffudd ei gerdd drwy ofyn i Dduw am y gallu i ganmol Goronwy mewn modd teilwng. Yna, pentyrrir epithetau a disgrifiadau canmoliaethus mewn dull nodweddiadol Ogynfarddol, gan sôn am wrhydri Goronwy ar faes y gad a'i haelioni yn ei lys. Cymherir y gwrthrych â llu o arwyr y gorffennol, rhai'n frodorol ac eraill yn rhyngwladol eu bri. Ceir enghraifft nodedig o'r topos 'ni'th oes gystedydd' yn llinellau 116–20 ac o'r topos 'gwâr wrth wâr/gwâr wrth wâr' yn llinellau 133–5. I gloi, dymunir nawdd Duw i enaid Goronwy.

Ni wyddys pryd yn union y canwyd y gerdd hon ac ni ellir canfod unrhyw gyfeiriadau at ddigwyddiadau penodol ynddi.

Mesurau:

Caniad 1 (llau. 1–36):	cyhydedd naw ban (prifodl <i>-edd</i>)
(llau. 37–40):	englyn unodl union (prifodl <i>-alch</i>)
Caniad 2 (llau. 41–74):	toddaid (prifodl <i>-au</i>)
(llau. 75–8):	englyn unodl union (prifodl <i>-aint</i>)
Caniad 3 (llau. 79–120):	cyhydedd hir (prifodl <i>-af</i>)
(llau. 121–4):	englyn unodl union (prifodl <i>-edd</i>)
Caniad 4 (llau. 125–64):	gwawdodyn (prifodl <i>-i</i>)
(llau. 165–8):	englyn unodl union (prifodl <i>-yr</i>)

Ni roddir priflythrennau lliw i'r englynion yn y llawysgrif ac felly cyfrifir pob un yma'n rhan o'r caniad o'i flaen. Cysylltir pob englyn drwy gych-

gymeriad â'r awdl o'i flaen ac â'r un a'i dilyn. Y mae'r cymeriad yn yr awdlau hefyd yn gaeth iawn: yn gymeriad geiriol, llythrennol, cynganeddol a synhwyrol. Dechreuau pob llinell yn awdl l â'r gytsain *c-* a phob llinell yn yr ail awdl ag *rh-*. Ceir mwy o amrywiaeth yn y drydedd awdl: *b-*, *d-*, *a-/e-*, *c-*, *n-*, ond caeth iawn yw'r cymeriad ar *g-* yn yr awdl olaf. Ceir cymeriad yn yr englynion hefyd.

Golygwyd y gerdd eisoes yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 127–37.

- 1–2 **cyfarchaf ... cyfarch** Gofyn y bardd am dderbyn gan Dduw y gallu i annerch ei noddwr mewn modd priodol. Y mae hwn yn ddull arferol o ddechrau cerdd, cf., e.e., GLILl 1.1–4 *Kyuarchaf, Duw naf, neua6l Dad—keli, / Keluytyd heb afrad, / Y uil6r ar6r, arwein nad / Y foli kedwesti wastad*. Ceir ffigur tarddiadol cyffelyb yn GCBM i, 10.21.
- 1 **nefol rinwedd** Gellid ei ddeall hefyd yn wrth. y f.
- 2 **ffyddlonwedd** Gellid e. 'un ffyddlon ei ddull' (sef y bardd neu ei noddwr).
- 3 **modd wleddau medd** Yn GPC 2473 nodir yr ystyron 'ffasiwn, arfer, moes' ar gyfer *modd*. Os felly, aralleirier 'gwleddoedd medd [ei] arfer'. Eto, o edrych ar ystyron y geiriau *moddgar, moddus*, gw. *ib.* 2474, dichon fod 'digonol' neu 'priodol' yn cyfleu ystyr *modd* yma.
- 4 **Ceinmyg rhoddfudd rhudd, Rhun gymrodedd** Ll. anodd ei dehongli gan na wahaniaethir yn orgraff y llsg. rhwng *r* a *rh*. Dehonglir *rhudd* yn yr ystyr 'dillad coch', gw. GPC 3099–3100, ond o dderbyn yr ystyr bellach 'person gorchuddiedig â gwaed' a nodir yno, gellid *ceinmyg roddfudd rudd* 'Un gwaedlyd urddasol buddiol ei rodd', ymhlith posibil-iadau eraill. Nid yw'n debygol mai ffurf dreigledig *grudd* a geir yma.
- Rhun** Sef Rhun ap Maelgwn yn ôl pob tebyg, gw. 2.13n. Fe'i crybwyllir eto yn ll. 46.
- 6 Neu *Cofiwadr ffrwythlawn, dawn dinam falchedd* 'Gŵr doeth bendithiol, [a chanddo] ddawn [o] wychder di-fai'.
- 7 **cyfarf** Gw. 3.217n. Ceir y cyfuniad *cyfarf arf* yn GPB 6.4n a GDG³ 19 (7.11) *Cyfarf arf, eirf ni'th weheirdd*, a gw. y drafodaeth yn *ib.* 438.
- gair gorfoledd** Neu '[a'i] air [yn peri] gorfoledd'.
- 8 **cyfiawnfrawd dafawd** Llsg. *kyvva6nvra6t tava6t*. Gellid *cyfiawnfrawd tafawd* hefyd, ond rhed y gystrawen yn rhwyddach o gymryd bod calediad rhwng *cyfiawnfrawd* a *dafawd* (treigledig).
- 9 **cadarn farn feirniad** Cf. GCBM ii, 4.45 *Cadarn farn feirniaid westifiant*.
- 10 **Gwrlais** Gw. G 711 lle y'i cysylltir â'r Gwrlais Iarll Cernyw sy'n ymddangos ym 'Mrut y Brenhinedd'. Sylwir *ib.* ar nifer o enghreifftiau gan y beirdd a gw. hefyd BD 136–40 *passim* (*Gorlois* yw'r ffurf yno);

WCD 337; a GSRh 3.13n (Sefnyn), lle y nodir iddo gael ei ystyried fel 'milwr dewr, arweinydd a chynghorwr doeth'.

aerglais eurgledd Cyfuniad amwys. Gellid hefyd 'un sy'n clwyfo mewn brwydr [â'i] gleddyf gwych', neu hyd yn oed 'un rhagorol ei gleddyf sy'n dwyn cleisiau brwydr', gw. G 13 d.g. *aer*¹ a GPC 38 am wahanol ystyron *aerglais*. Y mae'n bosibl hefyd fod y geiriau hyn yn goleddfu *Gwrlais*.

- 11 **Cedryn wysg gyrddfrwysg gwrddfrwydr dachwedd** Cf. fersiwn J.E. Caerwyn Williams, 'Wysg (River-name), Wysg, Hwysgynt, Rhwysg', *Celtica*, xxi (1990), 677: '? the mighty strong path of the valiant ones of the slaughter of the strong battle'. Gelwir Goronwy yn drywydd i'w wŷr cadarn ei ddilyn i frwydr.

gyrddfrwysg Dilynir G 704 d.g. *gwrð* lle y rhoddir 'gwrol ac egniol, eofn a thaer'. Gall hefyd mai *cyrdd*, ll. *cordd* 'mintai, torf' a geir yn elfen gyntaf y gair hwn, gw. *ib.* 164 d.g. *kord* a 133 d.g. *kerð* am y ffurf l. bosibl, a cf. uchod 1.17n. Os felly, gellid *cedryn wysg gyrddfrwysg* 'Un chwyrn ei luoedd ar drywydd gwŷr cadarn'.

- 13 **Nudd** Cf. 1.11n.

am fudd Llsg. *anivud* yn ôl R, ond gall fod yn anodd dehongli cyfres o *minims* ar adegau a dichon mai'r darlleniad cywir yw *amvud*. Nodir y diwygiad, os dyna ydyw, yn G 268 d.g. *kystal*.

modd gorhoffedd Neu *bodd gorhoffedd* 'ewyllys da [sy'n haeddu] clod'.

- 15 **castellgawr** Un gair yn y llsg., ond y mae rhaid cofio'r posibilrwydd o'i rannu'n *castell gawr* 'castell brwydr'.

cludfalch Y mae ystyr *clud* yn aneglur mewn rhai enghreifftiau, gw. G 149 a GPC 509. Gellid 'gwych ei glod' ar gyfer *cludfalch* yma.

- 16 **aergrwydr** Yn ogystal â'r cynnig petrus yn G 13 d.g. *aer*¹ ac yn GPC 38, gellid cymryd *crwydr* yn fôn berfol a ddefnyddir yn ansoddeiriol a deall 'yn cyrchu [mewn] brwydr', cf. *aerglais* yn ll. 10n uchod.

- 17 **cannwyll pwyll** Cf. y ddihareb *tec agannbyll p6yll y dyn* yn R 1032.29, hefyd GGDT 10.11n *Teg a gannwyll pwyll pell ynad—i ddyn* (Trahaearn Brydydd Mawr). Rhoddir *Gorau kannwyll, pwyll i ddyn* yn W. Hay, *Diarhebion Cymru* (Lerpwl, [dim dyddiad]), 108.

- 19 **canrwyg** Gw. G 107 d.g. *cann*¹, a hefyd GPC 3120–1 am ystyr ddeublyg *rhwysg*, sef 'rhuthr, cyrch, hynt' ac 'urddas, gogoniant, ysblander'. Dichon fod y ddwy ystyr yn berthnasol yma fel mewn mannau eraill yn y gerdd hon. Trafodir *rhwysg* yn J.E. Caerwyn Williams, *art.cit.* 678.

Llawfrodedd Cf. 3.115n. E.p. ydyw yma yn ôl pob tebyg.

- 20 **prain** Nid *brain*, ll. *brân*, fel yr awgrymir yn T.J. Morgan, 'Dadan-

soddi'r Gogynfeirdd (2)', B xiv (1950–2), 6, ond *prain* 'gwledd, ?moeth', gw. GPC 2868–9. Eithr os mynnir glynu wrth y dehongliad cyntaf, cymerer *cynrain* a *brain* ill dau'n enidol yn goleddfu *preiddfawr* ac aralleirier 'Un mawr ei ysbail [ar gyfer] brain [a] milwyr [mewn] brwydr [llawn] arswyd'. Ond y mae'r gystrawen yn rhwyddach yn ôl y fersiwn a gynigir yn yr aralleiriad.

gawr Gair amwys arall. Nid yw'n amhosibl nad ffurf dreigledig *cawr* ydyw: 'Cawr dychryn helaeth ei ysbail [ar gyfer] gwledd milwyr' (cf. ll. 15).

22 **Gwyndyd, gwendorf** Cf. GLILI 11.20 *Uchelgoryf gwendoryf G6wyndyd. cyfedd* Cf. 3.61n am y gair amwys hwn.

23 Gellid yn hytrach rannu'r ll. ar ôl *brwydrghwyf*.

cyd fryd Y mae meddwl Goronwy yn gadarn oherwydd nad oes amheuo ynndo. Ceir yr un syniad yn ll. 79.

Rhuon Yn ôl pob tebyg Rhufon Befr neu Bebyr, arwr o'r Hen Ogledd a ail-leolwyd yng Ngwynedd, gw. TYP² 500 a WCD 560–1. Yn 'Araith Iolo Goch' dywedir mai Gwynedd oedd gwlad Rhufon, gw. AP 12 (llau. 1–2), ac fel y nodir yn TYP² *l.c.*, 'a local connection of this kind may therefore underlie Gruffudd ap Maredudd's description of Gronwy fab Tudur of Penmynydd (Anglesey) as rwyf ruon dewred "a ruler of the valour of Rhufawn"'. Awgryma'r cyfeiriad yn GGDT 8.30n *Hyd Gawrnwy fudd rhwy ar fedd Rhufawn* (Gwilym Ddu o Arfon) y credid bod bedd Rhufon yng Nghornwy yng nghwmwd Talybolion, sef yn ardal frodorol Gruffudd ap Maredudd ei hun. Cofier hefyd gwpled agoriadol ysblennydd 'Gorhoffedd Hywel ab Owain Gwynedd', *Tonn wenn orewyn a orblych bet, / Gwytua Ruua6n Bebyr, ben teyrnet* (GLIF 6.1–2), lle y gwneir bedd Rhufon yn symbol o diriogaeth Gwynedd. Cedwir ffurf y llsg. yma, ond dylid nodi y ceir cyflythreniad llawnach â *rhwyf* o adfer y ffurf *Rhufon*. Ceir nifer o arwyr eraill yn dwyn yr enw Rhufon, cf. WCD *l.c.*

24 **barant** Gair y mae cryn ansicrwydd yn ei gylch, cf. yr esboniadau gwahanol a roddir yn G 51 a GPC 257. Dilynir GPC yma, fel y gwneir yn GSRh 4.29n (Rhisierdyn) a GGrG 4.5 (Iorwerth ab y Cyriog). O dderbyn cynnig G ceid 'Ysblander [sy'n] warrant [i] ffyniant ffawd [ei] bobl', sydd hefyd yn rhoi synnwyr digonol. Noder hefyd fod modd rhoi atalnod ar ôl *ffyniant*.

25 **ciried ced** Cyfuniad geiriol cyffredin, cf. llau. 49 a 109; GGDT 2.31 (Gruffudd ap Dafydd ap Tudur) a 6.73 (Trahaearn Brydydd Mawr).

cadrblas Gthg. G 91 d.g. *cadr* lle y cynigir 'amddiffynfa, cadernid'. Ystyrir bod cyfeiriad at lys yn fwy tebygol yng nghyd-destun moli haelioni Goronwy.

gwanas Yn llythrennol ‘hoel, bach’, gw. G 614 a GPC 1573. Trosiad cyffredin am arglwydd yw hwn, cf. y defnydd mynych o *corf, llorf* a *colofn* i gyfeirio at swyddogaeth y noddwr yn cynnal ei bobl.

- 26 **côr ddôr** Efallai y dylid diweddarau hyn yn *côr dôr* er mwyn cymeriad llawnach â’r ll. nesaf. Os felly, gellid derbyn un o’r ystyron a roddir yn G 163–4 ar gyfer *kôr*¹ a chael ‘ceidwad [ac] amddiffynnwr’.

cyrdd Gair amwys, cf. ll. 11n.

- 27 **câr dêr** Gw. ll. 26n am y cymeriad. Efallai y gellid *câr ddâr ddewrfryd* ‘arweinydd dewr ei feddwl [sy’n] gyfaill’. Eto, y mae tystiolaeth fod *dâr* yn gallu bod yn eg. yn ei ystyr drosiadol, megis yn 6.62; GEO 1.36 (Einion Offeiriad) a GLIBH 4.143 (Dafydd ap Gwilym), felly cedwir y cytseiniaid cysefin yma.

Greidiol Gthg. G 588 lle y’i rhestrir yn a. ‘gwresog, brwd, taer, angerddol, ffyrnig’. Ceir problem gyffelyb yn 5.90n, ond nid oes amheuaeth nad e.p. ydyw yn achos GGMD iii, 1.8n *ail Greidiol*. Gw. ymhellach G *l.c.* d.g. *greidawl* a *Greidawl*; WCD 296; TYP² 367–8; GEO 1.26n, 27. Digwydd fel e. arwr yn llys Arthur yn BRh 19 (llau. 27–8) a CO³ 7 (ll. 176).

- 30 **enedlfawr** Gw. G 129 d.g. *keneðyl*. Fel arall, ‘niferus ei dylwyth’.

- 31 **Cynwrig** Ceir nifer o gymeriadau ac iddynt yr e. hwn yn ôl G 262, ond ni restrir yr enghraifft hon dan unrhyw Gynwrig penodol. Ond diau mai at Gynwrig ab Iorwerth, tad Ednyfed Fychan, y cyfeirir yma, gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Marchudd’ 3 ac AWH 182.

rhyfyg rheufedd Gellid hefyd *ryfyg reufedd* ‘[a chanddo] ddigonedd [o] ehofndra’.

- 33 **cynnaid** Gair yr anghytunir ynghylch ei ystyr, gw. G 255 lle y rhoddir ‘?cyflym, parod’ (o *cyn-* + *naid*); gthg. GPC 794 lle y’i huniaethir â *cyntaid*, sef ‘yr haid gyntaf o wenyn a edy’r cwch’, cf. *ib.* 800. Y mae’n anodd torri’r ddadl oherwydd diffyg enghreifftiau eraill o’r gair. Dilynrir G, ond gellid cael synnwyr drwy dderbyn cynnig GPC a’i ddehongli’n drosiadol fel ‘mintai [o] oreuon’, yn cyfeirio at wŷr Goronwy.

- 34 **coethlwybr** Mwysair, yn ôl pob tebyg, yn chwarae ar ystyron yr a. *coeth* ‘pur, glân’ a’r f. *coethi* ‘blino, poeni, cosbi’, gw. G 159 d.g. *koeth* lle yr awgrymir ‘hynt gain, ?hynt gosbol’ am *coethlwybr*.

briwgur gochwedd Gall yn hawdd mai ansoddeiriau yw’r rhain yn goleddfu *cad fragad*; os felly, ‘[Un ac iddo] hynt gain blaen byddin waedlyd ei dull sy’n curo’n ddolurus’.

- 35 **Euroswydd** Llgr. *eur rosswyd*. Ni restrir enghraifft o’r gair *rhoswydd* cyn TW yn ôl GPC 3097, ond y mae’n gyfansoddair digon hawdd ei greu ac ni fyddai’n amhosibl iddo ddigwydd yma. Yn sicr, ceir enghreifftiau eraill o gyffelybu noddwr i rosyn, cf. Dafydd Nanmor i Rys o’r

Tywyn yn OBWV 146 (78.1) a GSCyf 15.1 (Llywelyn ab y Moel i Rys Goch Eryri). Eto, o gofio hoffter Gruffudd ap Maredudd o gyfeirio at gymeriadau chwedlonol, mwy naturiol yw cyfeiriad yma at yr e.p. *Euroswydd*, gw. G 500 d.g. *Eurosswyð*; TYP² 351 a WCD 260. Tad Nisien ac Efnisien ym Mabinogi Branwen oedd Euroswydd, yn ôl PKM 29 (ll. 10).

37 **meddfawr** Fe'i dehonglir yn betrus yn GPC 2397 yn gyfansoddair o *medd²* 'awdurdod, nerth' + *mawr*. Gall hefyd fod y bardd yn meddwl am *medd¹*, sef y ddiod, fel symbol o statws ei noddwr.

enedloedd Yn cynganeddu â *cain adlam* yn ll. 38. Cf. 1.5n.

40 **gwaed-ddafn** Cf. G 174 d.g. *creuðavyn* 'â gwaed yn ddefni ohono, yn diferu gwaed'. Posibilrwydd arall fyddai 'Y mae[r] waywffon wych dolciog ei llafn yn peri dafn o waed', gan ddehongli *pair* yn 3 un.pres.myn. *peri*.

41 **cyfarf** Llsg. *kynaryf*. Awgrymir y diwygiad yn G 202 d.g. *kyfar(y)f*. Gw. ll. 7n.

42 **Cai** Gw. 3.179n.

45 **Rhydderch** Gw. 1.14n.

hwyliau Llsg. *rwylieu*. Fe'i diwygir yn betrus er mwyn y gynghanedd. Os cedwir y darlleniad, fel yn GPC 3116 d.g. *rhwyl*, rhaid gofyn a oedd yn bosibl i *rh-* ateb *h-* mewn cynghanedd sain.

46 **Rhun** Gw. ll. 4n.

48 **Rholant** Yr arwr Ffrengig enwog. Amdano mewn llenyddiaeth Gymraeg, gw. YCM² *passim*. Cyfeirir ato fel patrwm dewrder yn GGDT 6.70n (Gwilym Ddu o Arfon); GEO 1.70n (Einion Offeiriad); GC 2.147n. Cf. hefyd uchod 3.130n.

barant Gw. ll. 24n. Gellid hefyd '[a chanddo] arglwyddi[’n] warant’.

49 **ced** Nis ceir yn y llsg. ond y mae'r diwygiad yn angenrheidiol ar gyfer y gynghanedd ac yn rhoi hyd rheolaidd i'r ll. Gw. G 119 a cf. uchod ll. 25n *ciried ced*.

50 **rhyfyg gariad** Llsg. *ryuic karyat*. Y mae'r ystyr yn haws o dreiglo *cariad*, ac awgrymir bod orgraff y llsg. yn adlewyrchu'r calediad sy'n digwydd ar lafar rhwng dwy g, cf. ll. 8n.

52 **Brynbyrddau** Cf. 3.186n.

53 **Rhuon** Cf. ll. 23n.

rhwysg Llachau Cf. 2.19n. Y mae *rhwysg* yn amwys fel yn ll. 19 uchod.

54 **Tewdwr** Cf. 1. 66n. Gellid hefyd *Rhyswr*, *rhwysg Tewdwr tydi biau* 'Rhyfelwr, ti sydd berchen ar rwysg [megis] Tewdwr', cf. ll. 74.

56 **Ulcasar** Am gyfeiriadau'r beirdd at Iwł Cesar, gw. TYP² 414. Fe'i

crybwyllir eto gan Ruffudd ap Maredudd yn 5.126n.

- 57 **rhagoraist** Gellir hefyd yr ystyr 'aethost o flaen, arweiniaist', gw. GPC 3022.
- 60 **llafurdwysg** Ystyr *twysg* yn ôl J. Lloyd-Jones, 'Olion Sein-dawdd Cyntefig yn Gymraeg', B ii (1923–5), 295 yw 'llif, llifeiriant, rhuthr'; gthg. CA 282 '*pars. portio, acervulus, cumulus*', yn dyfynnu o D. Nodir y ddau bosibilrwydd yn GPC 3667 gan fynegi ansicrwydd ynghylch rhai o'r enghreifftiau.
- uwch rhwysg rhydiau** Deellir *rhwysg* yn gyfeiriad at y dŵr rhedegog yn llifo yn y rhydau, cf. ll. 18n am ystyron y gair. Yr mae'r syniad o ymladd wrth ryd yn draddodiadol, gw., e.e., P Tal 2 (II.17).
- 62 **cyrdd** Fe'i cymerir yn ll. *cordd* 'mintai, torf', cf. ll. 11n, ond nid yw 'cerddi' yn amhosibl yma.
 Petrus yw'r atalnodi a gynigir yma. Gellid hefyd 'Arglwydd [a chanddo] ddoniau parod sy'n cynnal beirdd [ar gyfer] torf [a chanddynt] gerddi'.
- 64 **Beli** Ceir nifer o arwyr a chanddynt yr e. hwn, ond y pwysicaf ohonynt yw Beli Mawr ap Mynogan, gw. G 54–5 d.g. *Beli*¹; TYP² 281–3 a WCD 38–9 lle y dywedir iddo gael ei ystyried yn 'king of the Britons in the golden age of their legendary history'. Cyfeiria Gruffudd ato eto yn ll. 147n a 5.83n.
- peleidr** Llsg. *beidyr*. Derbynnir y diwygiad a awgrymir yn G 599 d.g. *gwaet* er mwyn y gynghanedd a'r ystyr. Cf. WCD 39 lle y nodir bod nifer o gyfeiriadau at waywffon waedlyd Beli (a cf. ymhellach ll. 147n isod). Y mae'r cyfuniad *Beli*—(*b*)*aladr* wrth gwrs yn un hwylus ar gyfer y gynghanedd, ac fe'i ceir eto yn GBF 54.29n (Bleddyn Fardd) a GLIG 6.5n.
- 65 **Gwyddnau** Sef Gwyddno Garanhir, gw. G 735; TYP² 397–400; WCD 346–8. Ef oedd arglwydd Cantre'r Gwaelod, sef y tir i'r gorllewin o arfordir Bae Ceredigion a foddwyd gan y môr yn ôl y chwedl.
- 67 **rhwyl** Derbynnir yr ystyr betrus a roddir yn GPC 3116, sef '?disglair, gwych'. Os gwrthodir hyn, y mae 'llys' hefyd yn bosibl.
- 69 **Cadwaladr** Gw. G 92 d.g. *Katwalad(y)r*¹; TYP² 292–3 a WCD 80–1. Brenin Gwynedd yn y 7g. oedd Cadwaladr Fendigaid ap Cadwallon ap Cadfan. Erbyn amser cyfansoddi 'Armes Prydein' fe'i hystyrid yn arwr a ddychwelai ryw ddydd i achub ei bobl rhag gormes y Saeson, gw. Arm P² *passim*. Ym 'Mrut y Brenhinedd' ef yw'r brenin Brythonig olaf i reoli'r cyfan o Ynys Prydain, gw. BD 204–7. Ystyrid Cadwaladr yn sant ac y mae Llangadwaladr neu Eglwys Ail ym Môn yn dwyn ei enw.
- 71 **rhygul** Y mae'r ystyr yn ansicr. Yr oedd cynodiadau negyddol i *cul*, cf. GPB 6.89–90 *Lle heb gwrf na thwrf na thorf ddiysig,—rhygul / Rhag*

newyn bob orig (Hywel Ystorm) ac efallai y gellid rhyw ystyr ffigurol megis ‘cyfyngol, caethiwus’ neu hyd yn oed ‘cystwyol’. Temtasiwn gref, er hynny, yw ei gymryd yn amrywiad ar *rhugl* (neu’n gamgymeriad orgraffyddol). Fel y gwelir mewn cerddi eraill, yr oedd beirdd y cyfnod hwn yn fodlon cyfrif gair unsill ac ynddo lafariad ymwithiol yn ddeusill er mwyn y mydr, megis yn 1.16n, felly ni fyddai diwygio *rhygul* yn *rhugl* yn amhosibl o safbwynt nifer y sillafau.

rhawd riau Aneglur yw ai *rawd riau* neu *rhawd rhiau* a geir yma. Dewisir y cyntaf er mwyn dehongli’r ll. yn ddisgrifiad o Oronwy, fel y mae’r rhan fwyaf o’r llau. yn y gerdd. Eto, gellid *rhawd rhiau*: ‘Tra chyfyng yw ergyd cwrs [yr] arglwydd ardderchog.’

rhawd Debynnir yr ystyr ‘cwrs, hynt’ a nodir yn GPC 3040 d.g. *rhawd*¹ er na ddyfynnir enghraifft cyn y 19g. Cf. GMB 27.16 (Einion ap Gwalchmai) *kyn bwyf rabd bedrabd* am *rhawd* yn yr ystyr ‘ffordd’, &c. Ceir hefyd *rhawd*² ‘nifer mawr ... llu, lliaws, torf’, gw. *ib.* 3040–1, lle y mynegir ansicrwydd am ddsbarthiad rhai o’r enghreifftiau. Os dewisir yr ystyr hon, yna gellir ‘Arglwydd gwych [a chanddo] lu tra chyfyng[ol ei] ddynod’.

rhiau—ardderchog Llsg. *riederchaft*, sy’n ddarlleniad llwgr, gan nad oes prifodl nac ychwaith odl rhwng y gair cyrch a chanol y ll. nesaf, ac y mae sillaf yn eisiau. Nid yw’n anodd gweld bod *-aft* yn gamgymeriad am *-abc*, ac y mae gweddiill y diwygiad yn dilyn yn ddigon rhwydd.

72 **Rhywiog ddigwmpog** [] **gampau** Y mae dwy sillaf yn eisiau rhwng y ddau air olaf. Awgrymir *dda ei gampau* gan John Davies yn llsg. G a byddai hynny neu *ddiau gampau* yn ddyfaliad rhesymol a gyflawnai’r gynghanedd.

74 **iôr, dau** Llsg. *yorteu* yn ôl R, ond gan fod difrod i’r llsg. yma ni ellir sicrwydd nad *yôrteu* yw’r darlleniad. Fodd bynnag, y mae’r gynghanedd yn wallus, a cheir mwy nag un ffordd o’i hadfer. Ar wahân i’r hyn a gynigir, gellid *Rhysgyr môr-waneg, teg iôr, tau*, neu *Rhysgyr môr-waneg deg, iôr, dau*. Problem arall, o bosibl, yw mai wyth sillaf sydd yn y ll. fel y saif. Gwyddys bod hyn yn gymeradwy, ond petai modd diwygio’r darlleniad yn *Rhysgyr môr-waneg, iôr teg, yw’r tau*, byddai’r cyfrif yn rheolaidd a’r synnwyr yn ddibroblem.

75 **tau** [] **fonedd** Y mae dwy sillaf yn eisiau rhwng y geiriau hyn, un ohonynt yn odli yn *-edd* (a chymryd mai cynghanedd sain a oedd yn y ll.).

77 **cymryd** Nodir yn GMW 161n1 fod be. yn gallu dynodi gorfodaeth. Dehonglir y ddwy l. felly’n anogaeth i Oronwy gymryd rheolaeth dros Gymru. Eto, y mae’n bosibl fod ffurf megis *y mae* neu *a wna* yn ddeall-edig o flaen *Cymru a’i braint*; os felly, ‘Cymryd [yr] arwr, cymar Geraint, / Cymro cadarn, [a wna] Cymru a’i braint’, h.y. y mae’r wlad

benbaladr yn derbyn goruchafiaeth Goronwy. Digwydd *cymryd* (o *cym* + *pryd*) yn a. ‘unwedd, un olwg, tebyg, hafal’ hefyd, gw. G 238 d.g. *kymryt*¹; nis restrir yn GPC 771 ond nodir enghraifft o *cymryd*¹ (o *cym* + *bryd*) ‘unfryd’ o’r 18g. A fyddai modd ystumio rywffaint ar yr ystyron hyn: ‘Cyfaddas yw[’r] arwr ... i Gymru a’i braint’?

Geraint Gw. 3.40n.

79 Cynganedd groes wreiddgoll sydd yng nghymal cyntaf y ll.

80 **brys lys les ofwy** Llai tebygol yw ‘[Un y mae ei] ymweliad [â] llys prysur [yn dwyn] lles.’

rhwy rwysg Cf. ll. 5.

Eudaf Gw. G 496 d.g. *Eudaf*¹ a WCD 257, ac am enghraifft farddol arall, gw. GHS 5.77n (Hywel Swrdwal). Eudaf ap Caradog oedd tad Elen, priod Macsen Wledig, gw. BrM *passim*. Disgrifir sut y daeth Eudaf yn frenin ar Ynys Prydain yn BD 70–1.

81 **gwryd gawr** Y mae amwysedd bwriadol yma, o bosibl, rhwng yr ystyr a gynigir a ‘cawr [o ran ei] wrhyd’.

82 **gwaywawr** Gair y gellid ei ddehongli mewn nifer o ffyrdd: ll. *gwayw*, neu cyfansoddair o *gwayw* + *gawr*, neu hyd yn oed *gwayw* + *awr* neu *gawr*. Yn wyneb hyn, petrus iawn yw’r aralleiriad a gynigir.

83 **gwaïsg** Llgr. *gwaëisc*. Diwygir er mwyn yr ystyr a’r gynghanedd.

84 **rhwysg** Llgr. *wysc*. Diwygir er mwyn y gynghanedd. Y mae’r ll. sillaf yn fer, ond braidd yn fentrus fyddai diwygio’r ll. ymhellach yn *brwysg wysg rwysg rwyf* neu *brwysg wysg waïsg, rhwyf myrdd*.

cyrdd cerdd waesaf Neu ‘lluoedd [y] gwarantwr cân’, mewn cyfosodiad â *myrdd*.

85 **budd rudd ruthr osbran** Problem gyfarwydd yw dehongli *r*- y llgr. Yma, gellid hefyd *budd rhudd, ruthr osbran* ‘ffafr [yn null] dillad coch [yn sgil] ymgyrch un sy’n anrhegu gwesteion’.

osbran Nis ceir yn GPC 2658. Fe’i dehonglir yma’n gyfansoddair o *osb* + *bôn* y *f. rhannu*.

86 **bodd rodd rod fflamdan** Cf. ll. 85n. Byddai *Bodd rhodd, rhod fflamdan* yn rhoi ‘[Un a chanddo] ewyllys da [i roi] rhodd, fflamiog [ei] darian gron’.

87 **Ector** Cf. 3.163n.

88 **difreg** Llgr. *dirvrec*. Awgrymir y diwygiad yn G 340 d.g. *divrec*, ac fe’i mabwysiedir yma er mwyn yr ystyr.

89 **Rholant** Gw. ll. 48n.

95 **erfid** Llgr. *erbit*. Awgrymir y diwygiad yn G 484 d.g. *eruit*, ac ymddengys yn angenrheidiol ar gyfer yr ystyr.

Lleon Sef Lleon Gawr, sylfaenydd Caer, yn ôl y traddodiad. Gw. WCD 407 am y cymeriad hwn. Fe'i henwir hefyd yn GMB 1.46n (dienw); GBF 22.12n (Hywel Foel); GGDT 11.17n (Trahaearn Brydydd Mawr); GSRh 4.2 (Rhisierdyn i Oronwy ap Tudur).

- 97 **aernerth** Llsgr. *Eilnerth*. Gellid dehongli *nerth* yn e.p., sef Nerth ap Cadarn, un o arwyr llys Arthur a grybwyllir yn y rhestr hirfaith yn chwedl Culhwch ac Olwen, gw. CO³ 8 (ll. 200). Serch hynny, awgryma'r cymeriad y dylid derbyn un o'r diwygiadau a gynigir yn G 457 d.g. *eil*¹. Y cynnig arall yw *eurnerth* ond nid yw hyn mor debygol oherwydd ceir *eurddraig* yn ddiweddarach yn y ll.

Maig Sef Maig Myngfras, aelod o dylwyth brenhinol Powys a drafodir yn TYP² 455–6 a WCD 445. Cf. 6.15, ac am gyfeiriadau ato gan feirdd eraill, cf. GBF 8.7n, 10.22n, 11.27 (Y Prydydd Bychan); GIG 37 (VIII.37), 38 (VIII.84), 46 (X.21); GGDT 6.80n (Gwilym Ddu o Arfon).

meidrawl Gw. Treigladau 114–18 am reolau treiglo a. ar ôl e.p. Yn wreiddiol, cedwid y gysefin oni bai fod yr a. yn gweithredu'n wahaniaethol. Gallai'r beirdd fanteisio ar yr hyblygrwydd hwn er mwyn y gynghanedd.

- 98 **Addaf** Am ddefnyddio Adda'n batrwm i noddwr, cf. GGLI 13.1n. Gthg. G 7 lle y rhoddir y gair hwn yn betrus dan *adaf* 'llaw'. Ni rydd orgraff y llsgr. unrhyw help i dorri'r ddadl oherwydd ceir *t* a *d* am 'd' yng nghanol gair. Ni ellir gwrthod *adaf* yn llwyr, ond bernir bod e.p. yn fwy tebygol yma o gofio hoffter Gruffudd ap Maredudd o gymharu ei noddwyr â chymeriadau hanesyddol a chwedlonol.

- 99 **aerwyp** Awgrymir yn G 13 d.g. *aer*¹ ac *ib*. 44 d.g. *arwyp* y gellid ei ddiwygio yn *arwyp*, ond gan fod modd ei ddeall fel y saif, gwrthodir y diwygiad yma.

tymp Llsgr. *twymp*. Diwygir gan ddilyn G 44 d.g. *arwyp*.

taith Cyfeiriad, o bosibl, at ymgyrch milwrol, er na nodir yr ystyr benodol hon yn GPC 3424 d.g. *taith*¹. Petrus iawn yw aralleiriad y ll. hon.

- 101 Y mae'r dehongliad o'r ll. hon yn ansicr oherwydd amwysedd *r-* yn orgraff y llsgr.

- 102 **aerglais** Gw. G 13 d.g. *aer*¹. Awgrymir yno yr ystyr 'yn dwyn cleisiau brwydr' fel posibilrwydd arall.

mad modrydaf Y mae'r diffyg treiglad yn awgrymu brawddeg enwol. Llai tebygol, efallai, yw *modrydaf* yn yr ystyr 'haid (o weny)' neu 'cwch gwenyn', gw. GPC 2472, ond os felly, gellid galw Goronwy'n 'lles / daioni[r] cwch / haid', yn cyfeirio at ei aelwyd neu ei lu.

- 103 **creuddafn** Cf. ll. 40n. Gellid cymryd *creuddafn* yn enidol neu'n

ansoddeiriol a *llafn* heb ei dreiglo ar ôl *-n*.

105 **cyfarch parch** Cf. ll. 2.

parthryw Nis rhestrir yn GPC 2696 a chynnig petrus yw'r aralleiriad a seilir ar yr ystyr 'ardal, rhanbarth' a nodir yn GPC 2694 d.g. *parth*, ac ar un o'r ystyron a roddir i *rhyw*¹ yn *ib.* 3144, sef '(peth) naturiol, arferol, priodol, neu weddus'. Fel arall, gellid meddwl am y defnydd adferfol o *parth* 'parthed', a *parth â* 'towards', ac aralleirio'r cyfan yn 'anerchiad [o] barch teilwng ei gyfeiriad' (sef 'teilwng ei wrthrych').

109 **wysg ... llifdwysg** Llsg. *wyst ... llifdwyst* yn ôl R., ond cf. ll. 3.220n am anhawster gwahaniaethu rhwng *-sc* ac *-st* yn y llsg. Dyfynnir *llifdwysc* yn G 164 d.g. *kor(y)f* heb nodi ai diwygiad ydyw neu ddehongliad amgen o'r llsg. Bid a fo am hynny, y mae angen *wysg* a *llifdwysg* yma, a hefyd *parawdrwysg* yn ll. 110, nid yn unig er mwyn y synnwyr ond hefyd er mwyn achub yr odl fewnol â *rhwysg* yn ail gymal ll. 110.

wysg Fe'i deellir yn yr ystyr 'llwybr'; naill ai y mae golud yn llifo oddi wrth Oronwy, neu y mae'r sawl sy'n mynd ato yn troedio 'llwybr [sy'n arwain at] haelioni bythol ei fendith'. Am y ddelwedd cf., efallai, CLIH 19 (59c) *Elwch llu a llwybyr arnaw*.

llifdwysg Cf. ll. 60n. A ellid 'pentyrrog ei lif'?

Cynnig J.E. Caerwyn Williams, *art.cit.* 677, ar gyfer y ll. hon yw '*liberality of a life's giving* (neu *of the ever generous*) *of the path of the host of the defender of the irrupting flow*' ond sylwer iddo hepgor *corf* o'r testun, a hynny'n groes i'w ffynhonnell, sef MA² 299b (ll. 18).

110 **parodrwysg** Gw. ll. 109n.

111 **Dyfnwal** Rhestrir nifer o gymeriadau o'r e. hwn yn G 412, ond yr un mwyaf tebygol yw Dyfnwal Moelmud. Cf. uchod 2.10n.

112 **Mordaf** Gw. WCD 483 a TYP² 5–6, 463 ar gyfer Mordaf Hael ap Serfan, un o'r Tri Hael (crybwyllir y lleill, Nudd a Rhydderch, droeon gan Ruffudd ap Maredudd). Ceir cyfeiriadau eraill ato yn 5.109 a 159 isod, a chan feirdd eraill yn GC 4.13n; GEO 1.38n (Einion Offeiriad); GSRh 3.58n (Sefnyn).

113 **Nudd** Gw. 1.11n.

115 **mael** Gair amwys. Byddai *mael*¹ 'budd, lles, mantais' neu *mael*² 'tywysog, pennaeth, arglwydd' (GPC 2305) hefyd yn bosibl yma. Ystyrier hefyd e.p., cf. WCD 437: o'r cymeriadau a enwir yno, hwyrach mai Mael ap Cunedda Wledig, a roes ei enw i Ddinmael, a Mael Maelienydd ap Cadfael yw'r rhai mwyaf tebygol. Am enghreifftiau eraill o'r gair, cf. GSRh 4.67n (Rhisieryd); GGDT 6.8 (Gwilym Ddu o Arfon); GLIG 6.55n. Gellid e.p. ym mhob un o'r rhain.

Nudd Gw. ll. 113. Ni fyddai'n amhosibl dehongli *anud* y llsg. yn

annudd ‘gorchudd’, gw. G 30 a GPC 145, o bosibl yn cyfeirio at ddillad cain Goronwy.

- 117 **gwedd** Gthg. G 641 lle yr awgrymir ‘gwedd dda, harddwch, tegwch, gweddeiddrwydd’.

angerdd Y mae gan D.M. Lloyd, ‘Geirfa Cynddelw Brydydd Mawr’, B vi (1931–3), 119–20 rai sylwadau gwerthfawr am ystyr y gair hwn mewn perthynas â barddoniaeth.

- 118 **maeth meithfrawd** Y mae’n anodd cysylltu’r ddau air hyn â gweddill y frawddeg ac fe’u trinnir fel sangiad yma. Y mae’r ffaith na all unrhyw dafod hyd at Afon Taf grybwyll arwr gwell na Goronwy yn ‘borthiant’ (*maeth*) i farn gadarnhaol yn ei gylch a fydd yn parhau am hir, neu farn a faentumir ers amser maith.

Taf E. afon, naill ai’r un sy’n rhedeg rhwng siroedd Brycheiniog a Morgannwg neu’r un sy’n rhedeg rhwng siroedd Penfro a Chaerfyrddin. Y mae’n amhosibl gwybod at ba un y cyfeirir ac nid yw o bwys mawr gan mai ‘drwy Gymru benbaladr’ yw ystyr *hyd Daf* beth bynnag. Am y ddelwedd, cf. uchod 2.43n lle yr honnir i glod Tudur ymestyn hyd at Afon Afan ym Morgannwg.

- 119 **brwysg** Ychwanegiad at y testun mewn inc gwahanol, ond y mae’n angenrheidiol ar gyfer y gynghanedd a hyd y ll.

- 123 **moddfaeth** Cf. ll. 3n. Y mae ‘porthiant arferol’ neu, efallai, ‘porthiant digonol’ yn bosibl.

- 124 **Gwynedd** Llsg. *gwy / gŷyned*. Dechreuodd y copïydd ysgrifennu *gwyned* ar ddiwedd y ll., ond yna drysodd ac ysgrifennu’r e. yn llawn ar y ll. ddilynol.

- 125 Gellid hepgor yr atalnod a chael ‘[Un a chanddo] ddarpariaeth [o] fedd [yn] ymgeledd [i] wŷr Gwynedd’.

menestri Gw. GPC 2430 lle yr awgrymir yr ystyr ‘?darpariaeth’, sy’n fwy tebygol yng nghyd-destun y ll. hon na’r posibilrwydd arall, sef ffurf l. *menestr* ‘tywalltwr diod’, gw. *ib*.

- 127 **addfwyn** Y mae’r beirdd yn aml yn cyfosod y ddwy gynneddf ar noddwr a folid fwyaf, sef ffyrnigrwydd wrth elynion a mwynder wrth gyfeillion, ond nid yw’r ystyr ‘dewr, anrhydeddus’ yn amhosibl yma, gw. GPC 32. ‘Mwyn, tyner’ yn unig a roddir yn G 10.

aergad Gthg. G 12 d.g. *aer*¹ ‘brwydr, ymladdfa’.

- 130 **hawl** Llsg. *habd*. Ceir y diwygiad yn G 768 d.g. *hawl*¹ ac fe’i derbynnir yma ar sail y synnwyr a’r gynghanedd.

- 131 **llawrodded** GPC 2119 ‘?anrheg, llawrodd; hael’, a cf. 2.22n. Byddai e.p. yn bosibl yma, ond ymddengys fod Gruffudd ap Maredudd yn gwahaniaethu rhwng yr e.p. *Llawfrodedd* ar y naill law (cf. ll. 19n), a’r

a. neu'r e.c. *llawrodded* ar y llall.

133–5 **gwâr wrth wâr ... gwrdd wrth wrdd ... gŵr wrth wŵr** Cf. GCBM ii, 4.145–51.

135 **Eilifri** Gw. G 469 d.g. *Elifri*, a WCD 243. Defnyddir yr e. gan y beirdd, e.e., GMB 26.16n (Einion ap Gwalchmai); GCBM ii, 9.82n; GLILL 2.49n; GBF 23.20n (Hywel Foel), 53.30n (Bleddyn Fardd). Fe'i henwir ddwywaith hefyd yn y rhamant 'Geraint ab Erbin' lle y'i gelwir yn *penn maccwyf* i Arthur, gw. R.L. Thomson: Gereint 2 (ll. 47) a 21 (ll. 603).

135–6 **glew / Gorf** Llsg. *lebgoryf* a nod ar ei ôl i ddynodi diwedd ll. fydryddol. Y mae'n eglur ar sail nifer y sillafau, yr odl rhwng y gair cyrch a'r ll. nesaf, a'r cymeriad na ellir derbyn hyn, a bod angen torri'r gair yn ddau a rhoi *gorf* yn y ll. nesaf. Cf. hefyd isod ll. 150n lle y gwelir dryswch cyffelyb. Y mae'n ddiddorol mai ffurf dreigledig yw'r maen tramgwydd a ddrysodd y copïydd yn y ddau achos, ac yn sicr nid yw geiriau treigledig yn gyffredin ar ddechrau ll. Yn unol â'r dehongliad hwn, cywirer y fersiwn o'r ll. a ddyfynnir yn WCD 243 a gwrthoder y cyfieithiad '*lion-bodied*' a gynigir yno.

136 Ll. wythsill oni chyfrifir llafariad ymwithiol yn *gorf* neu *helmdew*.

139 **Teifi** Nid yw'n sicr at beth y cyfeirir yn y ll. hon. Yr oedd gan dad ac ewythr Goronwy diroedd yng Ngheredigion, gw. y Rhagymadrodd, td. 12. Dywedir yn AWH na ddaeth y tiroedd hyn yn nhrefgorddau Cellan, Rhydonnen a Llechweddlwyfan i ddwylo Goronwy, ond gthg. GIG 29 (VI.67) lle y gelwir Goronwy yn *Cellan iôr*.

142 **Nudd** Fe'i crybwyllwyd eisoes yn llau. 113n, 115n.

143 **Rholant** Cf. ll. 48n.

144 **fflisgiad** Gair anh. Awgrymir '?gwisg, gwisgiad' yn G 507 a GPC 1296, ond hon yw'r unig enghraifft a ddyfynnir. O ran y terfyniad, gall mai e. gweithredydd ydyw. Fodd bynnag, nid yw'n amhosibl mai *gwyrdd wisgiad* oedd y darlleniad gwreiddiol.

145 **gwaywddur bâr aesbar** Dehonglir *aesbar* yn gyfansoddair o *aes* + *pâr* 'gwaywffon' yn G 13 d.g. *aes*, a rhoddir yno'r ystyr betrus 'gwayw yn amddiffyn'. Dilynir hyn yn GPC 39. Y mae'n anodd, er hynny, dderbyn bod yr un gair yn digwydd ddwywaith yn yr un ll. a bod gair cyfystyr, sef *gwayw*, hefyd yn bresennol. Yma, cymerir mai ail elfen *aesbar* yw *pâr*^A 'parod, wedi ei baratoi, wedi ei wneud', gw. GPC 2684.

147 **Beli—Hir** Cf. ll. 64n.

150 **crair** Fe'i trinnir yn wallus fel rhan o'r ll. flaenorol yn y llsg. Cf. ll. 135n.

151 **egori** Ceir yr ystyr 'agor' yn G 449 ac 'agor, peri bod yn agored ...

dadblygu, datguddio, datod' yn GPC 1179. Â'r defnydd ohono yma gellir cymharu'r e. *egoriad* yn GSRh 4.10n (Rhisierdyn) *traul egoriad* 'un sy'n dechrau dinistr' a GLGC 124 (52.52) *Agoriad rhyfel a gwayw eirias*.

152 **gwŷd** Fe'i dehonglir yn e. megis yn G 728 a GPC 1750, ond gallai fod yn a. yma ac iddo'r ystyron 'niweidiol, creulon, anfad'.

154 **brwydr** Llsg. *brwydy*, yn cynganeddu â *bradwyr*.

155 **gweilgi** Cyfeiria weithiau at storm fôr, gw. G 647 a GPC 1619.

157 **bri** Llsg. *vwri* a ddilewyd â marc coch. Ysgrifennwyd *vri* ar ymyl y tudalen yn ôl R, ond y mae darlleniad y llsg. yn aneglur braidd a gall mai *bri* (didreiglâd) ydyw mewn gwirionedd, sef yr hyn a awgrymir gan y gynghanedd.

158 **cyrdd i fyrdd** Y mae'n anodd gwybod beth yw ystyr *cyrdd*, ai 'cerddi' ynteu 'lluoedd', cf. ll. 11n. Y mae y *vyrdd* y llsg. hefyd yn amwys, a gellid *ei fyrdd*; os felly, ceid 'noddwr cerddi ei liaws'.

barddoni Sef 'barddoniaeth, prydyddiaeth' yn ôl G 52, a dilynir hynny yma. Gthg. GPC 258 lle yr awgrymir e.ll. 'beirdd, prydyddion' ar gyfer yr enghraifft hon yn unig, yn ogystal â rhai geiriadurol. Gwrthodir hyn gan ei bod yn bosibl i'r geiriadurwyr godi'r ystyr ar sail y ll. hon yn unig.

159 **Benlli Gawr** Gw. G 55; WCD 40; hefyd GBF 23.12n (Hywel Foel) a GC 11.38n, 160n.

161 **gosgordd** Noder yr awgrym a geir yn G 579 y dylid adfer y ffurf hŷn *gwsogordd* yma ac yn ll. 162 er mwyn y cymeriad.

162 **gosgorddion** Dilynir G 579 a'i ddeall yn ll. *gosgordd*, ond gall hefyd mai cyfansoddair ydyw o *gosgordd* + *iôn* 'arglwydd'. Cf. ll. 161n am y cymeriad.

Cynon Sef Cynon mab Clydno Eidyn, gw. G 260 d.g. *Kynon*¹; TYP² 323–4; WCD 183–4; ac yn arbennig Rachel Bromwich yn AH 151–64. Dywedir iddo fod yn un, os nad yr unig un, a ddihangodd o gyflafan y Gododdin, ac yn nes ymlaen fe'i hymgorfforwyd yn y traddodiadau Arthuriaidd: yn rhamant Owain, ef yw'r cyntaf i brofi anturiaeth y ffynnon, yn cyfateb i Calogrenant yn fersiwn Chrétien de Troyes o'r hanes. Fe'i crybwyllir hefyd yn GGrG 8.38n (Gruffudd ap Tudur Goch) a GSRh 6.106n (Rhisierdyn).

165 Ll. amwys ei chystrawen. Cymerir *rhwysg gwŷr*—*hael addfwyn* yn ddisgrifiad o Oronwy, ond gall yn hawdd mai Crist a ddisgrifir.

167 **Llŷr** Gw. 2.7n.

5

Ceir dau destun o'r gerdd hon yn Llyfr Coch Hergest, sef E¹ a E². Y mae'r ddau yn llaw Hywel Fychan, ac nid yw'r berthynas rhyngddynt yn eglur. Y mae E¹ yn fyrrach o gryn dipyn nag E² a hefyd yn rhoi'r caniadau mewn trefn wahanol. Egyr testun E¹ gyda llinellau 89–104, ac yna daw bloc o dri chaniad sy'n gyffredin i'r ddau destun, sef llinellau 1–68, ond ysgrifennwyd llinellau 1–48 yn ddi-dor yn E¹ fel petaent yn ffurfio un caniad yn lle dau. Diwedda testun E¹ gyda llinellau 133–44; y mae gweddill y deunydd a geir yn E² yn absennol. Y mae'n anodd canfod unrhyw drefn yn E¹, ond y mae'r drefn yn E² yn ddadlennol. Trefnir y caniadau yno mewn parau o ganiadau cyhyd, a hynny gan ddechrau â'r rhai hwyaf a gorffen â'r rhai byrraf. Fel hyn y mae'r drefn: caniadau 1 a 2 (6 englyn yr un), caniadau 3 a 4 (5 englyn yr un), caniadau 5 a 6 (4 englyn yr un), caniadau 7 ac 8 (3 englyn yr un) a chaniadau 9 a 10 (2 englyn yr un). Yn sicr, nid cyd-ddigwyddiad yw hyn, a dichon mai'r bardd a fu'n gyfrifol am y trefniant, er nad yw'n gwbl amhosibl mai ffrwyth mympwy copïydd ydyw.

Ychydig o ddarlleniadau gwahanol a geir yn y ddau destun, y rhan fwyaf ohonynt yn wallau copïo syml, ac nid oes unrhyw beth yn eu plith a allai awgrymu bod cynsail y naill destun yn wahanol iawn i gynsail y llall; yn wir, oni bai am y gwahaniaethau yn nhrefn a hyd y ddau destun, prin y byddai angen meddwl bod iddynt ddwy gynsail wahanol o gwbl. Nid yw'n amhosibl, felly, fod testun E¹ yn cynnwys detholiad a wnaeth y copïydd o'r deunydd a oedd ar gael yn ei gynsail, a'i fod yn ddiweddarach wedi penderfynu codi'r gerdd gyfan (dyna destun E² felly). Sylwer bod dau gopi o gerdd 6 yn y Llyfr Coch yn ogystal (trafodir hynny uchod td. 19).

Nid yw'r cymeriad o gymorth mawr wrth bennu trefn yr englynion. Nid oes cyrch-gymeriad rhwng yr englynion nac ychwaith rhwng y caniadau. Ceir cymeriad mewn englynion unigol sydd weithiau'n ymestyn dros nifer ohonynt. Egyr caniadau 1 a 2 â'r geiriau *O'th hiraint* a chaniad 3 gydag *Os claf*: y tebygrwydd hwn, efallai, sy'n esbonio paham y'u cedwir ynghyd yn E¹ ac yn E² fel ei gilydd.

Posibilrwydd arall y mae'n werth ei grybwyll yw nad yw'r englynion hyn yn ffurfio 'cerdd' fel y cyfryw. Os oedd Goronwy'n sâl am amser maith, fel yr awgrymir, gall fod y bardd wedi cyfansoddi nifer o gyfresi o englynion ar wahanol adegau yn ystod ei salwch. Os felly, casgliad o gerddi yw'r englynion hyn yn hytrach na cherdd unigol. Ond gan nad yw cynsail (neu gynseiliau) Hywel Fychan wedi goroesi, ofer yw dyfalu yn ei chylch. At bwrpas y golygiad presennol, dilynir testun E², y testun llawnaf, o ran hyd a threfn, a hefyd o ran y darlleniadau unigol onid oes rheswm da dros dderbyn darlleniadau yn E¹.

Ymbil ar Grist a Mair am iacháu Goronwy yw sylwedd y gerdd hon. Ceir elfen gref o foliant i Oronwy a defnyddir hefyd nifer o dopoi'r canu

marwnad er mwyn cyfleu effaith andwyol afiechyd ei noddwr ar gyflwr y bardd ei hun: y mae'r bardd yn ochneidio ac yn wylofain, nid oes neb bellach i'w anrhegu, ac y mae'n marw o alar. Cyf sodir gwrhydri Goronwy yn y gorffennol â'i wendid presennol, yn union fel y gwneir mewn marwnadau. Fel yn achos y cerddi eraill yn y gyfrol hon, troellog ac ailadroddus yw adeiledd y gerdd. Dychwel y bardd dro ar ôl tro at yr un pynciau, gan foli Goronwy, galaru am ei salwch ac ymbil am iddo gael ei iacháu. Ceir o leiaf un rhagflaenydd i'r gerdd iacháu hon yng ngwaith Beirdd y Tywysogion, sef yr englynion a ganodd Prydydd y Moch i ofyn am iachad i Fadog ap Gruffudd Maelor (GLILL cerdd 27).

Mesur: englyn unodl union.

Caniad 1 (llau. 1–24):	prifodl <i>-ad</i>
Caniad 2 (llau. 25–48):	prifodl <i>-yd</i>
Caniad 3 (llau. 49–68):	prifodl <i>-edd</i>
Caniad 4 (llau. 69–88):	prifodl <i>-i</i>
Caniad 5 (llau. 89–104):	prifodl <i>-awl</i>
Caniad 6 (llau. 105–20):	prifodl <i>-awd</i>
Caniad 7 (llau. 121–32):	prifodl <i>-ar</i>
Caniad 8 (llau. 133–44):	prifodl <i>-ur</i>
Caniad 9 (llau. 145–52):	prifodl <i>-air</i>
Caniad 10 (llau. 153–60):	prifodl <i>-af</i>

Ceir defnydd helaeth o gymeriad drwy'r gerdd sydd weithiau yn ymestyn dros nifer o englynion.

Golygydd y gerdd o'r blaen yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 146–57.

2 **cyrchiad** Llsgr. E¹ *gychyat*, E² *gychyat* (ac *r* wedi ei hychwanegu uwchben). Y mae'n ddiidorol fod y copïydd wedi baglu dros yr un llythyren yn y ddau gopi o'r testun. Os nad yw'r ail yn gopi o'r cyntaf (yn y rhannau sy'n gyffredin i'r ddau), yna efallai fod hyn yn awgrymu cysail gyffredin ac ynddi wall yn y man hwn.

7 **cyngaws** Dilynir G 224 d.g. *kynghaws* (*kyngaws*) ynglŷn â'r ystyr yma, a cf. GPC 736. Gellid hefyd 'brwydr'.

pyyll echyngiad Cyfeiriad at Oronwy fel un sy'n arfer cyfyngu ar ei elynion mewn brwydr, fe ymddengys, ond gellid hefyd 'gwasgfa [i'r] meddwl' yn disgrifio'r gofid yn sgil salwch Goronwy.

8 **cyngor** Dilynir G 224 d.g. *kynghor* (*kyngor*), a cf. GPC 740. Gellid hefyd 'cyngor' neu 'ymgyngoriad'.

mydr rhagor mad Neu *mydr ragor mad* '[un a chennyf] ragoriaeth ffortunus [a folir mewn] cân'.

9 **claf** Ni chawn unrhyw fanylion am natur anhwylder Goronwy ar wahân i'r ffaith ei fod yn boenus (ll. 14). Ceir *claf* weithiau am y gwahanglwyf

yn benodol, cf. G 143 a GPC 487, ond dadleua Nicholas Jacobs nad dyna ei ystyr arferol mewn Cym.C., gw. ‘Clefyd Abercuog’, B xxxix (1992), 56–70.

- 11 **gwynllawr** Am *llawr* ‘arwr’, gw. GPC 2118 d.g. *llawr*²; gthg. G 745 d.g. *gwynn*² lle yr awgrymir ‘daear neu ardal dirion, tir hardd’, a hefyd GPC 1777. A ellid ‘un hardd ei wlad’?
- 13 **Gwriad** Gw. G 710 d.g. *Gwriad*³, a hefyd uchod 3.190n.
penadur Y mae angen cadw’r gysefin er mwyn y gynghanedd. Am beidio â threiglo e.c. mewn cyfodiad ag e.p., gw. Treigladau 122–3.
- 16 **doeth** Disgwyliid *ddoeth*, gw. Treigladau 31 am gyfres o ansoddeiriau o flaen e., ond *doeth* sy’n angenrheidiol ar gyfer y gynghanedd. Nodir *ib.* ambell enghraifft o beidio â threiglo a. yn y cyd-destun hwn.
- 20 **gwasgawd** Yn y cyd-destun y mae’r ystyron ychwanegol ‘mantell’ a ‘gwisg’ hefyd yn berthnasol, gw. G 628 a GPC 1596 d.g. *gwasgod*².
gwad Gthg. G 596 a GPC 1542 lle y’i deellir yn a. ‘a naceir neu a wedir, gwrthodedig’. Gellid hefyd ‘ni fu gwrthodiad [i] farddoniaeth [gennyt]’.
- 21 Neu ‘[Am] dy fod, ymosodwr [mewn] brwydr sy’n peri lladdfa enbyd [â’th] ergyd ddewr’.
- 24 Gellid *Mair a wŷr, mawr a irad!* ‘Mair a wŷr, gofid mawr [ydyw]!’ Gyda hyn cf., o bosibl, yr ebychiad cyffredin *Duw a wŷr*, G 398 a GPC 1101.
- 27–32 Cymerir y llau. hyn yn barhad o’r synnwyr yn llau. 25–6: y mae pawb yn drist (*nid hyfryd*) o gofio priodoleddau gwych Goronwy. Os felly, sangiad yw *ni’th ddaw gwaith gwŷd* yn ll. 28. Posibilrwydd arall, llai tebygol efallai, yw cymryd mai *ni’th ddaw gwaith gwŷd* yw’r prif gymal a bod gweddill y llau. hyn yn ddibynnol arno: os felly, dywedir bod priodoleddau gwych Goronwy yn ei atal rhag *gwaith gwŷd*.
- 28 **ni’th ddaw** Llsgr. E¹ *nythaw*. Caledir *dd* yn *th* ar ôl *th*, gw. J. Morris-Jones: CD 207–8.
gwaith gwŷd Dywedir naill ai bod Goronwy yn ymatal rhag cyflawni gweithred ysgeler neu ynteu na fyddai neb yn beiddio ei gam-drin.
- 33 **Echel** Llsgr. E² *ochel*. Y mae’n anodd cael synnwyr o’r darlleniad yn E² ac y mae’n debygol mai camgymeriad ydyw yn sgil ysgrifennu *och* ar ddechrau’r ll. Eto, cf. 7.22n lle y ceir y ffurf *ochyl*. Am *Echel*, gw. 3.136n.
- 34 **gwnêl** Gall mai *gwander* yn ll. 33 yw’r goddrych.
trais ddiofryd Gellid hefyd *trais diofryd* ‘gormes ymwrthodiad [ag ef]’, a cf. 3.20, 186 am ddefnyddio’r gair *trais* mewn cyd-destun tebyg. Cyfeirir yn drosiadol at y posibilrwydd y gallai Goronwy farw.
- 36 **gryd** Nis ceir yn E¹, ond y mae ei angen ar gyfer yr odl a hyd y ll.

- 37 **rhwy** Fe'i deellir yn betrus yn adf. gyda'r ystyr 'gormodol, (gor)helaeth; mawr iawn, eithafol; gorchestol', gw. GPC 3110–1 d.g. *rhwy*¹. Y mae'r diffyg rh.pth. rhwng *Rhên* a *rhwy* yn anarferol, ond cf. Treigladau 174n a 368n, hefyd GLIF 2.27 *milwr molaf*. Gellid hefyd deall *rhwy* yn gyfuniad o'r gn. rhagferfol *rhy* + rh.m. 3 un.gwrth., gw. GPC 3122–3 d.g. *rhy*². Ymddengys o'r enghreifftiau yng ngwaith Beirdd y Tywysogion fod y ffurf *rhwy* yn gallu peri treiglad meddal i'r f. sy'n ei dilyn, ond nad yw'r treiglad hwn yn rheolaidd: cf. GLIF 10.10; GCBM i 21.90; GLIL1 18.22 a 23.133; a gthg. GCBM ii 13.13; GLIL1 5.61 a 26.58. Y trydydd posibilrwydd yw *rhwy*³, sef amrywiad ar *rhwyf*² 'brenin, arglwydd', GPC 3114. Rhoddai hyn 'Molaf bennaeth [ac] arglwydd.'
- 39 **rhad** Llsgr. E² *irat*, a wrthodir yma ar sail hyd y ll. a'r cymeriad.
- 41 **a'm arglwydd** Am beidio ag arfer *h-* ar ôl y rh.m. 'm, gw. Treigladau 153. Gthg. G 20 lle y dehonglir *am* yn ardd.; rhoddai hynny 'Rhyfedd yw fy mywyd, fy myd oherwydd arglwydd / A chlwyf mawr i'th ran.'
- 43 **aegrwydr** Llsgr. E² *oegrwydyr*. Gellid, efallai, 'cyrch anhyfryd, yn peri tristwch', cf. GPC 2624 am ystyron ffigurol *oer*; ond derbynnir darlleniad E¹ ar sail yr enghreifftiau eraill o *aegrwydr* yng ngwaith Gruffudd ap Maredudd, e.e., 3.12 a 4.16. Ni nodir *oegrwydr* yn G 181 d.g. *crwyd(v)r* nac yn GPC 2626.
- ergryd** Llsgr. E¹ *ergyt*. Dilynir E² sy'n rhoi cystal synnwyr a chynghanedd gryfach.
- 45 **mawredd leindy—hydr** Fe'i cymerir gydag *Eurgrair Mair*, ond gallai hefyd fod yn gyfarchiad i Oronwy, a grybwyllir yn y ll. nesaf.
- 48 **beirdd byd** Cyfuniad cyffredin, cf., e.e., CA 12 (ll. 285); GLIF 1.171 (Llywelyn Fardd I); GBF 6.11 (Y Prydydd Bychan).
- 49 **Garannog** Ni wyddys llawer amdano, gw. WCD 269 a GCBM ii, 5.92n. Ceir hefyd yr a. *carannog* 'hygar, annwyl', cf. G 111 a GPC 422, ac nid yw'n amhosibl mai dyna sydd yn y ll. hon, ond derbynnir yr e.p. ar sail y cyfeiriad digamsyniol ato yn ll. 122n.
- 50 **crair** Cynigir yr ystyron '?cadernid, gwarant' ar gyfer yr enghraifft hon yn G 172–3, cf. GPC 578–9. Eto, gellir derbyn yr ystyr arferol yn ddi-rwystr yma.
- 52 **haeddai** Rhoddir yr enghraifft hon dan 'haeddu, teilyngu, rhyglyddu' yn G 759, ond nodir yno hefyd yr ystyron 'ymgyrraedd neu ymestyn am, ceisio', cf. GPC 1803. Ceir dwy enghraifft debyg yng ngwaith Beirdd y Tywysogion: GLIF 2.63 *Mi a uum genh6ch, ny haedwch hed6ch* (Llywelyn Fardd I) a GCBM i, 21.136 *Gorsaf teyrnet het ny haetei*, ac yn y ddau achos, aralleirir *haeddu* â'r f. 'ceisio', fel a wneir yma. Noder, serch hynny, y gall fod amwysedd bwriadol rhwng hyn a

- 'ni fyddai'n haeddu gorffwys [yn y bedd]', h.y. ni fyddai Goronwy yn haeddu marw.
- 53 **dig tremyg trwm ledfrydedd** Gellid hefyd 'chwerwedd dirmygus, tristwch dwys', 'chwerwedd [yn sgil] dirmyg, tristwch dwys' neu 'dicter [a] gwatwar [a] thristwch dwys'. Gofyn y mae'r bardd am i Fair beidio â dirmygu ei gais am iacháu Goronwy.
- 56 **edmyg wledig wledd** Cedwir y darlleniad yn betrus, ond efallai fod modd adfer *gwledig gwledd*. Rhoddai hynny ystyr rwyddach, sef 'Ynghylch clod arglwydd gwledd'. Y mae'n hawdd gweld sut y gellid drysu yn y ll. hon gyda *g* ar ddiwedd dau air.
- 57 **och na medd—fy mryd** Llsg. E¹E² *ochwna med vymryt*. Diwygir er mwyn yr ystyr. *Iechyd* yn ll. 60 yw gwrth. *medd*. Am beidio â threiglo *m* ar ôl *na*, gw. Treigladau 360.
- 59 **Echel** Cf. ll. 33n, 3.136n.
- 62 **nid rhyfedd!** Cydier hyn wrth *anhyfryd i'r byd* yn y ll. flaenorol: dywedir nad yw'n syndod fod afiechyd Goronwy yn peri tristwch i'r byd.
- 63 **eryf ymgeledd** Y mae'r ll. yn hir o sillaf. Yn G 38 d.g. *arf* awgrymir diwygio *eryf* yn *eirf*, ll. *arf*; os felly, *eirf ymgeledd* '[un yn cynnig] nawdd [â'i] arfau'. Eto, y mae *eryf* yn digwydd yn E¹ a E² ac yn rhoi synnwyr, a derbynir yr enghraifft hon yn GPC 1230. Am y gair *eryf*, cf. GCBM ii, 4.83 (dyfynnir y ll. hon yn ll. 84n isod).
- 67 **o'i** Llsg. E¹ *o*. Rhoddai hyn 'Arglwydd rhagorol o dras gwŷr bonheddig'.
- 68 **bwlch** Llsg. E¹ *bolch*. Y mae'r ddau ddarlleniad yn amlygu amrywiadau ar y gystrawen a. + rh. + e. yn dilyn e. y mae'n ei oleddfu. Yn wreiddiol, cenedl yr ail e. a bennai genedl yr a., a dyna a geir yn E¹ yma, ond gyda threigl amser daethpwyd i gysylltu'r a. yn agosach â'r e. cyntaf, cf. P. MacCana, 'An Old Nominal Relative Sentence in Welsh', *Celtica*, vii (1966), 91–115. Cymhlethir yr enghraifft hon gan y ffaith fod *cledd*¹ wedi ei nodi'n eg. yn unig yn G 144 a GPC 443, ond dengys yr enghreifftiau o'r a. *bolchgledd* a ddyfynnir yn G 84 d.g. *bwlch* fod *cledd*¹ yn gallu bod yn eb. ar adegau (yr awgrym a roddir yno yw mai dylanwad *bolchlafn* sy'n gyfrifol am hyn).
- 69–88 Ni cheir y llau. hyn yn E¹.
- 70 Gellid, efallai, 'Mewn afiechyd yn dioddef perygl'.
- 72 **aneirdd** Am y cysyniad, cf. GSRh 6.23–4 *Aneirdd yw ei feirdd o'i fod / Yn ngraen fedd, yng ngro yn fud* (Marwnad Hywel ap Gruffudd gan Risierdyn).
- 73 **pum weli** Y pum clwyf a ddioddefodd Crist yn ystod y Croeshoeliad, sef yn Ei ddwylo, yn Ei draed ac yn Ei ystlys lle y'i trywanwyd â gwaywffon.

- 77 **armes** Nodir yn ychwanegol yr ystyron ‘marwnad, trallod, colled’ yn G 42 a cf. GPC 208 ‘trychineb, trallod, colled’. Gall fod amwysedd bwriadol yma.
- Rhodri** Y mae’n debygol mai cyfeirio a wneir at Rodri Mawr, brenin Gwynedd a laddwyd gan y Saeson yn 878; cf. WCD 557–9; GLIG 6.20n; GIG 14 (III.67).
- 81 **Benlli—Gawr** Gw. 4.159n.
- 83 **Beli** Cf. 4.64n. Y mae’r cyfuniad â *paladr* yn awgrymu mai Beli Mawr a olygir yma hefyd, ond gan fod Benlli Gawr wedi ei grybwyll ddwy l. ynghynt, gw. ll. 81n, ni ellir anghofio Beli ap Benlli Gawr, gw. WCD 37.
- 84 **arf gwinwledd** Cf., efallai, GCBM ii, 4.83n *Aryferyferyr Nanhoeuein* lle y disgrifir yr arf yn offeryn i ddarparu gwledd (o waed). Y mae’r ddelwedd yn y ll. bresennol yn llai penodol (oni bai fod ystyr drosiadol i *gwinwledd*).
- 85 **Rhydderch** Cf. 1.14n.
- 87 Neu *Mur ddur ddâr, ddewrfrwysg rwysg ri* ‘Arglwydd duriol [megis] mur, pennaeth [a chanddo] rwysg dewr a phybyr’.
- 88 **Nudd** Cf. 1.11n.
- 89 **nifer** Llsg. E² *niuer niuer*.
aur anaw Gallai hefyd fod yn ddisgrifiad o Oronwy yn ‘un euraid [ei] gyfoeth’.
- 90 **Greidiawl** Cf. 4.27n.
- 92 **tawl** Gair amwys. Yn ôl GPC 3458 d.g. *tawl*¹ ceir yr ystyron ‘arbediad, cyniliad, taliad, hepgoriad; ataliad, peidiad; lleihad, gostyngiad; mesur, terfyn; rhan, cyfran’. Yn GEO 1.26 aralleirir *Deifr dawl, ail Greidawl wrawl wryd* yn ‘yn lleihau[’r] Saeson, un megis Greidiol o wrhydri arwrol’. Ymddengys ar sail hyn y gallai *tawl* yn y ll. bresennol gyfeirio at ryw niwed a wneir i’r gelyn, ond efallai y gellid hefyd ‘Un teilwng [ei] ran yn darostwng gwŷr cadarn’.
- 93 **Echel** Cf. ll. 33n, 3.136n.
greddfawl Am y diffyg treigladd, cf. 4.97n.
- 97 **Croes ... Crog** Dau air cyfystyr yma, fe ymddengys, ond yn ôl GPC 608 gall *crog* gyfeirio at y weithred o ddiennyddio rhywun yn ogystal â’r ddyfais ei hun, cf. GDLI 121 (53.80). Ni nodir yr ystyr hon yn G 178–9.
- 99 Gofelir bod priod swyddogaethau Crist a Mair yn cael eu cadw ar wahân. Fe’i hystyrid yn briodol ymbil ar y Forwyn Fair i gefnogi cais a wnaed i’w Mab, ond Ef yn unig a feddai ar y gallu i benderfynu a fyddai’r cais yn llwyddo.

- 100 **cannwyll** Delwedd gyffredin yn y canu ar gyfer dynion a merched fel ei gilydd, e.e., 3.42, 4.17, 36; GLIG 12.11 (am Leucu Llwyd). Am ei defnyddio mewn perthynas â'r Forwyn Fair, cf. GC 10.16n, 18n, a sylwer bod cysylltiad agos rhwng y Forwyn a chanhwyllau yn seremonïau'r eglwys ar Ddydd Gŵyl Puredigaeth Mair, a adwaenir hefyd fel Dydd Gŵyl Mair y Canhwyllau (2 Chwefror).
- 101 **cadr** Llsg. E¹ *ked*[] a'r gweddill yn annarllenadwy oherwydd staen. Anodd yw dyfalu beth a allai fod wedi bod yma, a sylwer bod darlleniad E² yn rhoi synnwyr a nifer reolaidd o sillafau yn y ll.
- 103 **gwawl** Y mae'r darlleniad yn E¹, sef *gŵywaöl*, yn dywyll ac yn tarfu ar reoleidd-dra sillafog y ll. Derbynnir darlleniad E² yn hyderus. Nid yw'n amhosibl mai e.p. a geir yma, cf. G 636 d.g. *Gwawl²* a WCD 308, ond y mae'n anodd cael enghraifft sicr arall yn y farddoniaeth, felly dilynir G 635–6 d.g. *gwawl¹* a'i gymryd yn e.c.
- 104 **glew** Neu *llew*: amhosibl yw penderfynu pa un ohonynt sydd yma, ac nid yw o bwys mawr ar gyfer yr ystyr.
llyw Llsg. E¹ *le*, sef camgymeriad a wnaed, fe ymddengys, ar sail y gair *lew* a geir yn gynharach yn y ll., a gellir derbyn darlleniad E² yn hyderus.
- 105–32 Nis ceir yn E¹.
- 105 **hiroedl** E. yn ôl GPC 1873 d.g. *hirhoedl*, lle y nodir yr enghraifft hon, ond y mae'r gystrawen yn rhwyddach o'i ddeall yn a. yma. Gellid, efallai, 'yn gadarn [ei] einioes hir'.
- gwaisg** Llsg. E² *gŵeist*. Awgrymir y diwygiad yn G 650 d.g. *gweisc¹* ac y mae ei angen ar gyfer y gynghanedd.
- 108 **Rholant** Gw. 4.48n.
uthr E.p. o bosibl, cf. 2.11n.
- 109 **Mordaf** Gw. 4.112n.
- 111 **mâl molawd** Neu 'teyrnged / caboledig yw[?r] moliant', gw. GPC 111 d.g. *mâl¹* a *mâl²* am yr ystyron posibl. Gellid hefyd hepgor yr atalnod ac aralleirio'r ll. gyfan 'Ochenaid rhag gofid am [un sy'n haeddu] taliad o foliant'. Llai tebygol yw 'gofid am [golli] taliad [am] foliant'.
- 112 **Nudd** Fe'i crybwyllwyd eisoes yn ll. 88n.
nawd Ceir *nawd* a *gnawd* yn yr ystyr 'natur', cf. G 538 d.g. *gnawt²* a GPC 1415 a 2556.
- 115 **nwyf** Yn GPC 2600 d.g. *nwyf¹* cynigir 'teimlad (cryf), angerdd, chwant (cnawdol); llawenydd, dedwyddyd; asbri, bywiogrwydd, ynni, egni'. Gellid, efallai, estyn ychydig ar hyn ac aralleirio'r ll. yn 'Er mwyn lleddfu clefyd [llawn] dwyster cystudd'.
- 117 **gwarawd** Fe'i rhestrir yn G 621 d.g. *gwaret* yn ffurf 2 un.grch., gan

ddyfynnu'r enghraifft hon yn unig. Derbynnir hyn yn betrus iawn yma, ond dylid nodi mai fel 3 un.grff.myn. yn unig y cydnabyddir y ffurf hon yn GPC 1579 d.g. *gwarawd*²; felly hefyd WG 370 a GMW 124. Ni thycia'r amser grff. yma ac y mae'n anodd hefyd cael synnwyr o'i ddeall yn e. 'gwaredigaeth, iachawdwriaeth, cadwraeth, achubiaeth', cf. G 618 d.g. *gwarawt*¹ a GPC *l.c.* d.g. *gwarawd*¹. A ellid 'Goronwy [sy'n dod â] gwaredigaeth'? Os felly, y tebyg yw mai cyfarch Goronwy ac nid Duw a wna'r geiriau *eurwawr cywir gwir* hefyd.

Posibilrwydd arall yw cyfansoddair o *gwâr + rhawd*. Yn ôl GPC 3040–1 ceir *rhawd*¹ 'cwrs, hynt' a *rhawd*² 'nifer ... llu'. Ymddengys nad ardystir y cyntaf tan y 19g., ond awgrymir yno y gellid, o bosibl, briodoli rhai o'r enghreifftiau a restrir o dan *rhawd*² i *rhawd*¹. Byddai 'Goronwy mwyn ei hynt' neu 'Goronwy mwyn ei lu' yn rhoi synnwyr digonol. Cf. hefyd 4.71n.

- 118 **Aur enaid ei giwdawd** Cf. GSRh 7.42n *Aur enaid yr ynys* a GGLl 15.5 *Aur enaid oedd i'r ynys*.
- 121 Neu 'Cyfarchiad llon [i un a chando] waywffon brwydr rhagorol ei barch'.
- aerbar** Gellid hefyd 'yn achosi brwydr', cf. GPC 37 d.g. *aerbar*² ac uchod 3.42n (ni nodir ystyr yn G 12 d.g. *aer*¹).
- 122 **Garannog Glewddigar** Cf. ll. 49n.
- 124 **dwyreog** Llsg. E² *dbyredauc*. Diwygir ar sail ystyr, gan ddilyn G 404 d.g. *dwyreawc* 'yn cyfodi, yn goresgyn' a GPC 1111. Cf. GMB 9.1n *Mochddwyreawg huan haf dyffestin*.
- 125 **hoedl hawster** Neu 'einioes [lawn] esmwythyd'.
- 126 **Ulcasar** Cf. 4.56n.
- 127 **neidiad** Dilynir GPC 2564 a chadw darlleniad y llsg. am ei fod yn cynnig synnwyr digonol, ond gthg. GPC 1636 d.g. *gwengad* lle yr awgrymir ei ddiwygio yn [f]eiddiad.
- gwengad** E.c. yn ôl GPC *l.c.* a G 745 d.g. *gwynn*², ond cf. *ib.* 660 am ei ddefnyddio'n e.p.
- 128 **hygost** Gw. GPC 1996 'yn gwario llawer, mawr ei draul'. O estyn ychydig ar yr ail ystyr gellid 'dicter mawr costus iawn [i'r gelyn]', a cf. uchod 3.7 am enghraifft o *cost* mewn ystyr negyddol.
- 129–30 O gydio *bryd wrth cyfyd* gellir 'Y mae[r] meddwl [am] roddwr rhyfelgar yn ysgogi gennym yn hirfaith / Ochenaid druenus.'
- echwynnwr** G 437 d.g. *echwyn* 'rhoddwr yn fenthyg', a cf. GPC 1163. Cymerir yn betrus mai 'rhoddwr' yw ystyr y gair yma.
- 132 **Geraint** Cf. 3.40n.
- 133 **Owain** Cf. 3.202n.

- 134 **Arthur** Am gyfeiriadau'r beirdd ato, gw. G 43, WCD 26–9 a TYP² 274–9.
- 139 Llsgr. E² *ath el otheint atholur*, a gywirwyd drwy roi *d*, *h* a *d* uwchben. Ni wna'r orgraff ond dangos y calediad sy'n naturiol ar lafar ac a dderbynnir gan reolau'r gynghanedd, cf. ll. 28n a J. Morris-Jones: CD 207–8.
- 143 **arfog** Llsgr. E¹ *aruot*. Rhoddai hynny 'gair [mewn] brwydr' neu '[a'i] air [yn] ergyd', ond derbynnir darlleniad E² am fod modd cael synnwyr ohono. Hawdd oedd cymysgu rhwng *-t* a *-c* ar ddiwedd gair, cf. ll. 105n.
Paredur Cf. 3.59n.
- 144 **aerddurfyng** Llsgr. E¹ *aer dirvyng*. Nodir *diruyng* yn amrywiad ar *duryng* yn G 397. Dichon mai ffrwyth cymysgu rhwng *dur* a *dir-* (GPC 1030) ydyw.
- 145–68 Ni cheir y llau. hyn yn E¹.
- 145 **rhwy** Cf. ll. 37n.
- 146 **gwyar bair** Rhoddir yr ystyron 'arglwydd rhyfel' a 'ffynhonnell gwaed' ar gyfer y cyfuniad hwn yn G 725 d.g. *gwyar*.
- 147–8 Esbonnir yn y ddwy l. hyn paham fod Goronwy yn derbyn *barddair beilch*, cf. ll. 145. Byddai'n anodd eu deall ar wahân; gellid cymryd bod *o'i gedol fudd a'i gadair* ac *o'i giried* yn ddibynnol ar *a geir*, ond byddai *a'i ged* yn torri ar draws rhediad naturiol y frawddeg. Yn lle hynny, deallir *a* yn bth. ac nid yn arwydd o frawddeg annormal, a chymerir *o'i giried* yn unig yn ddibynnol ar *a geir*.
- 149 **Gwair fab Gwestl** Cf. 3.40n.
- 151 Ll. amwys ei hystyr. Gallai *gwarded* fod yn e. ac iddo'r ystyr 'gwarded-igaeth, iachâd', cf. G 619–20 a GPC 1581–2. O dderbyn hyn, byddai rhaid dehongli *gwir lawgred loywgair* yn gyfarchiad i Fair.
- 154 **adwy** Hefyd 'lloches' yn ôl GPC 29, ond ni cheir yr ystyr honno yn G 9.
- 157 **mael** Cf. 4.115n.
- 159 **Mordaf** Fe'i crybwyllwyd eisoes yn ll. 109n.
- 160 **maith** Cf. GPC 2325 'hir (o ran amser, parhad), hirfaith, blinderus ... trist, chwerw'. Y mae'r ddwy ystyr yn berthnasol yma, cf. *hiraint* yn llau. 1 a 25.

32, ac fel yn achos cerdd 5, nid yw'n eglur paham y cynhwyswyd dau gopi o'r un gerdd. Y tro hwn, nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng y ddau fersiwn o ran eu hyd na threfn y llinellau ynddynt, a gallai'r holl ddarlleniadau sy'n wahanol yn y ddau fod wedi deillio o wallau copïo syml. Gwasgwyd yr ail fersiwn i mewn i un golofn, sy'n awgrymu naill ai bod y copiïdd dan orchymyn i lenwi gofod penodol yn unig, neu'n fwy tebygol fod Hywel Fychan, y prif gopiïdd, eisoes wedi llenwi ochr *verso*'r ddalen. O ganlyniad, gorfodwyd y copiïdd i ddefnyddio ysgrifen fanach o linell 41 ymlaen, a chan nad yw'r memrwn ar waelod y ddalen o wneuthuriad da, y mae rhan olaf testun C² yn anodd ei darllen ar adegau. Ar wahân i hyn, nid oes sail amlwg dros gredu bod y naill destun yn rhagori ar y llall.

Canodd Gruffudd hefyd gyfres o englynion marwnad i Oronwy (cerdd 7). Yn y Llyfr Coch, ceir yr englynion hyn ar wahân i'r testunau o'r gerdd dan sylw. Am y rheswm hwn, golygir yr awdl a'r englynion ar wahân yma, ond dylid ystyried y pwyntiau a wnaed ynglŷn â'r farwnad i Dudur ap Goronwy yn achos y cerddi hyn hefyd (gw. y nodyn cefndir i gerdd 3).

Fel y nodwyd yn y Rhagymadrodd, bu farw Goronwy Fychan ap Tudur yn annisgwyl yn 1382. Cyfeirir at amgylchiadau'r farwolaeth yn llinell 26 y gerdd hon. Canwyd y gerdd naill ai yn ystod yr angladd neu, yn fwy tebygol, beth amser yn ddiweddarach (cf. llau. 43–4). Defnyddir ynddi rychwant o themâu a delweddu sy'n nodweddiadol o ganu marwnad y cyfnod. Yn llinellau 1–44 cawn ymglywed â galar y bardd ei hun. Y mae Crist wedi ei dristáu trwy ddwyn Goronwy o'r byd ac ni all ef gysgu mwy. Y mae ei feddwl yn brudd, a'i dafod hefyd. Y mae gwayw wedi trywanu ei fron, ac o'r braidd y bydd fyw o'r herwydd. Nid yw'n gwenu mwy: wylo yn unig a wna. Yn gymysg â'r manylion hyn ceir disgrifiadau canmoliaethus o Oronwy, ynghyd â chydabyddiaeth o'i bwysigrwydd ehangach (*Cymry*, ll. 20, *mirain genedl*, ll. 28). Arwydd o'r pwysigrwydd hwnnw, yn ddi-os, yw'r gymhariaeth uchelgeisiol a wneir rhwng ei farwolaeth ef a marwolaeth Llywelyn ap Gruffudd yn 1282, gan mlynedd yn union yn gynharach (llau. 33–6). Cynnwys llinellau 45–60 gyfres o atgofion am Oronwy ei hun, yn ymladd ar faes y gad ac yn noddi beirdd yn ei lys. Gorffennir gan gyfosod tristwch y bardd a gweddi am ddedwyddwch i Oronwy ei hun yn y nef yn sgil y gras a enillasai ei fywyd da iddo.

Mesur: gwawdodyn. Y brifodl yw *-edd*. Ceir defnydd helaeth o gymeriad, a noder yn benodol y cymeriad geiriol ar *neud* (cf. uchod cerdd 3, y farwnad a ganodd Gruffudd i dad Goronwy).

Golygwyd y gerdd yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 121–6.

- 2 **neud** Llsgr. C¹ *net*. Gwall copïo, cf. ll. 10n. Am yr ystyr 'y mae', gw. J.E. Caerwyn Williams, 'Middle Welsh *Neu, Neut* as Copula', *Celtica*, xi (1976), 279n2. Gellid hefyd 'Y mae [hyn] oherwydd gofid, dicter a thristwch'.

- 3 **nid rhyfedd** Nid oes sail ddigonol dros ddiwygio *nid* yn *neud* yma. Dywedir, y mae'n debygol, na ddylid synnu bod y *rhyfawr golled* hon yn clwyfo'r bardd, cf. 5.61–2.
- 4 Cynghanedd groes gyda *n* ac *m* wreiddgoll (yn llunio cynghanedd sain reolaidd gyda'r gair cyrch yn y ll. flaenorol, cf. 3.60n).
- 5 Y mae'r gystrawen yn amwys. Gellid hefyd 'Y mae meddwl trist [oherwydd] penyd poen [ei] ddarfodiad'.
- 6–7 **poen difaedd / O gyfranc** Saif *a* yn lle *o* yn C^2 . Derbynnir darlleniad C^1 a chymryd *cyfranc* yn e., gan ddeall yr ardd. *o* yn yr ystyr 'yn sgil'. Go brin y gwelir yma enghraifft o'r ardd. *a/o* a geir mewn cyfuniadau ar y patrwm a. + a + e., megis *dewr a funer* (3.169), oherwydd eithriadol brin yw enghreifftiau ac ynddynt e. yn lle'r a., gw. G 3–4 d.g. a^4 . O dderbyn *a* yma, mwy naturiol fyddai ei ddehongli'n rh.pth., ond byddai'n rhaid felly ddehongli *cyfranc* yn f. bersonol.
- cyfranc** Cynigir yn G 214 d.g. *kyfrang* yr ystyron 'hanes, helynt, damwain, digwyddiad', ond rhestrir y ll. hon dan yr ystyron 'cyfarfod, brwydr, ymladd'. O dderbyn yr ail gellir, efallai, 'yn sgil cyfarfod arglwydd ... â marwolaeth'. Gw. ymhellach GPC 711 d.g. *cyfranc*.
- Lawfrodedd** Cymeriad a grybwyllwyd eisoes yn 3.115n a 4.19n.
- 7 **llew** Ymddengys yn gyfeiriad at Dudur, tad Goronwy, er bod nifer o arwyr traddodiadol yn dwyn yr enw *Llew*, cf. WCD 412.
- 8 **cochwedd** Sef 'rhudd, gwaedlyd', ond y mae'r e. 'cyflafan, lladdfa, brwydr' hefyd yn bosibl yma, cf. G 155 d.g. *coch* a GPC 526.
- 9 Cf. GGDT 7.25 *Neud truan y'm gwân gwayw lledfrydedd* (Gwilym Ddu o Arfon).
- 10 **neud** Llsgr. C^2 net. Cf. ll. 2n.
- Llachau** Gw. 2.19n.
- 12 **beirw** Am ystyron ffigurol y f. *berwi*, gw. GPC 275.
- 13 **dewredd** Am yr ystyron 'gwŷr dewrion ... gwŷr yn eu blodau', gw. G 322–3 a GPC 943. Gellid hefyd *ddôr ei ddewredd* 'amddiffynfa oedd ei ddewrder', gyda threigladd meddal i *ddôr* mewn sangiad neu ymadrodd mewn cyfosodiad.
- 14 **trom anrhaith faith** Cf. 3.131n. Yma hefyd chwaraeir ar gynodiadau *trwm*.
- 15 **corf torf** Nis ceir yn C^1 .

ail tiredd Maig Llsgr. C^1 *o ael tired meic*. Y mae darlleniad C^1 yn fyr o sillaf, yn ddigynghanedd a hefyd yn anodd ei gysoni â'r ffeithiau daearyddol. Powys oedd gwlad Maig i'r beirdd fel y tystia GIG 46 (X.21) *Gwawr Bowys Fawr, beues Faig*, a cf. uchod 4.97n am gyfeiriad arall ato gan Ruffudd ap Maredudd. O'r braidd y gellid honni bod cynefin

Goronwy, sef Môn, ‘ar ymyl’ Powys, ac nid yw’n llawer mwy tebygol y byddid yn disgrifio Gwynedd felly ychwaith. Gan hynny, derbynir darlleniad C². A’r ymadrodd *ail tiredd—Maig* cf., e.e., 5.149 *ail rhwysg Gwair—fab Gwestl*. Ystyriaeth arall yw bod darlleniad C² yn rhoi cynghanedd sain deirodl fel a geir yn y ddwy l. flaenorol.

17 Am y syniad, cf. 5.41–2.

18 **trosedd** Gair amwys, gw. GPC 3617. Am enghraifft bosibl o’i ddefnyddio’n drosiadol am arglwydd (sef Duw yn yr achos hwn), gw. R. Geraint Gruffydd, ‘Cyntefin Ceinaf Amser o Lyfr Du Caerfyrddin’, YB iv (1969), 12, 21. Os ‘tramgwydd’ neu ‘drygioni’ yw’r ystyr yma, cf. 3.127–8 *Oeraf maith farwdaith fu ar fyrder / Arwydd yw na’n llwydd llwyr eddyllter*, sef dehongli marwolaeth noddwr yn gosb am ddrygioni’r rhai a fu’n agos ato. Cf. hefyd GLIF 31.29 *Treissôr yô agheu ar pob trosset* (Gruffudd ap Gwrgenau) ac yn enwedig GGD 7.28 *Neud traw ein treisiaw am ein trosedd* (Gwilym Ddu o Arfon).

19 **o’i hannedd—a dry** Delwedd annisgwyl. Ymddengys fod y bardd yn honni i’w galon gael ei hysgwyd gymaint gan farwolaeth Goronwy nes iddi wrthod aros yn llonydd yn ei phriod le. Posibilrwydd arall yw ffigur *pars pro toto*, sef bod *bron don* yn cynrychioli’r bardd ei hun. Am y ddelwedd o’r bardd yn crwydro mewn alltudiaeth ar ôl marwolaeth ei noddwr, cf. 3.90n a 99–100.

20 **Cymry** Sef enw’r wlad a’r bobl yn ddiwahaniaeth yn y cyfnod hwn.

21 Gellir cymryd *breuol chwedl* yn draethiad; os felly, ‘Newyddion egwan / truenus yw marwolaeth drallodus darparwr can gwledd.’

breuol G 76 ‘brau, breuol, egwan, briw, drylliedig’, a cf. GPC 322 lle y ceir yn ogystal ‘ansicr, darfodedig, marwol’. O estyn ychydig ar yr ystyron hyn gellir, efallai, ‘truenus’.

22 **cyrdd gyfedd** Dau air amwys, cf. 1.17n a 4.11n am *cyrdd* a 3.61n am *cyfedd*. Gellir ‘cyfaill lluoedd’, ‘[darparwr] gwledd i luoedd’ neu hyd yn oed ‘[darparwr] gwledd [ac iddi] ganeuon’.

25 Cf. 3.51–2 *Ni’m daw dydd llawen na gair gorawen / Na gwên na gwyngen am iôr gwingar*.

gwedd Derbynir yr awgrym petrus yn G 641 fod *gwedd* weithiau’n golygu ‘gwedd dda, harddwch, tegwch, gweddeiddrwydd’.

26 **angau dan lifddyfredd** Cyfeiriad at farw Goronwy drwy foddi yng Nghaint. Cymharol brin yw’r manylion penodol yng ngherddi mawl a marwnad Gruffudd ap Maredudd. Am yr ychydig a wyddys am amgylchiadau marwolaeth Goronwy, gw. y Rhagymadrodd, tt. 15–16.

27 **uthr ddialedd—chwedl** Gellid hefyd gymryd hyn yn wrth. *wylaw*.

29 **cynrhygedd** Gw. ll. 55n.

- 31 **edyrn chwynr chwerwedd** Llsg. C¹ *edyrn chberwed*, C² *edru chbyrn chberwed*. Ymddengys fod y ddau destun yn ddiffygiol yma a chyfunwyd hwy yn y golygiad. Darlleniad diystyr a digynghanedd yw *edru* yn C², ond o adfer *edyrn* fel yn C¹ ceir ystyr foddhaol a chynghanedd sain. Ymddengys i *chwynr* gael ei hepgor o C¹, diau oherwydd i'r copïydd ddrysu rhwng y ddau air yn dechrau â *chw-*.
- 33–6 Honnir yn y llau. hyn na fu marwolaeth yng Ngwynedd mor ysgytwol â marwolaeth Goronwy ers lladd rhywun a ddisgrifir yn *gwanas*, *Gwynedd—berfeddnod* ac yn *hydr dëyrn a'i glod hyd ar Duedd*. Gellir yn hyderus dderbyn awgrym Dafydd Johnston mai at Lywelyn ap Gruffudd, y Llyw Olaf, y cyfeirir, gw. ei ysgrif 'Tri Chyfeiriad at Lywelyn ap Gruffudd', B xxxvi (1989), 100. Fel y nodir yno, cryfheir y ddadl mai Llywelyn a olygir yma gan y ffaith fod Llywelyn Goch ap Meurig Hen yn defnyddio'r un gymhariaeth yn ei farwnad yntau i Oronwy, gw. GLIG 5.91–6, a'r tro hwn yn crybwyll Llywelyn wrth ei enw. Diddorol iawn yw nodi cyfeiriad tebyg yn y farwnad i Oronwy gan Ruffudd ap Gweflyn a olygwyd gan A. Cynfael Lake, gw. 'Marwnad Goronwy ap Tudur o Fôn', B xxxix (1992), 80–8 (yn arbennig llau. 17–26 y gerdd).
- 34 **mur marannedd** Cf. 4.12.
- 36 **Tuedd** Gw. 3.79n.
- 37 **ni haeddai hedd** Gw. 5.52n.
- 38 **twrf toredwynt** Cyd-drawiad cyffredin, cf. GMB 25.9 (Einion ap Gwalchmai); GCBM i, 8.16; GCBM ii, 12.16; GBF 24.106 (Llygad Gŵr).
- caen** G 95 'gorchudd, tudded; croen, cen; llurig' a GPC 383 'gorchudd, tudded, cen, pilionen, haen, wyneb'. Cyfeirir at wyneb y tir, yn ôl pob tebyg, ond cf., efallai, GLIG 7.24 *Lleucu yn eilFair, lliw caen elfydd* a aralleirir 'Leucu yn gyffelyb i Fair, lliw haenen [o eira dros y] tir'. Ar sail yr enghraifft hon gellid awgrymu'n betrus fod Gruffudd yn cymharu Goronwy â storm yn hyrddio eira.
- Gogledd** Gogledd Cymru, fe ddichon, ond byddai'r Hen Ogledd hefyd yn bosibl.
- 39 **cymrwd** Yn ôl G 238 'ffyrnig, lliodiog', ac fel eg. 'un milain, un dywal', a dilynir hyn yn GPC 771. Dyma'r unig enghraifft o'r gair yn yr ystyr hon a ddyfynnir. Yr ystyr arferol yw 'morter' neu 'sment', ac awgrymir yn G *l.c.* y gellid ystyried defnydd ffigurol o'r ystyr honno yma hefyd. Os felly, dyma enghraifft arall o ddefnyddio trosiad o faes adeiladwaith i ddisgrifio'r noddwr fel cynheiliad (cf. *corf, llorf, gwanas, colofn*).
- Mwredd** Gair tywyll a ddehonglir yma'n betrus yn e.p. anh. ar sail y mynych enghreifftiau yng ngwaith Gruffudd o ymadroddion cyffelyb,

- cf., e.e., 4.77n *cymrawd Geraint*, 3.59n *cydwedd—Paredur*.
- 40 **ynghymynad** Llsgr. C² *yghynat*. Llithriad gan y copïydd.
- 42 **medd** Dehongliad llai tebygol, efallai, yw ‘*medd*’ yn y bedd’.
- 43 **llwyrfarw** Llsgr. C² *lbruar6*.
galarfedd Llsgr. C² *alarned*.
- 44 Y mae’r ll. yn fyr o sillaf. Gall fod sillaf ar goll, ond gw. 1.12n am ddilysrwydd llau. byr a cf. 1.16n a 3.80n.
- 46 **llawr** Neu ‘arwr’, gw. GPC 2118 d.g. *llawr*².
Arllechwedd Cantref yn sir Gaernarfon rhwng Arfon a Dyffryn Conwy. Yr oedd gan Oronwy diroedd yng Nghreuwyrion neu Gororion yn Arllechwedd Uchaf, gw. y Rhagymadrodd, tt. 12, 14.
- 49 **cludfeirdd** Gthg. J. Vendryes, ‘Remarques de vocabulaire’, RC xlvi (1929), 261–2 lle y cyfieithir *cludfardd* yn ‘*poète pourvu de dons, de talents*’.
- 50 **crau angau Eingl** Cf. GGMD ii, 2.30 *crau angau Eingl*blant. Gellir hefyd ‘Trawai i’r llawr gyrrff Saeson [ac iddynt] farwolaeth waedlyd.’
- 53 **côr** Llsgr. C¹C² *koryf*; ond annisgwyl yma fyddai dwy l. ganlynol yn dechrau â’r un gair. O ddiwygio ceir cynghanedd sain ddwbl yn y ll. fel a geir yn y ll. ganlynol; gyda’r cyfuniad *Côr iôr, dôr*, cf. 4.26 *Côr ddôr, iôr*.
- 54 **o’r wlad i’r wledd** Llsgr. C² *orwlat or wled*. Derbynnir darlleniad C¹ yn betrus, er nad yw ei ystyr yn sicr. Ai ymadrodd yn golygu rhywbeth fel ‘ym mhobman’ yw *o’r wlad i’r wledd*? Cf., efallai, *gwlad a gorsedd* yn 3.112 a GGMD iii, 1.62. Posibilrwydd arall yw derbyn darlleniad C², ond anhebygol fyddai *O’r wlad! O’r wledd!* yn mynegi hiraeth am y gwychder a fu yn ystod bywyd Goronwy. Nid ymddengys fod modd cael ystyr foddhaol gyda’r gair *gorwlad*, ond gw. G 577 a GPC 1506 amdano.
- 55 **cun Rheged** Sef Urien Rheged, yn ôl pob tebyg, neu ei fab Owain. Cyfeiria Gruffudd eto at Urien yn 7.88n ac 8.9n, a cf. TYP² 516–20 a WCD 632–5.
cynrhygedd Ni wahaniaethir rhwng *r* a *rh* yn orgraff y llsgr., ond y mae’r gynghanedd yma’n awgrymu mai *cynrhygedd* a fwriedir. Gthg. GPC 780 d.g. *cynddrygedd, cynrygedd*. Gruffudd ap Maredudd biau’r tair enghraifft o’r ffurf heb *-dd-* a ddyfynnir yno ac yn G 261 d.g. *kynryged*, sef hon, ll. 29 uchod a GGMD iii, 2.38 *Ac anrhegu Eingl o gynrhygedd*. Noder hefyd GGMD ii, 1.33 *deg anrhegion digynrhygedd*. Fel y gwelir, y mae’r ddwy enghraifft olaf hwythau’n ategu’r ffurf *cynrhygedd* a derbyniwyd hynny hefyd yn ll. 29 er mwyn cysondeb, er nad effeithir yno ar y gynghanedd.

- 56 **ciried rheufedd** Cyfuniad a geir hefyd yn 5.55.
- 57 **anmynedd** Llsgr. C² *anmyn*[*d*. Y mae difrod i'r darn hwn o'r llsgr.
- 59 **gwir** Gw. G 683 d.g. *gwir*² 'gwirionedd', hefyd 'gair, llw, cred, addewid', 'iawnder, cyfiawnder' a 'hawl, hawl gyfreithiol', a cf. GPC 1666–7. Anodd yw dewis rhyngddynt ar gyfer yr aralleiriad.
o Ansicr yw ergyd yr ardd. yma, ond o bosibl honnir bod y cwmni yn llys Goronwy yn profi mor *gywir* oedd ei *wir*.
- 60 **o'i** Fe'i dehonglir yn gyfystyr ag 'i'w' ond gellid 'oherwydd ei gynulliad', cf. 1.6n.
- 61 **enwir anwedd** Cf. 3.104.
- 62 **a** Llsgr. C² y yn ôl R, ond o graffu ar y llsgr. y mae'n anodd cydsynio. Y mae rhyw lythyren (neu nod arall) yno, ond y mae cyflwr gwael y memrwn yn ei gwneud yn anodd ei darllen. Gan fod darlleniad C¹ yn synhwyrol, yn rhoi nifer reolaidd o sillafau ac yn parchu'r cymeriad llythrennol, fe'i derbynnir yma.
- 63 **udwaedd ... adwedd** Cf. 3.85.
- 65 Y mae mwy nag un posibilrwydd ar gyfer dehongli cystrawen y ll. Yn ogystal â'r hyn a gynigir yn yr aralleiriad gellir 'Cafodd [yr un ac iddo] fywyd gwych ei ddawn urddas gras.'
cafás gras Llsgr. C¹ *kauas ras*. Nid yw'r gwahaniaeth o bwys ar gyfer yr ystyr, ond derbynnir darlleniad C² ar sail y dystiolaeth yn Treigladau 216–17 mai cadw cysefin y gwrth. oedd yr arfer ar ôl *cafás*. Ceir enghreifftiau ategol gan Lywarch Llaety (GLIF 16.20) a'r Prydydd Bychan (GBF 17.13). Eto, ni ddylid pwyso'n ormodol ar hyn gan fod y gwrth. yn treiglo mewn rhai testunau cyn amser Gruffudd ap Maredudd, gw. Treigladau *l.c.* Noder hefyd fod awgrym yno (a hefyd gan yr un awdur yn 'Crynodeb o Ddamcaniaeth Treiglo', B x (1939–41), 278n2) y dylid diwygio *ras* yn *ran* yma. Dibynna'r diwygiad hwn ar gymryd mai camgymeriad oedd *ras* a gamgywirwyd yn *gras* yn C². Eto, nid oes tystiolaeth mai cywiriad o destun C¹ yw testun C², ac nid yw'r diwygiad yn angenrheidiol.
- 66 **cennyw** 3 un.pres.myn. y f. *canfod* yn ôl G 104; WG 352; GMW 145, ond ystyr berffaith sydd i ffurf gyfatebol nifer o fau. eraill sy'n gyfansoddeiriau o *bod* megis *darfod* (*deryw*), *cyfarfod* (*cyferyw*) a *gorfod* (*goryw*), ac yn GDG³ 568 dadleuir mai ystyr berffaith sydd i *cennyw* yn *ib.* 353 (133.27). O gymryd *diwedd* yn gyfeiriad at farwolaeth Goronwy, fel sy'n rhesymol, anodd yw gweld sut y gellir ystyr bres. yma. Cymerir felly fod ystyr berffaith i *cennyw* yma er nas nodir yn WG na GMW nac yn G *l.c.* Deellir y ll. yn gyfeiriad at dduwiolfrydedd Goronwy cyn ei farwolaeth.
Posibilrwydd arall yw bod i'r ffurf *cennyw* ystyr ddyfodol fel a

dderbynnir yn GLIF 5.58 *Pobloedd trist, Crist a'i cennyw*, ac yn wir y mae'r cyd-destun yno'n awgrymu ystyr felly. Eto, nid yw'n hawdd cysoni hyn â chyd-destun y ll. bresennol.

- 67 **caffo** Llsgr. C² *keffo* yn ôl R, sef ffurf a gyfyd o bosibl drwy gamgyweddïad â'r ffurfiau ac ynddynt affeithiad, e.e. *ceffi*. Eto, y mae'r gair yn aneglur yn C² oherwydd cyflwr gwael y memrwn, ac nid amhosibl mai *koffo* a geir yno.

gallu Neu *â llu*.

- 68 Ysgrifennwyd *AMEN* ar ddiwedd y ll. yn y ddau gopi.

7

Dyma'r ail o farwnadau Gruffudd ap Maredudd i Oronwy Fychan ap Tudur. Am ei pherthynas â'r llall, gweler y nodyn cefndir i gerdd 6 uchod. Yr un yn y bôn yw'r themâu a'r delweddau a ddefnyddir yma ag ym marwnadau eraill y bardd, ond ceir ychydig mwy o fanylion pendant am farwolaeth Goronwy a'i gladdedigaeth yn nhŷ'r Brodyr Llwydion yn Llan-faes. Y mae'r gystrawen yn nodedig o astrus mewn mannau, cf. llinellau 5–8, 21–4, 79–84.

Mesur: cyfres o englynion unodl union ac englynion proest (canïad 1); penillion proest o 6 llinell yr un (canïad 2). Nid oes prifodl yn y naill ganiad na'r llall ac fe'u gwahaniaethir ar sail y mesur a'r trefniant yn y llawysgrif. Ceir defnydd helaeth o gymeriad ond ni cheir cyrch-gymeriad.

Golygydd y gerdd yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 138–45.

- 4 **no marw dâr mor dost** Gyda gradd gymharol yr a. yn unig y ceir *no* yn ôl GMW 43–4 a WG 447; felly y mae'r enghraifft hon ohono gyda'r radd gyfartal yn anarferol os nad yn unigryw. Eto, nid oes a. yn y radd gymharol yn yr englyn ac nid yw'n hawdd deall y gystrawen mewn unrhyw ffordd arall. Am enghraifft bosibl o'r ffurf *nog* gyda'r radd gyfartal, cf. GBF 49.21n–4 *Nac* [llsgr.: *noc*] *a wnaeth agheu aghyffret—auael / Am ddwyn hael, wael weithret, / Ny weles uolud am get, / Ny weleis dreis gyn drymet*. Yn ôl J. Loth, 'Poèmes de Bleddyn Vardd', RC xlix (1932), 220, 'Dans la construction de la phrase, il faut faire dépendre *noc a wnaeth* de *cyn drymet*', a chyfieithia ef y ll. gyntaf a'r olaf yn '*Je n'ai pas vu violence aussi pénible que ce qu'a fait la mort ...*' Sylwer, serch hynny, fod golygydd y gerdd yn GBF yn osgoi'r broblem drwy ddiwygio *noc* yn *nac* (sef yr e. *nâg*).

Posibilrwydd arall fyddai cymryd bod *no* yn gyfystyr â *namyn*: ni sonnir am unrhyw 'frad chwerw' ond marwolaeth Goronwy. Eto, ni lwyddwyd i ddarganfod enghraifft gyffelyb.

- 5–6 Gellir hefyd 'Nifer fawr (dolurio Gwynedd) / A fu farw oherwydd ei

fedd anorfod.’

- 6 **dirfedd** Awgrymir ‘dyfnfedd’ yn G 367 a GPC 1033, ond ‘dygnfedd’ yn GCBM i, 24.158. Anodd yw penderfynu ai’r rhagddodiad *dir-* ynteu’r a. *dir*¹ yw elfen gyntaf y gair hwn, ac afraid o bosibl yw ceisio gwahaniaethu, gw. GPC 1030 am *dir-* a G 366 a GPC *l.c.* am *dir*¹. Y mae’r ddau ddehongliad yn pwysu ar ystyr gryfhaol y rhagddodiad *dir-*, ond byddai’r ystyron ‘rheidiol, angenrheidiol; gorfodol; anochel, anorfod; gofidus o sicr neu wir ... enbyd, aruthr’ a nodir ar gyfer yr a. yn GPC 1030 i gyd yn addas yma. Topos yn y canu marwnad yw pwysleisio diymwadrwydd angau, cf. 3.21, 24.
- 7–8 Llai tebygol, efallai, yw ‘A[’r sawl] y bu ei arfau drechaf mewn brwydr / Sy’n gyfarwydd â cham llwyr oherwydd [colli] pennaeth byddin.’ Ond o dderbyn hynny, cyfeirio ato’i hun a wna’r bardd yma.
- 7 **arfau ym** Cywasger er mwyn hyd y ll.
- 9 **bid** Fe’i ceir yn ffurf 3 un.pres. arferiadol ac yn 3 un.grch. yn ôl G 63 a 68 d.g. *bot*. Dadleua T.J. Morgan mai un ffurf ydyw’r rhain mewn gwirionedd a’r ystyr arferiadol wedi datblygu o’r grch., gw. ‘Cystrawennau’r Modd Gorchmynnol’, B vi (1931–3), 33–7.
- gogylch** Rhestrir yr ystyron ‘cylch, amgylch, cwmpas’ yn G 551 yn ogystal â nodi iddo ddigwydd yn a. ac yn adf. Ystyron tebyg a geir yn GPC 1442, ac yno nodir ‘o gwmpas, oddi amgylch, oddeutu’ ar gyfer yr adf., ond y mae’n anodd cael synnwyr o’r defnydd adferfol yma. Am dreiglo ar ôl *bid*, gw. Treigladau 314–15. Gan fod y dibeniad a’r goddrych yn treiglo yn yr un safle, gellir hefyd ‘Boed/bydd galar yn amgylchedd’.
- 10 **gwengad gwingar** Cf. 5.127.
- 11 **boddi draig** Cyfeiriad arall at amgylchiadau marwolaeth Goronwy, cf. 6.26n.
- 13 O roi atalnod ar ôl *llawir* ceir ‘Llawer ochenaid, [O] Arglwydd hael, oedd’. Y mae’n bosibl felly fod cyfarchiad i Dduw yn y ll. hon, cf. hefyd ll. 17n.
- 17 **rhyfedd ym fyw** Cf. 6.17.
- llyw llawged** Fe’i dehonglir yn betrus yn sangiad yn cyfeirio at Oronwy, ond gall yn hawdd mai cyfarch Duw a wneir, cf. ll. 13n.
- 18 **cyfar** Nodir sawl ystyr yn G 201 a GPC 680 d.g. *cyfar*¹ gan gynnwys ‘rhandir’, sef cyfran unigolyn mewn tir a ddelid gan nifer. Fe’i deallir yma’n drosiadol am y cyfran o’r galar cyffredinol am Oronwy a ddaeth i ran ei fardd. Ceir hefyd yr ystyron ‘cymdeithas, cyfathrach, cyfarfod, ymgyrch’. Os derbynnir un o’r rhain, yna sonnir am y cwmni yn galaru ar ôl Goronwy.

20 **Yniwl** Gw. TYP² 475–6 (*Niwl* yw'r ffurf yno); WCD 644 (*Ynywl*); R.L. Thomson: Gereint *passim*. Ef yw tad Enid yn y rhamant. Defnyddir yr e. gan Risierdyn, eto mewn cerdd i Oronwy Fychan, gw. GSRh 4.96n.

21–4 Y mae cystrawen yr englyn hwn yn bur amwys. Cymerir *echwng* yn ll. 23 yn e. ac yn oddrych *bod*. Dywedir, felly, fod y gwasgiad neu'r teimlad caethiwus dan fron Gruffudd yn peri ochenaid. Posibilrwydd arall, petrus braidd, yw *Echos bod clod clo marmor* 'oherwydd fod [un a chanddo] fri mewn caethle marmor', gw. J.E. Caerwyn Williams, 'MLW *Neu, Neut* as Copula', *Celtica*, xi (1976), 284 lle y nodir bod i *bedd* a geiriau cyffelyb ystyr leol megis 'mewn bedd' gyda *neud*. Ni cheir *neud* yma, ond am enghraifft debyg gyda'r f. *bod*, cf. T 66.9 *Mada6c kyn bu bed*.

clod clo marmor Honnir, o bosibl, fod derbyn corff Goronwy yn anrhydeddu'r bedd.

22 **Echel** Llsg. *ochyl*. Yn betrus iawn y derbynnir y diwygiad a gynigir yn G 435 d.g. *Echel*¹, yn enwedig o ystyried ei fod yn peri i'r ll. fod yn rhy hir o sillaf (oni chywesgir *Beredur* yn *B'redur* fel yr awgrymir yno). Ni chyfrifir *ch* yn y gynghanedd ychwaith, ond y mae'r cymeriad yn ategu *ch*. Sylwer hefyd ar y ffurf *ochel* yn R 1324.3, gw. 5.33n. Derbyniwyd darlleniad R 1212.11 *echel* yn y testun golygedig o'r gerdd honno, ond y mae rhaid ystyried y posibilrwydd fod arwr o'r e. *Ochel* neu *Ochl* na wyddys dim amdano. Anodd fyddai dilyn DWH, i 75 lle y cyfieithir *ochyl* yn 'beware of' (o'r f. *gochel*, bid siŵr). Ni ddisgwyliid treigladau ac nid oes fawr o synnwyr mewn rhybudd yn erbyn gwrhydri un sydd wedi marw.

ail Beredur Y mae treiglo e.p. ar ôl *ail* yn yr ystyr 'un tebyg' yn groes i arfer Gruffudd, cf. 3.113, 134, 6.15n, ond gw. Treigladau 43 am enghreifftiau ysbeidiol o dreiglo. Dichon mai anghenion y gynghanedd sy'n gyfrifol am y treigladau yma, ond y mae anawsterau'r ll. hon yn bwrw amheuaeth drosti yn ei chrynswth. Am *Beredur* ei hun, gw. 3.59n. *Paredur* yw'r ffurf ar yr e. a geir yno ac yn 5.143n.

23 **echwng** Gall fod yn e., yn a. neu'n fe., gw. 1.28n.

ais Ll. *assen*² ydyw yn ôl G 45, yn yr ystyr 'asennau' a cf. GPC 219–20 d.g. *asen*², lle y nodir bod y gair yn digwydd gyda'r ystyr 'bron, mynwes, calon'. Disgrifir teimladau'r bardd. Eto, yn GPC *l.c.* nodir hefyd yr ystyron 'ystyllen hirgul, aseth, dellten, llath', a cf. GLGC 441 (202.13–14) *Ni rodded, wedy'i wreiddio, / Ysgwier well dan ais gro*. Os felly, cyfeirir o bosibl at arch Goronwy. Felly hefyd y deallir *ais* yn DWH i, 75: 'Confined under laths, long violence, / Is a helm with sides, woe the grief.'

24 **ochrog helm** '*Sideways helmet*', yn ôl Francis Jones, 'The Heraldry of Gwynedd', TCHSG xxiv (1963), 55, lle yr awgrymir cysylltiad ag arfau

- Owain Tudur, mab i Faredudd, brawd Goronwy. Eto, *tri* phen Seisnig mewn helmau a oedd ar yr arfau hynny, a beiddgar yw ceisio cysylltu'r ll. hon â hwy. Ffurf garbwl ar y ll. a ddyfynnir gan Jones hefyd. Gw. ll. 84n isod yn ogystal, a DWH i, 75. Defnyddir *ochrog* am arfau llym, cf. GPC 2615–16. Annelwig yw'r ddelwedd yn y ll. hon ac efallai nad yw'n amhosibl fod ystyr arall i *ochrog* yma; a ddywedir bod yr helm yn gorwedd ar ei hochr am nad oes defnydd arni bellach?
- 25 **caith** Fe'i dehonglir yn un., gw. G 97 d.g. *caeth* ac uchod 3.19n.
- 26 Gellir hefyd '[Yn] chwerw [ac yn] drist y mae [ef] mewn arch o faen.'
- 27 **doe** Cf. 3.183n. Ni ellir cymryd hyn yn llythrennol yma gan fod Goronwy eisoes wedi'i gladdu, yn ôl llau. 26, 76.
- 31 **Ector** Gw. 3.163n.
- 33 **trefnodd** Ceir *trefnu* yn fg. hefyd ac iddi'r ystyron 'ymfonyddu, ymsefydlu, tawelu', gw. GPC 3574–5, a cf. yr e. *trefn* a all olygu 'ystafell, siambr, cell, adeilad, tŷ', *l.c.* A ellir 'ymgartrefodd atgof ynof'?
- tra girad** Llsg. *drac irat*. Camraniad, fel y nodir yn G 529 d.g. *girat*.
- 34 **deigr** Er mai'r cysefin y gwrth. a geir gan amlaf ar ôl ffurfiau'r 3 un.pres.myn., gw. Treigladau 206–7, y mae angen y treigladau yma er mwyn cyflythrennu â'r gair cyrch. Ceir enghreifftiau o dreiglo ar ôl pair yn GCBM ii, 18.3; GBF 40.5 (Gruffudd ab yr Ynad Coch).
- 36 **cydfaeth cad** Neu 'un a fagwyd gan fyddin' neu ynteu 'un a fagwyd ar ryfel'.
- 38 **Dindaethwy** Cwmwd yn ne-ddwyrain Ynys Môn lle yr oedd Penmynydd, sef prif gartref Goronwy, gw. y Rhagymadrodd, td. 15.
- 39 **mau gofion** Fe'i dehonglir yn frawddeg enwol. Disgwyliad cadw'r cysefin mewn cystrawen felly, ond cf. Treigladau 284–5 lle yr awgrymir deall *mau* fel y goddrych yn yr enghreifftiau lle y treiglir, ac mai lleoli'r goddrych o flaen y dibeniad sy'n cyfrif am y treigladau. Yn sicr, ceir nifer o enghreifftiau sy'n ategu'r treigladau, cf., e.e., GBF 36.17 *ys meu llit 6rth Seis am vyn treissyab* (llsg. *lit*) ac *ib. 24 kan ys meu alar, ys meu wyla6* (Gruffudd ab yr Ynad Coch). Diwygir yno *lid* yn *llid* yn ddiesboniad (ond gan gadw *alar!*). Mewn rhai achosion gellir cymryd *mau* yn gyfystyr â *fy* (ac felly'n peri treigladau). Byddai hyn yn bosibl yn yr enghraifft gyntaf uchod, ond nid yn yr ail, a cf. GMB 26.6n *nyd meu dewi* a aralleirir 'nid tewi o'm rhan i [mohoni] [*sc.* gweddi]': byddai 'nid fy rhan i yw tewi' yn rhwyddach o lawer. Os dewisir cymryd *mau* yn y ll. bresennol yn amrywiad ar *fy*, yna aralleirier yn '[y mae] fy atgofion am Oronwy'. Cf. eto GGMD iii, 1.11 *Mau lefain am Olifer*.
- 42 **plaid genedl Gymry** Treiglir *Cymry* fel e.p. ar ôl eb. sy'n dynodi rhywogaeth, gw. Treigladau 111–12, a cf. GPC 461 d.g. *cededl* lle y nodir *cededl Gymry* yn ymadrodd sefydlog a'r ardystiad cyntaf ohoni'n

dod o waith Lewys Glyn Cothi. Nid mor hawdd yw cyfrif am dreiglo *cenedl*, ond awgrymir yn betrus fod *cenedl Gymry* yn dilyn patrwm e.p. yma, sef treiglo (yn opsiynol) ar ôl yr eb. *plaid* (Treigladau 107–8).

mur plyg Neu ‘gwarchodwr wedi ei ddarostwng’. Posibilrwydd arall yw *Plaid genedl Gymry fu’r plyg* ‘Amddiffyn[nwr] cenedl [y] Cymry fu [gwrthrych] y darostyngiad.’

43 Dehonglir marwolaeth y noddwr yn gosb gan Dduw er mwyn ceryddu pechodau’r gymdeithas.

44 **pwll du** Derbynnir yr awgrym yn G 572 d.g. *Goronwy*¹¹ mai at amgylchiadau marwolaeth Goronwy y cyfeirir. Mewn pwll y boddodd ef, fel a gadarnheir gan Iolo Goch, GIG 30 (VI.85–6) *Mewn pwll trydwill troëdig / Y bu ar Sadwrn, dwrn dig*. Llai tebygol yw cyfeiriad at y bedd, a llai byth at uffern (oni chred y bardd mai yno yr aeth!). Gw. hefyd ll. 51n.

48 **llygad** Cf. GSRh 4.13n *llygad—Gwynedd* (Rhisierdyn am Oronwy ap Tudur).

49 **Hiriell** Gw. 3.17n.

50 **deugwyn** Cf. G 315–16 d.g. *deu* lle y nodir bod weithiau ‘ystyr gryfhaol, yn hytrach na rhifol’ i *deu*-mewn rhai cyfansoddeiriau.

51 **dubwll** Cf. ll. 44n. Y mae ‘bedd’ yn well dewis yma nag yn y ll. honno, ond, o ystyried y ffordd y bu farw Goronwy, y tebyg yw mai’r pwll y boddodd ynddo yw hwn eto.

53 **try** Gw. GPC 3604 am yr ystyr ‘dychwelyd’.

hoen Gall gyfeirio at bryd a gwedd y bardd yn ogystal ag at ei deimladau, gw. GPC 1884–5.

54 **Penmynydd** Cartref Goronwy, cf. y Rhagymadrodd, td. 15.

59 **hiraeth gŵr** Am *hiraeth* + e. yn golygu ‘hiraeth am’, cf. GC 2.15 *hiraeth maeth meithfawr* ‘hiraeth am gynhaliaeth feithfawr’ a GGDT 6.75 *hiraeth herwr ceudawd* ‘hiraeth am ŵr deol [mewn] dwnsiwn’ (Gwilym Ddu o Arfon).

60 **o’i farwddydd** Neu ‘hyd at ei ddydd angau’, sef angau’r bardd, gan ddehongli *o’i* yn yr ystyr ‘i’w’.

61–2 Cyfeiriad posibl at yr arfer o hongian arfau dros feddrod marchog, gw. hefyd l. 69n ac ymhellach A. Wagner, *Heraldry in England* (London and New York, 1946), 22, a cf. disgrifiad Iolo Goch o angladd Syr Rhys ap Gruffudd yn GIG 34 (VII.41–58).

61 **gwyngor gwiwlethr** Cyfeiriad at eglwys y Brodyr Llwydion yn Llanfaes, yn ôl pob tebyg, ond byddai *gwyngor* hefyd yn gweddu i un o lysoedd Goronwy. Am wahanol ystyron *côr*¹, gw. G163–4 a GPC 554–5. Safai’r priordy ar lethr ysgafn uwchlaw’r môr: gw. ymhellach

RCAHM (Anglesey) 66–7, a cf. llau. 67–8n.

- 64 **oesgad** Am arwyddocâd *oes* mewn cyfansoddeiriau, cf. 4.70 *oesgadr* a ll. 109 *oesged*.
- ysgwthr** Yr ystyr arferol yw ‘llun cerfiedig neu baentiedig’ yn ôl GSCyf 13.11, ond cynigir ‘toriad’ yn GBF 22.16n a ‘dinistr’ yn GLIL 5.35.
- 65 **eurllythr** ‘Ac arno addurnwaith euraid; yn cynnwys geiriau coeth; ysgrifeniadau neu gyfansoddiadau rhagorol, llenyddiaeth werthfawr’, gw. GPC 1260. Ni nodir ystyr yn G 498 d.g. *eur*. Os defnyddir *eurllythr* yn drosiadol am addurnwaith euraid yn gyffredinol, yna y mae’n bosibl fod yr enghraifft bresennol yn disgrifio addurnwaith ar yr arf. Eto, cf. GSRh 2.60 *gwawd eurllythr* (Sefnyn), a aralleirir yn ‘prydyddiaeth o eiriau coeth’, a cf. hefyd TA 236 (LIX.29–30) *Aml yw’r âch [sic], amlhau yr wyd, / Eurllythr oedd o’r lle’th wreiddiwyd* a GGH 181 (56.46) *Llwyth yr Hob, eurllythr hybarch*. Ymddengys o’r ddwy enghraifft ddiwethaf hyn fod yr ystyr gyffredinol ‘gwyth’ neu ‘hardd’ wedi datblygu, a derbynir hynny’n betrus yma.
- 66 **oerllithr** Rhesymol yw defnyddio *llithr* am farwolaeth, cf. GLIG 5.3 *Llithrodd o’th wyndir llwythrad / Llew a gwawr llaw egored* (eto mewn marwnad i Oronwy); ond tybed ai sôn yn fwy penodol am amgylchiadau marwolaeth Goronwy y mae’r bardd yma? Ysywaeth, ni wyddys sut yn union y bu iddo foddi.
- 67–8 **yn ael ... / Menai** Safai Priordy Llan-faes tua 800 llath i’r de-ddwyrain o’r eglwys blwyf bresennol, ac felly’n agos iawn at lan y môr; gw. ll. 61n.
- 68 **bedd mynor** Gellir gweld beddrod Goronwy a’i wraig o hyd yn eglwys plwyf Penmynydd, lle y’i symudwyd ar adeg y Diddymiad. Ceir disgrifiad ohono yn RCAHM (Anglesey) 129–30 yn ogystal â llun (rhif 85).
- 69 **Gwas glwysddewr mywn gwisg lasddur** A gladdwyd Goronwy yn ei arfwisg? Gwyddys ei bod hi’n arfer honglian arfau dros feddrod marchog, gw. llau. 61–2n.
- 70 **breichir** Gw. GPC 316 a hefyd G 74 d.g. *breich* am ddefnyddio’r a. hwn mewn perthynas â meirch. Gall fod *braisg breichir* yn cyfeirio hefyd at Oronwy.
- 71 **Olifer** Cf. 3.130n.
- 72 **Tewdwr** Gw. 1.66n.
- 74 **Ffrainc** Ll. *Ffranc*, gw. GPC 1310. Dyma awgrym fod Goronwy o bosibl wedi ymladd yn Ffrainc, ac fe’i cymerir felly gan Glyn Roberts, gw. AWH 199–200. Ceir awgrymiadau cyffelyb mewn cerddi eraill i Oronwy, gw. GSRh 3.16n (Sefnyn; y mae’r ystyr yn ansicr) a 4.56n

(Rhisierdyn). Nid yw *Ffrainc* yn ddiamwys: fe'i defnyddid gan Feirdd y Tywysogion ar gyfer y Normaniaid (e.e. GLIL1 24.24; GDB 3.21) ac yr oedd y beirdd yn arfer enwau eu hen elynion ymhell ar ôl i dreigl amser eu gwneud yn hynafol, cf. eu defnydd o *Deifr* a *Brynaich*. Eto, y mae cyfeiriadau gan Lywelyn Goch (GLIG 5.72–3, 79–80) yn dangos yn ddigamsyniol i Oronwy ymladd yn Ffrainc; cf. A.D. Carr, 'Anglesey and War in the Later Middle Ages', AAST, 1984, 32.

76 **brodyr troednoeth** Perthynai Llan-faes i Urdd y Brodyr Llwydion a adwaenid yn aml fel y brodyr troednoeth. Nodir sefydlu Llan-faes yn BT (RB) 234 *sub anno* 1237 lle y'i gelwir yn *vanachloc Troetnoeth a elwir Llann vaes yMon*. Yr oedd traed noeth y brodyr yn destun dirmyg i Iolo Goch wrth ddychanu'r Brawd Llwyd o Gaer, gw. GIG 153 (XXXIV.17) *Llwdn troednoeth a ddoeth yn ddig*.

79–82 Cymerir *heliwr gryd* (ll. 82) yn wrth. *dod* (ll. 79) a *lle ni wneir nâg* yn gyfeiriad at y nef. Gofynnir am i Oronwy dderbyn iachawdwriaeth. Llai tebygol yw cymryd *lle ni wneir nâg* yn ddisgrifiad o *Fab Mair* ei hun, gan y byddai'n anodd deall y llau. eraill.

80 **O blas ni ddêl arno blyg!** Fe'i cymerir yn betrus iawn yn ebychiad, er na cheir enghraifft o *O* yn yr ystyr ebychiadol hon tan 1567 yn ôl GPC 2611 d.g. *o*², *O*. Eto, y mae'r ffin rhwng cyfarchiad ac ebychiad edmygus yn amhendiant iawn, a cf. GGMD ii, 1.115–16n *O ryfawr goelfain geir Afon—Dyfrdwy!* / *O lawen obrwy o Lyn Ebron* (I'r Grog o Gaer). Y posibilrwydd arall yw cymryd *o* yn ardd. a chydio'r ll. wrth *nâg* yn y ll. flaenorol: os felly, 'Gomeddiad / O ran [cynnig] llys na all darostyngiad ddod arno'. Yn y nef, ni wrthodir cynnig llys a fydd yn parhau am byth.

plas Gellir 'llys' neu 'mangre', gw. GPC 2819.

81 **hwyl o'th wlad** Ymddengys mai sangiad ydyw; gthg. G 382 d.g. *dodi* lle y nodir yr enghraifft hon dan *dodi hwyl*, ond heb gynnig ystyr. Gellid, efallai, 'Rho ... daith' a byddai modd wedyn ddeall *O blas ni ddêl arno blyg* yn ddibroblem yn dynodi man cychwyn y daith. Eto, os *hwyl* yw gwrth. *dod*, beth sydd i'w wneud â *heliwr gryd* yn ll. 82? Prin fod modd ei ddeall yn gyfarchiad i Grist.

hoywlwyth Wledig Duw, yn ôl y dehongliad a fabwysiedir yma, ond gallai gyfeirio at Oronwy: os felly, gwrth. *dod* ydyw ac y mae *heliwr gryd* mewn cyfosodiad ag ef.

83 **rhôï** Neu *rhoi*, sef 2 un.pres.myn.: os felly, 'Cwrs doeth a roi [di], cynhaliodd [*sc.* Goronwy] wledd, / Un o hil ddur ei helm, at Dudur teg [yn y nef].'

dug Os disgrifio ymddygiad Goronwy yn y gorffennol a wna *hail a ddug*, disgwylid yr amser amhff. Gwell, felly, gymryd mai at weithred Crist yn ei gipio y cyfeiria *dug* a bod *hail* yn wrth. *rhôï*.

- 84 **helmddur** Ll. arall y gwêl Francis Jones gyfeiriad at arfau'r teulu ynddi, cf. ll. 24n.
- Tudur** Tad Goronwy, gw. cerddi 2 a 3, neu ynteu ei hendaidd Tudur Hen a fu farw yn 1311, gw. AWH 186–8.
- 85 **drud fu dawl ruthr** Gellir 'ffyrnig fu ymosodiad atal[iol]', sef cyfeiriad at ddewrder Goronwy mewn brwydr, neu *dawl rhuthr* 'ataliad cyrch [trwy angau]'. Eto, o'i gymryd gydag *i'r anoddun* yn y ll. nesaf, ceir ystyr dywyllach, sef rhuthr Goronwy i mewn i'r pwll a'i lladdodd.
- tawl** Trafodir ystyron posibl yn 5.92n.
- Maelgwn** Brenin Gwynedd yn y 6g. a gwrthrych edliwiadau Gildas am dderbyn mawl gan feirdd; gw. TYP² 437–41 a WCD 438–42.
- 86 **Dyfr** Arno, gw. 3.114n. Rhestrir yr enghraifft hon yn betrus yn G 414 d.g. *Dyf(y)r²* ond fel ll. *dwfr* yn *ib.* 401 lle y dyfynnir *dyv(y)r(r) yr anodun*. Gellid, efallai, sôn am 'law dyfroedd yr anoddun', ond o graffu ar enghreifftiau megis 3.29n *neddair Nudd*, y mae'n haws dehongli *neddair Dyfr* yn ddisgrifiad clodforus o Oronwy.
- 87 **Aron** Awgryma'r ffaith fod yr e. wedi ei gyfosod ag Urien Rheged (gw. ll. 88n) mai Arawn, brawd Urien, a olygir yma, gw. TYP² 273; WCD 20–1; BD 152 *et passim* lle y'i portreedir fel brenin yr Alban. Y mae'n ddiddorol nodi bod Gruffudd yn fodlon defnyddio'r ffurf ddiweddar *Aron* yn lle *Arawn* lle y mae angen. Llai tebygol yw cyfeiriad at Arawn brenin Annwn, gw. PKM 2 ac ymlaen. Yn ôl TYP² *l.c.* nid oes cysylltiad rhwng y ddau Arawn.
- 88 **milwrgorff** Cf. GLIG 4.5 *Milwriaidd gorff mal Urien*.
- Urien** Sef Urien Rheged, a grybwyllir yma ochr yn ochr â'i frawd. Sonia Gruffudd ap Maredudd amdano (neu am ei fab Owain) yn 6.55n.
- 89 Neu '[Un a chanddo] lwybr un campus [mewn] brwydr rhyfel'.
- 90 **aerllew** Llsg. *arllew*. Ni nodir *arllew* yn G 41 nac ychwaith yn GPC 207. Gellid, efallai, *Ar llew dewr*, *eurlliw darian*, ond am *aerllew*, gw. 4.63 a 5.68. Hawdd fyddai i'r copïydd faglu ar ôl ysgrifennu *arllwybr* yn y ll. flaenorol.
- 92 **mywn dewredd** Llsg. *mywn dewn dewred*. Nid yw hyn yn ystyrlon ac y mae'r ll. yn rhy hir. Y mae'n hawdd gweld sut y bu i'r copïydd greu'r gair rhithiol *dewn* rhwng *mywn* a *dewredd*.
- dewredd** Gw. G 322–3 a GPC 943, hefyd uchod 3.58n am ystyron *dewredd*. Dichon fod pwysleisio oedran ifanc Goronwy yn briodol o gofio ei fod wedi marw'n annisgwyl, ond gthg. G *l.c.* lle y cynigir 'dewrder' ar gyfer yr enghraifft hon.

Nid oes pennawd uwchben yr awdl fer hon yn Llyfr Coch Hergest nac ychwaith unrhyw enw priod yn y testun i ddangos pwy yw'r gwrthrych. Gall mai dryll o gerdd hwy ydyw; gw. ymhellach y Rhagymadrodd, td. 17.

Ceir ambell awgrym fod y gerdd wedi ei hysbrydoli gan achlysur arbennig. Y mae ll. 22 yn enwedig fel petai'n sôn am ryw ddigwyddiad penodol, a cf. hefyd llinellau 18–20. Y mae'n anodd gwybod pam y defnyddir yr amser gorffennol yn llinellau 5, 6, 8, 13 a 14, ond nid yw'n amhosibl mai am ryw orchest filwrol benodol y sonnir yn y llinellau hyn.

Mesur: rhupunt. Y brifodl yw *-wyd*. Ceir cymeriad llythrennol ar *ll-* a *g(w)-* ac yna gymeriad geiriol ar *fy*.

Golygwyd y gerdd yn Gruffudd ap Maredudd: Gw 117–20.

1 **Llachau** Am yr arwr hwn, mab i Arthur, gw. 2.19n.

dwy orsedd Un o'r ychydig fanylion pendant yn y gerdd, ond ni rydd lawer o gymorth i ddarganfod pwy a folir ynddi. Gair ac iddo nifer o ystyron yw *gorsedd*, gw. G 573 a GPC 1495–6. Yma, gellir hefyd 'gorseddfainc, thrôn, eisteddfa', ond llai tebygol efallai yw 'tomen bridd' neu 'gwyddfa'.

2 **pâr** Y mae'n bosibl mai *bâr* 'llid, digofaint' sydd yma; os felly, '[un megis] mellten [lawn] dicter'.

Arthur Cf. 5.134n.

3 **treiglbad** O'r ystyron a gynigir ar gyfer y f. *treiglo* yn GPC 3580–1, ymddengys mai 'treiddio, lledaenu' sy'n gweddu orau yma.

teg gynheiliad Llsg. *tec kynnheilyat*. Cymerir bod calediad yma yn hytrach na brawddeg enwol 'teg yw[r] cynheiliad'.

cynheiliad deucan haelwyd Cf. GIG 22 (V.22) *Cynheiliaid deucan haelwyd* (Moliant i Feibion Tudur o Fôn). Ymddengys fod y llau. hyn yn adleisio'i gilydd, ond ni wyddys pa un ohonynt a gyfansoddwyd gyntaf.

haelwyd Am yr anadliad caled yn dilyn *can*, gw. Treigladau 137.

4 **cedrwyg** Neu '[ffynhonnell] ysblander rhoddion'. Am ystyron *rhwyg*, gw. 4.19n.

5 **Llŷr** Gw. 2.17n.

llyth Llsg. *lyt*. Derbynnir y diwygiad a gynigir yn GPC 2283 d.g. *llyth* er mwyn yr ystyr a'r gynghanedd.

6 **llurug** GPC 2229–30 'crys mael, pais ddur' ac yn ffigurol 'amddiffynfa, noddfa, cysgod'. Darlunnir y noddwr megis gorchudd amddiffynnol dros ei wŷr.

- 7 **eurgrib** Llsg. *eurgryt*. Y mae angen *b* yn lle'r gytsain olaf er mwyn cynganeddu â *blymnwyd*, ac felly derbynnir y diwygiad a awgrymir yn G 498 d.g. *eur*¹.
- plymnwyd** Pe mynnid cynganedd lawnach, gellid diwygio *plymnwyd* yn *plymlwyd*, sef ffurf amrywiol ar yr un gair (cf. 3.119), ond gan fod y gynghanedd yn rheolaidd fel y saif gwell yw peidio ag ymyrryd â'r testun. Am y gair, gw. GPC 2384 a CA 122–3.
- 8 **Clwyd** Afon yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Cyfeiria *glowydir Clwyd* at y gwastadeddau ffrwythlon sy'n amgylchynu'r afon ac a ffurfiai gantref Dyffryn Clwyd yn yr Oesoedd Canol. Gellir cymryd ar sail yr ymfrost hwn nad oedd cartref y noddwr yn agos i Ddyffryn Clwyd, ac felly mai yng Ngwynedd Uwch Conwy y dylid chwilio amdano.
- 9 **Arawn ... Urien** Gw. 6.55n am Urien; digwydd enwau'r ddau frawd gyda'i gilydd eto yn 7.87n ac 88n.
- 10 **eislath** Gair unigryw, ansicr ei ystyr. Ll. *asen* yw'r elfen gyntaf, gw. G 45 a GPC 219–20 d.g. *asen*². Rhestrir *eislath* yn G 463 gyda'r ystyron posibl '?yn chwilfriwio gwaywffyn; ?yn gwanu'r ais', a dilynir hyn yn GPC 1200. Yn yr aralleiriad, cymerir *llath* yn yr ystyr 'gwaywffon, ysbêr, paladr, picell', gw. GPC 2100. Posibilrwydd arall, llai tebygol, fyddai '[un a'th] gleddyf dur yn llafn yn trywanu asennau', gan estyn rywfaent ar ystyr *llath*.
- 11 **plegyd** Gw. GPC 2822 d.g. *plegid* lle y rhoddir yr ystyron 'plaid, tu ochr; rhan; cefnogaeth; achos, rheswm', ond gan nodi bod rhai enghreifftiau cynnar yn dywyll eu hystyr. Daw'r gair o'r Llad. *placitum* 'barn, penderfyniad', a chan fod hynny'n rhoi gwell synnwyr yma, awgrymir bod yr ystyr yn y ll. hon yn nes i'r Llad. gwreiddiol. Cf. Bl BGCC 304 (ll. 21a) *Yr Eryr, ratlawn blegyt* a aralleirir 'O Eryr, rhadlon dy farn'; gw. *ib.n.*
- 12 **milwr dorch** Llsg. *milbr torch*. Y mae'r gynghanedd yn wallus fel y saif yn y llsg., ac y mae angen naill ai dderbyn y diwygiad hwn neu ynteu ddiwygio *aerDwrch* yn *aer Twrch*. Ceir *torch* yn CA 53 (ll. 1340) ac awgrymir yno ei gymryd yn amrywiad ar *twrch*, er nas nodir felly yn GPC 3525, 3661 d.g. *twrch*. Nid amhosibl, felly, 'baedd o filwr'.
- Twrch Trwyd** Y baedd ffymig a helir gan Arthur a'i wŷr yn 'Culhwch ac Olwen', gw. WCD 616–17 a CO³ lxiii–lxxii. Fel y nodir *ib.* 131, *Trwyd* oedd y ffurf wreiddiol ar yr e., a dyna a geir gan amlaf yn y farddoniaeth, gw. *ib.* lxxv am restr gyfleus o gyfeiriadau ato gan y beirdd. *Trwyth* a geir yn y chwedl, a dyna'r ffurf fwyaf cyfarwydd erbyn heddiw. Diddorol yw nodi'r ll. *A gŵr gwynllwyd, Twrch Trwyd trin* yn GIG 6 (ll.19) (Marwnad Syr Hywel y Fwyall); efallai nad yw'n gyd-ddigwyddiad fod *Twrch Trwyd* a *trin* wedi eu cyplysu yn y ddwy gerdd, o gofio i Ruffudd ap Maredudd yntau farwnadu Hywel. Ceir cyfeiriad

arall at y Twrch Trwyd yn GGMD iii, 2.73n.

13–14 Daw ll. 14 o flaen ll. 13 yn y llsg. Ceir cymeriad llythrennol (ar *ll*-) ar ddechrau llau. 1–12 ac eto yn llau. 15–21 (ar *g(w)*-). Byddai'n annodweddiadol iawn o arferion cymeriad y cyfnod ac o waith Gruffudd ap Maredudd yn benodol petai rhywbeth yn torri ar draws y cymeriad fel y gwna'r ddwy l. hyn yn y llsg., felly penderfynwyd newid eu trefn yma. Ategir y diwygiad ymhellach gan y cyferbyniad rhwng *gwnaethost* a *gwnawn* a geir ar ddechrau llau. 14 a 15.

13 **llithiaist ... forefwyd** Cf. GSRh 4.72n–3 *Aerferion lith ar foreau. / Rhôn ...* Y mae'n dra phosibl fod y beirdd yn adleisio'i gilydd, ond ni ellir pennu pa un a ganodd gyntaf. Cf. hefyd GCBM ii, 6.205 *Keffynt ueryon voreuwyd*.

14 **catgun** 'Llywydd neu arweinydd mewn brwydr' yn ôl G 88–9 d.g. *cat* a GPC 440. Eto, ystyr arall *cun* oedd 'haid o gŵn neu fleiddiaid; llu' yn ôl G 186 a GPC 630 d.g. *cun*², ac ymddengys fod hynny'n rhoi gwell synnwyr yn yr achos hwn. Cf. hefyd J. Loth, '*Notes étymologiques et lexicographiques*', RC xxxviii (1920–1), 166–7 lle y cyfieithir *catgun* yn '*chiens de combat*' (ond noder nad yr enghraifft hon sydd dan sylw).

coetgwn Cf. 3.74n. 'Bleiddiaid' yw'r ystyr yma yn ddi-os. Am y syniad, cf. GSRh 4.63–4n *Cyfarwydd y gwnaeth cyfeiriau—dragon / Coetgwn olwython catgaen lathau* (Rhisierdyn).

16 **ni'th ddremygwyd** Llsg. *nythremygbyt*. Ar sail patrwm llau. 11, 19, 20 a 22 disgwylid rh.m. 2 un.gwrth. yma. Nodir yn GPC 1083 y ffurf *dremygu*, amrywiad ar *tremygu*, heb ddyfynnu unrhyw enghreifftiau na rhoi dyddiad ar ei chyfer. Fe'i derbynir yn betrus yma, gan gymryd bod *ni'th ddremygwyd* yn cynganeddu'n rheolaidd â *thrw m ogan*, yn ôl egwyddorion caledu. Am orgraff y llsg., cf. 5.28n.

17 **gweithliwed** Gwrthodir y dehongliad a gynigir yn GPC 1624 d.g. *gweithlifed*, sef amrywiad ar *gweithlifaid* 'wedi ei hogi i'r frwydr neu mewn brwydr'. Byddai'r defnydd o *w* ar gyfer sain *f* yn anghyson ag orgraff arferol y llsg. hon ac nid oes angen diwygio er mwyn cael ystyr ddigonol.

hael lyw Llsg. *hael y6*. Awgrymir diwygio yn G 564 d.g. *goruot* a dilynir hynny yma er mwyn cael ystyr foddhaol.

18 **yt, teg** Llsg. *yttc*. Y mae y *teg* yn ddehongliad posibl, ond ni rydd gystal synnwyr.

geiriwyd Nid yw rhediad yr ystyr yn hawdd i'w ddilyn yma oni chymerir *mawl* yn y ll. nesaf yn wrth. i'r f. hon. Posibilrwydd arall fyddai estyn rywfaint ar yr ystyron a gynigir ar gyfer *geirio* yn G 525 a GPC 1388 a'i aralleirio yn 'fe'th alwyd'. Gellid, felly, gymryd *gweilging ongyr, teg eryr* neu hyd yn oed *gwaywar trymffysg* yn y ll.

nesaf yn epithet am y noddwr.

19 **urddwyd** Y mae'r f.amhrs. fel petai'n cyfeirio at achlysur arbennig, cf. hefyd *geiriwyd* yn y ll. flaenorol, [g]*oreurwyd* yn y ll. nesaf a *doe y'th farnwyd* yn ll. 22. A dderbyniodd y noddwr ryw fath o gydnabyddiaeth, e.e. ei urddo'n farchog, ac ai hynny a ysgogodd ganu'r awdl hon?

20 **gwersyll porthfrain** Neu 'gwersyll brain porthiannus'.

21 **Cunin** Fe'i rhestrir yn betrus yn G 187 dan yr e.p. *Cunin*, ond gan awgrymu ei gymryd yn a. ac iddo'r ystyr 'uchel, rhagorol' (o *cun*¹ 'arglwydd'). Fel a. y'i deellir yn GPC 630, ond gyda'r ystyr 'brenhinol'. O ystyried yr ystod eang o gyfeiriadau at arwyr yng ngwaith Gruffudd ap Maredudd, cystal yw ei dderbyn yn e.p. yma. Cyfyd problem debyg gyda *Cynwyd* yn yr un ll., gw. isod. Am yr arwr Cunin Cof ap Tudwal Befr, gw. TYP² 313–14; WCD 154; T 48.9 ('Canu y Meirch').

Cynwyd Yma eto gellir e.p. neu a. Ystyr *kynwyt* yw '?milain, ffyrnig' yn ôl G 262, ond nodir bod e.p. yn bosibl yma. Ni restrir *cynwyd* yn GPC 803. Am y cymeriad Cynwyd Cynwydion ap Cynfelyn, gw. TYP² 325; WCD 185; EWGT 73. Yr oedd yn dad i Glydno Eidin a grybwyllir gan Ruffudd yn 3.4n, ac yn daid i Gynon fab Clydno y sonnir amdano yn 4.162n.

23 **coed dur** Petrus iawn yw'r ystyr a roddir ar gyfer *coed*. Gellid, efallai, 'gosgorddlu caled [megis] coed'.

cad daerysgwyd Llsgr. *cat taerysgbyt*, yn dangos calediad. Llai tebygol yw *cad taerysgwyd* 'brwydr un taer ei darian'.

24 **tryfrwyd** Gair ansicr ei ystyr. Rhoddir yn GPC 3640 'celfydd, gwych, addurnedig; ?wedi ei staenio â gwaed; brwydr, gwrthdaro'. Ail elfen y gair yw *brwyd*, cf. ll. 25n ar *aerfrwyd*. Derbynnir yr ystyr 'celfydd, gwych' yn GCBM ii, 6.186n a 202, ond 'brwydr' yn GCBM i, 26.87n.

25 **oeswr** 'Person byw, un sy'n byw; cyfoeswr; person oedrannus, henwr, hynafgwr' yn ôl GPC 2628, ond nid yw'r ystyron hyn yn gweddu i'r cyd-destun hwn. Gwell yw cyplysu'r gair â rhai eraill ac iddynt *oes-* yn elfen gyntaf, megis *oesgadr* (4.70) ac *oesged* (4.109). Grym 'bythol, di-baid' sydd i *oes* yn y rhain.

aerfrwyd '?Brwydr-lafn' yn ôl G 12 d.g. *aer*¹, a cf. GPC 38 'arf': os felly, '[a chenny] arf mewn brwydr'. Yr ail elfen yn y gair sy'n ansicr ei ystyr, fel y mae hefyd yn *tryfrwyd* yn y ll. flaenorol. Ceir *brwyd*¹ 'colyn, blaen, pig' a 'bêr, gwäell, broes, erfyn miniog' yn ôl G 79 a GPC 335, a dyna sydd wrth wraidd y dehongliad o *aerfrwyd* a roddir ynddynt. Eto, y mae posibilrwydd arall, sef *brwyd*² 'amryliw, o wahanol liwiau, brith, addurnedig, gwych; ystaeniedig â gwaed; toredig, drylliog, bregus, brau', gw. GPC *l.c.*, a cf. hefyd G *l.c.* d.g. *brwyd*². Cynigir 'rhagorol' yn betrus yn yr aralleiriad.

- 26 **camon egwyd** Llsgr. *kam abnegbyt*. Diwygir y camraniad gan ddilyn awgrym G 694 d.g. *gwnegwyt*.
- 27 **llwyd** Ansicr yw'r aralleiriad. A gyfeirir at oedran y noddwr? Fe'i gelwir yn *gwas* yn ll. 16, ond nid oes rhaid cymryd hynny'n llythrennol.

Llawysgrifau

Nodir isod y llawysgrifau y mae'r cerddi a olygir yn y gyfrol hon yn ymddangos ynddynt. Bydd rhestr gyflawn o'r llawysgrifau yr ymddengys gwaith Gruffudd ap Maredudd ynddynt yn y drydedd gyfrol (GGMD iii). Diolchir i Mr Daniel Huws am unrhyw ddyddiadau neu wybodaeth nas crybwyllir yn y ffynonellau printiedig a nodir.

Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig

BL Add 14868: Richard Morris, 1752, gw. CAMBM 1844, 17.

BL Add 14970: Edward Williams 'Iolo Morganwg', 1800–1, gw. *ib.* 48–9.

BL Add 15001: John Walters, cyn 1792, gw. *ib.* 61–2.

BL Add 15023: Owen Jones, 1768–9, gw. *ib.* 67–8.

Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd

Card 4.140: Edward Davies, 1792, gw. Graham C.G. Thomas and D. Huws, *Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the "Cardiff MSS"* (Aberystwyth, 1994), 332.

Llawysgrifau yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen

J 111, 'Llyfr Coch Hergest' [= RWM 1]: Hywel Fychan (1203–12, 1219, 1315–18, 1322–6), llaw Peniarth 32 (1230–1, 1334), *c.* 1400, gw. RWM ii, 1–29; G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', *Cylchg LIGC* xxi (1979–80), 246–56; D. Huws, 'Llyfr Coch Hergest', *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol*, gol. Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston, Jenny Rowland (i ymddangos), 1–30.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

LIGC 1984B [= Pant 15]: Evan Evans 'Ieuan Fardd', 1757, gw. RWM ii, 823–4.

LIGC 4973B: John Davies, Mallwyd, *c.* 1631, gw. HMNLW ii, 59.

Llawysgrif yng nghasgliad Llansteffan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Llst 147: un o gynorthwywyr Edward Lhuyd, 1697, gw. RWM ii, 726; GP xv.

Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Pen 118: Siôn Dafydd Rhys a'i gynorthwywyr, c. 1600, gw. RWM i, 718–25.

Mynegai i'r llinellau cyntaf

	<i>Td.</i>
Cyfarchaf i'm Naf, nefol rinwedd.....	44
Gwelais lewddoeth hael, gwiwlwys wleddau	21
Llachau Gwynedd, llyw dwy orsedd, llew diarswyd	79
Llew glew gleiflym grym, gryd fflemychu.....	26
Neud trist y'm gwnaeth Crist Croes dangnefedd	67
Ni chlyw na chalon na chlust.....	72
O'th hiraint, eurfraint aerfrad—arynaig.....	55
Troses ym grym Grist, o'i daith faith faengist	30

Mynegai i'r noddwyr a'r gwrthrychau

Cerdd

Goronwy Fychan ap Tudur	4, 5, 6, 7,
Hywel ap Goronwy, archddiacon Môn	1
noddwr anhysbys	8
Tudur Fychan ap Goronwy	2, 3,